

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

14/10/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adfywio Canol Trefi](#)
[Statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty: Town Centre Regeneration](#)

[Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref \(Pennu'r Weithdrefn\) \(Cymru\) 2014](#)
[The Town and Country Planning \(Determination of Procedure\) \(Wales\) Order 2014](#)

[Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Uwch \(Cymru\)](#)
[Debate on the General Principles of the Higher Education \(Wales\) Bill](#)

[Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Uwch \(Cymru\)](#)
[Motion to agree the financial resolution in respect of the Higher Education \(Wales\) Bill](#)

[Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)
[Debate: The Equality and Human Rights Commission Wales Annual Report 2013-14](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodionCynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Datganoli

Devolution

13:30 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU ynghylch datganoli pellach i Gymru? OAQ(4)1901(FM)

1. What discussions has the First Minister had with the Prime Minister about further devolution to Wales? OAQ(4)1901(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I wrote to the Prime Minister on 6 October emphasising the importance of establishing a bilateral process to take forward devolution in Wales. I have not yet received a reply.

Ysgrifennais at Brif Weinidog y DU ar 6 Hydref yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlu proses ddwyochrog o fwrw ymlaen â datganoli yng Nghymru. Nid wyf wedi cael ateb hyd yn hyn.

13:30	Julie Morgan Bywgraffiad Biography I thank the First Minister for that response and I welcome the announcement of the four parties meeting together in Westminster to try to find a common solution. However, has he been able to persuade the Prime Minister that unless he gives Wales the same level of funding as Scotland or Northern Ireland, any proposal to devolve income tax to Wales will lock Wales into permanent underfunding?	Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna ac rwy'n croesawu'r cyhoeddiad y bydd y pedair plaid yn cyfarfod â'i gilydd yn San Steffan i geisio dod o hyd i ateb cyffredin. Fodd bynnag, a yw wedi llwyddo i berswadio Prif Weinidog y DU y bydd unrhyw gynig i ddatganoli treth incwm i Gymru yn rhwymo Cymru i danariannu parhaol oni bai ei fod yn rhoi'r un lefel o gyllid i Gymru ag i'r Alban neu Ogledd Iwerddon?	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> It is absolutely correct to say that the current proposals for devolving income tax would lock in that underfunding and there are discussions that will continue to be ongoing between ourselves and the UK Government and the other administrations in order for that position to be rectified.	Mae'n gwbl gywir i ddweud y byddai'r cynigion presennol ar gyfer datganoli treth incwm yn gwneud y tanariannu hwnnw'n barhaol a cheir trafodaethau a fydd yn parhau rhyngom ni a Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau eraill er mwyn unioni'r sefyllfa honno.	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Paul Davies Bywgraffiad Biography Brif Weinidog, rydych wedi ei gwneud yn glir, pa bynnag bwerau sy'n cael eu cynnig i'r Alban, eich bod yn credu y dylai Cymru gael cynnig yr un peth. Mae'n bosib y gallai pwerau o ran lles gael eu cynnig i'r Alban. A fydddech felly yn barod i dderbyn y cyfrifoldebau yma yng Nghymru?	First Minister, you have made it clear that, whichever powers are offered to Scotland, you believe that Wales should be offered the same. It is possible that powers over welfare could be offered to Scotland. Would you therefore be willing to accept these responsibilities in Wales?	Senedd.tv Fideo Video
13:32	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Mae'n dibynnu ar yr arian a fyddai ar gael. Fel gyda phopeth ynglŷn â hwn, mae'n bwysig dros ben ein bod yn ystyried faint o arian sydd ar gael. Mewn egwyddor, nid wyf yn gweld bod unrhyw fantais i ddatganoli'r system les. Rwy'n credu ei bod yn trosglwyddo arian dros Brydain Fawr yn gyfan gwbl, ac nid yw hwn yn rhywbeth sy'n flaenoriaeth i ni fel Llywodraeth.	It would depend on the funding available because as with all things in this area, it is exceptionally important that we consider how much funding would be available. As a point of principle, I do not see any benefit to the devolution of the welfare system. I think that it distributes money across the whole of Britain and this is not something that is a priority for us as a Government.	Senedd.tv Fideo Video
13:32	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Brif Weinidog, mae nifer o bobl yn gofidio i ba raddau efallai y bydd y trafodaethau ynglŷn â Chymru yn rhyw fath o ôl-nodyn i drafodaeth ynglŷn â'r Alban. A allwch ddweud wrthym i ba raddau, hyd yma, rydych yn credu bod y Prif Weinidog wedi bod yn driw i'w air y bydd Cymru yn nghalon y trafodaethau hynny?	First Minister, many people are of course concerned to what extend the debate on Wales will be some sort of footnote to the discussion on Scotland. Can you tell us to what extent to date you think that the Prime Minister has been true to his word that Wales will be at the heart of those debates?	Senedd.tv Fideo Video
13:32	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Nid wyf yn siŵr a yw'r Aelod yn siarad amdanaf i fel Prif Weinidog, neu'r Prif Weinidog, David Cameron—	I am not sure whether the Member means me or the Prime Minister, David Cameron—	Senedd.tv Fideo Video
13:32	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Prif Weinidog Lloegr—y Deyrnas Unedig.	The Prime Minister of England—the United Kingdom.	Senedd.tv Fideo Video
13:32	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Rwy'n credu mai David Cameron mae'n ei feddwl. Wel, mae e wedi dweud bod Cymru yn mynd i fod yn rhan ganolog o'r trafodaethau. Nid oes tystiolaeth o hynny lan i nawr. Rwyf wedi ysgrifennu ato ac wedi ei atgoffa o'i eiriau, ac nid oes rheswm gyda fi i feddwl ar hyn o bryd nad yw'n mynd i gadw ei addewid.	I think that he means David Cameron. Yes, he has said that Wales will be a central part of the discussions, but there is no evidence of that to date. I have written to him and reminded him of his words, but at the moment I would not imagine that he is not going to keep his promise.	Senedd.tv Fideo Video

- 13:33 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, David Cameron recently said that there would be no funding change to the way Wales is currently funded. This seems to be an argument more to do with the politics between the Conservative Party and UKIP. Do you share the concerns that some of us have that the Prime Minister does not fully understand the consequences of the Scottish referendum and the need for fundamental constitutional change?
- Dywedodd Prif Weinidog y DU, David Cameron yn ddiweddar na fyddai unrhyw newid i'r ffordd y caiff Cymru ei hariannu ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos bod hon yn ddadl sy'n ymwneud mwy â'r wleidyddiaeth rhwng y Blaid Geidwadol ac UKIP. A ydych chi'n rhannu'r pryderon sydd gan rai ohonom nad yw Prif Weinidog y DU yn deall canlyniadau refferendwm yr Alban yn llawn a'r angen am newid cyfansoddiadol sylfaenol?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- He may understand that the situation has changed. By his words, he seems to give the impression that he understands it. What is important is what happens now. What is absolutely clear is that things cannot stay as they are. The old ways of doing things and the old structure of the union are dead. We need to build the new union now: a fair union, of course; one that balances autonomy with solidarity, and that is very much where we need to be in Wales. So, yes, the Prime Minister has said the right things, but let us see if he does the right thing.
- Efallai ei fod yn deall bod y sefyllfa wedi newid. Mae'n ymddangos o ystyried ei eiriau, ei fod yn rhoi'r argraff ei fod yn deall hynny. Yr hyn sy'n bwysig yw beth sy'n digwydd nawr. Yr hyn sy'n gwbl eglur yw na all pethau aros fel y maen nhw. Mae'r hen ffyrdd o wneud pethau a hen strwythur yr undeb ar ben. Mae angen i ni adeiladu'r undeb newydd nawr: undeb deg, wrth gwrs; un sy'n cydbwysu ymreolaeth ag undod, a dyna'n sicr y sefyllfa y mae angen i ni fod ynddi yng Nghymru. Felly, ydy, mae Prif Weinidog y DU wedi dweud y pethau iawn, ond gadewch i ni weld a fydd e'n gwneud y peth iawn.
- 13:34 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Another significant part of the debate around the Scottish referendum, First Minister, was the need to rebalance the economy in the UK and the central importance of that if we are to have a fairer UK that all parts of the UK can buy into and feel a valued part of. Has that been part of the debate since the Scottish referendum between you and the other UK political leaders and, if not, will you make sure that it is a part of the debate as we move forward?
- Rhan bwysig arall o'r ddadl o ran refferendwm yr Alban, Brif Weinidog, oedd yr angen i ail-gydbwysu'r economi yn y DU a phwysigrwydd canolog hynny os ydym ni am gael Teyrnas Unedig decach y gall pob rhan o'r DU gael ei chynnwys ynddi a theimlo ei bod yn rhan ohoni a werthfawrogi. A yw hynny wedi bod yn rhan o'r drafodaeth ers refferendwm yr Alban rhyngoch chi ac arweinwyr gwleidyddol eraill y DU ac, os nac ydy, a wnewch chi wneud yn siŵr ei fod yn rhan o'r ddadl wrth i ni symud ymlaen?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The issue is that this should be something that should be looked at as part of the convention process. There is no doubt that there is a huge emphasis on London and on the financial services that London provides. There will not be any doubt, as indeed was the case years ago where steps were taken to ensure that there was more balance in terms of public spending across the UK, in terms of the UK Government moving departments around the UK. I think that that is an important part of any discussions that we would have in the future regarding the constitutional structure of the UK itself.
- Y broblem yw y dylai hyn fod yn rhywbeth y dylid ei ystyried yn rhan o broses y confensiwn. Nid oes amheuaeth bod pwyslais mawr ar Lundain ac ar y gwasanaethau ariannol y mae Llundain yn eu darparu. Ni fydd unrhyw amheuaeth, fel oedd yn wir flynyddoedd yn ôl pan gymerwyd camau i sicrhau bod mwy o gydbwysedd o ran gwariant cyhoeddus ar draws y DU, o ran Llywodraeth y DU yn symud adrannau o gwmpas y DU. Rwy'n credu bod hynny'n rhan bwysig o unrhyw drafodaethau y byddem yn eu cael yn y dyfodol am strwythur cyfansoddiadol y DU ei hun.

Canlyniadau Iechyd (Canol De Cymru)

Health Outcomes (South Wales Central)

- 13:35 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella canlyniadau iechyd yng Nghanol De Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)1900(FM)
2. Will the First Minister outline his priorities for improving health outcomes in South Wales Central over the next 12 months? OAQ(4)1900(FM)

- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. Our programme for government and 'Together for Health' set out our priorities for improving health outcomes across Wales.
Gwnaf. Mae ein rhaglen lywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd' yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gwella canlyniadau iechyd ledled Cymru.
- 13:35 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, First Minister, for that answer. Many of the waiting times in South Wales Central are disappointingly poor, to say the least. Regarding diagnostic waits, for example, at the Heath hospital, there are over 1,084 patients waiting in excess of 24 weeks, and in the Royal Glamorgan, Llantrisant, nearly 400 patients are waiting for over 24 weeks for diagnostic tests. Can you give any comfort to any of those patients—and, indeed, the clinicians who are working in a very challenging environment—as to how your Government is seeking to tackle those unacceptably high waiting times in those two major hospitals in my electoral region?
Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Mae llawer o'r amseroedd aros yng Nghanol De Cymru yn siomedig o wael, a dweud y lleiaf. O ran amseroedd aros diagnostig, er enghraifft, yn ysbyty'r Waun, ceir dros 1,084 o gleifion sy'n aros mwy na 24 wythnos, ac yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, mae bron i 400 o gleifion yn aros dros 24 wythnos am brofion diagnostig. A allwch chi roi unrhyw gysur i rai o'r cleifion hynny—ac, yn wir, y clinigwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd heriol iawn—o ran sut mae eich Llywodraeth yn ceisio mynd i'r afael â'r amseroedd aros annerbyniol o hir hynny yn y ddau ysbyty mawr hynny yn fy rhanbarth etholiadol i?
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, there are two things: first of all, we have announced an extra £425 million for the NHS, and, of course, £6.5 million particularly for diagnostic services. I am sure that that will be of great interest to clinicians and patients alike, as we seek—as Governments do across the whole of the UK—to meet ever-rising demand in the health service.
Wel, ceir dau beth: yn gyntaf oll, rydym ni wedi cyhoeddi £425 miliwn ychwanegol ar gyfer y GIG, ac, wrth gwrs, £6.5 miliwn ar gyfer gwasanaethau diagnostig yn benodol. Rwy'n siŵr y bydd hynny o ddiddordeb mawr i glinigwyr a chleifion, wrth i ni geisio—fel y mae Llywodraethau yn ei wneud ar draws y DU gyfan—bodloni galw sy'n cynyddu'n barhaus yn y gwasanaeth iechyd.
- 13:36 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, we know that there is a need to improve mental health awareness among professionals in some parts of the health service. Will you therefore join with me in welcoming the work of Interlink Rhondda Cynon Taf, and its partners, in developing training materials, aimed at improving awareness of these issues among primary care staff in Cwm Taf, to improve the health outcomes of their patients? Will the Welsh Government also look at the lessons that can be drawn from this, and rolled out across other health authorities?
Brif Weinidog, gwyddom fod angen gwella ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymhlith gweithwyr proffesiynol mewn rhai rhannau o'r gwasanaeth iechyd. A wnech chi ymuno â mi, felly, i groesawu gwaith Interlink Rhondda Cynon Taf, a'i bartneriaid, i ddatblygu deunyddiau hyfforddi, sydd â'r nod o wella ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymhlith aelodau staff gofal sylfaenol yng Nghwm Taf, er mwyn gwella canlyniadau iechyd eu cleifion? A wnaiff Llywodraeth Cymru hefyd ystyried y gwersi y gellir eu dysgu o hyn, a'u cyflwyno ar draws awdurdodau iechyd eraill?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes, it is a very good project. It has captured the experiences of individuals with mental health problems, of course, and the use that they have made of primary care mental health services in their part of Wales. It is, of course, a commendable project. It is also a great example of the co-productive approach that we have supported in mental health service delivery. I am sure that the Minister for Health and Social Services will give further consideration to the project itself, and I am sure that he will write to you with his observations on the project in due course.
Gwnaiff, mae'n brosiect da iawn. Mae wedi nodi profiadau unigolion â phroblemau iechyd meddwl, wrth gwrs, a'r defnydd y maen nhw wedi ei wneud o wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol yn eu rhan nhw o Gymru. Mae'n brosiect clodwiw, wrth gwrs. Mae hefyd yn enghraifft wych o'r dull cyd-gynhyrchiol yr ydym ni wedi ei gefnogi o ran y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi ystyriaeth bellach i'r prosiect ei hun, ac rwy'n siŵr y bydd yn ysgrifennu atoch gyda'i sylwadau ar y prosiect maes o law.

13:37

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

First Minister, the Valleys has some of the worst response times for ambulances to category A calls in the country, and, at the same time, we are losing consultant services from our local general hospital—the Royal Glamorgan. How can you justify the removal of services from our district general hospitals while the ambulance service under this Government's management continues to fail to reach its targets? Furthermore, how can people in my area, in the Valleys, be reassured that, under these conditions, they—and those close to them—will be safe?

Brif Weinidog, ceir rhai o'r amseroedd ymateb gwaethaf gan ambiwlansys i alwadau categori A yn y wlad yn y Cymoedd, ac, ar yr un pryd, rydym ni'n colli gwasanaethau ymgynghorol o'n hysbyty cyffredinol lleol—Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Sut allwch chi gyfiawnhau cael gwared ar wasanaethau o'n hysbytai cyffredinol dosbarth tra bod y gwasanaeth ambiwlans, dan reolaeth y Llywodraeth hon, yn parhau i fethu â chyrraedd ei dargedau? Ar ben hynny, sut all pobl yn fy ardal i, yn y Cymoedd, fod yn dawel eu meddyliau, dan yr amodau hyn, y byddan nhw—a'r rhai sy'n agos atynt—yn ddiogel?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

By ensuring that the health services are safe. People want to make sure when they arrive in hospital that they are treated by people with a suitable level of experience. That is what we are trying to do. In terms of the ambulance service, we are of course recruiting extra people into the ambulance service: 206 paramedics is the plan by the spring of next year. Many of those will, of course, be working within the Valleys, from west to east.

Trwy sicrhau bod y gwasanaethau iechyd yn ddiogel. Mae pobl eisiau gwneud yn siŵr pan fyddant yn cyrraedd yr ysbyty eu bod yn cael eu trin gan bobl sydd â lefel priodol o brofiad. Dyna'r hyn yr ydym ni'n ceisio ei wneud. O ran y gwasanaeth ambiwlans, rydym ni, wrth gwrs, yn recriwtio pobl ychwanegol i'r gwasanaeth ambiwlans: 206 o barafeddygon yw'r bwriad erbyn gwanwyn y flwyddyn nesaf. Bydd llawer o'r rheini, wrth gwrs, yn gweithio yn y Cymoedd, o'r gorllewin i'r dwyrain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Services at the accident and emergency unit at the University Hospital of Wales, I think it is fair to say, were in a desperate condition this weekend, with the local health board tweeting patients not to attend, and a constituent of mine reporting that he waited three hours and 20 minutes with a bleeding head wound, just to see a triage nurse, let alone to get any treatment or to see a doctor. A four-hour wait is, sadly, not uncommon at that particular accident and emergency, so, please can you undertake to look into this as a matter of urgency? How can you assure patients that, following reorganisation, where critical care and accident and emergency services are going to be curtailed, that situation in Cardiff is not going to get worse?

Roedd gwasanaethau yn yr uned damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru, rwy'n credu ei bod yn deg dweud, mewn cyflwr enbyd y penwythnos hwn, wrth i'r bwrdd iechyd lleol drydar cleifion i beidio â dod yno, a dywedodd un o'm hetholwyr y bu'n aros tair awr ac 20 munud gydag anaf pen a oedd yn gwaedu, dim ond i weld nyrs brysbennu, heb sôn am gael unrhyw driniaeth neu weld meddyg. Yn anffodus, nid yw aros pedair awr yn anghyffredin yn yr adran damweiniau ac achosion brys benodol honno, felly, os gwelwch yn dda, a allwch chi addo i ymchwilio i hyn fel mater o frys? Sut allwch chi sicrhau cleifion, yn dilyn ad-drefnu, lle mae gofal critigol a gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn mynd i gael eu cwtogi, nad yw'r sefyllfa yng Nghaerdydd yn mynd i waethygu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, first of all, I encourage the Member—with her constituent's permission—to provide some details, if that is possible, so that that can be investigated fully. A&E of course is a service that can be very difficult to predict. I will give you an example of my own hospital, the Princess of Wales Hospital in Bridgend, where I have seen ambulances queuing there at times, yet, a week last Saturday, at 8.30 p.m., there was nobody in the A&E department at all. That gives an indication of how difficult it can be to plan for what is, in effect, an unscheduled service. Nevertheless, if those details can be provided to the Minister, I am sure that he will look at them in full detail.

Wel, yn gyntaf oll, rwy'n annog yr Aelod—gyda chaniatâd ei hetholwr—i ddarparu rhywfaint o fanylion, os yw hynny'n bosibl, fel y gellir ymchwilio i hynny'n llawn. Mae damweiniau ac achosion brys, wrth gwrs, yn wasanaeth a all fod yn anodd iawn ei ragweld. Rhoddaf enghraifft i chi o fy ysbyty fy hun, Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle'r wyf wedi gweld ambiwlansys yn cewio yno ar adegau, ac eto, wythnos i ddydd Sadwrn diwethaf, am 8.30 p.m., nid oedd neb o gwbl yn yr adran damweiniau ac achosion brys. Mae hynny'n rhoi syniad o ba mor anodd y gall cynllunio fod ar gyfer yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn wasanaeth heb ei drefnu. Serch hynny, pe gellid darparu'r manylion hynny i'r Gweinidog, rwy'n siŵr y bydd yn eu hystyried yn fanwl iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography	<p>A huge strategic error, their worst mistake in Government, an unintelligible gobbledygook: does the First Minister agree with the Tory front bench's assessment of their own flagship NHS reforms?</p>	<p>Gwall strategol anferth, eu camgymeriad gwaethaf mewn Llywodraeth, lol annealladwy: a yw'r Prif Weinidog yn cytuno ag asesiad mainc flaen y Toriaid o'u diwygiadau blaenllaw eu hunain i'r GIG?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>	<p>Who am I to disagree with those who criticise themselves? I think that, sometimes, it is perfectly legitimate to— [Interruption.] The leader of the opposition likes to bellyache at the top of his voice at this point, because he does not like what he has heard, but there we are. The reality of the situation is that the Conservatives like to take the moral high ground in this regard, as do the Lib Dems, in fact. However, we see what is happening in England and the Member is entirely right to point out that the Tories themselves have pointed out the folly of having a reorganisation that has cost £5 billion in waste. If we want to look at what is happening in England, that is not a good example for us to follow.</p>	<p>Pwy ydw i i anghytuno â'r rhai sy'n beirniadu eu hunain? Rwy'n credu weithiau ei bod yn gwbl dderbyniol—[Torri ar draws.] Mae arweinydd yr wrthblaid yn hoffi achwyn ar dop ei lais yn y fan hon, gan nad yw'n hoffi'r hyn y mae wedi ei glywed, ond dyna ni. Y gwir amdani yw bod y Ceidwadwyr yn hoffi cymryd y tir uchel moesol yn hyn o beth, fel y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol, a dweud y gwir. Fodd bynnag, rydym ni'n gweld yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr ac mae'r Aelod yn gwbl gywir i nodi bod y Toriaid eu hunain wedi tynnu sylw at y ffolineb o gael ad-drefnu sydd wedi costio £5 biliwn mewn gwastraff. Os ydym ni eisiau edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, nid yw honno'n esiampl dda i ni ei dilyn.</p>	Senedd.tv Fideo Video
Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau		Questions Without Notice from Party Spokespeople		
13:40	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>First this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	<p>Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Leanne Wood Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i>	<p>My question is about matters relating to Wales. First Minister, we all know what the tragic consequences can be of failures in children's services. Awful events in Rochdale, for example, are a harrowing example. [Interruption.]</p>	<p>Mae fy nghwestiwn am faterion sy'n ymwneud â Chymru. Brif Weinidog, rydym ni i gyd yn gwybod beth all canlyniadau trasig methiannau mewn gwasanaethau plant fod. Mae'r digwyddiadau ofnadwy yn Rochdale, er enghraifft, yn enghraifft erchyll. [Torri ar draws.]</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Excuse me. We do not need an explanation. Would you carry on with your question, please, about Wales?</p>	<p>Esgusodwch fi. Nid oes angen esboniad arnom. A wnewch chi barhau â'ch cwestiwn am Gymru, os gwelwch yn dda?</p>	Senedd.tv Fideo Video
13:41	Leanne Wood Bywgraffiad Biography	<p>Thank you, Presiding Officer. Can you be confident, First Minister, that such unacceptable failures will not occur in Wales in the coming years, especially in the context of significant cuts to children's services?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. A allwch chi fod yn ffyddiog, Brif Weinidog, na fydd methiannau annerbyniol o'r fath yn digwydd yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig yng nghyd-destun toriadau sylweddol i wasanaethau plant?</p>	Senedd.tv Fideo Video

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, I express some relief that the leader of Plaid Cymru is not asking me about my party in Westminster, which she often does when she asks questions. She asked the question about children's services. She refers, I suspect, to the Children's Commissioner for Wales's report. What I can say to you is that of course supporting children and young people and protecting their rights and wellbeing are at the very heart of what we wish to do as a Government. It is why our recent draft budget protected funding for children's social services and our Flying Start programme, while funding to support vulnerable children was also maintained. Our commitment to invest in the future of our young people was also reflected in the budget agreement with the Liberal Democrats, which saw an increase in the pupil deprivation grant and an extension of the scheme to children under five years old.

Yn gyntaf oll, mae'n dipyn o ryddhad nad yw arweinydd Plaid Cymru yn gofyn i mi am fy mhlaidd yn San Steffan, fel y mae hi'n aml yn ei wneud pan fydd yn gofyn cwestiynau. Gofynnodd y cwestiwn am wasanaethau plant. Mae hi'n cyfeirio, rwy'n amau, at adroddiad Comisiynydd Plant Cymru. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrthyhch yw bod cefnogi plant a phobl ifanc a diogelu eu hawliau a'u lles, wrth gwrs, wrth wraidd yr hyn yr ydym ni'n dymuno ei wneud fel Llywodraeth. Dyna pam yr oedd ein cyllideb ddrafft ddiweddar yn diogelu gwasanaethau cymdeithasol i blant a'n rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnal cyllid i gefnogi plant sy'n agored i niwed hefyd. Adlewyrchwyd ein hymrwymiad i fuddsoddi yn nyfodol ein pobl ifanc hefyd yn y cytundeb cyllideb gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, a welodd gynnydd i'r grant amddifadedd disgyblion ac ymestyn y cynllun i blant dan bum mlwydd oed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to you, First Minister, for looking at the children's commissioner report, published yesterday. He highlighted very serious concerns in that report, and he specifically highlighted the potential impact of cuts to children's services. Do you agree with the children's commissioner that there is a threat to children's services?

Rwy'n ddiolchgar i chi, Brif Weinidog, am edrych ar adroddiad y comisiynydd plant, a gyhoeddwyd ddoe. Tynnodd ef sylw at bryderon difrifol iawn yn yr adroddiad hwnnw, ac amlygodd yn benodol effaith bosibl y toriadau ar wasanaethau i blant. A ydych chi'n cytuno â'r comisiynydd plant y ceir bygythiad i wasanaethau plant?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

No, I do not. It is for each for local authority to make sure that children's services are properly funded in each area in Wales. Nevertheless, coming back to our draft budget, there are significant protections there for children's services, and extensions in terms of helping children with regard to, for example, the pupil deprivation grant.

Nac ydw, nid wyf yn cytuno. Mater i bob awdurdod lleol yw gwneud yn siŵr bod gwasanaethau plant yn cael eu hariannu'n iawn ym mhob ardal yng Nghymru. Serch hynny, i ddychwelyd at ein cyllideb ddrafft, ceir mesurau diogelu sylweddol ynddi ar gyfer gwasanaethau plant, ac estyniadau o ran helpu plant yng nghyswllt, er enghraifft, y grant amddifadedd disgyblion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, protecting budgets does not equate to protecting services and it does not equate to protecting children. That has been evidenced by the children's commissioner, among others. You appear to lay responsibility for the implementation of your cuts at the door of local authorities. Do you as First Minister take your responsibility for child protection seriously, or have you washed your hands of that responsibility?

Brif Weinidog, nid yw diogelu cyllidebau yn cyfateb i amddiffyn gwasanaethau ac nid yw'n cyfateb i amddiffyn plant. Dangoswyd hynny gan y comisiynydd plant, ymhlith eraill. Mae'n ymddangos eich bod yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol am weithredu eich toriadau. A ydych chi fel Prif Weinidog yn cymryd eich cyfrifoldeb am amddiffyn plant o ddiffrif, neu a ydych chi wedi golchi eich dwylo o'r cyfrifoldeb hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Not in the slightest, nor is there any evidence at all that that is the case, and I do regret that that particular question. As I said to the leader of—[Interruption.] Now she is doing the same thing as the leader of the Conservatives. What I say to the leader of Plaid Cymru is this: these are difficult financial times that we live in. We have taken a principled decision to protect funding for children's social services, for the Flying Start programme and to support vulnerable children. We believe that that is the right thing to do, and we expect local authorities that deliver these services on the ground to deliver the level of service that people would expect. It is right to say that we would not want to see in Wales what has happened in some parts of England.

Dim o gwbl, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl bod hynny'n wir, ac rwy'n gresynu'r cwestiwn penodol yna. Fel y dywedais wrth arweinydd—[Torri ar draws.] Nawr mae hi'n gwneud yr un peth ag arweinydd y Ceidwadwyr. Dyma'r hyn yr wyf yn ei ddweud wrth arweinydd Plaid Cymru: mae hwn yn gyfnod ariannol anodd yr ydym ni'n byw ynddo. Rydym ni wedi gwneud penderfyniad egwyddorol i ddiogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant, ar gyfer rhaglen Dechrau'n Deg ac i gefnogi plant sy'n agored i niwed. Rydym ni'n credu mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ac rydym ni'n disgwyl i awdurdodau lleol sy'n darparu'r gwasanaethau hynny ar lawr gwlad i ddarparu'r lefel o wasanaeth y byddai pobl yn ei ddisgwyl. Mae'n iawn i ddweud na fyddem eisiau gweld yng Nghymru yr hyn sydd wedi digwydd mewn rhai rhannau o Loegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now it is Andrew R.T. Davies's turn standing up, and not sitting down.

Tro Andrew R.T. Davies yw hi nawr wrth sefyll ar ei draed, ac nid eistedd i lawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Over the weekend, First Minister, there was a full-blown exercise as to how the health services would operate in an Ebola situation if it arrived in these islands. Thankfully, we have not had any cases, but nothing can be taken for granted. What has the Welsh Government deduced from its participation in that exercise, and what has the health service in general deduced from it?

Dros y penwythnos, Brif Weinidog, cynhaliwyd ymarfer llawn o ran sut y byddai'r gwasanaethau iechyd yn gweithredu pe byddai achos o Ebola yn cyrraedd yr ynysoedd hyn. Nid ydym ni wedi cael unrhyw achosion, diolch byth, ond ni ellir cymryd unrhyw beth yn ganiataol. Beth mae Llywodraeth Cymru wedi ei gasglu o gymryd rhan yn yr ymarfer hwnnw, a beth y mae'r gwasanaeth iechyd yn gyffredinol wedi ei gasglu ohono?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, it makes perfect sense to co-operate with the appropriate bodies in England and Scotland in this regard, as GB is an infection control area; let me make that absolutely clear. In terms of Ebola, the risk of an outbreak of Ebola in Wales remains very low. So far, there has been one imported case of Ebola in the UK as a whole, although not in Wales. Together with Public Health Wales, we have been preparing for potential cases for several months.

Training for NHS Wales staff is already under way. NHS Direct Wales has had an algorithm in place for assessing potential cases since September. Each local health board has initial treatment facilities and the necessary protection equipment to deal with anyone who is suspected to be suffering from Ebola. There are posters on display in ports and airports in Wales as well, and, of course, we are working closely, as people would expect, with the UK Government in order to deal with Ebola as an issue that we may face in the future. On that basis, then, I am confident that we are doing as much as we can at this stage, and, indeed, all administrations within Great Britain are doing that in order to meet this threat.

Yn gyntaf oll, mae'n gwneud synnwyr perffaith i gydweithio â'r cyrff priodol yn Lloegr a'r Alban yn hyn o beth, gan fod Prydain Fawr yn ardal rheoli heintiau; gadewch i mi wneud hynny'n gwbl eglur. O ran Ebola, mae'r risg o achos o Ebola yng Nghymru yn dal i fod yn isel iawn. Hyd yn hyn, cafwyd un achos o Ebola a fewnforiwyd yn y DU gyfan, er nad yng Nghymru. Ynghyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym ni wedi bod yn paratoi ar gyfer achosion posibl ers sawl mis.

Mae hyfforddiant ar gyfer aelodau staff GIG Cymru eisoes ar y gweill. Bu algorithm ar gyfer asesu achosion posibl ar waith gan Galw Iechyd Cymru ers mis Medi. Mae gan bob bwrdd iechyd lleol gyfleusterau triniaeth gychwynnol a'r offer diogelwch angenrheidiol i ymdrin ag unrhyw un yr amheuir ei fod yn dioddef o Ebola. Mae posteri wedi eu harddangos mewn porthladdoedd a meysydd awyr yng Nghymru hefyd, ac wrth gwrs, rydym ni'n gweithio'n agos, fel y byddai pobl yn disgwyl, gyda Llywodraeth y DU er mwyn ymdrin ag Ebola fel mater y gallem ni ei wynebu yn y dyfodol. Ar sail hynny, felly, rwy'n hyderus ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn ar hyn o bryd, ac, yn wir, bod holl weinyddiaethau Prydain Fawr yn gwneud hynny er mwyn ymateb i'r bygythiad hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that detailed answer, First Minister. I think that people will be assured that certain measures have been put in place, but, as I understand it, if a case is identified, the patient would be transferred to one of four hospitals in England designated to deal with this specific issue. What plans are in place, though, for the initial diagnosis and, obviously, containment within a district general hospital in Wales, before a transfer would occur? I agree with you wholeheartedly that we should not play it up, but it is a very real risk that people need to understand and be aware of.

Diolch ichi am yr ateb manwl yna, Brif Weinidog. Rwy'n credu y bydd pobl wedi eu sicrhau bod mesurau penodol wedi eu rhoi ar waith, ond, fel rwy'n ei deall hi, pe canfuwyd achos, byddai'r claf yn cael ei drosglwyddo i un o'r pedwar ysbyty yn Lloegr a neilltuwyd i ymdrin â'r mater penodol hwn. Pa gynlluniau sydd ar waith, fodd bynnag, ar gyfer diagnosis cychwynnol ac, yn amlwg, ar gyfer cyfyngu mewn ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru, cyn y byddai trosglwyddiad yn digwydd? Rwy'n cytuno â chi i'r carn na ddylem ni orbwysleisio'r mater, ond mae'n risg gwirioneddol y mae angen i bobl ei ddeall a bod yn ymwybodol ohono.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, may I say that the Royal Free Hospital in London is the main identified treatment centre for all confirmed UK cases of Ebola, including, obviously, any in Wales? There are two beds immediately available should any confirmed UK cases occur, and also additional capacity has been identified in order to deal with other cases, should they occur. A patient's needs, of course, will need to be assessed on a case-by-case basis, but the intention would be for any patients identified in Wales—presenting, therefore, in Wales—to be transferred to the Royal Free Hospital, and the process for agreeing a suitable care pathway, including that transfer to the Royal Free Hospital, is in place.

Wel, a gaf i ddweud mai'r Royal Free Hospital yn Llundain yw'r prif ganolfan driniaeth a nodwyd ar gyfer yr holl achosion o Ebola sy'n cael eu cadarnhau yn y DU, gan gynnwys, yn amlwg, unrhyw rai yng Nghymru? Ceir dau wely sydd ar gael ar unwaith pe byddai unrhyw achosion yn cael eu cadarnhau yn y DU, a nodwyd capasiti ychwanegol hefyd i ymdrin ag achosion eraill, pe byddent yn digwydd. Bydd angen asesu anghenion claf, wrth gwrs, ar sail achosion unigol, ond y bwriad fyddai i unrhyw gleifion a nodwyd yng Nghymru—gan ddangos symptomau, felly, yng Nghymru—i gael eu trosglwyddo i'r Royal Free Hospital, ac mae'r broses ar gyfer cytuno ar lwybr gofal addas, gan gynnwys y trosglwyddiad hwnnw i'r Royal Free Hospital, wedi ei sefydlu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, in North America, it was in Dallas that the first case happened, and I think that most people, if asked where they expected it to occur in America, would not have pinpointed Dallas as the place where that case would have been identified. We have three flights a day into Cardiff Airport via Schiphol. Schiphol is a major gateway for connections to the parts of Africa that do have incidences of Ebola. I appreciate that there is greater emphasis on airports and entry points in the south-east of England, but has any consideration been given to any screening measures or general awareness measures that would need to be taken at Cardiff Airport, given the frequency of flights that come out of Schiphol, as I said, three times a day?

Brif Weinidog, yng Ngogledd America, cafwyd yr achos cyntaf yn Dallas, ac rwy'n meddwl y byddai'r rhan fwyaf o bobl, pe gofynnwyd iddynt ble'r oeddent yn disgwyl iddo ddigwydd yn America, wedi nodi Dallas fel y man y byddai achos yn cael ei ganfod. Mae gennym dair awyren bob dydd i mewn i Faes Awyr Caerdydd trwy Schiphol. Mae Schiphol yn brif borth ar gyfer cysylltiadau i'r rhannau o Affrica sydd ag achosion o Ebola. Rwy'n sylweddoli bod mwy o bwyslais ar feysydd awyr a phwyntiau mynediad yn ne-ddwyrain Lloegr, ond a roddwyd unrhyw ystyriaeth i unrhyw fesurau sgrinio neu fesurau ymwybyddiaeth gyffredinol y byddai angen eu cymryd ym Maes Awyr Caerdydd, o ystyried pa mor aml mae awyrennau'n dod o Schiphol sef, fel y dywedais, tair gwaith bob dydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Schiphol flights are always identified as those flights that will bring in people from around the world: that much is true. Of course, it is for the Department for Transport and Border Force to decide how people are regulated as they come in through Cardiff Airport; they are not within the control of the Welsh Government. That said, of course, discussions continue to occur between Public Health Wales and those involved in dealing with civil contingencies. So far, Cardiff Airport has not been directed to carry out any additional screening, but they are working closely with the relevant organisations to ensure that they remain compliant should any changes occur in the future. I can say that Cardiff Airport is also reviewing its infectious disease plans in readiness for any potential threat.

Nodir yr awyrennau o Schiphol bob amser fel yr awyrennau hynny a fydd yn dod â phobl o bedwar ban byd: mae cymaint â hynny'n wir. Wrth gwrs, mater i'r Adran Drafnidiaeth a Llu'r Ffiniau yw penderfynu sut mae pobl yn cael eu rheoleiddio wrth iddyn nhw ddod i mewn drwy Faes Awyr Caerdydd; nid ydynt o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, mae trafodaethau yn parhau rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r rhai sy'n ymwneud ag ymdrin ag argyfyngau sifil posibl. Hyd yn hyn, ni chyfarwyddwyd Maes Awyr Caerdydd i gynnal unrhyw sgrinio ychwanegol, ond maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r sefydliadau perthnasol i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio pe byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Gallaf ddweud bod Maes Awyr Caerdydd hefyd yn adolygu ei gynlluniau defnyddau heintus yn barod ar gyfer unrhyw fygythiad posibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you, Presiding Officer. First Minister, six months ago I asked you what steps your Government was taking to tackle the significant increase in the number of children and young people waiting more than 14 weeks to access child and adolescent mental health services in Wales. In reply, you told me that the Minister for Health and Social Services is looking to make sure that we provide the services that make sure that we do not have those long waiting lists. Are you now sure that those services exist?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, chwe mis yn ôl, gofynnais i chi pa gamau oedd eich Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r cynnydd sylweddol i nifer y plant a phobl ifanc sy'n aros mwy na 14 wythnos i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod yng Nghymru. Yn eich ateb, dywedasoch wrthyf fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu gwneud yn siŵr ein bod yn darparu'r gwasanaethau i sicrhau nad oes gennym y rhestrau aros hir hynny. A ydych chi'n siŵr erbyn hyn bod y gwasanaethau hynny'n bodoli?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, it is something that the Minister, I know, is dealing with, and something that he is exceptionally keen to move forward with. We look, of course, with interest at what was announced in the Liberal Democrat conference—the policy that was announced there. In Wales, we have already had a plan in place for some years now, I think, to deal with children's mental health issues, and, of course, we would look at whatever ideas emerge elsewhere in the UK to see how they can be applied to Wales.

Wel, mae'n rhywbeth y mae'r Gweinidog, rwy'n gwybod, yn ymdrin ag ef, ac yn rhywbeth y mae'n eithriadol o awyddus i fwrw ymlaen ag ef. Rydym ni'n edrych, wrth gwrs, gyda diddordeb ar yr hyn a gyhoeddwyd yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol—y polisi a gyhoeddwyd yno. Yng Nghymru, bu gennym gynllun ar waith ers rhai blynyddoedd bellach, rwy'n meddwl, i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl plant, ac, wrth reswm, byddem yn edrych ar ba bynnag syniadau sy'n dod i'r amlwg mewn manau eraill yn y DU i weld sut y gellir eu defnyddio yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, back in March, the number of young people waiting more than 14 weeks had quadrupled in the space of the year, and I am sure that the Minister for health is very keen indeed to make progress, but, actually, the figure has risen by a quarter since March, and there are now nearly 1,000 young vulnerable people waiting more than 14 weeks for access to treatment. Now, child health experts agree that it is crucial to intervene as early as possible to get the best results for patients. When can parents and young people be assured of timely access to treatment, which, I am sure, all would agree is vital?

Brif Weinidog, yn ôl ym mis Mawrth, roedd nifer y bobl ifanc a oedd yn aros mwy na 14 wythnos bedair gwaith yn fwy nag yr oedd flwyddyn ynghynt, ac rwy'n siŵr bod y Gweinidog iechyd yn awyddus iawn yn wir i wneud cynnydd, ond, mewn gwirionedd, mae'r ffigur wedi cynyddu gan chwarter ers mis Mawrth, ac mae bron i 1,000 o bobl ifanc sy'n agored i niwed yn aros dros 14 wythnos am fynediad at driniaeth erbyn hyn. Nawr, mae arbenigwyr iechyd plant yn cytuno ei bod yn hanfodol ymyrryd cyn gynted â phosibl i gael y canlyniadau gorau i gleifion. Pryd y gall rhieni a phobl ifanc fod yn sicr o gael mynediad prydlon at driniaeth, y byddem i gyd yn cytuno, rwy'n siŵr, sy'n hanfodol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:49

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, the extra money, of course, will be made available to the NHS. We would expect the local health boards to ensure that, where there are particular pressures, those pressures are dealt with, and that would, of course, include dealing with any issues that arise in the area of children's mental health.

Wel, bydd yr arian ychwanegol, wrth gwrs, yn cael ei roi ar gael i'r GIG. Byddem yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol sicrhau, pan fo pwysau penodol, yr ymddrinir â'r pwysau hynny, a byddai hynny, wrth gwrs, yn cynnwys ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi ym maes iechyd meddwl plant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:50

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, as you say, your Government has been ahead of the game in setting the 14-week treatment target. The issue is: when will your Government achieve its goals?

Yesterday, the children's commissioner raised serious concerns about the ability of children and young people to access services and one of the reasons for that is a lack of specialists across Wales. In March, you told me you had a recruitment programme that was addressing those issues. Are you confident today that your recruitment programme is working and that we have the right number of staff in the right locations to ensure that your target is met?

Brif Weinidog, fel y dywedwch, mae eich Llywodraeth wedi bod ar flaen y gad o ran gosod y targed triniaeth 14 wythnos. Y cwestiwn yw: pryd fydd eich Llywodraeth yn cyflawni ei nodau?

Ddoe, cododd y comisiynydd plant bryderon difrifol am allu plant a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau ac un o'r rhesymau am hynny yw diffyg arbenigwyr ledled Cymru. Ym mis Mawrth, dywedasoed wrthyf fod gennych raglen recriwtio a oedd yn mynd i'r afael â'r materion hynny. A ydych chi'n ffyddiog heddiw bod eich rhaglen recriwtio yn gweithio a bod gennym y nifer cywir o aelodau staff yn y lleoliadau cywir i sicrhau y cyrhaeddir eich targed?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

In terms of recruitment generally across Wales, I am indeed confident that the recruitment campaign is working. In terms of vacancies filled, we are above, at the last count, 95%. So, there is no huge difficulty in terms of filling those vacancies, although, there are particular difficulties in some parts of Wales where it can be difficult to recruit in some areas the further away you go from the big urban centres. That has been an old problem that many Governments have had to deal with.

I do expect that local health boards should have in place the appropriate level of treatment. Nobody can be content with a situation where waiting lists increase and this Government is no different from any other Government in that regard. However, the extra money has been made available and I would expect that money now to make a positive difference to the situation that the leader of the Liberal Democrats has alluded to.

O ran recriwtio'n gyffredinol ledled Cymru, rwy'n sicr yn hyderus bod yr ymgyrch recriwtio yn gweithio. O ran swyddi gwag a lenwyd, rydym ni'n uwch, ar y cyfrif diwethaf, na 95%. Felly, nid oes unrhyw anhawster enfawr o ran llenwi'r swyddi hynny, er, ceir anawsterau penodol mewn rhai rhannau o Gymru lle y gall fod yn anodd recriwtio mewn rhai ardaloedd y pellaf yr ydych chi'n mynd oddi wrth y canolfannau trefol mawr. Mae honno wedi bod yn hen broblem y mae llawer o Lywodraethau wedi gorfod ymdrin â hi.

Rwyf yn disgwyl y dylai fod gan fyrddau iechyd lleol lefel priodol o driniaeth ar gael. Ni all neb fod yn fodlon â'r sefyllfa lle mae rhestrau aros yn cynyddu ac nid yw'r Llywodraeth hon yn ddim gwahanol i unrhyw Lywodraeth arall yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae'r arian ychwanegol wedi ei roi ar gael a byddwn yn disgwyl nawr i'r arian hwnnw wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r sefyllfa y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyfeirio ati.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:51	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	We now move back to questions on the paper.	Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr.
	Diabetes (Niwed i'r Llygaid)	Diabetes (Eye Damage)
13:51	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	3. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru i ganfod niwed i'r llygaid sy'n gysylltiedig â diabetes? OAQ(4)1902(FM)	3. Will the First Minister provide an update on Welsh Government investment to detect diabetes-related eye damage? OAQ(4)1902(FM)
13:51	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes. In September, the diabetic retinopathy screening service for Wales received an investment of £561,000 for the replacement of its 34 digital retinal cameras. That is in addition to £6 million core funding provided to that service.	Gwnaf. Ym mis Medi, derbyniodd gwasanaeth sgrinio retinopathi diabetig Cymru fuddsoddiad o £561,000 i newid ei 34 camera retina digidol. Mae hynny yn ychwanegol i'r £6 miliwn o arian craidd a ddarparwyd i'r gwasanaeth hwnnw.
13:52	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Thank you. As chair of the cross-party vision group, I know that the eyecare sector values the diabetic retinopathy screening service that is available in Wales. However, can I be assured that those who need this new technology will be made aware of it and be able to access it in the three centres where the high-tech cameras are located from wherever they live, and that the mobile services already presented in communities will remain?	Diolch. Fel cadeirydd y grŵp gweledigaeth trawsbleidiol, gwn fod y sector gofal llygaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth sgrinio retinopathi diabetig sydd ar gael yng Nghymru. Fodd bynnag, a allaf fi fod yn sicr y bydd y rhai sydd angen y dechnoleg newydd hon yn cael eu gwneud yn ymwybodol ohoni ac yn gallu cael mynediad ati yn y tair canolfan lle mae'r camerâu uwch-dechnoleg wedi eu lleoli o ble bynnag maen nhw'n byw, ac y bydd y gwasanaethau symudol a gyflwynwyd eisoes mewn cymunedau yn parhau?
13:52	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Well, may I say that the additional finance is being made available to replace all the current cameras in use? I can give the Member that assurance. Secondly, in terms of awareness, every eligible registered person with diabetes in Wales is invited for retinal screening on an annual basis and two filed digital images of the scan are retained. So, in doing that, we seek to ensure that those who need to have the scan receive the information in order for that to happen.	Wel, a gaf i ddweud bod yr arian ychwanegol yn cael ei roi ar gael i newid yr holl gamerâu a ddefnyddir ar hyn o bryd? Gallaf roi'r sicrwydd hwnnw i'r Aelod. Yn ail, o ran ymwybyddiaeth, mae pob person cofrestredig cymwys sydd â diabetes yng Nghymru yn cael gwahoddiad ar gyfer sgrinio retina yn flynyddol a chedwir dwy ddelwedd ddigidol wedi eu ffeilio o'r sgan. Felly, trwy wneud hynny, rydym yn ceisio sicrhau bod y rhai y mae angen y sgan arnynt yn derbyn y wybodaeth er mwyn i hynny ddigwydd.
13:52	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	First Minister, it is indeed an excellent service that is provided in terms of diabetic retinopathy screening, and I was very pleased to hear your response. The problem that I have been made aware of by the Royal National Institute of Blind People, is that, very often, when a problem is identified as a result of screening and people are referred on to secondary care for a consultant appointment, some people in Wales are waiting far too long than they ought to and, as a result of that, losing their sight on occasion. Can you give us some assurance that this is a matter that will receive some attention from the Welsh Government so that people can have equal access to urgent referral appointments as and when they require them?	Brif Weinidog, mae wir yn wasanaeth ardderchog sy'n cael ei ddarparu o ran sgrinio retinopathi diabetig, ac roeddwn yn falch iawn o glywed eich ymateb. Y broblem y gwnaethpwyd fi'n ymwybodol ohoni gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, yw, yn aml iawn, pan nodir problem o ganlyniad i sgrinio ac yr atgyfeirir pobl ymlaen at ofal eilaidd ar gyfer apwyntiad ymgynghorol, bod rhai pobl yng Nghymru yn aros yn llawer hirach nag y dylent ac, o ganlyniad i hynny, maen nhw'n colli eu golwg weithiau. A allwch chi roi rhywfaint o sicrwydd i ni fod hwn yn fater a fydd yn derbyn rhywfaint o sylw gan Llywodraeth Cymru er mwyn i bobl gael mynediad cyfartal at apwyntiadau atgyfeirio brys pan fydd eu hangen arnynt?

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, yes. There is no evidence that people have to wait so long that the condition that they have deteriorates to a point where it cannot be resolved. However, I can say that, in terms of primary care, we did announce £600,000 to enable optometrists to manage patients in the community in September—last month. We also allocated £1 million of funding recently to eyecare through the health technology and telehealth fund. That will establish IT systems across primary and secondary care to improve patient care and to ensure that there is more capacity in hospitals. That will help to ensure an ever-faster throughput of patients who need this help.

Wel, gallaf. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod yn rhaid i bobl aros mor hir fel bod y cyflwr sydd ganddynt yn dirywio i bwynt lle na ellir ei unioni. Fodd bynnag, gallaf ddweud, o ran gofal sylfaenol, ein bod wedi cyhoeddi £600,000 i alluogi optometryddion i reoli cleifion yn y gymuned ym mis Medi—y mis diwethaf. Neilltuwyd £1 filiwn o gyllid gennym hefyd yn ddiweddar i ofal llygaid drwy'r gronfa technoleg iechyd a theleiechyd. Bydd hynny'n sefydlu systemau TG ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd i wella gofal cleifion a sicrhau bod mwy o gapasiti mewn ysbytai. Bydd hynny'n helpu i sicrhau trwybwn cynyddol gyflym o gleifion sydd angen y cymorth hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Siarter iaith 'Tanio'r Ddraig'

The 'Tanio'r Ddraig' Language Charter

13:54

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar siarter iaith 'Tanio'r Ddraig' ysgolion clwstwr Ystalyfera? OAQ(4)1892(FM)

4. Will the First Minister make a statement on the Ystalyfera Cluster Schools' 'Tanio'r Ddraig' language charter? OAQ(4)1892(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Hoffwn longyfarch awdurdod Castell Nedd Port Talbot ac Ysgol Gyfun Ystalyfera yn arbennig am lansio eu siarter iaith, 'Tanio'r Ddraig', a'r Aelod dros Gastell-nedd am ei geiriau cefnogol wrth lansio'r siarter. Mae datblygiad o'r fath yn bwysig iawn o ran cefnogi disgyblion ysgol i ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'w gwersi. Mae'n hen broblem lle maent yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwersi eu hunain, ond dim y tu fas. Mae'n bwysig dros ben, felly, fod gennym ni gynlluniau fel hyn sydd yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg tu fas i'r dosbarth.

I would like to congratulate Neath Port Talbot local authority and especially Ysgol Gyfun Ystalyfera on the launch of their language charter, 'Tanio'r Ddraig', and the member for Neath for her words at the launch of the charter. Such developments are important in supporting pupils to use their Welsh outside lessons. It is an old problem where they tend to use Welsh in the classroom, but not outwith the classroom. It is very important, therefore, that we have such schemes in place to help ensure that young people use the Welsh language outside classrooms.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb, Brif Weinidog. Pleser mawr oedd cael bod yn bresennol yn Ysgol Gyfun Ystalyfera yn fetholaeth ar achlysur lansiad y siarter iaith. Clywsom am help a chefnogaeth Cyngor Gwynedd. Roedd yn ysbrydoliaeth hefyd i wrando ar gyflwyniad y prifardd Mererid Hopwood, ac yn fraint i gefnogi nod y siarter, sef ysbrydoli ein plant a'u pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd. A ydych chi'n cytuno y byddai o werth mawr i ymestyn amcanion y siarter i ysgolion eraill?

Thank you for that reply, First Minister. It was a great pleasure to be present at Ysgol Gyfun Ystalyfera in my constituency on the occasion of the launch of the language charter. We heard about the help and support that it had received from Gwynedd Council. It was also inspirational to listen to the contribution of the poet Mererid Hopwood, and a privilege to support the aim of the charter, namely that we should inspire our children and young people to use their Welsh language in every aspect of their lives. Do you agree that it would be of great value to extend the charter to other schools?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Ydw, yn bendant. Mae angen i ni ystyried y dull hwn er mwyn i ysgolion gefnogi eu disgyblion i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg eu hunain. Rwy'n deall bod Ceredigion, sir Gâr a hefyd awdurdodau lleol y de-ddwyrain yn ystyried mabwysiadu cynllun tebyg. Mae'n bwysig dros ben bod hwn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried dros Gymru'n gyfan gwbl er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn defnyddio'r iaith.

Yes, certainly. We need to consider this method so that schools can support their pupils in making greater use of the Welsh language. I understand that Ceredigion, Carmarthenshire and local authorities in the south-east are considering adopting a similar scheme. It is very important that this is considered throughout Wales in order to ensure that young people do use the Welsh language.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cyllid ar gyfer Ymchwil a Datblygu

Funding for Research and Development

13:56

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu yng Nghymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)1899(FM)

5. Will the First Minister make a statement on funding for research and development in Wales for the remainder of this Assembly term? OAQ(4)1899(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Research, development and innovation are priority themes of the next round of European regional development fund funding. We are currently finalising our new programmes. They will support companies and universities to undertake research and development to ensure that Wales remains the best possible environment for the development of R&D in the future.

Gwnaf. Mae ymchwil, datblygu ac arloesi yn themâu blaenoriaeth yn y rownd nesaf o gyllid cronfa ddatblygu rhanbarthol Ewrop. Rydym ni wrthi'n cwblhau ein rhaglenni newydd ar hyn o bryd. Byddant yn cefnogi cwmnïau a phrifysgolion i wneud gwaith ymchwil a datblygu er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yr amgylchedd gorau posibl ar gyfer datblygu ymchwil a datblygu yn y dyfodol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:56

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. As you will know, the second campus of Swansea University, the new innovation and science campus, is actually located within my constituency, and it is progressing well. It will be a great opportunity for research in an academic arena that will also involve global organisations working with them. However, I am sure that you will agree that it is important to benefit from that research, and areas such as Baglan energy park could be part of that beneficial process. We do not have an enterprise zone within the Swansea area, so what support can the Welsh Government offer to organisations that wish to relocate or locate in these areas surrounding the university campus to be able to build upon that research and take on the innovation and development processes?

Diolch ichi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y gwyrddoch, mae ail gampws Prifysgol Abertawe, y campws arloesi a gwyddoniaeth newydd, wedi ei leoli yn fy etholaeth i mewn gwirionedd, ac mae'n gwneud cynnydd da. Bydd yn gyfle gwych ar gyfer ymchwil mewn arena academaidd a fydd hefyd yn cynnwys sefydliadau byd-eang yn gweithio gyda nhw. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig elwa ar yr ymchwil hwnnw, a gallai ardaloedd fel parc ynni Baglan fod yn rhan o'r broses fuddiol honno. Nid oes gennyf ardal fenter yng nghyffiniau Abertawe, felly pa gymorth all Llywodraeth Cymru ei gynnig i sefydliadau sy'n dymuno adleoli neu leoli yn yr ardaloedd hyn o gwmpas campws y brifysgol i allu adeiladu ar y gwaith ymchwil hwnnw a bwrw ymlaen â'r prosesau arloesi a datblygu hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Member quite rightly points out that the Fabian Way campus is in Aberavon, and I know that this is something that he is personally very proud of. I understand that full well. There are two things that I would say to him. First of all, we believe that we offer one of the best R&D and capital investment packages of support in the UK for Welsh-based businesses and inward investors to invest in R&D to exploit commercial opportunities, in terms of funding for business-led R&D and innovative projects, in terms of collaborating with universities to look at new research, and also to accelerate knowledge transfer to new products and processes. The Member, of course, will be aware of the A4B, Academic Expertise for Business, programme. In terms of Baglan energy park, it is a premier site. We already have world-class investment that has been brought there by several companies. It offers, for example, on-site power generation that is extremely competitive in terms of the offer that is made, and I believe that, taken together with the Fabian Way campus and developments elsewhere in Swansea bay, if I may say that, we are developing an exceptionally important area of job creation in the future.

Mae'r Aelod yn nodi'n gwbl gywir bod campws Ffordd Fabian yn Aberafan, a gwn fod hyn yn rhywbeth y mae'n falch iawn ohono yn bersonol. Rwy'n deall hynny'n iawn. Byddwn yn dweud dau beth wrtho. Yn gyntaf oll, rydym yn credu ein bod yn cynnig un o'r pecynnau cymorth ymchwil a datblygu a buddsoddiad cyfalaf gorau yn y DU i fusnesau yng Nghymru a mewnfuddsoddwyr i fuddsoddi mewn gwaith ymchwil a datblygu i fanteisio ar gyfleoedd masnachol, o ran cyllid ar gyfer prosiectau arloesol a gwaith ymchwil a datblygu a arweinir gan fusnesau, o ran cydweithio â phrifysgolion i ystyried gwaith ymchwil newydd, a hefyd i gyflymu'r broses o drosglwyddo gwybodaeth i gynhyrchion a phrosesau newydd. Bydd yr Aelod yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r rhaglen A4B, Arbenigedd Academaidd i Fusnesau. O ran parc ynni Baglan, mae'n safle blaenllaw. Mae sawl cwmni eisoes wedi dod â buddsoddiad sydd ymhlith y gorau yn y byd yma. Mae'n cynnig, er enghraifft, cynhyrchu ynni ar y safle sy'n hynod gystadleuol o ran y cynnig sy'n cael ei wneud, ac rwy'n credu, o'i ystyried ar y cyd â champws Ffordd Fabian a datblygiadau mewn mannau eraill ym mae Abertawe, ein bod yn datblygu ardal eithriadol o bwysig ar gyfer creu swyddi yn y dyfodol, os caf ddweud hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:58 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will the First Minister clarify how the Welsh Government is supporting the digital technology sector, especially with its funding for research and development up until the end of this Assembly term?
- A wnaiff y Prif Weinidog egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector technoleg ddigidol, yn enwedig gyda'i chyllid ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu hyd at ddiwedd y tymor Cynulliad hwn?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I think that I gave the Member the answer earlier on, in terms of the R&D package that is available in terms, for example, of A4B and what that can do in terms of digital innovation, and, of course, Superfast Cymru, which, as a digital package, is exceptionally important in ensuring that Wales is connected at the right speeds to the rest of the world.
- Rwy'n credu fy mod i wedi rhoi'r ateb i'r Aelod yn gynharach, o ran y pecyn ymchwil a datblygu sydd ar gael o ran, er enghraifft, A4B a'r hyn y gall hwnnw ei wneud o ran arloesed digidol, ac, wrth gwrs, Cyflymu Cymru, sydd, fel pecyn digidol, yn eithriadol o bwysig ar gyfer sicrhau bod Cymru wedi ei chysylltu ar y cyflymder cywir â gweddill y byd.
- 13:59 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A ydy'r Prif Weinidog yn ymwybodol o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn y BioComposites Centre sydd yn rhan o Brifysgol Bangor, ond sy'n bodoli yn fetholaeth i ym Mona? A ydy'r Prif Weinidog wedyn yn cytuno ei bod hi'n bwysig bod cyllid ymchwil a chyllid Ewropeaidd yn parhau i gael eu buddsoddi yn y ganolfan honno fel ein bod ni yng Nghymru yn gallu parhau i fod yn flaenllaw ym maes datblygu deunyddiau drwy fiotechnoleg ar gyfer defnydd mewn gweithgynhyrchu a diwydiant?
- Is the First Minister aware of the excellent work being done in the BioComposites Centre that is part of Bangor University but actually is within my constituency at Mona? Does the First Minister agree that it is important that research funding and European funding continues to be invested in that centre so that we in Wales can continue to be in the vanguard in terms of developing material through biotechnology for use in manufacturing and industry?
- 13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn y dyfodol. Nid wyf yn ymwybodol o'r enghraifft unigol mae'r Aelod wedi sôn amdani, ond, wrth gwrs, rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod parc gwyddoniaeth Menai yn tyfu yn y dyfodol. Roedd sicrhau bod hynny yn digwydd yn rhan o gytundeb rhwng ei blaid ef a'r Llywodraeth. Wrth gwrs, mae'n cael ei arwain yn flaengar iawn gan gyn-Aelod etholaeth Ynys Môn.
- Of course, it is important that we ensure that we invest in the future. I am not aware of the individual example that you have given, but, of course, we are committed to ensuring that the Menai science park grows in the future. Ensuring that that happens was part of the agreement between his party and the Government. Of course, it is being led most innovatively by the former Member for the Ynys Môn constituency.
- 14:00 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, in my own region of Mid and West Wales there are a number of small businesses that are seeking partnerships with academic institutions, particularly to bring products such as medical tools and treatments to the market. A recent example is Alzheimer, which has been developing Galantamine from stressed daffodils to actually address the onset of Alzheimer's disease. In that context, First Minister, what can be done to facilitate the ways in which these partnerships are developed to make them less onerous particularly for small businesses that have capacity issues that might prevent them from actually bringing these things to the market?
- Brif Weinidog, yn fy rhanbarth i fy hun, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, ceir nifer o fusnesau bach sy'n chwilio am bartneriaethau gyda sefydliadau academiaidd, yn enwedig i ddod â chynhyrchion fel offer a thriniaeth feddygol i'r farchnad. Un enghraifft ddiweddar yw Alzheimer, sydd wedi bod yn datblygu Galantamine o gennin Pedr wedi eu pwysu i fynd i'r afael â dechrau defyd Alzheimer. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, beth ellir ei wneud i hwyluso'r ffyrdd y datblygir y partneriaethau hyn i'w gwneud yn llai beichus, yn enwedig i fusnesau bach sydd â phroblemau capasiti a allai eu hatal rhag dod â'r pethau hyn i'r farchnad?

14:00

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is hugely important and innovative technology. I will come back to the point that I made earlier on about the package that we offer to enable businesses to work with universities. I think that it is fair to say that 10 or so years ago, that link was not really there. Now, of course, it is widely accepted that universities should be able to develop their knowledge, working with businesses, so that businesses can say to universities what they require, and that universities then are able, in terms of business relationships, to provide the expertise. So, the collaborative approach that we have encouraged between universities and business, through the research and development package that we have developed, will hopefully be of assistance to the business that you have mentioned.

Mae'n dechnoleg hynod bwysig ac arloesol. Dof yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach am y pecyn yr ydym ni'n ei gynnig i alluogi busnesau i weithio gyda phrifysgolion. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud nad oedd y cyswllt hwnnw yno mewn gwirionedd tua 10 mlynedd yn ôl. Erbyn hyn, wrth gwrs, derbynir yn eang y dylai prifysgolion fod yn gallu datblygu eu gwybodaeth eu hunain, gan weithio gyda busnesau, fel y gall busnesau ddweud wrth brifysgolion yr hyn sydd ei angen arnynt, a bod prifysgolion wedyn, o ran cysylltiadau busnes, yn gallu darparu'r arbenigedd. Felly, y gobaith yw y bydd y dull cydweithredol yr ydym ni wedi ei annog rhwng prifysgolion a busnesau, drwy'r pecyn ymchwil a datblygu yr ydym ni wedi ei ddatblygu, o gymorth i'r busnes yr ydych chi wedi sôn amdano.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Amseroedd Ymateb Ambiwllansys

Ambulance Response Times

14:01

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd ymateb ambiwlansys yn Nwyrain De Cymru cyn dechrau pwysau'r gaeaf? OAQ(4)1885(FM)

6. What action will the Welsh Government take to improve ambulance response times in South Wales East before the onset of winter pressures? OAQ(4)1885(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Deputy Minister for Health launched an NHS Wales and social care winter planning forum on 3 October. He was impressed by the commitment demonstrated by all those who are required to be on board to ensure that ambulance response times improve. The trust has published its winter plan for 2014-15. We expect local health boards to publish theirs in the course of this month. Of course, as I mentioned earlier, new paramedics have been recruited in order to crew the ambulances.

Lansiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd fforwm GIG Cymru a gofal cymdeithasol ar gynllunio ar gyfer y gaeaf ar 3 Hydref. Gwnaed gryn argraff arno gan yr ymroddiad a ddangoswyd gan bawb y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan i sicrhau bod amseroedd ymateb ambiwlansys yn gwella. Mae'r ymddiriedolaeth wedi cyhoeddi ei chynllun ar gyfer gaeaf 2014-15. Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol gyhoeddi eu rhai hwythau yn ystod y mis hwn. Wrth gwrs, fel y soniais yn gynharach, recriwtiwyd parafeddygon newydd i staffio'r ambiwlansys.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:02

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for the reply, First Minister. You will be aware of the latest ambulance emergency response figures in the Aneurin Bevan Local Health Board area, which revealed that just over half of ambulances responding to emergency calls arrive within eight minutes. In June this year, the Minister for health demanded urgent improvements within three months. What action will your Government take to improve response times before the winter weather adds to pressures on this service?

Diolch yn fawr am yr ateb, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o ffigurau diweddaraf ymateb ambiwlansys mewn argyfwng yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, a ddatgelodd bod ychydig dros hanner yr ambiwlansys sy'n ymateb i alwadau brys yn cyrraedd o fewn wyth munud. Ym mis Mehefin eleni, mynnodd y Gweinidog iechyd ar welliannau brys o fewn tri mis. Pa gamau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i wella amseroedd ymateb cyn bod tywydd y gaeaf yn ychwanegu at bwysau ar y gwasanaeth hwn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I mentioned the 206 staff who will be appointed by April 2015. Many of them, of course, will be based in the south-east. Twelve have become operational in the past fortnight, nine of whom will be based in the south-east. Of course, the ambulance service must use this additional capacity to demonstrate improvement before the winter period begins. I also inform the Member that a further 18 qualified paramedics are due to be interviewed over the next fortnight.
- 14:03 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, your Government has acknowledged that the performance of the ambulance trust in south-east Wales is one area of particular difficulty. The impact that that has on my constituents is that ambulances that are based at ambulance stations in Powys are routinely called to the south-east to answer calls or get caught up in the south-east system as they are the nearest available crew. What can you do to increase capacity, especially in south-east Wales, to ensure that ambulances based in Powys are able to cover the Powys area and therefore help to meet targets in my particular constituency?
- 14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
First of all, of course, Members will be aware of the announcement made some months ago of investment in new vehicles. Of course, I draw the Member back to the words that I have just used in terms of the number of paramedics and the increase that will occur, not just in the south-east, but around Wales—but particularly in the south-east—which will help the trust, as far as the ambulance service is concerned, to improve the service.
- 14:04 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, do you accept the responsibility for the ambulance response times in the south-east? I wonder what you would tell us about what you intend to do about it if they continue to be unacceptable.
- 14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are responsible for policy. The ambulance service trust is responsible operationally for providing that service. That is not to say, of course, that the Government—unlike the case in England—can say, 'It is nothing to do with us, gov'. We understand that. The issue then for us is: what are we doing? I come back to the point that I made earlier: recruiting more paramedics and investing in new ambulances. It is up to the ambulance trust, of course, to make sure that, operationally, it meets the standards that the public would require.

Soniais am y 206 o aelodau staff a fydd wedi eu penodi erbyn mis Ebrill 2015. Bydd llawer ohonynt, wrth gwrs, wedi eu lleoli yn y de-ddwyrain. Mae deuddeg wedi dod yn weithredol yn ystod y pythefnos diwethaf, a bydd naw ohonynt wedi eu lleoli yn y de-ddwyrain. Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r gwasanaeth ambiwlans ddefnyddio'r capasiti ychwanegol hwn i ddangos gwelliant cyn i gyfnod y gaeaf ddechrau. Rwyf yn rhoi gwybod i'r Aelod hefyd y disgwylir i 18 o barafeddygon cymwysedig eraill gael eu cyfweild dros y pythefnos nesaf.

Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi cydnabod bod perfformiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn y de-ddwyrain yn un maes sy'n peri anhawster arbennig. Yr effaith y mae hynny'n ei chael ar fy etholwyr yw bod ambiwlansys sydd wedi eu lleoli mewn gorsafoedd ambiwlans ym Mhowys yn cael eu galw i'r de-ddwyrain i ateb galwadau yn rheolaidd neu'n cael eu dal yn system y de-ddwyrain gan mai nhw yw'r criwiau agosaf sydd ar gael. Beth allwch chi ei wneud i gynyddu capasiti, yn enwedig yn y de-ddwyrain, er mwyn sicrhau bod ambiwlansys ym Mhowys yn gallu gwasanaethu ardal Powys, ac felly helpu i fodloni targedau yn fy etholaeth benodol i?

Yn gyntaf oll, bydd yr Aelodau'n ymwybodol, wrth gwrs, o'r cyhoeddiad a wnaed rai misoedd yn ôl o fuddsoddiad mewn cerbydau newydd. Wrth gwrs, tynnaf sylw'r Aelod at y geiriau yr wyf newydd eu defnyddio o ran nifer y parafeddygon a'r cynnydd a fydd yn digwydd, nid yn unig yn y de-ddwyrain, ond ledled Cymru—ond yn enwedig yn y de-ddwyrain—a fydd yn helpu'r ymddiriedolaeth, cyn belled ag y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn y cwestiwn, i wella'r gwasanaeth.

Brif Weinidog, a ydych chi'n derbyn y cyfrifoldeb am amseroedd ymateb ambiwlansys yn y de-ddwyrain? Tybed beth fydddech chi'n ei ddweud wrthym am yr hyn yr ydych chi'n bwriadu ei wneud am y peth os byddant yn parhau i fod yn annerbyniol.

Ni sy'n gyfrifol am bolisi. Yr ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans sy'n gyfrifol yn weithredol am ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Nid yw hynny'n gyfystyr â dweud, wrth gwrs, y gall y Llywodraeth—yn wahanol i'r hyn sy'n wir yn Lloegr—ddweud, 'Nid yw hyn yn ddim i'w wneud â ni'. Rydym ni'n deall hynny. Y mater i ni felly yw: beth ydym ni'n ei wneud? Dof yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach: recriwtio mwy o barafeddygon a buddsoddi mewn ambiwlansys newydd. Cyfrifoldeb yr ymddiriedolaeth ambiwlans, wrth gwrs, yw gwneud yn siŵr, yn weithredol, ei bod yn bodloni'r safonau a fyddai'n ofynnol gan y cyhoedd.

Ffiniau NUTS 2 a NUTS 3

NUTS 2 and NUTS 3 Boundaries

- 14:04 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
7. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r angen i newid ffiniau cyfredol NUTS 2 a NUTS 3? OAQ(4)1890(FM) *7. What assessment has the Welsh Government made of the need to change the current NUTS 2 and NUTS 3 boundaries? OAQ(4)1890(FM)*
- 14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The most recent review of NUTS boundaries was undertaken in 2013 and, through the Office for National Statistics, we will input into the next review, which is expected in 2016. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o ffiniau NUTS yn 2013 a, thrwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, byddwn yn cyfrannu at yr adolygiad nesaf, a ddisgwylir yn 2016.
- 14:05 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the First Minister for that response. As the Williams commission replicates the NUTS 3 structure, except for the need to merge Ynys Môn and Gwynedd, will the Welsh Government be recommending this change? The NUTS 2 boundary has remained unchanged, except for minor local authority boundary changes, since the start of Objective 1. Has the Government considered the repercussions of changing the boundary, for example in aligning with city regions? Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. Gan fod comisiwn Williams yr un fath â strwythur NUTS 3, ac eithrio'r angen i uno Ynys Môn a Gwynedd, a fydd Llywodraeth Cymru yn argymhell y newid hwn? Mae ffin NUTS 2 wedi aros yn ddigyfnewid, ac eithrio mân newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol, ers dechrau Amcan 1. A yw'r Llywodraeth wedi ystyried effeithiau newid y ffin, wrth gyd-fynd â rhanbarthau dinas, er enghraifft?
- 14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes, and particularly the need to ensure that we do not see authorities losing out potentially as a result of any realignment. May I say that the Eurostat regulations define a minimum size of 800,000 for a NUTS 2 boundary, which would take it beyond possibly the Swansea city region and maybe Cardiff as well? However, despite that, the regulation favours using administrative divisions or aggregates of administrative divisions. So, our understanding is that a city region can only be defined as a NUTS 2 area, or, indeed, a NUTS 3 area, if it is based on local authority administrative boundaries. So, there would have to be the creation of a city region as an administrative boundary or some other way of doing that. Do, ac yn enwedig yr angen i sicrhau nad ydym yn gweld awdurdodau o bosibl yn dioddef o ganlyniad i unrhyw ail-drefnu. A gaf fi ddweud fod rheoliadau Eurostat yn diffinio isafswm maint o 800,000 ar gyfer ffin NUTS 2, a fyddai'n mynd ag ef y tu hwnt i ranbarth dinas Abertawe o bosibl, a Chaerdydd hefyd efallai? Fodd bynnag, er gwaethaf hynny, mae'r rheoliad yn ffafrio defnyddio is-adrannau gweinyddol neu agregau o isadrannau gweinyddol. Felly, ein dealltwriaeth ni yw y gellir diffinio rhanbarth dinas dim ond fel ardal NUTS 2, neu, yn wir, ardal NUTS 3, os yw'n seiliedig ar ffiniau gweinyddol awdurdod lleol. Felly, byddai'n rhaid creu rhanbarth dinas fel ffin weinyddol neu ddod o hyd i ryw ffordd arall o wneud hynny.
- 14:06 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
The aim of the NUTS classification is to ensure that comparable regions appear at the same NUTS level, with population size a key indicator for statistical comparability for the allocation of structural funds. Will the First Minister indicate what key projects he envisages to enable Wales to no longer be eligible for future structural funds? Nod y dosbarthiad NUTS yw sicrhau bod rhanbarthau tebyg yn ymddangos ar yr un lefel NUTS, gyda maint y boblogaeth yn ddangosydd allweddol ar gyfer cymhariaeth ystadegol i ddyrannu cronfeydd strwythurol. A wnaiff y Prif Weinidog nodi pa brosiectau allweddol y mae'n eu rhagweld i alluogi Cymru i beidio â bod yn gymwys bellach ar gyfer cronfeydd strwythurol yn y dyfodol?

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, there is an emphasis, of course, on research and development and on upskilling. We know full well that investors—and this is something that I have heard many times in talking to potential investors—want to be assured that Wales has the skills that are needed in order to attract investment in the future. The days of a low-wage, low-skill economy are thankfully long gone. So, emphasising the need to upskill our people, to provide the flow of skills that investors need, particularly investors that bring high-salary, high-quality jobs, would be of paramount importance for the next few years.

Wel, ceir pwyslais, wrth gwrs, ar ymchwil a datblygu ac ar uwchsgilio. Rydym ni'n gwybod yn iawn fod buddsoddwyr—ac mae hyn yn rhywbeth yr wyf wedi ei glywed lawer gwaith wrth siarad â darpar fuddsoddwyr—eisiau cael eu sicrhau bod y sgiliau sydd eu hangen ar gael yng Nghymru i ddenu buddsoddiad yn y dyfodol. Mae'r dyddiau o economi cyflog isel, sgiliau isel ar ben ers amser maith diolch i'r drefn. Felly, byddai pwysleisio'r angen i wella sgiliau ein pobl, i ddarparu'r llyf o sgiliau sydd eu hangen ar fuddsoddwyr, yn enwedig buddsoddwyr sy'n dod â swyddi cyflog uchel, o ansawdd uchel, yn hanfodol bwysig ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Tra ydym, Brif Weinidog, yn gymwys i dderbyn cefnogaeth o'r cronfeydd strwythurol yma, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn greadigol i edrych ar y buddsoddiad posibl? Roeddwn mewn seminar yr wythnos diwethaf ym Mrwsel yn siarad gyda Banc Buddsoddi Ewrop, sy'n dweud ei fod yn barod iawn i edrych ar y cynllun datblygu gwledig fel modd i fuddsoddi yng nghefn gwlad. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Banc Buddsoddi Ewrop ynglŷn â hyn, yn enwedig o ystyried penderfyniad y Llywodraeth i ddsbarthu canran uwch o arian yn y cynllun datblygu gwledig na'r rhelyw?

First Minister, while we qualify to receive funding from the structural funds, what is the Welsh Government doing creatively to look at the possible investment? I was at a seminar in Brussels last week, speaking to the European Investment Bank, which says that it is very happy to look at the rural development plan as a means of investing in rural areas. Has the Welsh Government had any discussions with the European Investment Bank on this issue, particularly given the Government's decision to distribute a higher proportion of funding in the RDP than most others have done?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid wyf yn bersonol wedi cael y trafodaethau hynny. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu atoch er mwyn rhoi ei barn hi. Fodd bynnag, rydym, wrth gwrs, wedi tynnu i lawr arian o'r banc Ewropeaidd, a hynny ar gyfer campws Abertawe, os cofiaf yn iawn, sydd wedi bod o les i bobl Cymru. Felly, os oes modd tynnu mwy o arian i mewn i ddatblygu gwledig, rwy'n siŵr y byddwn ni'n mo'yn ystyried hynny. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ysgrifennu atoch gydag unrhyw farn ar hynny.

I personally have not had discussions, but I am sure that the Minister will write to you to give her view. Of course, we have drawn down funding from the European Investment Bank, which was for the Swansea campus, if I remember rightly, which has been of benefit to the people of Wales. So, if it is possible to draw more funding into rural development, I am sure that we would want to consider that. I am sure that the Minister will write to you as regards providing an opinion on the matter.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cronfa Byw'n Annibynnol

The Independent Living Fund

14:08 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y caiff penderfyniad Llywodraeth y DU i dorri'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar Gymru? OAQ(4)1891(FM)

8. Will the First Minister make a statement on the impact on Wales of the UK Government's decision to cut the Independent Living Fund? OAQ(4)1891(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, the UK Government is set to close the ILF on 30 June next year and transfer the responsibility for supporting recipients in Wales to the Welsh Government. To ensure that recipients can continue to live independently in the community, we are consulting on a range of options for providing for their future support.

Wel, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar 30 Mehefin y flwyddyn nesaf, a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am gefnogi'r rhai sy'n derbyn cyllid yng Nghymru i Lywodraeth Cymru. Rydym yn ymgynghori ar amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer darparu eu cefnogaeth yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gall y rhai sy'n derbyn cyllid barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that answer, First Minister. It seems that not a week goes by without the UK Tory Government finding a way to attack the most vulnerable in our society. This regressive decision by the Department for Work and Pensions to cut the funding for the independent living fund means that 1,600 severely disabled people in Wales could lose vital support that enables them to live independently. [Interruption.] If they want to say something to my left, perhaps they should talk to their people in the UK Government about the regressive position that they are taking.

Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'n ymddangos nad oes wythnos yn mynd heibio heb i Lywodraeth Doriaidd y DU ddod o hyd i ffordd o ymosod ar y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r penderfyniad anflaengar hwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i dorri'r cyllid ar gyfer y gronfa byw'n annibynnol yn golygu y gallai 1,600 o bobl ag anabledau difrifol yng Nghymru golli cymorth hanfodol sy'n eu galluogi i fyw'n annibynnol. [Torri ar draws.] Os ydyn nhw eisiau dweud rhywbeth ar y chwith i mi, efallai y dylen nhw siarad â'u pobl yn Llywodraeth y DU am y safbwynt anflaengar y maen nhw'n ei fabwysiadu.

May I say thank you on behalf of those disabled people in my constituency who may have the opportunity to take part in the fund that the Welsh Government will be setting up, which shows, once again, that Wales does stand up for the people here and that we will look to mitigate the regressive decisions of the UK Tory Government? Will you join me in condemning the UK Tory Government and the Liberal Democrats who are supporting them in these vicious attacks on the most vulnerable in our society?

A gaf i ddweud diolch ar ran y bobl anabl hynny yn fy etholaeth i a allai gael cyfle i gymryd rhan yn y gronfa y bydd Llywodraeth Cymru yn ei sefydlu, sy'n dangos, unwaith eto, bod Cymru yn sefyll dros y bobl sydd yma ac y byddwn yn ceisio lliniaru penderfyniadau anflaengar Llywodraeth Doriaidd y DU? A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio Llywodraeth Doriaidd y DU a'r Democratiaid Rhyddfrydol sydd yn eu cefnogi nhw yn yr ymosodiadau dieflig hyn ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The UK Government has a history of devolving power without resources. We saw that with the council tax benefits, where there was a top slice of 10% for no apparent reason that was taken off. So, it has a track record, which I hope will change, of devolving and then keeping part of the money—an old trick in that regard.

Mae gan Lywodraeth y DU hanes o ddatganoli pŵer heb adnoddau. Gwelsom hynny gyda budd-daliadau'r dreth gyngor, lle'r oedd cyfran uchaf o 10%, a gafodd heb unrhyw reswm amlwg, ei thynnu i ffwrdd. Felly, mae ganddi hanes, yr wyf yn gobeithio y bydd yn newid, o ddatganoli ac yna cadw rhan o'r arian—hen dric yn hynny o beth.

I know that the UK Government's announcement has caused anxiety among recipients about how their future support will be provided. I want to reassure them that we, as a Government, are committed to ensuring that appropriate arrangements are in place in good time to meet their support needs when the ILF closes next year. We are encouraging all those with an interest to take part in the consultation process so that we can find the best way forward for those most vulnerable people in our society.

Gwn fod cyhoeddiad Llywodraeth y DU wedi achosi pryder ymhlith y rhai sy'n derbyn cyllid am sut y bydd eu cefnogaeth yn cael ei darparu yn y dyfodol. Hoffwn eu sicrhau ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi ymrwymo i sicrhau y bydd trefniadau priodol wedi eu sefydlu mewn da bryd i ddiwallu eu hanghenion cymorth pan fydd y Gronfa Byw'n Annibynnol yn cau y flwyddyn nesaf. Rydym yn annog pawb sydd â budd i gymryd rhan yn y broses ymgynghori fel y gallwn ddod o hyd i'r ffordd orau ymlaen i'r bobl fwyaf agored i niwed hynny yn ein cymdeithas.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When the independent living fund was first established, by coincidence under a Conservative Government, it was in a world before direct payments, when social care was designed by local authorities rather than individuals. The changes now reflect the development in how we provide social care to disabled people, so that they can live independent lives. The Scottish Parliament has acknowledged that current funding levels have been transferred from the Treasury to it; I presume it is the same in Wales.

Pan sefydlwyd y gronfa byw'n annibynnol gyntaf, dan Lywodraeth Geidwadol trwy gyd-ddigwyddiad, roedd hynny mewn byd cyn taliadau uniongyrchol, pan roedd gofal cymdeithasol yn cael ei gynllunio gan awdurdodau lleol yn hytrach nag unigolion. Mae'r newidiadau bellach yn adlewyrchu datblygiad yn y ffordd yr ydym ni'n darparu gofal cymdeithasol i bobl anabl, fel y gallant fyw bywydau annibynnol. Mae Senedd yr Alban wedi cydnabod bod y lefelau ariannu presennol wedi eu trosglwyddo o'r Trosorlys iddi hi; rwy'n tybio ei bod yr un fath yng Nghymru.

Why, therefore, given your Government's pledge to transform social care and empower individuals through the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, are you not proposing to ring-fence the independent living fund to protect support for the independence of anyone who needs social services' support?

Pam, felly, o gofio addewid eich Llywodraeth i weddnewid gofal cymdeithasol a grymuso unigolion trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, nad ydych chi'n cynnig neilltuo'r gronfa byw'n annibynnol i ddiogelu cefnogaeth i annibyniaeth unrhyw un sydd angen cymorth y gwasanaethau cymdeithasol?

14:11	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The Member is absolutely right to say that his party is changing the way in which our most vulnerable people are supported—by cutting the money available to our most vulnerable people. That is what he means by change. I can say that we are, at this moment, consulting on the best way forward. We will make sure that any changes that are difficult or impossible or unmanageable for our people in Wales are dealt with in a positive way for them. That is our pledge and the pledge I made to the Member for the Vale of Clwyd earlier. It will not involve beginning with the standpoint that the first thing we must do is cut support to the most vulnerable. That is not what we stand for as a Government.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Mae'r Aelod yn llygad ei le i ddweud bod ei blaid yn newid y ffordd y cefnogir ein pobl fwyaf agored i niwed—trwy dorri'r arian sydd ar gael i'n pobl fwyaf agored i niwed. Dyna mae'n ei olygu gan newid. Gallaf ddweud ein bod, ar hyn o bryd, yn ymgynghori ar y ffordd orau ymlaen. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau sy'n anodd neu'n amhosibl neu'n anhydrin i'n pobl yng Nghymru yn cael eu trin mewn ffordd gadarnhaol ar eu cyfer nhw. Dyna yw ein haddewid a'r addewid a wneuthum i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd yn gynharach. Ni fydd yn golygu dechrau o'r safbwynt mai'r peth cyntaf y mae'n rhaid i ni ei wneud yw torri cefnogaeth i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Nid dyna yr ydym ni'n sefyll drosto fel Llywodraeth.</p>
14:12	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, I agree with everything that Ann Jones, the Member for Rhyl, has said in this Chamber.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Brif Weinidog, rwy'n cytuno â phopeth y mae Ann Jones, yr Aelod dros y Rhyl, wedi ei ddweud yn y Siambr hon.</p>
14:12	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>I am from Clwyd.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Rwyf i'n dod o Glwyd.</p>
14:12	<p>Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography</p> <p>Sorry, I know that you are from Rhyl. In light of the potentially damaging welfare decisions being made at present by the British Government, what efforts will you be making, as First Minister, to press for the Assembly to have powers over welfare devolved to this Welsh Government in order that you can protect the 1,600 most severely disabled people in Wales?</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Mae'n ddrwg gennyf, rwy'n gwybod eich bod yn dod o'r Rhyl. Yng ngoleuni'r penderfyniadau lles a allai fod yn niweidiol sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd gan Lywodraeth Prydain, pa ymdrechion y byddwch chi'n eu gwneud, fel Prif Weinidog, i bwysu i'r Cynulliad gael pwerau dros les fod wedi eu datganoli i'r Llywodraeth Cymru hon fel y gallwch amddiffyn y 1,600 o bobl sydd â'r anabledau mwyaf difrifol yng Nghymru?</p>
14:12	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I know that the Member is a strong and lifelong supporter of Rhyl football club, but I am sure that even she will acknowledge that she represents the Vale of Clwyd, as the Member has acknowledged.</p> <p>The issue of welfare benefits is this, is it not: that the welfare system is a way of transferring money around GB, and in practice the UK, to areas where it is most needed? The danger for us in Wales is to see the devolution of welfare with a resource that is inadequate for what we would require. Having the power is one thing, but if you do not have the money to do what you want to do, then the power is effectively useless. These are the issues that we must balance, and all parties must balance, over the coming months in terms of examining what should and should not be devolved.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Gwn fod yr Aelod yn gefnogwr cryf a chydol oes o glwb pêl-droed y Rhyl, ond rwy'n siŵr y bydd hyd yn oed hi yn cydnabod ei bod yn cynrychioli Dyffryn Clwyd, fel y mae'r Aelod wedi ei gydnabod.</p> <p>Onid hyn yw'r mater o ran budd-daliadau lles: bod y system les yn ffordd o drosglwyddo arian o gwmpas Prydain Fawr, a'r DU yn ymarferol, i ardaloedd lle mae ei angen fwyaf? Y perygl i ni yng Nghymru yw gweld datganoli lles gydag adnodd sydd yn annigonol ar gyfer yr hyn y byddai ei angen arnom ni. Mae cael y pŵer yn un peth, ond os nad yw'r arian gennych i wneud yr hyn yr ydych chi eisiau ei wneud, yna mae'r pŵer yn ddiwerth i bob pwrpas. Dyma'r materion y mae'n rhaid i ni eu cydbwyso, ac y mae'n rhaid i bob plaid eu cydbwyso, dros y misoedd nesaf o ran archwilio'r hyn y dylid ac na ddylid ei ddatganoli.</p>
Gwasanaethau Cyhoeddus (Ynys Môn)		Public Services (Anglesey)
14:13	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr agenda ar gyfer darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yn Ynys Môn? OAQ(4)1903(FM)</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>9. Will the First Minister make a statement on the agenda to provide better public services in Anglesey? OAQ(4)1903(FM)</p>

- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Cyhoeddwyd ein cynlluniau ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus ar 8 Gorffennaf. I published our plans for reforming public services on 8 July.
- 14:13 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch. A yw'r Prif Weinidog yn ymwybodol o'r pryderon yn Ynys Môn y gallai uno efo Gwynedd arwain at gollu swyddi ar raddfa eang? A yw hefyd yn ymwybodol bod cyngor Ynys Môn wedi gwahodd ceisiadau am ddiswyddiadau gwirfoddol gan bob un o'i staff oherwydd yr angen i arbed £20 miliwn? A yw'r Prif Weinidog felly'n cytuno ei bod yn edrych fel 'lose-lose situation' i Ynys Môn ar hyn o bryd oherwydd y toriadau afresymol y mae disgwyl i'r cyngor eu gwneud? Thank you. Is the First Minister aware of the concerns in Anglesey that a merger with Gwynedd could lead to job losses on a large scale? Is he also aware that Anglesey council has invited applications for voluntary redundancy from all of its staff because of a need to save £20 million now? Does the First Minister therefore agree that it looks like a lose-lose situation for Anglesey at present because of the unreasonable cuts that the council is expected to make?
- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Mae pob cyngor yng Nghymru yn yr un sefyllfa. Mae lan i gyngor Ynys Môn beth mae'n ei wneud. Wrth gwrs, ni fyddem ni fel Llywodraeth o blaid gweld diswyddo gorfodol. Mae cynlluniau wedi bod mewn lle dros y blynyddoedd er mwyn i bobl adael eu swyddi yn wirfoddol; mae'n digwydd y tu fewn i'r Llywodraeth ei hunan. Mae ychydig yn od, efallai, i roi'r cynnig hwnnw i bob person sy'n gweithio i'r cyngor, ond rydym yn gwybod bod gan Ynys Môn hanes anodd ynglŷn â'r ffordd y mae'r cyngor wedi cael ei redeg. Rydym yn gwybod bod yn rhaid inni sicrhau bod awdurdodau lleol yn y dyfodol yn ddigon mawr er mwyn sicrhau eu bod yn gallu delifro gwasanaethau y byddai pawb yn mo'yn eu gweld, heb iddynt fod yn ormodol o fawr. Dyna, felly, oedd argymhellion comisiwn Williams, ond beth sy'n amlwg yw na all pethau sefyll fel ag y maent. Every council in Wales is in the same position. It is up to Ynys Môn council in terms of what it does about it. Of course, we as a Government would not be in favour of compulsory redundancies. Arrangements have been in place in order to ensure that people can exit from their posts voluntarily, and this has happened within the Government itself. It is a bit odd, perhaps, to make that offer to every person working for the council, but we know that Anglesey has had a very difficult history in the way in which the council was run. Of course, we must ensure that local authorities in future are large enough to ensure that they can deliver the services that everybody would wish to see, without becoming excessively large. That is what the Williams commission recommended, therefore, but what is clear is that things cannot stay as they are.
- 14:15 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Better public services in Anglesey, across north Wales and beyond will increasingly depend on co-production with third-sector agencies like credit unions. Of course, Thursday is International Credit Union Day; I am sure that you will join me in celebrating that. How is the Welsh Government working with the Association of British Credit Unions Ltd to deliver sustainability to credit unions on their expansion programmes, aligned with Welsh Government funding programmes, to deliver what the Scottish Parliament heard, at its event to celebrate International Credit Union Day, from American credit unions, grown to provide a full range of services to people from all walks of life while retaining their community focus and co-operative values? Bydd gwasanaethau cyhoeddus gwel ar Ynys Môn, ar draws gogledd Cymru a thu hwnt yn dibynnu'n gynyddol ar gyd-gynhyrchiad ag asiantaethau trydydd sector fel undebau credyd. Wrth gwrs, Dydd Iau yw Diwrnod Rhyngwladol yr Undebau Credyd; rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i ddathlu hynny. Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf i sicrhau cynaliadwyedd i undebau credyd ar eu rhaglenni ehangu, sy'n cyd-fynd â rhaglenni ariannu Lywodraeth Cymru, i ddarparu'r hyn y clywodd Senedd yr Alban, yn ei digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol yr Undebau Credyd, gan undebau credyd America, sydd wedi tyfu i ddarparu ystod lawn o wasanaethau i bobl o bob cefndir, a chadw ar yr un pryd eu pwyslais cymunedol a'u gwerthoedd cydweithredol?
- 14:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Was that question about Anglesey? Ai cwestiwn am Ynys Môn oedd hwnna?

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I am not aware of the situation regarding credit unions in Anglesey. Nevertheless, we have been supportive of credit unions across Wales in years gone by, working with organisations such as the Wales Co-operative Centre, if I remember correctly. The Member has mentioned Scotland twice now. Are we to see an alliance between the SNP and the Conservatives, given his warm words for the Scottish Parliament?
Nid wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran undebau credyd ar Ynys Môn. Serch hynny, rydym ni wedi bod yn gefnogol o undebau credyd ar draws Cymru yn y gorffennol, gan weithio gyda sefydliadau fel Canolfan Cydweithredol Cymru, os cofiaf yn iawn. Mae'r Aelod wedi crybwyll yr Alban ddwywaith nawr. A fyddwn ni'n gweld cynghrair rhwng yr SNP a'r Ceidwadwyr, o ystyried ei eiriau gwresog am Senedd yr Alban?

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, First Minister. Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Cynlluniau Prentisiaeth

Questions to the Minister for Education and Skills

Apprenticeship Schemes

14:16 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r ddarpariaeth o leoedd ar gynlluniau prentisiaeth yng Nghymru yn ystod 2015/16? OAQ(4)0486(ESK)
1. What assessment has the Minister made of the provision of places on apprenticeship schemes in Wales during 2015/16? OAQ(4)0486(ESK)

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I believe that the Deputy Minister for Skills and Technology is answering this question; am I right? Credaf fod y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn ateb y cwestiwn hwn; ydw i'n iawn?

14:16 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills
That would be appropriate, I would have thought. Byddai hynny'n briodol, mi fyddwn i'n meddwl. [Chwerthin.]
[Laughter.]

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Would you like to sit down, then? A hoffech chi eistedd i lawr, te?

14:17 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I was not going to answer the question. [Laughter.] Nid oeddwn i'n mynd i ateb y cwestiwn. [Chwerthin.]

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Deputy Minister. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

14:17 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology
Thank you, Presiding Officer. Apprenticeships funding is directed towards entrants aged 16-24, to ensure that young people in Wales receive the skills they need to progress in their chosen careers, and entrants of any age to higher apprenticeships. We will procure approximately 19,500 apprenticeships across Wales in 2015-16.
Diolch, Lywydd. Caiff cyllid prentisiaethau ei gyfeirio tuag at ymgeiswyr 16-24 oed, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru'n cael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd yn y gyrfaedd o'u dewis, ac ymgeiswyr o unrhyw oed i brentisiaethau uwch. Byddwn yn caffael tua 19,500 o brentisiaethau ledled Cymru yn 2015-16.

14:17 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, for that answer. In 2013-14, the budget for apprenticeship schemes was £105 million. The draft budget for 2015-16 indicates that the entire budget will be £101 million. According to the training providers' governing body, the National Training Federation Wales, the cuts to the apprenticeship budget could be as much as £30 million. Would the Deputy Minister confirm exactly how much money will be available to commission new-start apprenticeships in Wales for the next budget year?

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am yr ateb yna. Yn 2013-14, roedd y gyllideb ar gyfer cynlluniau prentisiaeth yn £105 miliwn. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 yn dangos y bydd y gyllideb gyfan yn £101 miliwn. Yn ôl corff llywodraethu'r darparwyr hyfforddiant, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, gallai'r toriadau i'r gyllideb prentisiaethau fod cymaint â £30 miliwn. A wnaiff y Dirprwy Weinidog gadarnhau faint yn union o arian fydd ar gael i gomisiynu dechrau prentisiaethau newydd yng Nghymru yn y flwyddyn gyllideb nesaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member for South Wales Central has a very interesting take on cuts to public services, as we heard during First Minister's questions. We have done our very best to protect the apprenticeship programmes in Wales, but we are affected, of course, by savage cuts to our budgets from the UK Government. We have here one of the most successful apprenticeship programmes in Europe, which has exceeded all of the targets that we have set over the last two years.

Mae gan Aelod Canol De Cymru farn ddiddorol iawn am doriadau i wasanaethau cyhoeddus, fel y clywsom yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog. Rydym wedi gwneud ein gorau glas i amddiffyn y rhaglenni prentisiaethau yng Nghymru, ond, wrth gwrs, mae toriadau llym i'n cyllidebau gan Lywodraeth y DU yn effeithio arnom. Mae gennym yma un o'r rhaglenni prentisiaethau mwyaf llwyddiannus yn Ewrop, sydd wedi rhagori ar bob un o'r targedau a osodwyd gennym yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have had the worst settlement that we have known since the Assembly started. However, within that settlement, we have done our level best to protect the most vulnerable in our society and those who need training the most. Nobody wants to be in this position, least of all me, but we will not forget the people who have already started their apprenticeship training, who will all be allowed to complete their training. We are in an unenviable position of having to reduce the number of first entrants. Nevertheless, this will remain at 19,500, which is still an extremely good level for apprenticeship training, both in Wales and, indeed, in comparison with any other UK nation.

Rydym wedi cael y setliad gwaethaf yr ydym wedi'i weld ers i'r Cynulliad ddechrau. Fodd bynnag, o fewn y setliad hwnnw, rydym wedi gwneud ein gorau glas i warchod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a'r bobl sydd fwyaf angen hyfforddiant. Nid oes unrhyw un eisiau bod yn y sefyllfa hon, yn enwedig fi, ond ni wnawn anghofio'r bobl sydd eisoes wedi dechrau eu hyfforddiant prentisiaeth—caiff pob un ohonynt gwblhau ei hyfforddiant. Rydym yn y sefyllfa annymunol o orfod lleihau nifer y dechreuwyr cyntaf. Serch hynny, bydd y nifer yn dal i fod yn 19,500, sy'n dal i fod yn lefel eithriadol o dda ar gyfer hyfforddiant prentisiaethau, yng Nghymru ac, yn wir, o'i gymharu ag unrhyw wlad arall yn y DU.

We are targeting our support on learners aged between 14 and 19 and those in higher-level apprenticeships quite deliberately, because we are targeting those who need our help most. We are also asking our employers to step up to the plate for those who are in employment already, because a large number of the people who are outwith the two groups that I have mentioned are already in employment of one sort or another. We are asking our employers to step up to the plate where the training particularly affects employment for particular industry groups. I have had a number of discussions with employer groups over the last couple of weeks.

Rydym yn targedu ein cymorth at ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed a'r rhai hynny mewn prentisiaethau lefel uwch yn gwbl fwrriadol, oherwydd ein bod yn targedu'r rhai sydd fwyaf angen ein cymorth. Rydym hefyd yn gofyn i'n cyflogwyr gamu i'r adwy dros y rheini sydd eisoes mewn cyflogaeth, gan fod nifer fawr o'r bobl sydd y tu allan i'r ddau grŵp yr wyf wedi'u crybwyll eisoes mewn cyflogaeth o ryw fath neu'i gilydd. Rydym yn gofyn i'n cyflogwyr gamu i'r adwy pan fo'r hyfforddiant yn cael effaith arbennig o fawr ar gyflogaeth i grwpiau diwydiant penodol. Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda grwpiau cyflogwyr yn ystod y pythefnos diwethaf.

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have more people who want to ask questions, so I ask you to come to a conclusion.

Mae gennyf fwy o bobl sydd am ofyn cwestiynau, felly gofynnaf ichi ddod i gasgliad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It requires a full answer, I think, because it is an important point. We have had a number of discussions with those employer groups, so we hope that we can maintain some of our programmes, despite the savage cuts that we have experienced. Sorry, Presiding Officer.

Mae'n haeddu ateb llawn, rwyf yn meddwl, gan ei fod yn bwynt pwysig. Rydym wedi cael nifer o drafodaethau gyda'r grwpiau cyflogwyr hynny, felly rydym yn gobeithio y gallwn gadw rhai o'n rhaglenni, er gwaethaf y toriadau llym yr ydym wedi'u profi. Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, of course, what the leader of the opposition really objects to is the success of our apprenticeship scheme, where the completion rate is more than 10 points ahead of equivalent schemes in England. Also, at the end of this month, I will be attending the National Training Federation Wales's annual conference, and I know that you will be addressing that conference. Do you agree that critical to the success of our scheme was our decision last year, together with support during the last financial year from Plaid Cymru, to expand higher-level apprenticeships so that we can work with employers, work-based learning providers and trade unions to provide the highly skilled jobs and training opportunities that the Welsh workforce needs?

Ddirprwy Weinidog, wrth gwrs, yr hyn y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei wrthwynebu mewn gwirionedd yw llwyddiant ein cynllun prentisiaethau. lle mae'r gyfradd gwblhau'n fwy na 10 pwynt ar y blaen i gynlluniau cyfatebol yn Lloegr. Hefyd, ar ddiwedd y mis hwn, byddaf yn bresennol yng nghynhadledd flynyddol Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, a gwn y byddwch yn annerch y gynhadledd honno. A ydych chi'n cytuno mai un peth a oedd yn hanfodol i lwyddiant ein cynllun oedd ein penderfyniad y llynedd, ynghyd â chefnogaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf gan Blaid Cymru, i ehangu prentisiaethau lefel uwch fel y gallwn weithio gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu yn y gwaith ac undebau llafur i ddarparu'r swyddi crefftus a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd eu hangen ar weithlu Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. I absolutely agree with Jeff Cuthbert on that. Higher apprenticeships are relatively new. We introduced them in 2011, as the Member will know, in order to extend vocational pathways at levels 4, 5 and 6, and, in some cases, at level 7. They aim to increase the number of higher level technicians operating in Wales. We aim to raise the status of apprenticeships across the board, and we have been successful in doing that.

Diolch am y cwestiwn yna. Cytunaf yn llwyr â Jeff Cuthbert ar hynny. Mae prentisiaethau uwch yn gymharol newydd. Cyflwynwyd hwy gennym yn 2011, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, er mwyn ymestyn llwybrau galwedigaethol ar lefelau 4, 5 a 6, ac, mewn rhai achosion, ar lefel 7. Eu nod yw cynyddu nifer y technegwyr lefel uwch sy'n gweithredu yng Nghymru. Ein nod yw codi statws prentisiaethau yn gyffredinol, ac rydym wedi bod yn llwyddiannus yn hynny o beth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Working with the National Training Federation Wales, we now have more learners than ever studying for higher apprenticeships, something of which we are very proud indeed. We had 2,470 distinct learners undertaking higher apprenticeships between August 2012 and July 2013, for example, and the sectors receiving support include engineering, management and finance. Therefore, we are very proud of those apprenticeships.

Gan weithio gyda Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, mae gennym bellach fwy o ddysgwyr nag erioed yn astudio ar gyfer prentisiaethau uwch—rhywbeth yr ydym yn falch iawn ohono'n wir. Roedd gennym 2,470 o wahanol ddysgwyr yn dilyn prentisiaethau uwch rhwng Awst 2012 a Gorffennaf 2013, er enghraifft, ac mae'r sectorau sy'n cael cymorth yn cynnwys peirianeg, rheolaeth a chyllid. Felly, rydym yn falch iawn o'r prentisiaethau hynny.

14:21

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod blaenorol am gyfeirio at y cytundeb â Phlaid Cymru yn y maes hwn, ond a fydddech yn cytuno fod torri'r gyllideb o fewn y flwyddyn ariannol bresennol mewn gwirionedd yn torri ysbryd y cytundeb hwnnw?

I am grateful to the previous speaker for referring to the agreement with Plaid Cymru in this field, but do you agree that cutting the budget during the current financial year breaks the spirit of that agreement?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No. I do not agree with that at all. We have been able to protect a large number of the apprenticeships that we have in place, and I am delighted to have been able to do that. We are able to protect everybody who has already started on an apprenticeship course, which is essential. Therefore, we have protected that cohort but we have, sadly, had to reduce the number of beginners. We have, as I said earlier, focused that response very much on the priority area, which I think most people in this Chamber agree with, and we are working hard with our employers to fill in the gaps wherever we can. Therefore, as I said before, nobody wants to be in this position and it is not a position of our own making, but I think that we have done the very best in the circumstances.

Na. Nid wyf yn cytuno â hynny o gwbl. Rydym wedi gallu gwarchod nifer fawr o'r prentisiaethau sydd gennym ar waith, ac rwyf wrth fy modd ein bod wedi gallu gwneud hynny. Rydym yn gallu diogelu pawb sydd eisoes wedi dechrau ar gwrs prentisiaeth, sy'n hanfodol. Felly, rydym wedi diogelu'r garfan honno ond, yn anffodus, roedd rhaid inni leihau nifer y dechreuwyr. Rydym, fel y dywedais yn gynharach, wedi canolbwyntio'r ymateb hwnnw'n gryf iawn ar y maes blaenoriaeth—rwyf yn meddwl bod y rhan fwyaf o bobl yn y Siambr hon yn cytuno â hynny—ac rydym yn gweithio'n galed gyda'n cyflogwyr i lenwi'r bylchau lle bynnag y gallwn. Felly, fel y dywedais o'r blaen, nid oes ar neb eisiau bod yn y sefyllfa hon ac nid ni greodd y sefyllfa, ond rwyf yn credu ein bod wedi gwneud y gorau y gallwn dan yr amgylchiadau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig

Children with Special Educational Needs

- 14:22 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r ddarpariaeth o wasanaethau i blant ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru? OAQ(4)0483(ESK) 2. Will the Minister outline the provision of services for children with special educational needs in Wales? OAQ(4)0483(ESK)
- 14:22 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 I thank the Member for North Wales. Local authorities are responsible for providing educational services for all pupils, including those with special educational needs. Through future reform of the SEN framework and our focus on a skilled workforce, we are ensuring that education providers are supported to deliver high-quality educational provision to all learners. Diolch i'r Aelod os Ogledd Cymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau addysgol i bob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig. Drwy ddiwygio'r fframwaith AAA yn y dyfodol a chanolbwyntio ar weithlu medrus, rydym yn sicrhau bod darparwyr addysg yn cael eu cefnogi i gyflwyno darpariaeth addysgol o safon uchel i bob dysgwr.
- 14:23 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 I am a representative and chair of the cross-party group on autism, and we frequently still hear from parents who have been told that they must have assessment and diagnosis before accessing certain schools or educational provision. Further, when they get the diagnosis, there is no follow-up intervention provided for them. How do you, therefore, respond to calls for the assessment, diagnosis and intervention to be separated? I appreciate that this is not solely within your portfolio, but is this something that you would consider discussing with colleagues in other portfolios to address this constantly repeated concern? Rwyf yn gynrychiolydd ac yn gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar awtistiaeth, ac rydym yn aml yn dal i glywed gan rieni sydd wedi cael gwybod bod rhaid iddynt gael asesiad a diagnosis cyn cael mynediad i rai ysgolion neu ddarpariaethau addysgol. Hefyd, pan gânt y diagnosis, nid oes ymyrraeth ddilynol yn cael ei darparu ar eu cyfer. Sut yr ydych chi, felly, yn ymateb i alwadau am wahanu asesu, diagnosis ac ymyrraeth? Rwyf yn sylweddoli nad yw'r maes hwn i gyd o fewn eich portffolio chi, ond a yw hyn yn rhywbeth y byddech chi'n ystyried ei drafod gyda chydweithwyr mewn portffolios eraill i roi sylw i'r pryder hwn a ailadroddir yn gyson?
- 14:23 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Yes. That is an important question, and I pay tribute to the work that the Member has undertaken on behalf of this group of parents and those young people. Our 'Autistic Spectrum Disorder Strategic Action Plan for Wales' was published in 2008, and it set the direction for statutory authorities to follow. Officials are presently working with an advisory group to refresh the ASD strategic action plan, and that will focus on priorities for action identified by stakeholders, which includes diagnostic services. The refreshed strategy document will be issued for consultation early in the new year, and the final document will be launched in the summer. As part of the refresh of the ASD strategic action plan, we will bring together a children's diagnostic task and finish group on an all-Wales basis to seek improvements in the diagnostic pathway and, where there are delays, to reduce waiting times. Ydy. Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig, a thalaf deyrnged i'r gwaith y mae'r Aelod wedi'i wneud ar ran y grŵp hwn o rieni a'r bobl ifanc hynny. Cafodd ein 'Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwyldeu'r Sbectrum Awstistig' ei gyhoeddi yn 2008, ac roedd yn gosod y cyfeiriad i awdurdodau statudol ei ddilyn. Mae swyddogion wrthi'n gweithio gyda grŵp ymgynghorol ar hyn o bryd i adnewyddu'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer ASA, a bydd hynny'n canolbwyntio ar flaenoriaethau gweithredu a nodwyd gan randdeiliaid, sy'n cynnwys gwasanaethau diagnostig. Caiff y ddogfen strategaeth ddiwygiedig ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a chaiff y ddogfen derfynol ei lansio yn yr haf. Yn rhan o'r gwaith o adnewyddu'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer ASA, byddwn yn dwyn ynghyd grŵp gorchwyl a gorffen diagnostig i blant ar sail Cymru gyfan i geisio gwelliannau yn y llwybr diagnostig a, lle ceir oediadau, i leihau amseroedd aros.
- 14:24 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Some pupils will have their provision protected as a statutory duty on the local authority, but many pupils with additional needs do not have statutory protection. Therefore, will the cuts to local government result in a loss of services to that group? I am sure that you would accept that local authorities will do their best to protect provision for this group but that the savage cuts may endanger provision. Caiff darpariaeth rhai disgyblion ei diogelu fel dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol, ond mae llawer o ddisgyblion ag anghenion ychwanegol nad oes ganddynt warchodaeth statudol. Felly, a fydd y toriadau i lywodraeth leol yn golygu y bydd y grŵp hwnnw yn colli gwasanaethau? Rwyf yn siŵr y byddech yn derbyn y bydd awdurdodau lleol yn gwneud eu gorau i ddiogelu darpariaeth i'r grŵp hwn, ond y gall y toriadau llym beryglu darpariaethau.

14:25	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, of course, this is something that we must guard against, and it is for local authorities to ensure that these vulnerable young people are provided for correctly and to the proper extent. We are working on a new legislative framework around all of this provision, which I hope will assist everybody, parents and young people included, to see greater clarity and easier routes through what is quite a complex system at the moment. I would encourage all-party involvement, and I have seen all-party engagement with the positive aspects of that legislation as it unfolds.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ymochel rhagddo, a mater i awdurdodau lleol yw sicrhau eu bod yn darparu'n gywir ac i'r graddau priodol ar gyfer y bobl ifanc agored i niwed hyn. Rydym yn gweithio ar fframwaith deddfwriaethol newydd o amgylch yr holl ddarpariaeth hon, a gobeithiaf y bydd hwnnw'n cynorthwyo pawb, gan gynnwys rhieni a phobl ifanc, i weld mwy o eglurder a llwybrau haws drwy'r system hon sy'n eithaf cymhleth ar hyn o bryd. Byddwn yn annog ymglymiad yr holl bleidiau, ac rwyf wedi gweld ymgysylltiad pob plaid ag agweddau cadarnhaol y ddeddfwriaeth honno wrth iddi ddatblygu.</p>
14:25	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, what steps is the Government taking to ensure timely access for children to educational psychologists, and what role do you see for those professionals in your reforms?</p>	<p>Weinidog, pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod seicolegwyr addysg ar gael i blant yn brydlon, a pha swyddogaeth yr ydych chi'n ei rhagweld i'r gweithwyr proffesiynol hynny yn eich diwygiadau?</p>
14:26	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The Member is quite right to highlight the importance of educational psychology, and my officials continue to work with the Welsh Local Government Association and the Higher Education Funding Council for Wales to identify a sustainable model for the longer-term provision of training for educational psychologists in Wales. That is one aspect of things that we need to get right, and that is not where we need it to be at the moment.</p>	<p>Mae'r Aelod yn hollol iawn i dynnu sylw at bwysigrwydd seicoleg addysg, ac mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i ganfod model cynaliadwy ar gyfer darpariaeth hyfforddiant fwy hirdymor i seicolegwyr addysgol yng Nghymru. Mae hynny'n un agwedd ar bethau y mae angen inni ei chael yn iawn, ac nid yw'n iawn ar hyn o bryd.</p>
	<p>The role of educational psychologists will be as critical, in my view, to our proposed legislative system for supporting additional learning needs as it is to the current SEN system. I think that it is worth my stating that. Officials have recently met representatives of the Association of Educational Psychologists and will be working closely with these and other stakeholders over the coming months to develop a draft code on ALN.</p>	<p>Bydd swyddogaeth seicolegwyr addysg yr un mor hanfodol, yn fy marn i, i'n system ddeddfwriaethol arfaethedig i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol ag y mae i'r system AAA bresennol. Rwyf yn meddwl ei bod yn werth imi ddatgan hynny. Yn ddiweddar, cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg a byddant yn cydweithio'n agos â'r rhain a rhanddeiliaid eraill dros y misoedd nesaf i ddatblygu cod drafft ar ADY.</p>
	Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau	Questions Without Notice from Party Spokespeople
14:26	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>First this afternoon is the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.</p>	<p>Y cyntaf y prynhawn yma yw llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.</p>
14:27	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Weinidog, beth sydd wedi mynd o'i le gyda rheoli ansawdd ym Mhrifysgol Glyndŵr?</p>	<p>Minister, what has gone wrong with quality control at Glyndŵr University?</p>

- 14:27 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The issues facing Glyndŵr University at the moment are many and complex. I know that HEFCW has been working with it very closely to ensure that we get through the current period of instability, where there have been multiple blows, really, to the stability and prospects of Glyndŵr University, and get through as quickly as possible to a period where we can stabilise the institution. I know that there is a great deal of goodwill on all sides, and I can commit in that regard on the part of the Welsh Government. We are absolutely committed to seeing a successful, thriving higher education presence in north-east Wales that is integrated to the educational, social and economic needs of the north-east.
- Mae'r materion sy'n wynebu Prifysgol Glyndŵr ar hyn o bryd yn niferus ac yn gymhleth. Gwn fod CCAUC wedi bod yn gweithio gyda hwy'n agos iawn i sicrhau ein bod yn dod drwy'r cyfnod presennol o ansefydlogrwydd, pryd y cafwyd llawer o ergydion, mewn gwirionedd, i sefydlogrwydd a rhagolygon Prifysgol Glyndŵr, a dod drwodd cyn gynted ag y bo modd i sefyllfa lle gallwn sefydlogi'r sefydliad. Gwn fod llawer iawn o ewyllys da ar bob ochr, a gallaf ymrwymo yn hynny o beth ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwbl ymrwymedig i weld presenoldeb addysg uwch llwyddiannus, ffyniannus yn y gogledd-ddwyrain sydd wedi'i integreiddio i anghenion addysgol, cymdeithasol ac economaidd y gogledd-ddwyrain.
- 14:28 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, diolch am yr ateb, er nad oedd yn ateb, a dweud y gwir. Er fy mod yn cydsynio â'ch gwledigaeth o addysg uwch yn y gogledd-ddwyrain, mae sefyllfa lle rhoddwyd fisas i fyfyrwyr nad oeddent yn medru'r Saesneg yn mynd at galon egwyddorion ansawdd. Felly, a ydych yn teimlo bod y gyfundrefn diogelu ansawdd yn ein prifysgolion yn ddigonol?
- Minister, thank you for the reply, although it was not really a reply. Although I agree with your vision for higher education in north-east Wales, the situation where visas were given to students who could not speak English goes to the heart of quality principles. Therefore, do you feel that quality control system on our universities is adequate?
- 14:28 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, the visa application process and all of the regulations that go along with that, as Simon Thomas is well aware, are not devolved and are currently being worked through at Westminster. Like him, I am waiting for a rapid resolution to the issues that are facing Glyndŵr, because we must have clarity as soon as possible. However, I do commit that, from the Welsh Government perspective, when we have clarity around that and other matters, we will move swiftly forward to discussing the future of Glyndŵr, because I think that that is where we need to be in terms of the agenda for HE in north-east Wales.
- Wel, wrth gwrs, nid yw'r broses o wneud cais am fisa a'r holl reoliadau sy'n cyd-fynd â hynny, fel y mae Simon Thomas yn ei wybod yn iawn, wedi'i datganoli ac mae San Steffan yn gweithio ar hynny ar hyn o bryd. Fel yntau, rwyf yn aros am ddatrysiaid cyflym i'r materion sy'n wynebu Glyndŵr, oherwydd mae'n rhaid inni gael eglurder cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, rwyf yn ymrwymo, o safbwynt Llywodraeth Cymru, pan gawn ni eglurder ynghylch hynny a materion eraill, y byddwn yn symud ymlaen yn gyflym at drafod dyfodol Glyndŵr, oherwydd credaf mai dyna ble mae angen inni fod o ran yr agenda ar gyfer addysg uwch yn y gogledd-ddwyrain.
- 14:29 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, er nad yw pob dim wedi ei ddatganoli, nid oes dwywaith mai'r corff sy'n gyfrifol am ddiogelu ansawdd yng Nghymru yw'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, sy'n elusen annibynnol dros wledydd Prydain i gyd. Pryd, felly, fel Gweinidog, oeddech yn ymybodol fod y corff cyllido addysg uwch yn Lloegr am chwalu'r gyfundrefn sicrhau ansawdd yn ein prifysgolion ni, a beth ydych yn ei wneud am hynny?
- Minister, although not all aspects have been devolved, there is no doubt that the body responsible for quality assurance in Wales is the Quality Assurance Agency for Higher Education, which is an independent charity covering the whole of the UK. When, therefore, did you, as Minister, become aware that the higher education funding body in England wanted to abolish the quality assurance regime in our universities, and what are you doing about it?
- 14:29 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Discussions on this and other matters continue on a day-to-day basis. If the Member wishes for me to rake back through my diary to find out exactly when we were made aware of such-and-such a development, then I will gladly write to him with the information.
- Mae trafodaethau ynglŷn â hyn a materion eraill yn parhau o ddydd i ddydd. Os hoffai'r Aelod imi chwilio'n ôl drwy fy nyddiadur i ddarganfod pryd yn union y cawsom wybod am ryw ddatblygiad neu'i gilydd, byddaf yn falch o ysgrifennu ato gyda'r wybodaeth.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We will move on to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.
- Symudwn ymlaen atlafarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

14:29

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, roedd eich datganiad wythnos diwethaf o ran polisi 'Cymwys am Oes' yn ddibynnol iawn ar weithredu o ran y consortia. A gaf ofyn i chi felly, wrth ystyried bod model cenedlaethol mewn grym ers mis Tachwedd y llynedd, pa gamau ydych chi'n eu cymryd fel Llywodraeth i sicrhau bod undod o ran y ffordd y mae'r consortia yn gweithredu?

Minister, your statement last week on the 'Qualified for Life' policy was very dependent on action by the consortia. May I ask you therefore, in considering that a national model has been in force since November of last year, what steps are you taking as a Government to ensure that there is unity in the way the consortia work?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:30

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is quite right to say that good working on the part of consortia is an essential element of what 'Qualified for Life: An Education Improvement Plan for Wales' is calling for. 'Qualified for Life' is the high-level strategic document that provides a framework for all actors within the Welsh educational sector, myself included, as well as local authorities and professionals working in our schools, colleges and universities. In terms of consistency between consortia, we do expect them to co-operate with each other and to work peer to peer. The Member will also be aware that Estyn will be tasked with inspecting the consortia across Wales to ensure that local government and ourselves are getting what we expect from good consortium working.

Mae'n hollol gywir i ddweud bod gwaith da ar ran y consortia'n elfen hanfodol ar yr hyn y mae 'Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg i Gymru' yn galw amdano. 'Cymwys am Oes' yw'r ddogfen strategol lefel uchel sy'n darparu fframwaith i'r holl weithredwyr yn sector addysg Cymru, gan fy nghynnwys i, yn ogystal ag awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein hysgolion, ein colegau a'n prifysgolion. O ran cysondeb rhwng consortia, rydym yn disgwyl iddynt gydweithredu â'i gilydd a chydweithio fel cymheiriaid. Bydd yr Aelod hefyd yn gwybod mai Estyn fydd yn cael y dasg o archwilio'r consortia ledled Cymru i sicrhau bod llywodraeth leol a ninnau'n cael yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl o waith consortiwm da.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:31

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What concerns me is that your expectations may be high as far as the consortia are concerned, but evidence some 12 months on from when consortia were introduced, or when the national model was introduced, increasingly suggests that there is no consistency. I did write to you previously with regard to the pupil deprivation grant and asked what information was being collated. You told me that that was being collated by the consortia. However, when I wrote to the four consortia, only one of them had advised its schools to publish information online, another used information collated by the local authorities, and two indicated that they do not monitor the expenditure of the pupil deprivation grant at all.

Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw bod eich disgwyliadau'n uchel o ran y consortia, ond mae tystiolaeth o tua 12 mis ar ôl cyflwyno'r consortia, neu gyflwyno'r model cenedlaethol, yn awgrymu fwyfwy nad oes unrhyw gysondeb. Fe wnes i ysgrifennu atoch o'r blaen ynglŷn â'r grant amddifadedd disgyblion, gan ofyn pa wybodaeth oedd yn cael ei chasglu. Dywedasoch wrthyf fod y consortia'n casglu'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, pan ysgrifennais at y pedwar consortiwm, dim ond un ohonynt oedd wedi cynghori ei ysgolion i gyhoeddi gwybodaeth ar-lein, roedd un arall yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan yr awdurdodau lleol, a dywedodd dau nad ydynt yn monitro gwariant y grant amddifadedd disgyblion o gwbl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have not seen those responses from consortia that he refers to, and I would be concerned if that was the case. I have made it clear more than once that consortia do indeed have a role in making sure that the pupil deprivation grant is delivered well and delivered for the purpose for which it was intended. I have it made it repeatedly clear that the pupil deprivation grant is there to break down the link between poverty and lower attainment in our schools, and consortia cannot shirk their part in the responsibility for those matters. It is also a matter, of course, for the individual schools and headteachers and chairs of governors. Well, governing bodies share equally as much responsibility in making sure that this money is delivered for the purpose for which it was intended.

Nid wyf wedi gweld yr ymatebion hynny gan y consortia y mae'n cyfeirio atynt, a byddwn yn poeni pe byddai hynny'n wir. Rwyf wedi ei gwneud yn eglur fwy nag unwaith bod gan consortia yn sicr ran i'w chwarae o ran sicrhau bod y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddarparu'n dda a'i ddarparu at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer. Rwyf wedi ei gwneud yn glir dro ar ôl tro bod y grant amddifadedd disgyblion yno i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad is yn ein hysgolion, ac ni all consortia osgoi eu rhan yn y cyfrifoldeb am y materion hynny. Mae hefyd yn fater, wrth gwrs, i'r ysgolion, y penaethiaid a'r cadeiryddion llywodraethwyr unigol. Wel, mae cyrff llywodraethu yn rhannu llawn cymaint o gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod yr arian hwn yn cael ei ddarparu at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I ask, though, how Assembly Members, local councillors and others involved in education are able to hold these consortia to account? It is very difficult to actually establish what they do. For example, only one consortia has an active website, from what I see. I tried to access minutes of consortia meetings on that website today, which to its credit, was north Wales, but I am not actually entitled to see most of the information because I have to have a PIN that is given by the consortia. So, given all the emphasis that the Government has placed on these consortia delivering where local authorities have previously failed, how do we actually hold those consortia to account in the absence of any information, particularly given that one of the consortia told me that it did not believe in publishing information in any event?

A gaf i ofyn, fodd bynnag, sut mae Aelodau'r Cynulliad, cynghorwyr lleol ac eraill sy'n ymwneud ag addysg yn gallu dwyn y consortia hyn i gyfrif? Mae'n anodd iawn sefydlu beth yn union y maent yn ei wneud. Er enghraifft, dim ond un consortia sydd â gwefan ar waith, o'r hyn y gallaf ei weld. Bûm yn ceisio cael gafael ar gofnodion cyfarfodydd consortia ar y wefan honno heddiw—consortium y gogledd ydoedd, er clod iddo—ond nid oes gennyf hawl mewn gwirionedd i weld y rhan fwyaf o'r wybodaeth gan fod rhaid imi gael PIN wedi'i roi gan y consortia. Felly, o ystyried yr holl bwyslais y mae'r Llywodraeth wedi'i roi ar y consortia hyn yn cyflawni pan fo awdurdodau lleol wedi methu o'r blaen, sut yr ydym ni mewn gwirionedd yn dwyn y consortia hynny i gyfrif yn absenoldeb unrhyw wybodaeth, yn enwedig ac ystyried bod un o'r consortia wedi dweud wrthyf nad oedd yn credu mewn cyhoeddi gwybodaeth beth bynnag?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that Aled Roberts is fundamentally confused about the role of consortia and what they do. I find that—well, disturbing, but not from my point of view, although it might well be disturbing from a Liberal Democrat point of view if their spokesperson does not quite get it. Consortia are tasked with school improvement. They are essentially that school improvement arm of local authorities, as we knew it, working at a regional level to deliver capacity and consistency across each consortium area, enabling us to have a national standard by which we hold everyone to account. So, quite simply put, consortia are there to drive school improvement.

Credaf fod Aled Roberts yn sylfaenol ddryslud ynglŷn â swyddogaeth consortia a'r hyn y maent yn ei wneud. Rwyf yn gweld hynny—wel, yn destun pryder, ond nid o fy safbwynt i, ond mae'n debyg iawn y bydd yn destun pryder i'r Democratiaid Rhyddfrydol os nad yw eu llfarydd yn deall hyn yn iawn. Tasg consortia yw gwella ysgolion. Yn y bôn, hwy yw cangen gwella ysgolion awdurdodau lleol, fel yr oedd yn arfer bod, ac maent yn gweithio ar lefel rhanbarthol i ddarparu capasiti a chysondeb ar draws pob ardal consortium, gan ein galluogi i gael safon genedlaethol a ddefnyddiwn i ddwyn pawb i gyfrif. Felly, yn syml, mae'r consortia yno i sbarduno gwella ysgolion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Paul Davies.

Symudwn yn awr at lefarydd Ceidwadwyr Cymru, Paul Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, last week, the shadow Secretary of State for Education said that he wanted a public oath for teachers in England. Is this something that you would support here in Wales?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid dros Addysg fod arno eisiau llw cyhoeddus ar gyfer athrawon yn Lloegr. A yw hyn yn rhywbeth y byddech o'i blaid yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I must say that I have not spoken to my colleague, the shadow Secretary of State, in connection with the oath, either before or after the announcement. It is always interesting to read what the thinking is of colleagues across the border. I have to say that it is not an issue that has raised itself as a proposal in my mind, or indeed in the minds of anyone else I am aware of, connected with education here in Wales. However, it is always interesting to take a look at alternative ideas.

Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf wedi siarad â fy nghydweithiwr, Ysgrifennydd Gwladol yr wrthblaid, ynglŷn â'r llw, naill ai cyn nac ar ôl y cyhoeddiad. Mae bob amser yn ddiddorol darllen yr hyn y mae ein cydweithwyr ar draws y ffin yn ei feddwl. Mae'n rhaid imi ddweud nad yw'n fater sydd wedi codi ei hun fel cynnig yn fy meddwl i, nac yn wir ym meddyliau unrhyw un arall yr wyf yn ymwybodol ohono, mewn cysylltiad ag addysg yma yng Nghymru. Fodd bynnag, mae bob amser yn ddiddorol edrych ar syniadau eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I am surprised that the Minister cannot give me a straightforward answer to a straightforward question. However, I believe that our teachers are already giving their all, and are our most valuable asset. Now, this makes the comments recently by NASUWT all the more pressing. They have called Estyn 'not fit for purpose', and they have said that workloads are destroying the morale of teachers. Given that NASUWT is the biggest union here in Wales, what have you done to address some of these concerns?

Wel, rwyf yn synnu na all y Gweinidog roi ateb syml i gwestiwn syml imi. Fodd bynnag, credaf fod ein hathrawon eisoes yn gwneud eu gorau glas, ac mai hwy yw ein hased fwyaf gwerthfawr. Nawr, mae hyn yn gwneud y sylwadau diweddar gan NASUWT yn bwysicach fyth. Maent wedi galw Estyn yn 'anaddas i'w ddiben', ac maent wedi dweud bod llwythi gwaith yn dinistrio ysbryd athrawon. O ystyried mai NASUWT yw'r undeb mwyaf yma yng Nghymru, beth yr ydych wedi'i wneud i ymdrin â rhai o'r pryderon hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:36 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, you know, Presiding Officer, if the Conservative Party intends to reap the backing of the NASUWT, I applaud its efforts, but I feel that it might take some time, really, for that kind of conversion to filter its way through to the teacher at the chalkface.

Wel, wyddoch chi, Lywydd, os yw'r Blaid Geidwadol yn bwriadu elwa ar gefnogaeth NASUWT, rwyf yn cymeradwyo eu hymdrechion, ond rwyf yn teimlo y gallai gymryd cryn amser, mewn gwirionedd, i'r math hwnnw o newid effeithio ar athrawon yn y dosbarth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

However, let me say this in connection with the NASUWT's comments—and it is nothing that I would not say to its leadership face to face—it does no good to the teaching profession, or to the ongoing dialogue between teachers and the Welsh Government, to indulge in hyperbole. I am afraid that the recent comments from the NASUWT in connection with Estyn are no more than that: they are hyperbolic. They are really, I am afraid, possibly put together by cutting and pasting a press release coming out of London, referring to England, and it is just, 'for Wales, read England'. Now, that is not good enough in terms of devolved politics and policy development. The NASUWT has to move beyond it.

Fodd bynnag, dewch imi ddweud hyn mewn cysylltiad â sylwadau NASUWT—ac nid yw'n rhywbeth na fyddwn yn ei ddweud wrth eu harweinwyr wyneb yn wyneb—nid yw ymbleseru mewn gormodiath yn gwneud unrhyw les i'r proffesiwn addysgu, nac i'r ddeialog barhaus rhwng athrawon a Llywodraeth Cymru. Mae arnaf ofn mai dyna'r oll yw'r sylwadau diweddar gan NASUWT ynglŷn ag Estyn: gormodiath. Maent mewn gwirionedd, mae arnaf ofn, wedi'u rhoi at ei gilydd o bosibl drwy dorri a gludo datganiad i'r wasg a ddaeth o Lundain, yn cyfeirio at Loegr, ac mae'n fater o, 'ar gyfer Cymru, gweler Lloegr'. Nawr, nid yw hynny'n ddigon da o ran gwleidyddiaeth ddatganoledig a datblygu polisi. Mae'n rhaid i NASUWT symud y tu hwnt ei hynny.

14:37 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I am sure that the NASUWT will be listening to your comments with interest, Minister.

Wel, rwyf yn siŵr y bydd NASUWT yn gwrandao ar eich sylwadau â diddordeb, Weinidog.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Now, we have new GCSEs coming in next year, we have your initial training teacher plans in the 'Qualified for Life' document, and we have a curriculum review due to be published soon. Therefore, we have a raft of reforms for teachers coming in over the coming months. What actions are you taking to ensure that the voices of teachers are heard in the decision-making process?

Nawr, mae gennym TGAU newydd yn dod i mewn y flwyddyn nesaf, mae gennym eich cynlluniau hyfforddiant cychwynnol athrawon yn y ddogfen 'Cymwys am Oes', a chaiff adolygiad o'r cwricwlwm ei gyhoeddi cyn bo hir. Felly, byddwn yn cael llu o ddiwygiadau ar gyfer athrawon yn dod i mewn dros y misoedd nesaf. Pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod lleisiau athrawon yn cael eu clwyed yn y broses o wneud penderfyniadau?

14:37 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the Conservative spokesperson may have missed my commitment to working with the teaching unions and the employers—that is local government—through the social partnership forum, to discuss this and other matters, beginning with the very important issues around the continuing professional development of teachers. That is an area whereby I freely admit that Government needs to step up its game, in terms of support for the profession, in order to get access to gold-standard professional development and training in every corner of Wales, for every teacher. So, that commitment to social partnership is there, and it is an offer that has been readily taken up by every teaching union.

Wel, efallai na chlywodd llefarydd y Ceidwadwyr fy ymrwymiad i weithio gyda'r undebau athrawon a'r cyflogwyr—hynny yw, llywodraeth leol—drwy'r fforwm partneriaeth gymdeithasol, i drafod hyn a materion eraill, gan ddechrau gyda'r materion pwysig iawn sy'n ymwneud a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon. Mae hwnnw'n faes lle'r wyf yn barod iawn i gyfaddef bod angen i'r Llywodraeth wella ei gêm, o ran cefnogi'r proffesiwn, er mwyn sicrhau bod datblygiad a hyfforddiant proffesiynol safon aur ar gael ym mhob cwr o Gymru, ar gyfer pob athro. Felly, mae'r ymrwymiad hwnnw i bartneriaeth gymdeithasol yno, ac mae'n gynnig y mae pob undeb athrawon wedi bod yn hapus i fanteisio arno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We now move back to the questions on the paper. Symudwn yn ôl nawr at y cwestiynau ar y papur.

Buddsoddi ym Maes Addysg

Investment in Education

14:38 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
3. A wnaiff y Gweinidog nodi ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ym maes addysg yn sgîl y cytundeb diweddar ar y gyllideb? OAQ(4)0482(ESK) *3. Will the Minister detail his investment priorities in education in light of the recent budget agreement? OAQ(4)0482(ESK)*

14:39 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the Member for Monmouth for his question. The budget agreement with the Welsh Liberal Democrats reflects our shared commitment to investing in the future of our young people, and supports our commitment to prevention and early intervention. My priorities continue to be raising standards in literacy and numeracy, and breaking the link between deprivation and low attainment. Diolch i'r Aelod dros Fynwy am ei gwestiwn. Mae'r cytundeb cyllideb gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n adlewyrchu ein hymrwymiad ar y cyd i fuddsoddi yn nyfodol ein pobl ifanc, ac yn cefnogi ein hymrwymiad i atal ac ymyrraeth gynnar. Fy mlaenoriaethau i o hyd yw codi safonau llythrennedd a rhifedd, a thorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad isel.

14:39 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister. You would be forgiven for thinking that there was an agreement with the Liberal Democrats, listening to your reaction to Aled Roberts's very pertinent question earlier. Minister, you accused Aled Roberts of being confused; I think that it was actually you who were confused. If there is no effective monitoring of programmes such as the pupil deprivation grant—and it seems to be that there is not, from the consortia that have been mentioned earlier—then there can be no effective scrutiny, and we will not know where this money is being spent, and whether it is being spent effectively or not. Diolch, Weinidog. Byddai rhywun yn maddau ichi am feddwl bod yna gytundeb gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, o wrando ar eich ymateb i gwestiwn perthnasol iawn Aled Roberts yn gynharach. Weinidog, mi wnaethoch gyhuddo Aled Roberts o fod yn ddryslyd; rwyf yn meddwl mewn gwirionedd mai chi a oedd yn ddryslyd. Os na chaiff rhaglenni fel y grant amddifadedd disgyblion eu monitro'n effeithiol—ac mae'n ymddangos nad yw hynny'n digwydd, o'r consortia a gafodd eu crybwyll yn gynharach—ni ellir craffu arnynt yn effeithiol, ac ni fyddwn yn gwybod ble mae'r arian hwn yn cael ei wario, a pha un a yw'n cael ei wario'n effeithiol ai peidio.

Do you not agree with me that, in terms of this year's spending round on the education budget, you need to make sure that you do implement a proper monitoring strategy of where this money is going, to make sure that we are getting value for money, and so that all your good intentions, which I am sure you do have, actually result in a realistic outcome out there on the streets, and in our schools?

Onid ydych chi'n cytuno â mi, o ran cylch gwariant eleni ar y gyllideb addysg, bod angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn gweithredu strategaeth monitro briodol ar gyfer i ble mae'r arian hwn yn mynd, i wneud yn siŵr ein bod yn cael gwerth am arian, ac fel bod eich holl fwradau da, yr wyf yn sicr sydd gennych, mewn gwirionedd yn arwain at ganlyniad realistig allan ar y strydoedd, ac yn ein hysgolion?

14:40 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Welsh Conservatives really do need to keep up. They should know by now—and I have mentioned it many times in this Chamber, and it is a matter of public record—that the pupil deprivation grant is under evaluation and the results will be published later this month. So, we are just a week or so away from receiving that very intensive evaluation undertaken by Cardiff University and IPSOS Mori of the PDG. It is not the job of the consortia to evaluate the PDG. The consortia have a role within a partnership of making sure that, within their area, schools really are aware of the potential and power of the PDG and are spending it correctly. I have asked them to take a good hard look at whether headteachers in their regions are delivering on that commitment. However, the evaluation lies elsewhere and is coming very soon. Mae angen gwirioneddol i Geidwadwyr Cymru gadw i fyny. Dylent wybod erbyn hyn—ac rwyf wedi sôn am hyn droeon yn y Siambr hon, ac mae ar gofnod cyhoeddus—bod y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei werthuso ac y cyhoeddir y canlyniadau yn nes ymlaen y mis hwn. Felly, rydym oddeutu wythnos i ffwrdd o dderbyn y gwerthusiad dwys iawn hwnnw a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ac IPSOS Mori o'r grant amddifadedd disgyblion. Nid gwaith y consortia yw gwerthuso'r grant amddifadedd disgyblion. Mae gan y consortia swyddogaeth o fewn partneriaeth o wneud yn siŵr, yn eu hardal, bod ysgolion yn wirioneddol ymwybodol o botensial a grym y grant amddifadedd disgyblion ac yn ei wario'n gywir. Rwyf wedi gofyn iddynt edrych yn fanwl i weld a yw penaethiaid yn eu rhanbarthau'n cyflawni ar yr ymrwymiad hwnnw. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad yn bodoli mewn manau eraill ac yn dod yn fuan iawn.

14:41 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was really pleased to see in the draft budget that there is an extra £12 million for the Schools Challenge Cymru initiative. Could you tell me how that money will be spent? Is it to extend the duration of the scheme, to widen it to more schools, or to put extra resource into already-participating schools? Are you able to update Members on what improvements the scheme is delivering to schools in my area, such as Milford Haven School and Ysgol Bro Dinefwr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, roeddwn yn falch iawn o weld bod y gyllideb ddrafft yn cynnwys £12 miliwn ychwanegol i'r fenter Her Ysgolion Cymru. A allwch chi ddweud wrthyf sut y caiff yr arian hwnnw ei wario? A fydd yn ymestyn hyd y cynllun, yn ei ehangu i ragor o ysgolion, ynteu'n rhoi adnoddau ychwanegol i ysgolion sydd eisoes yn cymryd rhan? A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â pha welliannau y mae'r cynllun yn eu darparu i ysgolion yn fy ardal i, megis Ysgol Aberdaugleddau ac Ysgol Bro Dinefwr?

14:41 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. The £12 million already committed and the £8 million to come over the next two years for Schools Challenge Cymru is not expenditure to admit extra schools. I need to make that clear. This £20 million package over two years, which was initially announced, is for the 40 participating schools, and is essentially there to ease the way for some of the extra work that we would expect schools participating in Schools Challenge Cymru to be engaged in. For instance, they may need to release teachers here and there for professional development, and so on. So, it is there to oil the wheels, if you like, of the schools challenge programme.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn yna. Nid gwariant i dderbyn ysgolion ychwanegol yw'r £12 miliwn sydd wedi'i ymrwymo eisoes a'r £8 miliwn sydd i ddod dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer Her Ysgolion Cymru. Mae angen imi wneud hynny'n glir. Mae'r pecyn hwn o £20 miliwn dros ddwy flynedd, a gyhoeddwyd yn wreiddiol, i'r 40 o ysgolion sy'n cymryd rhan, ac yn ei hanfod mae yno i'w gwneud yn haws i'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru wneud rhywfaint o'r gwaith ychwanegol y byddem yn disgwyl iddynt ei wneud. Er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt ryddhau athrawon yma ac acw ar gyfer datblygiad proffesiynol, ac yn y blaen. Felly, mae yno i iro olwynion y rhaglen her ysgolion, os mynnwch chi.

As for the two pathways to success schools that were mentioned, Milford Haven School and Ysgol Bro Dinefwr are benefitting from the innovative and exciting programme, which will, among other things, inject a level of that funding, alongside proven expertise, advice and guidance, to deliver a package of support that is tailored to meet each of those schools' needs and the needs of their cluster primaries. I was lucky enough to visit Ysgol Bro Dinefwr back on 15 September to discuss the programme, and I will similarly be visiting Milford Haven School on 10 November.

O ran y ddwy ysgol llwybrau llwyddiant y soniwyd amdanynt, mae Ysgol Aberdaugleddau ac Ysgol Bro Dinefwr yn elwa ar y rhaglen arloesol a chyffrous, a fydd, ymysg pethau eraill, yn buddsoddi rhywfaint o'r cyllid hwnnw, ochr yn ochr ag arbenigedd profedig, cyngor ac arweiniad, i ddarparu pecyn cymorth sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y naill a'r llall o'r ysgolion hynny ac anghenion yr ysgolion cynradd yn eu clwstr. Roeddwn yn ddigon ffodus i ymweld ag Ysgol Bro Dinefwr ar 15 Medi i drafod y rhaglen, a byddaf yn yr un modd yn ymweld ag Ysgol Aberdaugleddau ar 10 Tachwedd.

14:43 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Pryd ydych chi'n disgwyl y bydd y cynnydd addysgol sy'n deillio o'r grant amddifadedd disgyblion yn amlygu ei hun?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

When do you expect the educational progress arising from the pupil deprivation grant to become evident?

14:43 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of the pupil deprivation grant, again, I refer the Member to the very intensive work that we are about to receive from IPSOS Mori and the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods, or WISERD, based at Cardiff University. So, we will have a very comprehensive snapshot, if you like, of how the PDG is operating thus far. I can tell the Member anecdotally, although I have not seen the full draft, that it is clear that what we shall discover is that a culture shift is happening in terms of schools' preparedness to commit themselves to breaking the link between deprivation and attainment. In other words, there is an attitudinal shift. We are also seeing a step change increase in the number of the specific interventions that are being run by schools and spearheaded by headteachers to make sure that that commitment to pupils caught up in those statistics of deprivation is delivered.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

O ran y grant amddifadedd disgyblion, unwaith eto, cyfeiraf yr Aelod at y gwaith dwys iawn yr ydym ar fin ei gael gan IPSOS Mori a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, neu WISERD, a leolir ym Mhrifysgol Caerdydd. Felly, bydd gennym gipolwg cynhwysfawr iawn, os mynnwch chi, o'r ffordd y mae'r grant amddifadedd disgyblion wedi gweithredu hyd yn hyn. Gallaf ddweud wrth yr Aelod yn anecdotaidd, er nad wyf wedi gweld y drafft llawn, ei bod yn amlwg mai'r hyn y byddwn yn ei ddarganfod yw bod newid diwylliant yn digwydd o ran parodrwydd ysgolion i ymrwymo eu hunain i dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad. Mewn geiriau eraill, mae'n golygu newid mewn agwedd. Rydym hefyd yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr ymyraethau penodol sy'n cael eu cynnal gan ysgolion dan arweiniad penaethiaid i sicrhau bod yr ymrwymiad hwnnw i ddisgyblion sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau amddifadedd hynny'n cael ei ddarparu.

14:44 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Minister, there continue to be concerns in local authorities across Mid and West Wales that the emphasis in the twenty-first century schools programme is now reducing the stress on sustainability features within those buildings to achieve cost savings. Will the Minister please reassure those local authorities that we will not be making those false economies? Will he also engage with his colleague, the Minister for finance, to explore the possibility that, as with the programme in the Republic of Ireland, the European Investment Bank could be looked at as an innovative source of funding to take the programme forward?

Weinidog, mae pryderon yn parhau mewn awdurdodau lleol ledled y Canolbarth a'r Gorllewin bod pwyslais y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain nawr yn lleihau'r pwyslais ar nodweddion cynaliadwyedd yn yr adeiladau hynny i gyflawni arbedion cost. A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd i'r awdurdodau lleol hynny na fyddwn yn gwneud yr economïau ffug hynny? A wnaiff ef hefyd ymgysylltu â'i gydweithiwr, y Gweinidog cyllid, i archwilio'r posibilrwydd, fel sy'n digwydd yn y rhaglen yng Ngweriniaeth Iwerddon, y gellid ystyried Banc Buddsoddi Ewrop fel ffynhonnell arloesol o gyllid i fwrw ymlaen â'r rhaglen?

14:45 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

If the Member is aware of controversy on the ground in that regard, I would be very interested to learn more details, if he were to write to me on that point. We are, of course, always looking for ways in which we can make the twenty-first century schools capital go further, but, thus far, this has been a conversation that has surrounded the idea of generic design, rather than any cutbacks in terms of the sustainability rating of a particular building and so on. I can reassure him that every single design that has passed over my desk thus far has been of the very highest standard, in terms of energy efficiency and so on. I would also assure him that the overall package of capital within twenty-first century schools is secure, but I would always be open to looking at ways in which we can draw down extra cash, whether it would be from Europe or elsewhere.

Os yw'r Aelod yn ymwybodol o ddaclau ar lawr gwlad ynghylch hynny, byddai gennyf ddi-ddordeb mawr mewn cael gwybod mwy o fanylion, pe byddai'n ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny. Rydym, wrth gwrs, bob amser yn chwilio am ffyrdd y gallwn wneud i gyfalaf ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif fynd ymhellach, ond, hyd yma, bu hon yn sgwrs ynghylch syniad dyluniad cyffredinol, yn hytrach nag unrhyw doriadau o ran sgôr cynaliadwyedd adeilad penodol ac yn y blaen. Gallaf ei sicrhau bod pob un cynllun sydd wedi mynd dros fy nesg hyd yma wedi bod o'r safon uchaf un, o ran effeithlonrwydd ynni ac yn y blaen. Byddwn hefyd yn ei sicrhau bod pecyn cyfalaf cyffredinol ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn ddiogel, ond byddwn bob amser yn agored i edrych ar ffyrdd y gallwn ddenu arian ychwanegol, boed hynny o Ewrop neu o rywle arall.

Ansawdd Addysg Plant

14:46 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu cynlluniau i wella ansawdd addysg plant yng Nghymru? OAQ(4)0484(ESK)

4. Will the Minister make a statement outlining plans to improve the quality of children's education in Wales? OAQ(4)0484(ESK)

14:46 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

My plan to improve the quality of children's education in Wales was set out in 'Qualified for Life', which was published on 2 October.

Cafodd fy nghynllun i wella ansawdd addysg plant yng Nghymru ei nodi yn 'Cymwys am Oes', a gyhoeddwyd ar 2 Hydref.

14:46 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Last week, the Confederation of British Industry in Wales set out a variety of recommendations to improve the quality of children's education in order to enhance their employment prospects. One such recommendation is that maths and English should remain compulsory subjects until the age of 18 for anyone still in education after their GCSEs. Can the Minister assure me that this is something that you are prepared to do?

Yr wythnos diwethaf, nododd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru amryw o argymhellion i wella ansawdd addysg plant er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Un o'r argymhellion hyn yw y dylai mathemateg a Saesneg barhau i fod yn bynciau gorfodol hyd at 18 oed i unrhyw un sy'n dal i fod mewn addysg ar ôl eu harholiadau TGAU. A all y Gweinidog fy sicrhau bod hyn yn rhywbeth yr ydych yn fodlon ei wneud?

14:46

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, we are always working hard to improve the educational standards of young people in Wales, and our ambition to provide young people with the skills they need to succeed in the workplace is at the heart of that work. Our improvements have followed close working with the business community over some years, and we have been pleased with the welcome that the CBI, among others, has given to many of our reforms. I have to say, directly to the Member, that on the issue of compulsory maths and English up to the age of 18, I do not know that that is really the most profitable route by which we can ensure that those essential skills for the workplace are delivered to every young person. The Welsh emphasis has been on the cross-curricular integration of literacy and numeracy in every subject area.

Wel, wrth gwrs, rydym bob amser yn gweithio'n galed i wella safonau addysgol pobl ifanc yng Nghymru, ac mae ein huchelgais i roi i bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y gweithle wrth wraidd y gwaith hwnnw. Mae ein gwelliannau wedi dilyn cydweithio agos â'r gymuned fusnes dros rai blynyddoedd, ac rydym wedi bod yn falch o'r croeso y mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, ymhlith eraill, wedi'i roi i lawer o'n diwygiadau. Mae'n rhaid imi ddweud, yn uniongyrchol wrth yr Aelod, nad wyf yn gwybod pa un ai mathemateg a Saesneg gorfodol hyd at 18 oed yw, mewn gwirionedd, y llwybr mwyaf proffidiol ar gyfer gallu sicrhau bod y sgiliau hanfodol hynny ar gyfer y gweithle yn cael eu darparu i bob person ifanc. Mae pwyslais Cymru wedi bod ar integreiddio llythrennedd a rhifedd yn drawsgwriclaid ym mhob maes pwnc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was pleased to see 55% of 15-year-olds achieve five good GCSEs, from A* to C, in maths, English or Welsh, and also, if you add to that the number of children who have a qualification of a GCSE, at whatever grade, who were perhaps never expected to have sat an examination some years ago, I think that the teaching staff should be congratulated, and they should be celebrated as much as the A*s to Cs. I would strongly argue, and I hope that you would agree with me, that this vindicates many of the educational reforms that you have put in place to assist our secondary school pupils and those who want to go on to further education. Do you agree with me that we are on the right track here, and that together with employers and other higher education and further education providers we can make that difference for our younger generation?

Weinidog, roeddwn yn falch o weld 55% o ddisgyblion 15 oed yn llwyddo i gael pum TGAU da, o A* i C, mewn mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, a hefyd, os ydych yn ychwanegu at hynny nifer y plant sydd â chymhwyster TGAU, ar ba bynnag radd, nad oedd disgwyl efallai iddynt sefyll arholiad rai blynyddoedd yn ôl, rwyf yn meddwl y dylid llongyfarch y staff addysgu, ac y dylid eu canmol llawn cymaint â'r graddau A* i C. Byddwn yn dadlau'n gryf, ac rwyf yn gobeithio y byddech yn cytuno â mi, bod hyn yn cyfiawnhau llawer o'r diwygiadau addysgol yr ydych wedi'u rhoi ar waith i gynorthwyo ein disgyblion ysgolion uwchradd a'r rhai sydd am fynd ymlaen i addysg bellach. A ydych chi'n cytuno â mi ein bod ar y trywydd iawn yma, ac y gallwn, ynghyd â chyfflogwyr a darparwyr addysg uwch ac addysg bellach eraill, wneud y gwahaniaeth hwnnw ar gyfer ein cenhedlaeth iau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the Vale of Clwyd. May I take this opportunity to repeat my congratulations to teachers and pupils across Wales for those outstanding GCSE results that we saw in the summer? The more you dig down into the statistics of success, around what has happened in our schools, as evidenced in our GCSE results, the more impressive it truly becomes. So, I would agree with the Member. As the literacy and numeracy framework, more rigorous qualifications, Schools Challenge Cymru and the pupil deprivation grant—all of these things—work their way through the system, we should expect steady improvement. However, each and every school, every head and every teacher, must continue to commit to the drive on school improvement, if we are to truly succeed.

Diolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ailadrodd fy llongyfarchiadau i athrawon a disgyblion ledled Cymru am y canlyniadau TGAU rhagorol a welsom yn yr haf. Po fwyaf y cloddwch i lawr i mewn i ystadegau llwyddiant, o amgylch yr hyn sydd wedi digwydd ym ein hysgolion, fel y gwelir yn ein canlyniadau TGAU, y mwyaf trawiadol yw'r llwyddiant hwnnw mewn gwirionedd. Felly, byddwn yn cytuno â'r Aelod. Wrth i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, cymwysterau mwy trwyadl, Her Ysgolion Cymru a'r grant amddifadedd disgyblion—y pethau hyn i gyd—weithio eu ffordd drwy'r system, dylem ddisgwyl gweliant cyson. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob un ysgol, pob pennaeth a phob athro, barhau i ymrwymo i'r ymgyrch i wella ysgolion, er mwyn inni gael llwyddiant gwirioneddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae eich strategaeth 'Cymwys am Oes' yn sôn am wella ansawdd dysgu drwy ehangu'r rhaglen Meistr mewn addysg. Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i sicrhau bod capasiti priodol ymysg y darparwyr presennol, a hefyd i wella'r ansawdd, o ystyried yr hyn a ddywedwyd gennych yr wythnos diwethaf ynglŷn â rhai 'concerns' sydd gennych ynglŷn ag ansawdd darpariaeth hyfforddiant athrawon yng Nghymru ar hyn o bryd?

Your strategy, 'Qualified for Life', mentions improving the quality of teaching by expanding the Master's in education programme. What steps have you taken to ensure that the capacity is in place among the current providers, and also to improve the quality, given what you said last week about some concerns that you have about the quality of provision of teacher training in Wales at present?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think that the Member is quite right to connect—to some extent anyway—the issues of initial teacher training and of continuing professional development, because both, I think, as we move forward in a reform programme, would require a renewed and redefined ask of our higher education institutions in terms of what they deliver for the teaching workforce of the present and the workforce of the future.

I think that the Master's in educational practice is already shaping up to be a gold-standard destination for the highest quality professional development and training, and its expansion into growing sections of the teaching community has to be our ultimate aim. There are big questions in that about prioritising which sections of the workforce should come next, how that is affordable, and how we make sure that there is a seamless connection with the new model of initial teacher training that will arise from Professor John Furlong's recommendations to me.

Addysg Grefyddol

14:51

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad ar addysg grefyddol yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0474(ESK)

14:51

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Clwyd West. All maintained schools are required to teach religious education from foundation phase up to age 19. The national exemplar framework for religious education provides guidance that can be used by local authorities and standing advisory councils on religious education to develop their locally agreed RE syllabus.

14:51

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, Minister. You will be aware of the excellent work being done by standing advisory councils on religious education across Wales, not only in terms of their support for RE in Welsh schools, but also the indirect support that they provide for inter-religious dialogue in communities across Wales, and indeed the support that they provide for the Welsh Government's community cohesion strategy. One of the areas that they are concerned about, though, as a result of the development of the regional consortia, is the potential for the consortia to sap the resources from them so that they will be unable to fulfil their statutory functions. What assurances can you provide today to SACREs across the country and to the Wales Association of SACREs that the resources that will be available to them will be sufficient for them to be able to continue to fulfil the very important role that they play in Welsh schools?

Ydw, rwyf yn meddwl bod yr Aelod yn hollol iawn i gysylltu —i ryw raddau beth bynnag—materion hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, oherwydd byddent ill dau, yn fy marn i, wrth inni symud ymlaen mewn rhaglen ddiwygio, yn mynnu adnewyddu ac ailddiffinio'r hyn yr ydym yn ei ofyn gan ein sefydliadau addysg uwch o ran yr hyn y maent yn ei ddarparu i weithlu addysgu'r presennol a gweithlu'r dyfodol.

Credaf fod y radd Meistr mewn ymarfer addysgol eisoes yn argoeli i fod yn gyrchfan safon aur i gyflawni datblygiad proffesiynol a hyfforddiant o'r radd flaenaf, a'n nod yn y pen draw o reidrwydd fyddai ei ehangu i rannau o'r gymuned addysgu sy'n tyfu. Mae cwestiynau mawr yn hynny o beth ynglŷn â blaenoriaethu pa rannau o'r gweithlu a ddylai ddod nesaf, sut mae hynny'n fforddiadwy, a sut yr ydym yn sicrhau cysylltiad di-dor â'r model newydd o hyfforddiant cychwynnol athrawon a ddaw o argymhellion yr Athro John Furlong i mi.

Religious Education

5. Will the Minister make a statement on religious education in Welsh schools? OAQ(4)0474(ESK)

Diolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd. Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir addysgu addysg grefyddol o'r cyfnod sylfaen hyd at 19 oed. Mae'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol yn darparu canllawiau y gall awdurdodau lleol a chynghorau ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol eu defnyddio i ddatblygu eu maes llafur Addysg Grefyddol a gytunwyd yn lleol.

Diolch am yr ateb yna, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan gynghorau ymgynghorol sefydlog ar addysg grefyddol ledled Cymru, nid yn unig o ran eu cefnogaeth i addysg grefyddol yn ysgolion Cymru, ond hefyd y cymorth anuniongyrchol y maent yn ei ddarparu ar gyfer deialog rhyng-grefyddol mewn cymunedau ledled Cymru, ac yn wir y cymorth y maent yn ei ddarparu ar gyfer strategaeth cydlyniant cymunedol Llywodraeth Cymru. Un o'r meysydd y maent yn pryderu amdano, fodd bynnag, o ganlyniad i ddatblygiad y consortia rhanbarthol, yw'r potensial i'r consortia dynnu'r adnoddau oddi arnynt fel na fyddant yn gallu cyflawni eu swyddogaethau statudol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi heddiw i CYSAGau ar draws y wlad ac i Gymdeithas CYSAGau Cymru y bydd yr adnoddau a fydd ar gael iddynt yn ddigonol iddynt allu parhau i gyflawni'r rhan bwysig iawn y maent yn ei chwarae yn ysgolion Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They do fulfil a very important role. I was privileged enough to speak at the Welsh conference earlier this year and I was mightily impressed with the sincerity and commitment that the professionals in the room self-evidently had to the agenda around faith community to faith community dialogue and community cohesion. I have asked them to work alongside my officials to make sure that we do not trip over each other in terms of consortium working. I think SACREs have a special and particular role and if the Member is aware of any issues that are causing concern, or if WASACRE wants to get in touch with any— I have not heard from it that there are any particular glitches as yet, but I would be keen to follow that through if there were.

Maent yn chwarae rhan bwysig iawn. Cefais y fraint o siarad yng nghynhadledd Cymru'n gynharach eleni ac roeddwn yn edmygu'n fawr y diffuantrwydd a'r ymrwymiad a oedd gan y gweithwyr proffesiynol yn yr ystafell tuag yn amlwg at yr agenda o gwmpas deialog rhwng cymunedau ffydd a chydlyniant cymunedol. Rwyf wedi gofyn iddynt weithio ochr yn ochr â'm swyddogion i i wneud yn siŵr nad ydym yn baglu dros ein gilydd o ran gwaith consortiwm. Rwyf yn credu bod gan CYSAGau ran arbennig a phenodol i'w chwarae ac os yw'r Aelod yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n peri pryder, neu os hoffai Cymdeithas CYSAGau Cymru gysylltu ag unrhyw—. Nid wyf wedi clywed ganddynt am unrhyw ddiffygion penodol hyd yn hyn, ond byddwn yn awyddus i fynd ar drywydd hynny pe byddai rhai yn bodoli.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a ydych chi'n cytuno bod gan addysg grefyddol rôl bwysig iawn i'w chwarae ynglŷn â datblygu synnwyr o ddinasyddiaeth ymhlith ein pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig mewn sefyllfa lle rydym yn byw mewn cyd-destun seciwlar a bod nifer helaeth o grefyddau yn cael eu harfer o fewn Cymru, ac felly ei bod yn eithriadol o bwysig bod goddefgarwch a dealltwriaeth o wahanol draddodiadau?

Minister, do you agree that religious education has a very important role to play with regard to developing a sense of citizenship among our young people in Wales, particularly in a situation where we live in a secular context and that a large number of religions are practised within Wales, and because of that that it is extremely important that there is tolerance and understanding of different traditions?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is quite right; this is hugely important. There is a special and particular role and expertise that lies within the community of our RE teachers that we need to ensure is developed and nurtured in that regard, in terms of citizenship, moral development and community cohesion. I have encouraged everyone with an interest in this area to make their views known to Professor Graham Donaldson in terms of the groundbreaking work that his is engaged in, which includes the basic curriculum that overlaps with these issues, so that the new curriculum for Wales, when it emerges in outline in the new year, has a proper and clear emphasis on the importance of these issues.

Mae'r Aelod yn llygad ei le; mae hyn yn hynod o bwysig. Mae swyddogaeth ac arbenigeidd arbennig a neilltuol yn bodoli o fewn cymuned ein hathrawon AG ac mae angen inni sicrhau y cânt eu datblygu a'u meithrin yn hynny o beth, o ran dinasyddiaeth, datblygiad moesol a chydlyniant cymunedol. Rwyf wedi annog pawb sydd â diddordeb yn y maes hwn i fynegi ei farn i'r Athro Graham Donaldson ynglŷn â'r gwaith arloesol y mae'n ymgymryd ag ef, gan gynnwys y cwricwlwm sylfaenol sy'n gorgyffwrdd â'r materion hyn, fel bod y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, pan fydd yn ymddangos ar ffurf amlinelliad yn y flwyddyn newydd, yn rhoi pwyslais priodol a chilir ar bwysigrwydd y materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Twf Swyddi Cymru

Jobs Growth Wales

14:54

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa asesiad y maer Gweinidog wedi'i wneud o'r berthynas rhwng Twf Swyddi Cymru a rhaglenni gwaith Llywodraeth y DU? OAQ(4)0487(ESK)

6. What assessment has the Minister made of the relationship between Jobs Growth Wales and UK Government work programmes? OAQ(4)0487(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:54

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

An access to employment working group has been established with a specific focus on support for Welsh job seekers to address this exact problem. The working group has explored options for better integration of the various employment and skills delivery arrangements currently operating across Wales. This obviously included the very successful Jobs Growth Wales programme.

Mae gweithgor mynediad i gyflogaeth wedi cael ei sefydlu gyda phwyslais penodol ar gymorth i geiswyr gwaith yng Nghymru i fynd i'r afael â'r union broblem hon. Mae'r gweithgor wedi archwilio dewisiadau i integreiddio'n well y gwahanol drefniadau darparu cyflogaeth a sgiliau sydd ar waith ar hyn o bryd ledled Cymru. Mae hyn yn amlwg yn cynnwys y rhaglen lwyddiannus iawn Twf Swyddi Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:55 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have been going around a number of the businesses that have engaged Jobs Growth Wales individuals, and there is a win-win for both employer and the actual Jobs Growth Wales individual. I have had more concerns with regard to the way that the UK Government's Work Programme operates. Do you consider that there would be considerable advantages to Wales if the all of the UK's Work Programme were devolved to Wales so that we could deal with it comprehensively?
- Rwyf wedi bod yn mynd o amgylch nifer o'r busnesau sydd wedi rhoi gwaith i unigolion Twf Swyddi Cymru, ac mae'r cyflogwr a'r unigolyn Twf Swyddi Cymru ill dau ar eu hennill. Rwyf wedi cael mwy o bryderon ynglŷn â'r ffordd y mae Rhaglen Waith Llywodraeth y DU yn gweithredu. A ydych chin credu y byddai manteision sylweddol i Gymru pe byddai Rhaglen Waith y DU i gyd yn cael ei datganoli i Gymru er mwyn inni allu ymdrin â hi'n gynhwysfawr?
- 14:55 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You heard the First Minister saying that the starting point for us there is fair funding, so, assuming that we had the budgets transferred, a number of problems could be addressed by the devolution of the Work Programme, not least because of the black-box contracting arrangements, which mean that it is impossible to see what is happening for each individual Work Programme participant, and so we have been unable to give them access to some of our very successful programmes in Wales, because we have been unable to ensure that there is no double-funding between the European-funded programmes that we have and the funding programmes for the Work Programme. So, on that basis, I think that we could do a better job for Wales if our very successful programmes could be rolled out across the job spectrum. However, I would caution that we would need the fair funding to go with that in the first place.
- Clywsoch y Prif Weinidog yn dweud mai'r man cychwyn inni yn hyn o beth yw cyllid teg, felly, gan dybio bod ein cyllidebau wedi'u trosglwyddo, gellid rhoi sylw i nifer o broblemau drwy ddatganoli'r Rhaglen Waith, yn anad dim oherwydd y trefniadau contractio blwch du, sy'n golygu ei bod yn amhosibl gweld beth sy'n digwydd ar gyfer pob cyfranogwr Rhaglen Waith unigol, ac felly nid ydym wedi gallu caniatáu iddynt ddefnyddio rhai o'n rhaglenni llwyddiannus iawn yng Nghymru, oherwydd nad ydym wedi gallu sicrhau nad oes ariannu dwbl rhwng y rhaglenni a ariennir gan Ewrop sydd gennym a'r rhaglenni a ariennir ar gyfer y Rhaglen Waith. Felly, ar y sail honno, rwyf yn meddwl y gallem weithio'n well dros Gymru pe gellid cyflwyno ein rhaglenni llwyddiannus iawn ar draws y sbectrum swyddi. Fodd bynnag, byddwn yn rhybuddio y byddai angen y cyllid teg i gyd-fynd â hynny arnom yn y lle cyntaf.
- 14:56 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Deputy Minister, you will be aware that, last month, a report evaluating early leavers from Jobs Growth Wales identified that 12.5% of employees were dismissed because their employers ceased trading or were not able to pay the employee. Another 22% of employers suggested that additional training would be very necessary and helpful to prepare them for the expectations of work. What has been done to address these two issues?
- Ddirprwy Weinidog, byddwch yn ymwybodol, y mis diwethaf, bod adroddiad yn gwerthuso ymadawyr cynnar o Twf Swyddi Cymru wedi nodi bod 12.5% o weithwyr wedi eu diswyddo oherwydd bod eu cyflogwyr wedi rhoi'r gorau i fasnachu neu'n methu â thalu'r cyflogai. Awgrymodd 22% arall o gyflogwyr y byddai hyfforddiant ychwanegol yn angenrheidiol iawn ac o gymorth i'w paratoi ar gyfer disgwiliadau gwaith. Beth sydd wedi'i wneud i roi sylw i'r ddau fater hyn?
- 14:56 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- On the first point, we do our very best where an employer has ceased trading or where there has been some specific difficulty to place the applicant again. Actually, we have a very successful rate of re-placement, if we can call it that. I could write to the Member with the exact statistics on that, which I do not have to hand, but we are very successful at ensuring that a person gets another placement where, through no fault of their own, their placement ceases. We have one of the best rates of success of any jobs growth programme, right across the whole of Europe. We have some drop-outs, and where that happens, we have a successful programme of follow up to find out exactly what has happened and to see what can be done to make sure that that person does not fall out of employment, education or training completely.
- O ran y pwynt cyntaf, rydym yn gwneud ein gorau glas lle mae cyflogwr wedi rhoi'r gorau i fasnachu, neu lle cafwyd rhyw anhawster penodol i leoli'r ymgeisydd eto. Mewn gwirionedd, mae gennym gyfradd llwyddiannus iawn o ail-leoli, os gallwn ei alw'n hynny. Gallwn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r union ystadegau am hynny—nid ydynt gennyf yn y fan hyn—ond rydym yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau bod unigolyn yn cael lleoliad arall os daw ei leoliad i ben heb fod unrhyw fai arno ef/hi. Mae gennym un o'r cyfraddau llwyddiant gorau o unrhyw raglen twf swyddi, ledled Ewrop gyfan. Mae gennym rai pobl yn gadael y rhaglen, a phan fo hynny'n digwydd, mae gennym raglen llwyddiannus o ddilyniant i gael gwybod beth yn union sydd wedi digwydd ac i weld beth y gellir ei wneud i wneud yn siŵr na fydd yr unigolyn yn syrthio allan o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn gyfan gwbl.

14:57

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have raised the case in the past of Phillip Gill from Holyhead, who was unable to receive a young entrepreneurship bursary because he was on a Work Programme and could not get off it. He has set up his one-stop pet shop, and I am sure that we all wish him well with that business. He did it without the help that he should have got. I was told in May by the Deputy Minister's predecessor that this would be one area that was looked at by the new working group set up between the Welsh Government and the Department for Work and Pensions. Could I possibly get an update on where we are at on what help there might be in future to make the bursary specifically compatible with the Work Programme?

Yn y gorffennol, rwyf wedi sôn am achos Phillip Gill o Gaergybi, nad oedd yn gallu derbyn bwrsariaeth entrepreneuriaeth ifanc oherwydd ei fod ar Raglen Waith na allai ei gadael. Mae wedi sefydlu ei siop un stop anifeiliaid anwes, ac rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn dymuno'n dda iddo gyda'r busnes hwnnw. Gwnaeth hynny heb y cymorth y dylai fod wedi'i gael. Dywedodd rhagflaenydd y Dirprwy Weinidog wrthyf ym mis Mai y byddai hwn yn un maes y byddai'r gweithgor newydd a sefydlwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau'n edrych arno. A allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein sefyllfa o ran pa gymorth a allai fod yn y dyfodol i wneud y fwsariaeth yn benodol gydnaws â'r Rhaglen Waith?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The group continues to meet. It has met far beyond the original intention, because it has been considered to be of great use by both sides of the border. I cannot talk about the specifics of your constituent, but I am quite happy to write to you if there are specific points. However, I would like to make the point that we have worked very hard to get transparency inside the Work Programme so that we can offer support to those people who should be able to access it. The difficulty is that, because the Work Programme is not transparent—in other words, the Government has no oversight of what actually happens to people on the Work Programme, other than what the outcome is—it is impossible for us to satisfy our own funding requirements. However, on the specifics of your constituent, I will have to write to you further.

Mae'r grŵp yn parhau i gyfarfod. Mae wedi cyfarfod ymhell y tu hwnt i'r bwriad gwreiddiol, oherwydd ystyriwyd ei fod yn ddefnyddiol iawn ar y ddwy ochr i'r ffin. Ni allaf siarad am fanylion eich etholwr, ond rwyf yn ddigon hapus i ysgrifennu atoch os oes gennych bwyntiau penodol. Fodd bynnag, hoffwn wneud y pwynt ein bod wedi gweithio'n galed iawn i gael tryloywder y tu mewn i'r Rhaglen Waith fel y gallwn gynnig cymorth i'r bobl hynny y dylai fod cymorth ar gael iddynt. Yr anhawster yw, oherwydd nad yw'r Rhaglen Waith yn dryloyw—mewn geiriau eraill, nid yw'r Llywodraeth yn goruchwyllo'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd i'r bobl ar y Rhaglen Waith, heblaw beth yw'r canlyniad—mae'n amhosibl inni fodloni gofynion ein cyllid ein hunain. Fodd bynnag, ynglŷn â manylion penodol eich etholwr, bydd yn rhaid imi ysgrifennu atoch ymhellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ysgolion Milfeddygol

Veterinary Schools

14:59

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael parthed datblygu ysgolion milfeddygol yng Nghymru?
OAQ(4)0476(ESK)

7. What discussions has the Minister had regarding the development of veterinary schools in Wales?
OAQ(4)0476(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Ceredigion. I met the then Minister for Natural Resources and Food in July to discuss ideas for a veterinary school for Wales. Welsh Government officials have also held meetings with Aberystwyth University on this matter.

Diolch i'r Aelod dros Geredigion. Cyfarfûm â'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd ym mis Gorffennaf i drafod syniadau am ysgol filfeddygol i Gymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnal cyfarfodydd â Phrifysgol Aberystwyth am y mater hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch o glywed eich bod chi'n trafod hyn o fewn y Llywodraeth, a byddwch chi'n gwybod bod gennyf i ac eraill uchelgais ers llawer dydd 'nawr i weld Aberystwyth yn benodol yn datblygu cyrsiau milfeddygol. A wnewch chi a'ch Llywodraeth, felly, sicrhau eich bod yn rhoi ymdrech pellach 'nawr i gydlynu a chydweithio nid yn unig gyda Phrifysgol Aberystwyth, ond gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac, yn bwysig iawn, gyda Choleg Brenhinol y Milfeddygon, fel ein bod yn gallu cyrraedd y nod hir ddisgwyliedig hwn bod rhai o'n milfeddygon y dyfodol ni yn gallu cael eu hyfforddi'n rhannol neu'n gyfan yma yng Nghymru?

I am pleased to hear that you are discussing this within the Government, and you will know that I and others have had an ambition for many years now to see Aberystwyth, particularly, developing veterinary courses. Will you and your Government, therefore, ensure that you strive further now to co-ordinate and work with not only Aberystwyth University, but also the Higher Education Funding Council for Wales and, very importantly, the Royal College of Veterinary Surgeons so that we can achieve this long-awaited aim for some of our vets of the future to finally be trained either partially or wholly in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My officials and I always stand ready to give advice on these matters, but it is open to individual institutions, and the onus is upon them, really, to develop a veterinary school or any other new project such as that. They would need to demonstrate evidence of demand for that provision, and they would need to gain the agreement and approval of the Royal College of Veterinary Surgeons, in this instance, to provide professionally accredited courses. I know that Aberystwyth University has been in discussion with officials responsible for the rural development programme and from the Welsh European Funding Office, and has been given advice on the development of proposals that might be suitable for consideration for funding. So, to some extent the ball is now in the court of Aberystwyth University. However, I would say this: to be fair and to be honest, an enterprise of this magnitude in the current financial climate, as I am sure that everyone involved would understand, would be extraordinarily difficult to bring to fruition. That is not to say that my office door would ever be closed on the subject.

Mae fy swyddogion a minnau bob amser yn barod i roi cyngor ar y materion hyn, ond mae'n agored i sefydliadau unigol, a'u lle hwy, mewn gwirionedd, yw datblygu ysgol filfeddygol neu unrhyw brosiect newydd arall o'r fath. Byddai angen iddynt ddangos tystiolaeth o'r galw am y ddarpariaeth honno, a byddai angen iddynt sicrhau cytundeb a chymeradwyaeth Coleg Brenhinol y Milfeddygon, yn yr achos hwn, i ddarparu cyrsiau wedi'u hachredu'n broffesiynol. Gwn fod Prifysgol Aberystwyth wedi cael trafodaethau â swyddogion sy'n gyfrifol am y rhaglen datblygu gwledig ac o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac wedi cael cyngor am ddatblygu cynigion a allai fod yn addas i'w hystyried am gyllid. Felly, i ryw raddau, tro Prifysgol Aberystwyth yw hi i wneud rhywbeth. Fodd bynnag, byddwn yn dweud hyn: i fod yn deg ac yn onest, byddai menter o'r maint hwn yn yr hinsawdd ariannol bresennol, fel yr wyf yn siŵr y byddai pawb sy'n ymwneud â'r mater yn ei ddeall, yn hynod o anodd ei gwireddu. Nid yw hynny'n golygu y byddai drws fy swyddfa byth ar gau ar y pwnc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was pleased to hear your previous answer, but I know that there are concerns within the agricultural sector that vocational-based training is being replaced by university education, so, in discussions that you are involved with, can I have an assurance from you that there will be partnerships forged with local agricultural colleges so that students do get more hands-on agricultural experience?

Weinidog, roeddwn yn falch o glywed eich ateb blaenorol, ond gwn fod pryderon o fewn y sector amaethyddol bod hyfforddiant galwedigaethol yn cael ei ddisodli gan addysg prifysgol, felly, yn y trafodaethau yr ydych yn cymryd rhan ynddynt, a allaf gael sicrwydd gennych y caiff partneriaethau eu ffurfio â cholegau amaethyddol lleol fel bod myfyrwyr yn cael mwy o brofiad amaethyddol ymarferol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:01.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:01.

15:01

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that those involved in this debate have heard the Member, and he speaks good sense, obviously, but, as I said, it is really for Aberystwyth University primarily now to flesh out the request that it is making and to ensure that it has the right partners on board.

Rwyf yn siŵr bod y rhai hynny sy'n cymryd rhan yn y ddadl hon wedi clywed yr Aelod, ac mae'n gwneud synnwyr, yn amlwg, ond, fel y dywedais, lle Prifysgol Aberystwyth yn bennaf erbyn hyn yw rhoi cnawd ar esgyrn y cais y maent yn ei wneud a sicrhau bod ganddynt y partneriaid cywir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Targedau Gwerth Ychwanegol Gros

Gross Value Added Targets

15:02

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru erbyn 2016? OAQ(4)0472(EST)

1. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's targets for GVA in Wales by 2016? OAQ(4)0472(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

The Welsh Government does not have a target for GVA. Our programme for government monitors a basket of indicators, which includes GVA per head.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru darged ar gyfer gwerth ychwanegol gros. Mae ein rhaglen lywodraethu'n monitro basged o ddangosyddion, sy'n cynnwys GYG y pen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for that answer. Obviously, in the early part of the Assembly, it was one of the key targets for the Assembly Government to get to 90% of average GVA per capita. It is difficult, obviously, to measure the success—or not, as the case may be—if these targets are not set by the Welsh Government. How will you define success for the Welsh Government of 2016 in some of our most challenged communities that have benefited from considerable European spend but, regrettably, see a continuing decline in the GVA numbers when the analysis is done of the spend?

Weinidog, diolch i chi am yr ateb yna. Yn amlwg, yng nghyfnod cynnar y Cynulliad, roedd cyrraedd 90% o GYG cyfartalog y pen yn un o dargedau allweddol Llywodraeth y Cynulliad. Wrth gwrs mae'n anodd mesur a oes llwyddiant—ai peidio, yn ôl y digwydd—os nad yw'r targedau hyn wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Sut y byddwch chi'n diffinio llwyddiant Llywodraeth Cymru o 2016 ymlaen yn rhai o'n cymunedau sy'n wynebu'r her fwyaf, sydd wedi elwa ar wariant Ewropeaidd sylweddol, ond sydd, yn anffodus, wedi gweld gostyngiad parhaus yn rhifau'r GYG pan fydd y gwariant yn cael ei ddadansoddi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:03 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have had quite a discussion about the limitations of using GVA. In fact, the Minister for finance presented a paper to the Council for Economic Renewal, which includes the social partners, and we were looking at some of the basket of indicators that were required, which were GVA per head, gross domestic household income per head, the employment rate, poverty rates, average earnings and wealth per head. We feel that this basket is a more appropriate mechanism to place against that. There is, obviously, further work going on on that, and I believe that the Minister for finance has written to all Members about the work that is being undertaken.

Rydym ni wedi cael cryn drafodaeth am gyfyngiadau ddefnyddio GYG. Yn wir, cyflwynodd y Gweinidog Cyllid bapur i'r Cyngor Adnewyddu'r Economi, sy'n cynnwys y partneriaid cymdeithasol, ac roeddem ni'n edrych ar rai o'r dangosyddion gofynnol, sef GYG y pen, incwm gros y pen mewn aelwydydd domestig, cyfradd cyflogaeth, cyfraddau tlodi, enillion cyfartalog a chyfoeth y pen. Rydym yn teimlo bod y casgliad hwn yn fecanwaith mwy priodol i'w osod yn erbyn hynny. Yn amlwg, mae mwy o waith yn cael ei wneud ar hynny, a chredaf fod y Gweinidog Cyllid wedi ysgrifennu at bob un o'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei wneud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:03 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Whether it is a target or not, Minister, I am sure that you will agree with me that we need to grow our GVA here in Wales, and that there is a significant contribution that can be made in universities in that regard. Today saw the launch of a new report from the City Growth Commission, looking at the role of universities in a city region or metro context. Looking in particular at your overview of science policy, Minister, it contains some interesting ideas. For example, it talks about the alignment between research and science in the universities in Finland and their city growth regions, in effect, and the European regional development policy. Is that something that you will look at and look to take forward in terms of alignment between our universities and the city regions that you propose to have?

Pa un a yw'n darged ai peidio, Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod angen inni gynyddu ein GYG yma yng Nghymru, ac y gellir gwneud cyfraniad sylweddol mewn prifysgolion yn y cyswllt hwnnw. Heddiw gwelwyd lansio adroddiad newydd gan Gomisiwn Twf Dinasoedd, sy'n edrych ar swyddogaeth prifysgolion mewn dinas-ranbarth neu yng nghyd-destun metro. Gan edrych yn benodol ar eich trosolwg o bolisi gwyddoniaeth, Weinidog, mae'n cynnwys rhai syniadau diddorol. Er enghraifft, mae'n sôn am y cydlynad rhwng ymchwil a gwyddoniaeth ym mhrifysgolion y Ffindir a'u rhanbarthau twf dinasol, mewn gwirionedd, a pholisi datblygu rhanbarthol Ewrop. A yw hynny'n rhywbeth y byddwch chi'n edrych arno gyda'r bwriad o fwrw ymlaen, o ran y cydlynad rhwng ein prifysgolion a'r dinas-ranbarthau yr ydych chi'n bwriadu eu cael?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:04 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Member makes a really good point regarding the publication of data. Of course, the universities are actually key partners currently on the city region groups, with the city region in the capital actually being hosted by Cardiff University. I will certainly refer the report to both city regions for further discussion.

Rwyf yn meddwl bod yr Aelod yn gwneud pwynt da iawn ynglŷn â chyhoeddi data. Wrth gwrs, mae'r prifysgolion yn bartneriaid allweddol ar y grwpiau rhanbarth dinas ar hyn o bryd mewn gwirionedd, ac mae dinas-ranbarth y brifddinas yn cael ei gynnal gan Brifysgol Caerdydd mewn gwirionedd. Byddaf yn sicr yn cyfeirio'r adroddiad i'r ddau ddinas-ranbarth ar gyfer trafodaeth bellach.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwariant ar Ffyrdd (Gogledd Cymru)

Expenditure on Roads (North Wales)

15:04 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wariant ar ffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0473(EST)

2. Will the Minister make a statement on expenditure on roads in North Wales? OAQ(4)0473(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:04 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Since 2011, we have spent around £93.6 million on road schemes in north Wales. In fact, I wrote recently to the chair of the Enterprise and Business Committee outlining the expenditure on all roads in Wales.
- Ers 2011, rydym wedi gwario tua £93.6 miliwn ar gynlluniau ffyrdd yn y gogledd. Mewn gwirionedd, ysgrifennais yn ddiweddar at gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn amlinellu'r gwariant ar yr holl ffyrdd yng Nghymru.
- 15:05 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch i chi am eich ateb. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, yn y cyhoeddiad gwreiddiol ar bwerau benthyg, cyfeiriwyd yn benodol at yr M4 a ffordd yr A55 yng ngogledd Cymru. Eich dewis neu eich bwriad chi yw gwario'r arian hwnnw ar yr M4. Pa sicrwydd, felly, y gallwch ei roi y bydd yr A55 yn gweld y lefel angenrheidiol o fuddsoddiad dros y blynnyddoedd nesaf, nid yn unig o safbwynt cynnal a chadw, ond o safbwynt uwchraddio ffordd sydd yn gwbl ganolog i ddatblygiad economaidd gogledd Cymru?
- Thank you for that response. We know, of course, in the original announcement on borrowing powers, that there was specific reference to the M4 and the A55 in north Wales. Your choice or your intention is to spend that money on the M4. What assurance, therefore, can you give that the A55 will see the necessary level of investment over the next few years, not only from the point of view of maintenance, but also from the point of view of upgrading a road that is central to the economic development of north Wales?
- 15:05 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I think we can all acknowledge, from the level of correspondence that I have regarding the A55, that we are continuing to improve the A55, including the refurbishment of the A55 tunnels, spending more than £40 million since 2012. Unfortunately, I have to say, parts of the A55 were designed and built under a private finance initiative contract and were not built to the same high standards as I would have expected with a normal contract. This has led to difficulties with stretches of the road that need greater intervention in terms of management.
- Rwy'n meddwl y gallwn ni i gyd gydnabod, o lefel yr ohebiaeth yr wyf yn ei dderbyn ynglŷn â'r A55, ein bod yn parhau i wella'r A55, gan gynnwys adnewyddu twneli'r A55, gan wario dros £40 miliwn ers 2012. Yn anffodus, mae'n rhaid i mi ddweud, cafodd rhannau o'r A55 eu cynllunio a'u hadeiladu o dan gontract menter cyllid preifaf ac ni chawsant eu hadeiladu i'r un safonau uchel ag y byddwn wedi ei ddisgwyl gyda chontract arferol. Mae hyn wedi arwain at anawsterau gyda rhannau o'r ffordd sydd angen mwy o ymyrraeth o ran eu rheoli.
- I am actually having a further look at ways of improving junctions on the A55. I have asked officials to undertake further work in that regard, as a result of positive discussions that we have been having about the use of capital.
- A dweud y gwir, rwyf yn cael golwg arall ar ffyrdd o wella cyffyrdd yr A55. Rwyf wedi gofyn i swyddogion wneud rhagor o waith yn y cyswllt hwnnw, o ganlyniad i drafodaethau cadarnhaol a gafwyd ynglŷn â'r defnydd o gyfalaf.
- 15:06 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I have obviously already raised concerns in the Chamber regarding the impact of the resilience programme that is ongoing at the moment in north Wales along the A55, and the impact that it is having on motorists. I know that these works are due to be completed by February of next year, but, with significantly different investment strategies in terms of widening the road in certain places, it would, of course, alleviate the pressure on the road when resilience works need to be undertaken. So, what wider strategy do you have for increasing the capacity on the A55, especially at pinch points in Deeside and, indeed, in areas where there is no hard shoulder, to ensure that motorists can get along that road even when roadworks are being carried out?
- Weinidog, yr wyf yn amlwg wedi codi pryderon yn y Siambwr ynglŷn ag effaith y rhaglen gyfnerthu sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd yn y gogledd ar hyd yr A55, a'r effaith y mae'n ei chael ar fodurwyr. Gwn fod y gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Chwefror y flwyddyn nesaf, ond, gyda strategaethau buddsoddi gwahanol iawn o ran lledu'r ffordd mewn rhai mannau, byddai'n amlwg yn lleddfu'r pwysau ar y ffordd pan fo angen cynnal gwaith cyfnerthu. Felly, pa strategaeth ehangach sydd gennych chi ar gyfer cynyddu capasiti ar yr A55, yn enwedig yn y mannau cyfyng yng Nglannau Dyfrdwy ac, yn wir, mewn ardaloedd lle nad oes llain galed, er mwyn sicrhau y gall modurwyr fynd ar y ffordd honno, hyd yn oed pan fo gwaith yn cael ei gynnal ar y ffordd?

15:07

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

May I assure you that the Members for Flintshire have already raised with me in detail their concerns about alleviating some of the traffic issues, particularly around the Deeside industrial estate? May I also say that I am obviously taking the comments that I have had from Members about the A55 really seriously, because there are real issues, you see, about some of the flood risks on the A55, as a result of how it was constructed across certain areas? I know of Members' concerns about environmental impact possibilities on the M4, so I will be taking environmental impacts very seriously as well when I look at any improvements that can be made on the A55. However, it is an artery for north Wales in terms of business and is very important.

A gaf fi eich sicrhau bod yr Aelodau dros Sir y Fflint eisoes wedi mynegi yn fanwl i mi eu pryderon ynghylch lliniaru rhai o'r materion traffig, yn enwedig o gwmpas stad ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy? A gaf fi hefyd ddweud fy mod yn amlwg yn cymryd y sylwadau a gefais gan Aelodau ynglŷn â'r A55 yn wirioneddol o ddifrif, oherwydd mae gwir broblemau, dych chi'n gweld, gyda rhai o'r risgiau o lifogydd ar yr A55, o ganlyniad i'r ffordd y cafodd ei hadeiladu mewn rhai ardaloedd? Rwyf yn ymwybodol o bryderon yr Aelodau ynghylch posibiladau effaith amgylcheddol ar yr M4, felly byddaf yn cymryd yr effeithiau amgylcheddol o ddifrif hefyd wrth edrych ar unrhyw welliannau y gellir eu gwneud ar yr A55. Fodd bynnag, mae'n brif wythien i ogledd Cymru o ran busnes ac mae'n bwysig iawn.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

15:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We will start this week with the Welsh Liberal Democrats. I call Eluned Parrott.

15:07

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Minister, I was delighted that in the draft budget agreement between the Welsh Government and my own party there was a commitment to begin the detailed planning work on the south Wales metro. When the south Wales metro is fully completed, how many additional daily journeys will south-east Wales's public transport network take?

Weinidog, roeddwn wrth fy modd bod ymrwymiad i gychwyn ar y gwaith cynllunio manwl ar fetro de Cymru yn y cytundeb cyllideb drafft rhwng Llywodraeth Cymru a'm plaid fy hun. Pan fydd metro de Cymru'n wedi ei gwblhau'n llwyr, sawl taith ychwanegol y bydd rhwydwaith cludiant cyhoeddus y de-ddwyrain yn ei gwneud bob dydd?

Well, obviously, there is further work going on on that, because ever since we started to talk about the metro, there has been growing interest, I think, in how far the metro will go. Monmouthshire now is taking a particular interest in how far it can go out towards the Severn bridge. We will have to do a realistic assessment, I think, of the number of journeys, and that is work that will be undertaken once the detailed work commences.

Wel, yn amlwg, mae mwy o waith yn mynd ymlaen ar hynny, oherwydd byth ers i ni ddechrau siarad am y metro, rydym ni wedi gweld diddordeb cynyddol, rwy'n meddwl, ym mha mor bell y bydd y metro'n mynd. Mae Sir Fynwy bellach yn cymryd diddordeb arbennig ym mha mor bell y gall fynd i gyfeiriad pont Hafren. Bydd yn rhaid inni wneud asesiad realistig, rwy'n meddwl, o nifer y teithiau, ac mae hwnnw'n waith a fydd yn cael ei wneud cyn gynted ag y bydd y gwaith manwl yn dechrau.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On the metro, may I say that I am absolutely delighted that we are moving ahead with the metro project? I think it is important that I carry on with the metro and move to the next stage, and I think that I will have to look at the next stage in the context of being prepared to specify the next rail franchise. All these issues are very much interlinked. However, I do welcome the agreement that we had in the budget on this.

Ynglŷn â'r metro, a gaf fi ddweud fy mod wrth fy modd ein bod ni'n symud ymlaen â phrosiect y metro? Rwyf yn credu ei bod yn bwysig fy mod i'n parhau â'r metro a symud ymlaen i'r cam nesaf, ac rydw i'n credu y bydd yn rhaid imi edrych ar y cam nesaf yn y cyd-destun o fod yn barod i nodi'r fasnachfrait rheilffyrdd nesaf. Mae'r materion hyn i gyd yn gysylltiedig iawn â'i gilydd. Fodd bynnag, rwyf yn croesawu'r cytundeb a oedd gennym ni yn y gyllideb ar hyn.

15:08

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. The number for the core metro area is around 40,000 daily journeys, according to the report that you commissioned from Mark Barry last year. Of course, there is the potential for much more and we know that the Ebbw Vale line, for example, exceeded its estimated use by five times. Another study shows that, where there is a significant investment in light rail, for example, there can be a 20% modal shift from car to tram and traffic can be reduced by up to 14%. So, do you agree with me that the south Wales metro could have this kind of transformational impact not only in south-east Wales, actually, but across the south Wales M4 corridor, even perhaps in the Swansea valley and on the Heart of Wales line?

Diolch i chi, Weinidog. Y ffigwr ar gyfer ardal graidd y metro yw tua 40,000 taith bob dydd, yn ôl yr adroddiad y gwnaethoch ei gomisiynu gan Mark Barry y llynedd. Wrth gwrs, mae potensial am lawer mwy ac rydym ni'n gwybod bod llinell Glyn Ebwy, er enghraifft, yn gwneud bum gwaith yn well na'r defnydd a ragamcanwyd. Mae astudiaeth arall yn dangos y gellid gweld newid moddol o 20% o geir i dramiau lle y ceir buddsoddiad sylweddol mewn rheilffyrdd ysgafn, er enghraifft, a gellid lleihau traffig gan hyd at 14%. Felly, a ydych chi'n cytuno â mi y gallai metro de Cymru gael y math hwn o effaith weddnewidiol, nid yn y de-ddwyrain yn unig mewn gwirionedd, ond ar draws coridor de Cymru yr M4, a hyd yn oed yng Nghwm Tawe ac ar linell Calon Cymru efallai?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:09

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much hope that it will have the impact that you are outlining, because there are statistics to indicate that, when we have had schemes like this elsewhere across the world, they have made a significant impact. So, I think it is very important that we work to ensure that it does have a significant impact on the issues for us in terms of travel to work. We want more people travelling to work, after all, to more jobs.

Rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd yn cael yr effaith yr ydych chi'n ei amlinellu, oherwydd ceir ystadegau sy'n dangos bod cynlluniau fel hyn mewn mannau eraill ar draws y byd wedi cael effaith sylweddol. Felly, rydw i'n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod ni'n gweithio i sicrhau ei fod yn cael effaith sylweddol ar y materion i ni o ran teithio i'r gwaith. Wedi'r cyfan, rydym ni eisiau i fwy o bobl deithio i'r gwaith, i fwy o swyddi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:09

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely, Minister. I am very pleased to hear it. However, forgive me if I am sceptical about your own commitment to this, because actions speak louder than words and, in this case, the actions tell a different story. The Welsh Government's consultation document on the M4 clearly states that traffic growth projections were based on population, households, workforce, employment and car ownership. At no point is the transformational potential of the south Wales metro considered in that paper. In fact, the M4 report specifically states that it does not assess the impact of public transport. So, which is it Minister? Do you believe that the metro is going to have this transformational impact? If you do, does that not mean that your assumptions for building a new M4 are based on a false premise?

Yn hollol, Weinidog. Rydw i'n falch iawn o glywed hynny. Fodd bynnag, maddeuwch imi am fod yn amheus o'ch ymrwymiad chi eich hun i hyn, oherwydd trech gweithred na gair ac, yn yr achos hwn, mae'r gweithredoedd yn dweud stori wahanol. Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar yr M4 yn datgan yn glir bod rhagamcaniadau o'r twf mewn traffig yn seiliedig ar y boblogaeth, yr aelwydydd, y gweithlu, cyflogaeth a bod yn berchen ar gar. Nid yw potensial gweddnewidiol metro de Cymru'n cael ei ystyried ar unrhyw bwynt yn y papur hwnnw. Yn wir, mae adroddiad yr M4 yn datgan yn benodol nad yw'n asesu effaith cludiant cyhoeddus. Felly, pa un yw hi Weinidog? A ydych chi'n credu y bydd y metro'n cael yr effaith weddnewidiol hon? Os ydych chi, onid yw hynny'n golygu bod eich tybiaethau ar gyfer adeiladu M4 newydd yn seiliedig ar ragosodiad ffug?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:10

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thought that that would be the third question from the lead up to the first two, and that it would inevitably end up on the issues around the M4. I think that I have made my position quite clear. We are now going to an environmental impact assessment, there is likely to be a public inquiry, and a decision will then be taken. At the same time, we are doing all the necessary work on the metro, because I do believe the metro can be transformational. I very much hope that the figures that people have stated are going to be realistic. I do not have a problem with this; this is a twin-track approach, dealing with public transport investment and also dealing with immediate issues on roads, which, of course, business wants me to get on with.

Wel, roeddwn i'n meddwl mai dyna fyddai'r trydydd cwestiwn o'r arweiniad i'r ddau gyntaf, ac y byddai, yn anochel, yn cyrraedd yn y pen draw at y materion yn ymwneud â'r M4. Rydw i'n meddwl fy mod i wedi cyfleu fy safbwynt yn eithaf clir. Rydym ni nawr yn mynd i asesiad o'r effaith amgylcheddol, mae'n debygol y bydd ymchwiliad cyhoeddus, ac yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Ar yr un pryd, rydym ni'n gwneud yr holl waith sy'n angenrheidiol ar y metro, oherwydd rydw i yn credu y gall y metro fod yn weddnewidiol. Rydw i'n mawr obeithio bod y ffigurau y mae pobl wedi eu nodi yn mynd i fod yn realistig. Nid oes gennyf broblem gyda hyn; mae hon yn ymagwedd ddeublyg, sef ymdrin â buddsoddiad cludiant cyhoeddus ac ymdrin hefyd â materion uniongyrchol ar y ffyrdd y mae busnesau, wrth gwrs, eisiau i mi frwr ymlaen â hwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I now call the Welsh Conservative spokesperson, William Graham. Galwaf yn awr ar lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, William Graham.
- 15:11 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
May I inquire of the Minister what evaluation she has made of the FSB's report, 'Better Regulation for Wales', which indicates that it is clear that both the business community and regulators recognise the flaws in the current approach to regulation in Wales? A gaf i holi'r Gweinidog pa werthusiad y mae hi wedi ei wneud o adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach, 'Gwell Rheoleiddio i Gymru', sy'n dangos ei bod yn eglur bod y gymuned fusnes a'r rheoleiddwyr yn cydnabod y diffygion yn y dull presennol o reoleiddio yng Nghymru?
- 15:11 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We are going through the FSB report in some detail. It is not just my department that it has implications for. I think it is important to recognise that, sometimes, businesses have a false perception of what regulation is. I think it is very important for us to recognise that we have to take reports from organisations like this very seriously. If it would be helpful, I would be more than happy to respond more formally when we have finished our analysis of the FSB report and I have spoken to Cabinet colleagues. It might be helpful for Members to understand what the issues are around regulation. Rydym ni'n mynd drwy adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach yn eithaf manwl. Nid i'm hadran i y mae'r goblygiadau'n unig. Rwyf yn credu ei bod yn bwysig cydnabod bod gan fusnesau, weithiau, gamargraff o ystyr rheoleiddio. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni gydnabod bod yn rhaid inni gymryd adroddiadau oddi wrth sefydliadau fel hyn o ddirif. Pe byddai o gymorth, byddwn yn fwy na pharod i ymateb yn fwy ffurfiol pan fyddwn wedi gorffen ein dadansoddiad o adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach a fy mod wedi siarad â chydweithwyr yn y Cabinet. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau ddeall y materion sy'n ymwneud â rheoleiddio.
- 15:11 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am most grateful to the Minister for her answer and undertaking, which will be very well received. May I point out that your own microbusiness task and finish group, Minister, has already concluded that simplifying regulations within Welsh Government in all departments would make it easier for microbusinesses to sustain and grow their business? Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb a'i hymrwymiad, a fydd yn cael derbyniad da iawn. A gaf fi dynnu sylw at y ffaith fod eich grŵp gorchwyl a gorffen chi eich hun ar microfusnesau, Weinidog, eisoes wedi dod i'r casgliad y byddai symleiddio rheoliadau o fewn Llywodraeth Cymru ym mhob adran yn ei gwneud yn haws i microfusnesau gynnal a datblygu eu busnes?
- 15:12 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes, and I am very pleased by its report, hence why we commissioned it. However, we have to line that up with other concerns outside. It is a group that, of course, has had access to an enormous amount of information about what goes on in Government. So, it is important then that we have the external views from the FSB and those from the microbusiness group. It is very important that we have had all these groups together to look at some of the issues that are raised about regulation. It also goes wider than the regulations. It is about how you access things quickly in terms of start-up loans, grants, and who you speak to. I think we have a lot more work to do in that area, if I may say so. Ie, ac rydw i'n falch iawn o'i adroddiad, a dyna pam y'i comisiynwyd gennym. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hynny gyd-fynd â phryderon eraill y tu allan. Mae'n grŵp sydd wedi cael mynediad i lawer iawn o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y Llywodraeth wrth gwrs. Felly, mae'n bwysig ein bod ni'n cael y safbwyntiau allanol gan y Ffederasiwn Busnesau Bach a'r grŵp microfusnesau. Mae'n bwysig iawn ein bod wedi dod â'r grwpiau hyn i gyd at ei gilydd i edrych ar rai o'r materion sy'n cael eu codi ynghylch rheoleiddio. Mae'n mynd ymhellach na'r rheoliadau hefyd. Mae'n ymwneud â chael mynediad at bethau'n gyflym o ran benthyciadau, grantiau dechrau busnes, a gyda phwy yr ydych chi'n siarad. Rydw i'n credu bod gennym ni lawer mwy o waith i'w wneud yn y maes hwnnw, os caf i ddweud hynny.
- 15:12 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
On the point of grants and loans, what actions have you taken to address the interest rates that Welsh SMEs are offered by Finance Wales, and, presumably, by its successor, which will be higher, and are already higher, than the European Commission's reference rate, which provides guidelines on the cost of loans by state banks and other state-aid regulations? Ar y pwynt ynglŷn â grantiau a benthyciadau, pa gamau ydych chi wedi'u cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r cyfraddau llog a gynnigir i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru gan Gyllid Cymru ac, yn ôl pob tebyg, gan ei olynydd, a fydd yn uwch, ac sydd eisoes yn uwch na chyfradd gyfeirio'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n rhoi canllawiau ar gost benthyciadau gan fanciau gwladwriaethol a rheoliadau cymorth gwladwriaethol arall?

15:13	Edwina Hart Bywgraffiad Biography I think it is very important that we take very seriously the comments that have been made about Finance Wales and dealing with issues. Of course, the Finance Committee did an excellent report on Finance Wales and looked at a wide range of issues. May I assure you and Members that we are reviewing the role of Finance Wales to enhance its capability and make it very accessible to businesses, perhaps more accessible than it has been previously, in terms of its dialogue and, of course, the interest rates and everything? We are also very keen to ensure that we have the right organisation in place to deal with these matters on behalf of Government.	Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cymryd y sylwadau sydd wedi'u gwneud ynglŷn â Chyllid Cymru o ddifrif ac yn ymdrin â'r materion. Wrth gwrs, lluniodd y Pwyllgor Cyllid adroddiad rhagorol ar Gyllid Cymru gan edrych ar ystod eang o faterion. A gaf fi eich sicrhau chi a'r Aelodau ein bod ni'n adolygu swyddogaeth Cyllid Cymru er mwyn gwella ei allu a'i wneud yn hawdd iawn i fusnesau gael ato, yn haws nag y bu o'r blaen efallai, o ran ei ddeialog ac, wrth gwrs, y cyfraddau llog a phopeth? Rydym ni hefyd yn awyddus iawn i sicrhau bod gennym y sefydliad cywir ar waith i ymdrin â'r materion hyn ar ran y Llywodraeth.	Senedd.tv Fideo Video
15:13	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography I now call on the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.	Galwaf yn awr ar lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.	Senedd.tv Fideo Video
15:13	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography Bydd y fenter benthyca llywodraeth leol i gynnal priffyrdd yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. A yw'r Gweinidog wedi gwneud asesiad o effaith hynny?	The local government borrowing initiative to maintain highways will come to an end at the end of this financial year. Has the Minister carried out any assessment of the impact of that?	Senedd.tv Fideo Video
15:14	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Yes. I am currently in discussions with the Minister for finance on these issues.	Ydw. Rydw i'n trafod y materion hyn gyda'r Gweinidog cyllid ar hyn o bryd.	Senedd.tv Fideo Video
15:14	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography Mae cynghorau wedi gallu gwario £172 miliwn o dan y cynllun hwn dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae wedi sicrhau bod diffygion mewn ffyrdd yn gallu cael eu tacio a'u gwella cyn iddynt droi'n broblemau mawr costus. A yw'r Gweinidog yn rhannu'r pryderon y bydd gwario llai rwan mewn difrif yn arwain at gostau llawer uwch yn y dyfodol?	Councils have been able to spend £172 million under this programme over the last three years. It has ensured that problems on roads can be tackled and that roads can be improved before those problems become very costly. Does the Minister share the concerns that spending less now will lead to far greater costs in the future?	Senedd.tv Fideo Video
15:14	Edwina Hart Bywgraffiad Biography I think it is very important that we maintain our roads properly and have a proper job, not patching exercises. I think this notion that I think has gone on across our border that we will have people with little buckets and spades in some local authority areas patching the roads is absolute nonsense.	Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod ni'n cynnal ein ffyrdd yn briodol ac yn gwneud y gwaith yn iawn, nid ymarferion clytio. Rwyf yn credu bod y syniad yma sydd, rwy'n credu, wedi mynd ymlaen dros ein ffin, y bydd gennym ni bobl â bwcedi a rhawiau bach mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol yn clytio'r ffyrdd yn nonsens llwyr.	Senedd.tv Fideo Video
15:14	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography It has been a very successful Wales-wide programme. It has been welcomed by local government. It has been a Wales-wide investment in infrastructure, contrasting, of course, with the huge expenditure planned for the M4. However, will the Minister look for new ways, in discussions with the Minister for finance, of either extending this particular programme as it stands or of investing directly in capital spend so that we do not store up problems on our roads for the future?	Mae hi wedi bod yn rhaglen lwyddiannus iawn drwy Gymru gyfan. Mae hi wedi ei chroesawu gan lywodraeth leol. Mae wedi golygu buddsoddiad mewn seilwaith ledled Cymru, sy'n gwrthgyferbynnu wrth gwrs â'r gwariant enfawr a gynlluniwyd ar gyfer yr M4. Fodd bynnag, bydd y Gweinidog, mewn trafodaethau â'r Gweinidog cyllid, yn chwilio am ffyrdd newydd naill ai o ymestyn y rhaglen benodol hon fel y mae hi, neu o fuddsoddi mewn gwariant cyfalaf yn uniongyrchol fel nad ydym yn storio problemau ar ein ffyrdd ar gyfer y dyfodol?	Senedd.tv Fideo Video

15:15	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Depending, of course, on the budget and things of that nature, I am very happy to have that continuing dialogue with the Minister for finance, because I think that it is important, sometimes, to spend in advance of the problem.	Gan ddbynnu, wrth gwrs, ar y gyllideb a phethau felly, rwyf yn fodlon iawn cael trafodaethau parhaus â'r Gweinidog cyllid, oherwydd fy mod yn credu ei bod hi weithiau'n bwysig gwario ymlaen llaw, cyn y broblem.	Senedd.tv Fideo Video
Cymorth i Fusnesau Bach		Support for Small Businesses	
15:15	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography <i>3. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu cymorth i fusnesau bach yng Nghymru erbyn diwedd 2014? OAQ(4)0458(EST)</i>	<i>3. What action will the Welsh Government take to increase support for small businesses in Wales by the end of 2014? OAQ(4)0458(EST)</i>	Senedd.tv Fideo Video
15:15	Edwina Hart Bywgraffiad Biography We are committed to providing a broad range of information, advice and support to small businesses in Wales accessed through the Business Wales service.	Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ystod eang o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fusnesau bach yng Nghymru a fydd ar gael drwy wasanaeth Busnes Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
15:15	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography Thank you for that answer, Minister. The Federation of Small Businesses recently revealed that small firms in Wales are suffering from, in its words, 'heavy handed and inconsistent' regulation. It went on to call for an overhaul of the system to prevent Welsh companies falling behind competitors in less regulated, and better regulated, countries. Can the Minister advise whether she has now seen this report, and will she agree to discuss with the First Minister the FSB's recommendation that a Minister be appointed with specific responsibility for deregulation?	Diolch ichi am yr ateb yna, Weinidog. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn ddiweddar bod cwmnïau bach yng Nghymru yn dioddef, yn ei eiriau ef, yn sgil rheoleiddio llawdrwm ac anghyson. Aeth ymlaen i alw am ailwampio'r system er mwyn atal cwmnïau o Gymru rhag colli tir i gystadleuwyr mewn gwledydd lle y ceir llai o reoleiddio a gwell rheoleiddio. A all y Gweinidog ddweud pa un a yw hi bellach wedi gweld yr adroddiad hwn, ac a wnaiff hi gytuno i gael trafodaeth gyda'r Prif Weinidog ynglŷn ag argymhelliad y Ffederasiwn Busnesau Bach bod Gweinidog yn cael ei benodi gyda chyfrifoldeb penodol dros ddadreoleiddio?	Senedd.tv Fideo Video
15:16	Edwina Hart Bywgraffiad Biography Thank you very much. I think that I have already answered your question in my dialogue with William Graham, who raised this with me. We have the report; we are looking at it, and I will respond to Members quite openly on what it has indicated.	Diolch yn fawr iawn. Rwyf yn credu fy mod i wedi ateb eich cwestiwn yn barod yn fy neialog â William Graham, a gododd hyn gyda mi. Mae'r adroddiad gennym ni; rydym ni'n edrych arno, a byddaf yn ymateb i Aelodau yn dra agored ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei ddangos.	Senedd.tv Fideo Video
15:16	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography Minister, how will you assess what real difference Business Wales has made to small businesses, and have you measured its impact so far as a support service? What are your plans for its future, given that the current round of convergence funding is coming to an end?	Weinidog, sut y byddwch chi'n asesu pa wahaniaeth gwirioneddol y mae Busnes Cymru wedi ei wneud i fusnesau bach, ac a ydych chi wedi mesur ei effaith hyd yma fel gwasanaeth cymorth? Beth yw eich cynlluniau ar gyfer ei ddyfodol, o ystyried bod y rownd bresennol o gyllid cydgyfeirio yn dod i ben?	Senedd.tv Fideo Video

- 15:16 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There is an issue, obviously, about the current round of convergence funding coming to an end. In terms of Business Wales, we have been pleased with the way that it has supported entrepreneurs, new start-ups and existing businesses. We think that the Business Wales one-stop shop has been useful, and we have looked at how we can deal with these issues. It is an ongoing review for us, in terms of what we do with this, because we have a group monitoring it all of the time. It might be helpful to Members if I were to issue a report on what is going on in Business Wales to assure Members of what it is actually doing and the level of referrals et cetera.
- Mae yna broblem, wrth gwrs, gyda'r rownd bresennol o gyllid cydgyfeirio yn dod i ben. O ran Busnes Cymru, rydym ni wedi bod yn falch o'r ffordd y mae wedi cefnogi entrepreneuriaid, busnesau newydd a busnesau a oedd yn bodoli eisoes. Rydym ni'n credu bod siop-un-stop Busnes Cymru wedi bod yn ddefnyddiol, ac rydym ni wedi edrych ar ffyrdd o ymdrin â'r materion hyn. Mae'n adolygiad parhaus i ni, o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud gyda hyn, gan fod gennym ni grŵp yn ei fonitro trwy'r amser. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau pe byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar yr hyn sy'n digwydd ym Musnes Cymru i sicrhau Aelodau o'r hyn y mae'n ei wneud mewn gwirionedd a lefel yr atgyfeiriadau ac ati.
- Gorsafoddd Trenau** **Train Stations**
- 15:17 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 4. A wnaiffy Gweinidog roi diweddariad ar welliannau i orsafoedd trenau i'r gorllewin o Gaerdydd? OAQ(4)0465(EST)*
- 4. Will the Minister provide an update on improvements to train stations to the west of Cardiff? OAQ(4)0465(EST)*
- 15:17 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In terms of railway stations west of Cardiff, the management of rail infrastructure is not devolved and funding provided for new rail infrastructure is the responsibility of the UK Government.
- O ran gorsafoddd rheilffordd i'r gorllewin o Gaerdydd, nid yw rheoli seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y cyllid a ddarperir ar gyfer seilwaith rheilffyrdd newydd.
- 15:17 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r orsaf yn Llanelli yn borth i'r dref, gyda thrafnidiaeth integredig yn bwysig o ran denu ymwelwyr a darparu trafndiaeth i'r gweithlu. Mewn cyfarfod gyda Network Rail, siaradais am grantiau ar gyfer gorsafoddd i'r gorllewin o Gaerdydd. Rwy'n cefnogi'n llwyr y cyfle i wneud gwelliannau i'r orsaf yn Llanelli. A all y Gweinidog ddarparu manylion unrhyw gais a dderbynnir a'r camau nesaf os bydd grantiau ar gael?
- The station in Llanelli is a gateway to the town, with integrated transport being important in terms of attracting visitors and providing transport for the workforce. In a meeting with Network Rail, I discussed grants for stations to the west of Cardiff. I support entirely the opportunity to make improvements to Llanelli station. Can the Minister provide details of any bid received and of the next steps if grants were to be available?
- 15:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We are working with the rail industry on further improvements, and I can confirm that we are developing outline design studies for a package of station improvements that include Llanelli.
- Rydym ni'n gweithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd ar fwy o welliannau, a gallaf gadarnhau ein bod yn datblygu astudiaethau dylunio amlinellol ar gyfer pecyn o welliannau i orsafoedd sy'n cynnwys Llanelli.

15:18

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, during our exchange at the Enterprise and Business Committee last week, I was delighted that we agreed on an issue, namely that Swansea train station is, of course, in the wrong place. I have long lobbied anyone who will listen, including Network Rail, about the need for a Swansea parkway, which would connect west Wales, Swansea and the Swansea bay city region much more efficiently to the Great Western line, Cardiff and, indeed, the world. Would you investigate the feasibility of a Swansea parkway station, especially given the imminent investment in the Great Western line to Swansea and in the south Wales metro? This is the time, I believe, to redesign public transport in the Swansea area, and a parkway station would lead this regeneration and benefit everything west of Cardiff.

Weinidog, yn ystod ein trafodaeth yn y Pwyllgor Menter a Busnes yr wythnos diwethaf, yr oeddwn wrth fy modd ein bod ni wedi cytuno ar fater, sef bod gorsaf drenau Abertawe, wrth gwrs, yn y lle anghywir. Rwyf wedi lobbio unrhyw un sy'n barod i wrando ers tro, gan gynnwys Network Rail, am yr angen am barcfordd yn Abertawe, a fyddai'n cysylltu'r, Abertawe a dinas-ranbarth Bae Abertawe yn llawer mwy effeithlon â llinell y Great Western, Caerdydd ac, yn wir, y byd. A fydddech chi'n ymchwilio i ddichonoldeb gorsaf barcfordd yn Abertawe, yn enwedig o ystyried y buddsoddiad sydd ar fin digwydd i linell y Great Western i Abertawe ac i fetro de Cymru? Dyma'r amser, yn fy marn i, i ail-gynllunio cludiant cyhoeddus yn ardal Abertawe, a byddai gorsaf barcfordd yn arwain yr adfywio hwn a byddai o fudd i bopeth sydd i'r gorllewin o Gaerdydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:19

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Never mind our personal opinions, but, of course, it should be a Gowerton parkway that should be expanded and utilised for the development of Wales. [Laughter.]

Dim ots am ein barn bersonol, ond, wrth gwrs, parcfordd Tre-gŵyr y dylid ei ehangu a'i ddefnyddio ar gyfer datblygu Cymru. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Obviously, we are talking about very expensive things here. I think that one issue that I am going to ask Sir Terry Matthews to look at, in the context of the city region in Swansea, is getting to grips with some of the transport issues and other issues in Swansea. I will certainly highlight that to him, but I am not sure who is going to pay for it.

Yn amlwg, rydym ni'n sôn am bethau drud iawn yma. Rwyf yn meddwl mai un mater y byddaf yn gofyn i Syr Terry Matthews edrych arno, yng nghyd-destun dinas-ranbarth Abertawe, yw mynd i'r afael â rhai o'r materion trafnidiaeth a materion eraill yn Abertawe. Byddaf yn sicr yn tynnu ei sylw at hynny, ond dydw i ddim yn siŵr pwy sy'n mynd i dalu am hynny.

15:19

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you will be pleased to hear that work is progressing well on the development of Port Talbot Parkway station, which has received funding under the station improvement programme. Hopefully, come the end of March or April next year, we will see it finished.

Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn falch o glywed bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar ddatblygu gorsaf Parcfordd Port Talbot, sydd wedi derbyn cyllid o dan y rhaglen gwella gorsafoedd. Gobeithio, erbyn diwedd mis Mawrth neu fis Ebrill y flwyddyn nesaf y byddwn yn ei weld yn cael ei orffen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, one of the important issues that has come to light during this construction is the difficulty that travellers have in accessing the railway station during the construction period. In fact, there are constituents of mine who now have to cross three roads to get to the railway station, whereas before they could just park outside. Will you look at any contracts that you establish in the future through this funding grant to ensure that the access to railway stations is safe and secure for all travellers during the construction phase?

Fodd bynnag, un o'r materion pwysig sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y gwaith adeiladu hwn yw'r anhawster y mae teithwyr yn ei gael i fynd i'r orsaf reilffordd yn ystod y cyfnod adeiladu. Mewn gwirionedd, mae rhai o fy etholwyr bellach yn gorfod croesi tair ffordd er mwyn cyrraedd yr orsaf reilffordd, yn hytrach na pharcio y tu allan fel yr oeddynt yn arfer ei wneud. A wneuch chi edrych ar unrhyw gontractau a sefydlir yn y dyfodol trwy'r grant ariannu hwn i sicrhau bod mynediad at orsafoedd rheilffordd yn saff a diogel i'r holl deithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu?

15:20

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I have actually had a look with my officials at the issues around Port Talbot, and, apparently, there are particular challenges there. However, I think that the point is well made. Network Rail always tries to help with the best way of going onto platforms when there is work being undertaken. There has to be a full safety assessment and everything, but I will certainly look to see what I can do to improve any work that is done in future at other stations, because I recognise that it is very inconvenient currently.

Gwnaf. Mae fy swyddogion a minnau mewn gwirionedd, wedi cael golwg ar y materion yn ymwneud â Phort Talbot, ac, mae'n ymddangos bod yno heriau penodol. Fodd bynnag, rydw i'n credu bod y pwynt wedi ei wneud yn dda. Mae Network Rail bob amser yn ceisio helpu â'r ffordd orau o gyrraedd platfformau pan fo gwaith yn cael ei wneud. Mae angen cynnal asesiad diogelwch llawn a phopeth, ond byddaf yn sicr yn edrych i weld beth y gallaf ei wneud i wella unrhyw waith sy'n cael ei wneud yn y dyfodol mewn gorsafoedd eraill, gan fy mod yn cydnabod bod pethau'n anghyfleus iawn ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:21	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Pa astudiaethau sydd wedi eu cynnal i weld yr effaith y mae adnewyddu gorsafoedd rheilffordd yn ei chael o ran defnydd o'r rheilffordd? A oes modd o adnewyddu gorsafoedd rheilffordd i hyrwyddo gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus integredig, gan sicrhau bod gwybodaeth am y cysylltiadau integredig hynny a bod mwy o ddefnydd ohonyn nhw?			Senedd.tv Fideo Video
15:21	Edwina Hart Bywgraffiad Biography I totally concur with you about the use of information and the integration of public transport. I am not sure what work has been done specifically on the point that the Member raises with me. Therefore, I will be happy to speak to officials and to respond to you on that issue.		Rwyf yn cytuno'n llwyr gyda chi ynglŷn â'r defnydd o wybodaeth ac integreiddio cludiant cyhoeddus. Nid wyf yn siŵr pa waith sydd wedi ei wneud yn benodol ar y pwynt y mae'r Aelod yn ei godi â mi. Felly, byddaf yn hapus i siarad â swyddogion ac i ymateb i chi ar y mater hwnnw.	Senedd.tv Fideo Video
	Gwaith ar yr A55		Roadworks on the A55	
15:21	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography I know that we have discussed the A55 earlier, but, Minister, I just wanted to echo what has already been said and to stress that, clearly, the A55—		Gwn ein bod ni wedi trafod yr A55 yn gynharach, ond, Weinidog, roeddwn i eisieu ailadrodd yr hyn sydd eisoes wedi ei ddweud a phwysleisio, yn amlwg, bod yr A55—	Senedd.tv Fideo Video
15:21	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Can you just put the question?		A wnewch chi ofyn y cwestiwn?	Senedd.tv Fideo Video
15:22	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella'r A55? OAQ(4)0471(EST)</i>		<i>5. Will the Minister make a statement on the roadworks currently being undertaken to improve the A55? OAQ(4)0471(EST)</i>	Senedd.tv Fideo Video
15:22	Edwina Hart Bywgraffiad Biography We are introducing resilience improvements along the A55 and A494 to minimise delays and congestion during major traffic incidents, driver emergencies and breakdowns. All improvements are scheduled for completion by February 2015.		Rydym ni'n cyflwyno gwelliannau cyfnerthu ar hyd yr A55 a'r A494 er mwyn lleihau'r oedi a thagfeydd pan fydd digwyddiadau traffig mawr, argyfyngau gyrrwyr a phan fydd cerbydau yn torri i lawr. Mae'r gwelliannau i gyd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Chwefror 2015.	Senedd.tv Fideo Video
15:22	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Thank you for that answer, Minister. We really welcome the improvements, and it is fair to say that the A55 was certainly the best thing that ever happened in north Wales, and certainly around Conwy, as it was such an arterial vein, bringing much needed investment in.		Diolch ichi am yr ateb yna, Weinidog. Rydym ni'n croesawu'r gwelliannau'n fawr, ac mae'n deg dweud mai'r A55 oedd yn bendant y peth gorau a ddigwyddodd i'r gogledd erioed, ac yn sicr o amgylch Conwy, gan ei bod yn wythien bwysig, a ddaeth â buddsoddiad yr oedd wir ei angen i'r ardal.	Senedd.tv Fideo Video
	However, the problem now is—there has been talk of the repairs and everything—the number of accidents that are taking place on the A55, because, quite often, we see road closures that then bring gridlock to transport coming into Llandudno, Deganwy, Llandudno Junction and Conwy. Will you ensure that there is some dialogue between the trunk road agency, the local authority and the elected Members here, because we are all trying to get to the same place, so to speak, but it is an issue that really does need some collaborative working?		Fodd bynnag, y broblem erbyn hyn yw—soniwyd am y gwaith atgyweirio a phopeth— nifer y damweiniau sy'n digwydd ar yr A55, oherwydd, yn aml iawn, rydym ni'n gweld cau ffyrdd sydd wedyn yn dod â thagfeydd i Llandudno, Deganwy, Cyffordd Llandudno a Chonwy. A wnewch chi sicrhau bod rhywfaint o ddeialog yn digwydd rhwng yr asiantaeth cefnffyrdd, yr awdurdod lleol a'r Aelodau etholedig yma, oherwydd rydym ni i gyd yn ceisio cyrraedd i'r un lle, fel petai, ond mae'n fater sydd wir angen rhywfaint o gydweithio?	

15:23

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that we do have collaborative working. In fact, I have been concerned about the level of motor accidents recently across the whole of Wales, particularly involving motor cyclists, which is a point that Kirsty Williams has raised with me previously, and other accidents. I discussed this whole issue with the chief constables yesterday, because there is not one reason for any of this; there seems to be diverse reasons. Safety is the issue that I have constantly in mind. Sometimes, when we complain that there is no workforce in place, and ask, 'Why do we have to slow down?', 'Why are their lights on?' et cetera, it is actually because we have to do things differently in terms of hardening foundations and stuff. Therefore, I think that we have to be a bit patient with some of this, and people need to get more patience when there are roadworks being undertaken that will benefit everybody in the long run.

Rwyf yn credu ein bod ni'n gweithio ar y cyd. Mewn gwirionedd, rwyf wedi bod yn pryderu am lefel y damweiniau modur ar draws Cymru gyfan yn ddiweddar, yn enwedig o ran beicwyr modur, sydd yn bwynt y mae Kirsty Williams wedi ei godi gyda mi o'r blaen, yn ogystal â damweiniau eraill. Trafodais y mater yn ei gyfanrwydd â'r prif gwnstabiliaid ddoe, gan nad oes un rheswm penodol am hyn; mae'n ymddangos bod amrywiol resymau. Mae diogelwch yn fater sydd ar fy meddwl trwy'r amser. Weithiau, pan fyddwn yn cwyno nad oes gweithlu yn gweithio ar y ffordd, ac yn gofyn, 'Pam mae'n rhaid i ni arafu?', 'Pam mae eu goleuadau ymlaen?' ac ati, mae hynny oherwydd bod yn rhaid i ni wneud pethau'n wahanol mewn gwirionedd o ran caledu sylfeini a ballu. Felly, rwyf yn meddwl bod yn rhaid inni fod ychydig yn amyneddgar gyda rhywfaint o hyn, ac mae angen i bobl fod yn fwy amyneddgar pan fo gwaith yn cael ei wneud ar y ffordd a fydd o fudd i bawb yn y pen draw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:24

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ar yr A55 rhwng Llandegái a Llanfairfechan, yn fy etholaeth i, pan fydd damwain neu lifogydd—ac, yn anffodus, mae llifogydd yn digwydd yn reit aml—mae llawer o'r traffig, gan gynnwys lorïau trwm, yn defnyddio lôn fach gul Crymlyn ger pentref Aber, ac mae lorïau yn mynd yn sownd yno. Yn wir, bu lorï'n sownd yno am ddau ddiwrnod rai blynyddoedd yn ôl. Felly, a wnaiff eich swyddogion gyflwyno mesurau i atal traffig trwm rhag defnyddio'r ffordd gul, droellog hon gan greu anawsterau mawr i'r trigolion?

On the A55 between Llandygái and Llanfairfechan, in my constituency, when there is an accident or flooding—and, unfortunately, flooding occurs quite regularly—a lot of the traffic, including heavy vehicles, uses the very narrow Crymlyn road near the village of Aber, and lorries get stuck there. Indeed, a lorry was stuck there for two days some years ago. So, will your officials put measures in place to prevent heavy traffic from using this narrow, winding road, as this creates great difficulties for local people?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:24

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, you have raised this issue regarding north Wales, and this is quite a common issue that is raised with me when people are going off the main stretch to get around. We have asked the police in certain areas to look at whether they can enforce in terms of some of the vehicles that are going through and look at what needs to be done. However, I am more than happy to take up those points with my officials as they are well made.

Yn amlwg, rydych chi wedi codi'r mater hwn ynglŷn â'r gogledd, ac mae hwn yn fater eithaf cyffredin sy'n cael ei godi gyda mi pan fydd pobl yn mynd oddi ar y brif ffordd i'w hosgoi. Rydym ni wedi gofyn i'r heddlu mewn rhai ardaloedd ystyried a oes modd iddynt gymryd camau gorfodi o ran rhai o'r cerbydau sy'n mynd trwodd ac edrych ar yr hyn sydd angen ei wneud. Fodd bynnag, rwyf yn fwy na bodlon codi'r pwyntiau hyn gyda fy swyddogion gan eu bod wedi eu mynegi'n dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:25

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinodog, rwy'n cydnabod y gwaith sydd wedi ei wneud yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond fe ddywedoch chi ym mis Tachwedd y llynedd eich bod yn barod iawn i edrych ar gynlluniau ar gyfer gwariant ar yr A55. A ydy'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo? Wrth ystyried yr hyn a ddywedoch chi am asesiadau amgylcheddol ac ati, pryd ydych yn meddwl y bydd yr holl brosiectau yn barod er mwyn inni weld a ydynt am ddefnyddio pwerau benthyca ar gyfer yr A55 yn ogystal â'r M4, os mai dyna yw eich dymuniad chi?

Minister, I acknowledge the work that has been done in recent years, but you said in November last year that you were very willing to look at plans for expenditure on the A55. Is that work being undertaken? Given what you said about environmental assessments and so forth, when do you think that all the projects will be ready so that we can see whether they will use borrowing powers for the A55 in addition to the M4, if that is your desire?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:25

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have started a whole series of actions to look at how we can make improvements to the A55, and I will be happy to share those with Members when they are available.

Rydym ni wedi dechrau cyfres gyfan o gamau gweithredu i edrych ar sut y gallwn ni wneud gwelliannau i'r A55, a byddaf yn fwy na pharod i'w rhannu â'r Aelodau pan fyddant ar gael.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

The Active Travel (Wales) Act 2013

15:25

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Sut y bydd Caerdydd yn elwa ar y gyllideb a ddyrannwyd i weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0468(EST)

6. How will Cardiff benefit from the budget allocated to implement the Active Travel (Wales) Act? OAQ(4)0468(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:26

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will be working closely with local authorities to ensure that the appropriate infrastructure is put in place to promote walking and cycling across the whole of Wales.

Byddwn yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol i sicrhau bod y seilwaith priodol yn cael ei sefydlu i hyrwyddo cerdded a beicio ar draws Cymru gyfan.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:26

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are some exemplary schemes, like the scheme in Marlborough Primary School in my constituency, which has a walking bus so that children can walk to school safely. On the other hand, I am astonished to see the number of parents who pick up their secondary school children when they should be either walking or getting the bus back home. What is being done to ensure that each school and each employer has an active travel plan?

Mae rhai cynlluniau rhagorol, fel y cynllun yn Ysgol Gynradd Marlborough yn fy etholaeth i, sydd â bws cerdded er mwyn i blant allu cerdded i'r ysgol yn ddiogel. Ar y llaw arall, rydw i'n rhyfeddu gweld cynifer o rieni'n mynd i nôl eu plant o'r ysgol uwchradd pan ddylent fod yn cerdded neu'n dal y bws yn ôl adref. Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod gan bob ysgol a phob cyflogwr gynllun teithio llesol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:26

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In fact, I have been discussing with the Minister for Education and Skills the whole issue of active travel plans that are focused on children and young people, and we are keen to work across departments on these particular issues. In terms of active travel plans, some employers do have active travel plans, and I am also working on what children and young people want through my work with the children's commissioner. We did fund the development of a Smarter Choices toolkit for teachers, which gave them a resource for primary schools. It is a question of trying to do more work and, in terms of my department, we are looking at how we can facilitate these things better.

Mewn gwirionedd, rwyf wedi bod yn trafod cynlluniau teithio llesol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, ac rydym ni'n awyddus i weithio ar draws adrannau ar y materion penodol hyn. O ran cynlluniau teithio llesol, mae gan rai cyflogwyr gynlluniau teithio llesol, ac rydw i hefyd yn gweithio ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn dymuno ei gael yn sgil fy ngwaith gyda'r comisiynydd plant. Fe wnaethom ni ariannu'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth Dewisiadau Doethach i athrawon, a oedd yn rhoi adnodd iddynt ar gyfer ysgolion cynradd. Mae'n fater o geisio gwneud mwy o waith ac, o ran fy adran i, rydym ni'n edrych ar well ffyrdd o hwylyso'r pethau hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:27

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I understand that there was a budget line of £289,000 attached to the Act for local authorities to map and signpost various routes. The sum of £289,000 is quite an odd number, if you like; what thought went into the demands financially that were placed on the Bill so that that money achieves best value, or was the figure plucked out of the air and divided by 22 authorities? Is there some logic about the £289,000 being spent effectively to create the right mapping so that the Bill achieves what it set out to do?

Weinidog, rydw i'n deall bod cyllideb o £289,000 ynghlwm wrth y Ddeddf i awdurdodau lleol fapio ac arwyddo amrywiaeth o lwybrau. Mae'r swm o £289,000 yn rhif rhyfedd, os mynnwch chi; pa ystyriaeth a roddwyd i'r galw ariannol ar y Bil fel bod yr arian hwnnw'n sicrhau'r gwerth gorau, ynteu ai ffigwr a dynnwyd allan o'r awyr a'i rhannu rhwng 22 awdurdod oedd hwn? A oes unrhyw resymeg ynglŷn â gwario'r £289,000 yn effeithiol er mwyn mapio'n gywir fel bod y Bil yn cyflawni'r hyn y bwriadwyd iddo ei wneud?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 15:27 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Obviously, I was asked about the budget, although I did not previously deal with the active travel Bill. I was asked to protect the budget, which I have done. However, I am looking at what is required in terms of the active travel Act, and perhaps it includes being a bit more proactive in this regard from the centre, because it is very important that I put my own house in order here on my trunk roads, which I will be looking at. I have also started to do an analysis of the money that has gone through the local government settlement to local authorities in terms of transport in order to see how much they are spending and on what as part of the unhypothecated funding, which might help the wider discussion on this issue.
- Yn amlwg, fe'm holwyd ynglŷn â'r gyllideb, er nad oeddwn yn ymdrin â'r Bil teithio llesol yn flaenorol. Gofynnwyd i mi ddiogelu'r gyllideb, ac rwyf wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, rwyf yn edrych ar yr hyn sy'n ofynnol o ran y Ddeddf teithio llesol, ac efallai bod hynny'n cynnwys bod ychydig yn fwy rhagweithiol o'r canol yn hynny o beth, gan ei bod yn bwysig iawn fy mod yn rhoi trefn ar fy nhŷ fy hun o ran fy nghefnffyrdd, a byddaf yn edrych ar hynny. Rwyf hefyd wedi dechrau gwneud dadansoddiad o'r arian sydd wedi mynd trwy'r setliad llywodraeth leol i awdurdodau lleol ar gyfer trafniadaeth er mwyn gweld faint sy'n cael ei wario a pha ran o'r cyllid sydd heb ei neilltuo, a allai helpu'r drafodaeth ehangach ar y mater hwn.
- 15:28 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It has long been a bone of contention where I live in the Rhondda that large swathes of both Valleys have little or no cycle track to meet the growing demand for cycling. It is a particular issue, you will understand, when you want to cycle with young children, which is of course something that we all want to encourage. Now that we have the active travel Act, what level of funding will you be able to provide for individual local authorities when they have drawn up their plans, and can those local authorities, where there is little cycle track now, expect a bit more?
- Mae wedi bod yn asgwrn cynnen ers amser maith ym mhle'r wyf yn byw yn y Rhondda, nad oes gan rannau helaeth o'r ddau Gwm ddim ond rhywfaint neu ddim llwybrau beiciau i fodloni'r galw cynyddol am feicio. Mae'n broblem arbennig pan yr ydych chi eisiau seiclo gyda phlant ifanc sydd, wrth gwrs, yn rhywbeth yr ydym i gyd ydymuno ei annog. Gan fod gennym y Ddeddf teithio llesol erbyn hyn, pa lefel o gyllid y bydd modd ichi ei ddarparu ar gyfer awdurdodau lleol unigol pan fyddant wedi paratoi eu cynlluniau, ac a gaiff yr awdurdodau lleol hynny, lle nad oes llawer llwybr beicio ar hyn o bryd, ddisgwyl rhywfaint yn fwy?
- 15:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is on Cardiff—I did not stop Leanne Wood, but you will want to focus on that mostly, Minister.
- Am Gaerdydd y mae'r cwestiwn—wnes i ddim atal Leanne Wood, ond byddwch chi eisiau canolbwyntio ar hynny fwyaf, Weinidog.
- 15:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- If I can respond to that, in terms of cycle tracks in Cardiff and the links into the Valleys, it is important to recognise that we have uncompleted networks. I have asked Sustrans to draw up the networks it thinks are effective in terms of undertaking cycling. I will then work with the local authorities to map what they think their priorities are, and I will then look at the funding stream. Therefore, we might say, 'We've got all of this; it will take us five years to do it, but we will do it in this order'. That is what I am currently working towards with officials.
- Os caf i ymateb i hynny, o ran y llwybrau beicio yng Nghaerdydd a'r cysylltiadau i'r Cymoedd, mae'n bwysig cydnabod bod gennym ni rwydweithiau sydd heb eu cwblhau. Rwyf wedi gofyn i Sustrans lunio'r rhwydweithiau y mae'n eu hystyried yn effeithiol o ran ymgymryd â beicio. Byddaf wedyn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i fapio'r hyn y maent yn ei deimlo yw'r blaenoriaethau, a byddaf wedyn yn edrych ar y ffrwd ariannu. Felly, efallai y byddwn ni'n dweud: Mae gennym hyn i gyd; bydd yn cymryd pum mlynedd i ni ei wneud, ond byddwn yn ei wneud yn y drefn hon. Dyna'r hyn yr wyf i'n gweithio tuag ato gyda swyddogion ar hyn o bryd.
- Gorsaf Drenau Bow Street** **The Bow Street Train Station**
- 15:29 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 7. A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gynlluniau i ailagor yr orsaf drenau yn Bow Street, rhwng Aberystwyth a Machynlleth? OAQ(4)0460(EST)*
- 7. Will the Minister provide an update on plans to reopen the train station in Bow Street, between Aberystwyth and Machynlleth? OAQ(4)0460(EST)*

- 15:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will continue to press the UK Government and Network Rail to invest in Wales's railway infrastructure as they are required to do. I will also consider further investment where there is a positive case to do so.
- Byddaf yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU a Network Rail i fuddsoddi yn seilwaith rheilffyrdd Cymru fel y mae'n ofynnol iddynt ei wneud. Byddaf hefyd yn ystyried buddsoddiad ychwanegol pan fo achos cadarnhaol dros wneud hynny.
- 15:30 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Flydddyn nesaf, bydd trenau yn rhedeg bob awr ar y rheilffordd hon rhwng Aberystwyth ac Amwythig, ac yn gwneud yr opsiwn i agor gorsaf yn Bow Street yn llawer mwy ymarferol. Cryfder yr achos dros Bow Street yw y gall gyfrannu'n sylweddol at leihau dwysedd y traffig i mewn i Aberystwyth. A wnewch chi, felly, gadarnhau y byddwch yn barod i wrando ar yr hyn sydd gan yr awdurdod lleol, a phartneriaid eraill, i ddweud ar hyn, i sicrhau y gellid edrych i ddatblygu'r prosiect a'r syniad hwn ymhellach?
- Next year, there will be an hourly service on this line between Aberystwyth and Shrewsbury, making the option of opening a station at Bow Street much more practical. The strength of the case for Bow Street is that it could contribute significantly to reducing the density of traffic going in to Aberystwyth. Will you, therefore, confirm that you are willing to listen to what the local authority and other partners have to say on this, to ensure that this project and this idea could be developed further?
- 15:30 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rail provides an important means of connectivity to serve the needs of your constituency and wider afield. We are committed to working with Network Rail. The UK Government obviously has funding responsibility, but we have committed match funding. The Access for All programme is one of the projects within Wales that we have dealt with and I will continue to do so, because I think that it is very important that we have the necessary stations in place to ensure that people are able to use rail services effectively.
- Mae rheilffyrdd yn ddull pwysig o sicrhau cysylltedd i fodloni anghenion eich etholaeth a'r ardal ehangach. Rydym ni wedi ymrwymo i weithio gyda Network Rail. Mae'n amlwg mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ariannu, ond rydym ni wedi addo cyllid cyfatebol. Y rhaglen Mynediad i Bawb yw un o'r prosiectau yng Nghymru yr ydym ni wedi ymwneud ag ef, a byddaf yn parhau i wneud hynny, gan fy mod yn credu ei bod yn bwysig iawn bod y gorsafodded angenrheidiol ar gael er mwyn sicrhau y gall pobl ddefnyddio gwasanaethau rheilffordd yn effeithiol.
- 15:31 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Much of what happens will depend, when the current franchise ends in 2018, whether we have devolution or not. However, we know that, thanks to Welsh Government funding, there will be extra services on the Cambrian Heart of Wales line from next May. As you go into the franchise negotiations, Minister, what are your priorities for those two essential and treasured lines?
- Mae llawer o'r hyn a fydd yn digwydd yn dibynnu ar ba un a fydd gennym ddatganoli ai peidio pan ddaw'r fasnachfrait bresennol i ben yn 2018. Fodd bynnag, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, rydym ni'n gwybod y bydd gwasanaethau ychwanegol ar linell Calon Cymru rheilffordd y Cambrian o fis Mai nesaf ymlaen. Wrth i chi gychwyn ar y trafodaethau ynglŷn â'r fasnachfrait, Weinidog, beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer y ddwy linell hanfodol a gwerthfawr hyn?
- 15:31 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- My priority first of all is to get the powers, so that we can deal with rail as a devolved issue. We can then look at what we need to do in terms of how we operate it—a not-for-profit company would probably be the best option for us, and we need to work towards that. My commitment to Wales is not just to what goes on in urban Wales, but to what goes on across rural Wales as well. It is very important that rural Wales can, if possible, have similar excellent standards in terms of communication.
- Fy mlaenoriaeth gyntaf yw cael y pwerau, fel y gallwn ymdrin â rheilffyrdd fel mater datganoledig. Yna gallwn edrych ar yr hyn y mae angen inni ei wneud o ran sut y byddwn yn ei weithredu—cwmni dielw fyddai'r dewis gorau i ni mae'n debyg, ac mae angen inni weithio tuag at hynny. Nid yw fy ymrwymiad i Gymru yn golygu ymrwymiad i'r hyn sy'n digwydd yn y Gymru drefol yn unig, ond i'r hyn sy'n digwydd ar draws y Gymru wledig hefyd. Mae'n bwysig iawn bod gan Gymru wledig safonau rhagorol tebyg o ran cysylltiadau.
- 15:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know that the Carno station action group has been working closely with your officials and has recently revised a business plan that concludes that there is a strong case for the opening of the station. Would you be willing to meet with the Carno station action group to discuss its plan further? As you will be aware, the action group is very determined to make its proposal a reality.
- Gwn fod grŵp gweithredu gorsaf Carno wedi bod yn gweithio'n agos â'ch swyddogion ac wedi diwygio cynllun busnes yn ddiweddar sy'n dod i'r casgliad bod achos gryf dros agor yr orsaf. A fydddech chi'n barod i gyfarfod â grŵp gweithredu gorsaf Carno i drafod ei gynllun ymhellach? Fel y gwyddoch, mae'r grŵp gweithredu'n benderfynol iawn o wireddu'r hyn y mae'n ei gynnig.

- 15:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am in a very lax mood, but this question is about a particular station. I am not quite aware if Carno is between Aberystwyth and Machynlleth—
Rwyf mewn hwyliau amhendiant iawn, ond mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â gorsaf benodol. Dydw i ddim yn hollol ymwybodol a yw Carno rhwng Aberystwyth a Machynlleth—
- 15:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It is on the way there. [Interruption.]
Mae ar y ffordd yno. [Torri ar draws.]
- 15:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I will leave it to the Minister to decide.
Fe'i gadawaf i'r Gweinidog benderfynu.
- 15:32 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I think that it is between Gowerton and Llanelli actually, in terms of where the centre of the universe is. On this, if I am visiting the area, and the Member wishes, I would be more than happy to visit the action group on site.
Rydw i'n meddwl ei fod rhwng Tre-gŵyr a Llanelli mewn gwirionedd, o ran ble y mae canol y bydysawd. Ynglŷn â hyn, os byddaf yn ymweld â'r ardal, ac os yw'r Aelod yn dymuno, byddwn yn fwy na pharod i ymweld â'r grŵp gweithredu ar y safle.
- 15:32 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It is fair to say that Carno is, in some ways, the gateway to Bow Street. If this were to be developed— [Laughter.]
Mae'n deg dweud mai Carno, mewn ffordd, yw'r porth i Bow Street. Pe byddai hyn yn cael ei ddatblygu [Chwerthin.]
- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You will have to do better than that; now come on.
Bydd yn rhaid i chi wneud yn well na hynna; dewch nawr.
- 15:33 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Apologies, Deputy Presiding Officer. This scheme, if delivered, would be of huge benefit to the community of Bow Sreet, but also, as Elin Jones has correctly said, it would serve to alleviate the parking gridlock that so often blights Aberystwyth. In that context, Minister, if this is to go forward, will you please ask your officials to explore the potential acquisition of parking space adjacent to the potential Bow Street station, thereby making a viable park-and-ride system a reality?
Ymddiheuriadau, Ddirprwy Lywydd. Byddai'r cynllun hwn, pe byddai'n cael ei gyflwyno, o fudd enfawr i gymuned Bow Sreet, ond hefyd, fel y dywedodd Elin Jones yn gywir, byddai'n fodd i liniaru'r tagfeydd parcio sy'n aml yn creu problemau yn Aberystwyth. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, os yw hyn am fynd yn ei flaen, a wnewch chi ofyn i'ch swyddogion ymchwilio i gaffaeliad posibl lle parcio wrth ymyl gorsaf arfaethedig Bow Street, a thrwy hynny gwneud system parcio a theithio ddichonadwy yn realiti?
- 15:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I will certainly look at all of the issues that Members have raised with me. Finance is the key issue at the moment; we cannot do it if we do not have the cash. We can only dream of what we might like to do if we could have a suitable model to do it in the future. However, it is important that we do the preparatory work for what might be available in the future.
Byddaf yn sicr yn edrych ar yr holl faterion y mae'r Aelodau wedi eu codi. Cyllid yw'r mater allweddol ar hyn o bryd; ni fydd modd inni ei wneud heb yr arian. Dim ond breuddwydio am yr hyn yr hoffem ei wneud yn y dyfodol pe byddai gennym ni fodel addas ar gyfer ei wneud yn y dyfodol y gallwn ni ei wneud. Fodd bynnag mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud y gwaith paratol ar gyfer yr hyn a allai fod ar gael yn y dyfodol.
- 15:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Question 8, OAQ(4)0463(EST), has been withdrawn.
Mae cwestiwn 8, OAQ (4) 0463 (EST), wedi ei dynnu'n ôl.

Y Diwydiant Awyrofod

The Aerospace Industry

- 15:33 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant awyrofod yng Nghymru? OAQ(4)0461(EST) 9. Will the Minister make a statement on the aerospace industry in Wales? OAQ(4)0461(EST)
- 15:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Wales continues to be a centre of excellence for aerospace manufacturing and for maintenance, repair and overhaul-related activities, with over 160 companies in Wales active in the sector. Mae Cymru'n parhau i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer gweithgynhyrchu awyrofod ac ar gyfer gwaith cysylltiedig â chynnal a chadw, trwsio ac atgyweirio, gyda dros 160 o gwmnïau yng Nghymru yn weithgar yn y sector.
- 15:34 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Thank you for that response, Minister. Recently, together with Mick Antoniw AM, I attended the annual apprenticeship graduation ceremony at GE Aviation near Caerphilly, where many of my constituents work. It is, as you know, an anchor company, and places on its apprenticeship scheme, supported by the Welsh Government and the European social fund, are highly sought after. Would you agree, Minister, that the success of GE Aviation's apprenticeship scheme is a tribute to the strength and buoyancy of the wider aerospace industry here in Wales, and furthermore, do you agree that this shows the importance of us working with employers and our continued membership of the European Union? Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Yn ddiweddar roeddwn i a Mick Antoniw AS yn bresennol yn y seremoni raddio flynyddol i brentisiaid yn GE Aviation ger Caerffili, lle mae llawer o fy etholwyr yn gweithio. Y mae'n gwmni angor, fel y gwyrddoch, ac mae galw mawr am le ar ei gynllun prentisiaeth, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a chronfa gymdeithasol Ewrop. A fydddech chi'n cytuno, Weinidog, bod llwyddiant cynllun prentisiaeth GE Aviation yn deyrnged i gryfder a bywiogrwydd y diwydiant awyrofod ehangach yma yng Nghymru, a hefyd, a ydych chi'n cytuno bod hyn yn dangos mor bwysig yw hi inni weithio â chyflogwyr a phwysigrwydd parhad ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd?
- 15:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 I totally concur with you. I have actually been with GE today and had a wider discussion with HR personnel across the whole of GE, including GE Aviation. It is one of our key partners. It is excellent in terms of apprenticeships, and what you see when you go there is a real enthusiasm for it. However, the nicest thing when I went there was that the person who was presenting the apprenticeships with me, at the head of the company, had been an apprentice themselves. So, it shows that you can work all the way through, which I think is very important. Rwyf yn cytuno'n llwyr â chi. Rwyf wedi bod gyda GE heddiw mewn gwirionedd ac wedi cael trafodaeth ehangach â phersonél Adnoddau Dynol ar draws GE gyfan, gan gynnwys GE Aviation. Mae'n un o'n partneriaid allweddol. Mae'n wych o ran prentisiaethau, a'r hyn y byddwch yn ei weld pan fyddwch yn mynd yno yw gwir frwdfrydedd. Fodd bynnag, y peth gorau pan oeddwn i yno oedd bod y person a oedd yn cyflwyno'r prentisiaethau gyda mi, ar lefel uchaf y cwmni, wedi bod yn brentis ei hun. Felly, mae'n dangos bod modd ichi weithio eich ffordd trwy'r holl gwmni, sy'n bwysig iawn yn fy marn i.
- 15:35 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Minister, Jeff Cuthbert mentioned the wider aerospace industry. You will be aware that Llanbedr aviation centre is one of eight places chosen by the Civil Aviation Authority as an option for the first operating space port in the UK—an exciting project. I believe that the timetable is that the site will be chosen by April 2015. Can you tell us what financial assessment has been made of the potential benefits to the Welsh economy of a space port at Llanbedr? What incentives would you consider giving to make the Llanbedr case as attractive as possible? Weinidog, soniodd Jeff Cuthbert am y diwydiant awyrofod ehangach. Byddwch yn ymwybodol bod canolfan hedfan Llanbedr yn un o'r wyth safle posibl a ddewiswyd gan yr Awdurdod Hedfan Sifil fel lleoliad ar gyfer porthladd gofod gweithredol cyntaf y DU—prosiect cyffrous. Credaf mai'r amserlen yw y bydd y safle'n cael ei ddewis erbyn mis Ebrill 2015. A allwch chi roi gwybod inni pa asesiad ariannol sydd wedi ei gynnal o'r manteision posibl i economi Cymru o gael porthladd gofod yn Llanbedr? Pa gymhellion y bydddech chi'n ystyried eu cyflwyno er mwyn gwneud achos Llanbedr mor ddeniadol â phosibl?

15:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, it is in an enterprise zone, and we are very pleased that we are being considered for this development. I feel that it is a very important development, in a place where we have had difficulties in attracting employers and getting good-quality employment. It is shortlisted as one of the eight, and we formally responded to the space port consultation. I await the outcome of the space flight co-ordination group's deliberations on it. We think that it will make a difference in terms of how it will bring jobs into the local economy, and what else it may attract in with it. I know that the enterprise zone board is looking at all these issues in some detail.

Mae hi'n ardal fenter wrth gwrs, ac rydym ni'n falch iawn ein bod ni'n cael ein hystyried ar gyfer y datblygiad hwn. Rwy'n teimlo ei fod yn ddatblygiad pwysig iawn, mewn man lle cafwyd anhawster i ddenu cyflogwyr a sicrhau cyflogaeth o ansawdd da. Mae'r lleoliad yn un o'r wyth ar y rhestr fer, ac fe wnaethom ni ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y porthladd gofod. Rwyf yn aros am ganlyniad trafodaethau'r grŵp cydlynu hedfan gofod ar yr ymgynghoriad. Rydym ni'n credu y bydd yn gwneud gwahaniaeth o ran y ffordd y bydd yn dod â swyddi i'r economi leol, a beth bynnag arall y gallai ei ddenu yn ei sgil. Gwn fod bwrdd yr ardal fenter yn edrych ar yr holl faterion hyn yn fanwl.

15:36 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae gan y sector awyrfod, yn enwedig yn y gogledd—Airbus yn benodol, wrth gwrs—record ardderchog o ran darparu prentisiaethau. O ystyried y ffaith bod y Llywodraeth yn torri'r gyllideb honno, pa sicrwydd allwch chi ei roi y bydd y ddarpariaeth honno yn parhau, oherwydd mae'n ddarpariaeth ddilyschwin iawn?

The aerospace industry, especially in north Wales—specifically Airbus, of course—has an excellent record of providing apprenticeships. Given that the Government is cutting that budget, what assurance can you give that that provision will continue, because it is excellent?

15:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that the Deputy Minister has already answered, and has shown our commitment to all of this. We have done a very good job so far, and we will continue to do so, within our budgetary constraints. Obviously, I discuss with anchor companies these issues on a regular basis, and we will be able to give them as much support as we are able. However, we do see this as a partnership, with some of the anchor companies—it is not just one-way traffic, with money from Government.

Credaf fod y Dirprwy Weinidog eisoes wedi ateb, ac wedi dangos ein hymrwymiad i hyn i gyd. Rydym ni wedi gwneud gwaith da iawn hyd yn hyn, a byddwn yn parhau i wneud hynny, o fewn ein cyfyngiadau cyllidebol. Yn amlwg, rwy'n trafod y materion hyn yn rheolaidd gyda chwmnïau angor yn rheolaidd, a byddwn yn gallu rhoi cymaint o gefnogaeth iddynt ag y bo modd. Fodd bynnag, rydym yn gweld hyn fel partneriaeth, gyda rhai o'r cwmnïau angor—nid traffig un ffordd yn unig, gydag arian gan y Llywodraeth.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Public Transport

15:37 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanol De Cymru?
OAQ(4)0464(EST)*

*10. Will the Minister make a statement on public transport provision in South Wales Central?
OAQ(4)0464(EST)*

15:37 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. Work is under way on delivering a £77 million investment in phase 1 of the metro project, including a new station at Ebbw Vale town, which I know everybody is delighted about. We will be progressing with the feasibility work on a number of emerging interventions contained in the update report on the Cardiff capital metro region.

Gwnaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gyflwyno buddsoddiad o £77 miliwn yng ngham cyntaf y prosiect metro, gan gynnwys gorsaf newydd yn nhref Glynabwy, y gwn fod pawb wrth eu boddau yn ei gylch. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith dichonoldeb ar nifer o ymyriadau sy'n dod i'r amlwg ac a gynhwysir yn yr adroddiad diweddar ar ranbarth metro prifddinas Caerdydd.

15:37	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>The east of Cardiff, as we know, is one of the most disconnected communities in the whole of south-east Wales. In particular, areas such as St Mellon's, Pontprennau and Phentwyn have no rail transport and very poorly connected bus transport. It is two years since the First Minister said that he would be interested in seeing a feasibility study for a new station to be built in the east of Cardiff. Can you tell me when that feasibility study will now be published?</p>	<p>Dwyrain Caerdydd, fel y gwyddom, yw un o'r cymunedau mwyaf datgysylltiedig yn y de-ddwyrain gyfan. Mae ardaloedd fel Llaneirwg, Pontprennau a Phentwyn yn arbennig heb drafnidiaeth rheilffordd ac mae cludiant bws yn wael iawn o ran cysylltedd. Mae'n ddwy flynedd ers i'r Prif Weinidog ddweud y byddai ganddo ddiddordeb mewn gweld astudiaeth o ddichonoldeb ar gyfer gorsaf newydd i gael ei hadeiladu yn nwyrain Caerdydd. A allwch chi ddweud wrthyf pa bryd y bydd yr astudiaeth ddichonoldeb honno yn cael ei chyhoeddi?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:38	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes; it has been quite interesting, the dialogue on all of this. If I am absolutely frank, in terms of the work on the city region board, where we have been asking them to look at the metro, one area of work that I think has to be more prioritised—and, in my opinion, has not been—is the work with the local authorities involved, about where they see things could be as part of this project. So, that would impact on the feasibility study of that. I have been having discussions with the city region board, which I will continue to press, and I will check with officials where we are in terms of the discussions that have been undertaken about the feasibility. You are absolutely right about that area—St Mellon's is an area that should be opened up in terms of public transport.</p>	<p>Gallaf, mae wedi bod yn eithaf diddorol, y ddeialog ar hyn i gyd. I fod yn gwbl onest, o ran y gwaith ar fwrdd y ddinas-ranbarth, lle'r ydym wedi bod yn gofyn iddynt edrych ar y metro, un maes gwaith yr wyf yn credu y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth iddo—ac, yn fy marn i, nid yw hynny wedi digwydd, yw'r gwaith gyda'r awdurdodau lleol dan sylw, ynglŷn â ble maent yn gweld y gallai pethau fod yn rhan o'r prosiect hwn. Felly, byddai hynny'n effeithio ar yr astudiaeth ddichonoldeb o hynny. Rwyf wedi bod yn cael trafodaethau gyda bwrdd y ddinas-ranbarth, a byddaf yn parhau i roi pwysau arnynt, a byddaf yn holi swyddogion lle'r ydym ni arni o ran y trafodaethau sydd wedi eu cynnal ynglŷn â dichonoldeb. Rydych chi yn llygad eich lle ynghylch yr ardal honno—mae Llaneirwg yn ardal y dylid ei hagar o ran cludiant cyhoeddus.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Dinas-ranbarth Bae Abertawe		Swansea Bay City Region	
15:38	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu economi dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(4)0462(EST)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on developing the economy of the Swansea Bay city region? OAQ(4)0462(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:39	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Last month, I appointed Sir Terry Matthews to lead the city bay region, as chair of the board. With his expertise and networks, I am confident that the city region board will provide an important stimulus for job creation, growth and investment in the area.</p>	<p>Y mis diwethaf, penodais Syr Terry Matthews i arwain dinas-ranbarth y bae, fel cadeirydd y bwrdd. Gyda'i arbenigedd a'i rwydweithiau, rwyf yn hyderus y bydd y bwrdd y ddinas-ranbarth yn rhoi hwb pwysig o ran creu swyddi, twf a buddsoddiad yn yr ardal.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:39	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>What plans are there to improve the transport infrastructure for the Swansea bay city region?</p>	<p>Pa gynlluniau sy'n bodoli i wella seilwaith trafnidiaeth dinas-ranbarth Bae Abertawe?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:39	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I have asked the board to look at this as a priority. However, interestingly enough, when I was questioned about what goes on within the Swansea area, I asked my officials to look to see whether we had had any bids for some infrastructure projects in certain areas. We have not had bids from the local authorities, over a number of years. So, I think that it is incumbent on some local authorities in the area to look to themselves, and to how they dialogue together about what they want.</p>	<p>Rwyf wedi gofyn i'r bwrdd edrych ar hyn fel blaenoriaeth. Fodd bynnag, yn ddiddorol ddigon, pan gefais fy holi ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn ardal Abertawe, gofynnais i'm swyddogion edrych i weld a gafwyd unrhyw geisiadau am rai o brosiectau seilwaith mewn ardaloedd penodol. Nid ydym wedi derbyn ceisiadau gan yr awdurdodau lleol, dros nifer o flynyddoedd. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn ddyletswydd ar rai awdurdodau lleol yn yr ardal i edrych arnynt eu hunain, ac ar y ffordd y maent yn trafod gyda'i gilydd yr hyn y maent ei eisiau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

In terms of Pembrokeshire, I have always been aware of the A40 in Pembrokeshire, and I have always been aware of the concerns that Neath Port Talbot has had about issues on the M4. However, in the other areas, there has been silence. Carmarthenshire has had some projects, but I do not think that there has been enough co-ordination between them all about what they want in terms of infrastructure.

O ran sir Benfro, rwyf wedi bod yn ymwybodol erioed o'r A40 yn Sir Benfro, ac rydw i wedi bod yn ymwybodol erioed o'r pryderon y bu gan Gastell-nedd Port Talbot ynglŷn â materion ar yr M4. Fodd bynnag, bu distawrwydd yn yr ardaloedd eraill. Mae Sir Gaerfyrddin wedi cael rhai prosiectau, ond nid wyf yn credu bod digon o gydlynw wedi digwydd rhyngddynt i gyd ynglŷn â'r hyn y mae arnynt ei eisiau o ran seilwaith.

15:40 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you have referred already to the problems on the M4. Do you accept that part of the solution that you have put in place on the M4, particularly around junction 41, is having an impact on economic development in Port Talbot and, in particular, is affecting a number of shops in Aberavon shopping centre in terms of footfall? Could you have a look at this as a matter of urgency to see what that impact is?

Weinidog, rydych chi wedi cyfeirio eisoes at y problemau ar yr M4. A ydych chi'n derbyn bod rhan o'r datrysiad yr ydych chi wedi ei roi ar waith ar yr M4, yn enwedig o gwmpas cyffordd 41, yn effeithio ar ddatblygiad economaidd Port Talbot ac, yn arbennig, yn effeithio ar nifer o siopau yng nghanolfan siopa Aberafan o ran nifer yr ymwelwyr? A wnewch chi edrych ar hyn fel mater o frys er mwyn gweld beth yw'r effaith?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:40 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are obviously looking at it in a limited period of time to see how it all works. When I have all the information, I will assess it. I am aware of the issues that have been raised by you and other Members, and I can understand people's concerns. However, some indications are indicating that footfall is okay, so I will have a look at what I currently have to hand for you.

Rydym ni'n amlwg yn edrych arno o fewn cyfnod cyfyngedig o amser er mwyn gweld sut mae'r cyfan yn gweithio. Pan fydd gennyf yr holl wybodaeth, byddaf yn ei hasesu. Rwyf yn ymwybodol o'r materion a godwyd gennych chi a chan Aelodau eraill, a gallaf ddeall pryderon pobl. Fodd bynnag, mae rhai arwyddion bod nifer yr ymwelwyr yn dderbyniol, felly byddaf yn edrych ar yr hyn sydd gennyf ar gael ar eich cyfer ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:40 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as Peter Black has just highlighted, the impact of the junction 41 issue on the economic development of the area is important. Earlier this afternoon, I asked the First Minister what potential there was for Baglan energy park as a consequence of the work on Swansea bay's second campus. The congestion that has arisen as a consequence of the part-time closure of junction 41 westbound is having a detrimental impact upon those areas, possibly causing inward investors to rethink whether they wish to locate in those areas. Therefore, will you look at the junction 41 issue prior to the March date that you have already set, to look at the implications as a result of the congestion on the roads, so that people can travel back and forth? I do not think that a solution that creates congestion on local roads is really a solution to a problem on the M4.

Weinidog, fel y mae Peter Black newydd ei amlygu, mae effaith y broblem gyda chyffordd 41 ar ddatblygiad economaidd yr ardal yn bwysig. Yn gynharach y prynhawn yma, gofynnais i'r Prif Weinidog pa botensial oedd yn bodoli i barc ynni Baglan o ganlyniad i'r gwaith ar ail gampws bae Abertawe. Mae'r tagfeydd a welwyd yn sgil cau cyffordd 41 tua'r gorllewin ar adegau yn cael effaith niweidiol ar yr ardaloedd hynny, ac mae posibilrwydd ei fod yn peri i fewnffuddsoddwyr ailfeddwl ynglŷn â pha un a ydynt yn dymuno lleoli eu hunain yn yr ardaloedd hynny. Felly, a wnewch chi edrych ar fater cyffordd 41 cyn y dyddiad ym mis Mawrth yr ydych eisoes wedi ei osod, er mwyn edrych ar y goblygiadau yn sgil y tagfeydd ar y ffyrdd, er mwyn i bobl allu teithio'n ôl ac ymlaen? Nid wyf yn credu bod datrysiad sy'n creu tagfeydd ar ffyrdd lleol mewn gwirionedd yn datrys problem ar yr M4.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:41 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be going ahead with the experiment until March and collating all the necessary information. I have had no indication from Neath Port Talbot County Borough Council or from my officials that any concern has been expressed by possible inward investors about the issues around traffic.

Byddaf yn bwrw ymlaen â'r arbrawf tan fis Mawrth ac yn casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol. Nid wyf wedi cael unrhyw arwydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot na chan fy swyddogion bod unrhyw bryder wedi ei fynegi gan fewnffuddsoddwyr posibl ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â thraffig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 12, OAQ(4)0466(EST), has been transferred for written answer by the Minister for Natural Resources.

Mae cwestiwn 12, OAQ (4) 0466 (EST), wedi'i drosglwyddo i gael ateb ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rhyddfrait Rheilffyrdd Dielw

Not-for-profit Rail Franchise

- 15:41 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
13. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch datblygu rhyddfrait rheilffyrdd dielw? OAQ(4)0470(EST)
13. What discussions has the Minister had on developing a not-for-profit rail franchise? OAQ(4)0470(EST)
- 15:42 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
As you are aware, the Welsh Government is not currently the franchising authority for the Wales and borders franchise, but we are examining the options for delivering a not-for-dividend model for a future franchise.
Fel y gwyddoch, nid Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod breinio ar hyn o bryd ar gyfer masnachfrait Cymru a'r gororau, ond rydym ni'n edrych ar y dewisiadau ar gyfer cyflwyno model ddi-ddifidend ar gyfer masnachfrait yn y dyfodol.
- 15:42 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much for that answer, Minister. If we are to look for further powers to be devolved, this is an area that we ought to be looking at. I am pleased to hear that you are thinking about a not-for-profit rail franchise. Have you undertaken any preparatory work as to the benefits for travellers, especially for travellers like me from north Wales and from west Wales who use public transport regularly for work? Are those the sorts of benefits that we should be looking for from a not-for-profit rail franchise?
Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Weinidog. Os ydym am edrych i gael pwerau ychwanegol wedi'u datganoli, mae hwn yn faes y dylem fod yn edrych arno. Rwy'n falch o glywed eich bod chi'n meddwl am fasnachfrait rheilffyrdd ddi-elw. A ydych chi wedi gwneud unrhyw waith paratoi o ran y manteision i deithwyr, yn enwedig ar gyfer teithwyr fel fi o'r gogledd ac o'r gorllewin sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus yn rheolaidd ar gyfer eu gwaith? Ai dyna'r math o fuddion y dylem ni fod yn chwilio amdanynt gan fasnachfrait rheilffyrdd ddi-elw?
- 15:42 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
It is very important that I look at the impact on passengers, but I also need to outline to Members that I have asked my officials for advice on establishing a not-for-dividend wholly owned company. That company would provide advice on what the Welsh Government would like to see in the next Wales and borders franchise, and would have a board drawn from the public and private sectors. It would be interesting to see what the public thought about the delivery of services and what any new model could do, because it is important that we deal with issues around passenger services and what passengers expect.
Mae'n bwysig iawn fy mod i'n edrych ar yr effaith ar deithwyr, ond mae angen imi hefyd roi gwybod i'r Aelodau fy mod wedi gofyn i fy swyddogion am gyngor ar sefydlu cwmni di-ddifidend a berchnogir yn llwyr. Byddai'r cwmni hwnnw'n darparu cyngor ar yr hyn y byddai Llywodraeth Cymru'n hoffi ei weld yn y fasnachfrait Cymru a'r gororau nesaf, a byddai ganddo fwrdd yn tynnu ar aelodau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Byddai'n ddiddorol gweld beth fyddai barn y cyhoedd ynghylch darpariaeth gwasanaethau a beth y gallai unrhyw fodel newydd ei wneud, oherwydd mae'n bwysig ein bod yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â gwasanaethau i deithwyr a'r hyn mae teithwyr yn ei ddisgwyl.
- 15:43 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Last week, you agreed with me regarding co-operatives and mutuals that not-for-profit businesses are businesses, and that they are at risk if they are not well managed. Under European requirements on procurement, to what extent would the Welsh Government be required to procure on a level playing field, regardless of the corporate status of the bidders?
Yr wythnos diwethaf, roeddech chi'n cytuno â mi o ran cwmnïau cydweithredol a chydffuddiannol bod busnesau di-elw yn fusnesau, a'u bod mewn perygl os na fyddant yn cael eu rheoli'n dda. O dan ofynion caffael Ewropeaidd, i ba raddau y byddai angen i amodau caffael Llywodraeth Cymru fod yr un fath ar gyfer pawb, waeth beth fo statws corfforaethol y cynigwyr?

15:43	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>The question you raise is a question that will be dealt with by officials in terms of the advice that is likely to come forward, because every time you mention anything about procurement or state aid, everything comes to the fore. So, that is something that I will clearly have to consider. I know that Members across the Chamber have been interested in us looking at this model and trying to get this model, and I think that you support it, given the principles that you have previously espoused in this Chamber. We have to make sure that it is a model that is right for Wales, but I hope that I can count on everyone's support in the dialogue that we are going to have on it.</p>	<p>Mae'r cwestiwn yr ydych yn ei godi'n gwestiwn y bydd swyddogion yn ymdrin ag ef o safbwynt y cyngor sy'n debygol o gael ei gynnig, oherwydd bob tro y byddwch yn crybwyll unrhyw beth am gaffael neu am gymorth gan y wladwriaeth, mae popeth yn dod i'r amlwg. Felly, mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid imi ei ystyried yn amlwg. Gwn fod Aelodau ar draws y Siambr wedi bod â diddordeb ynom ni'n edrych ar y model hwn a cheisio cael y model hwn, ac rwyf yn meddwl eich bod yn ei gefnogi, o ystyried yr egwyddorion yr ydych wedi eu harddel o'r blaen yn y Siambr hon. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ei fod yn fodel sy'n addas i Gymru, ond rwyf yn gobeithio y gallaf ddibynnu ar gefnogaeth pawb yn y ddeialog yr ydym ni'n mynd i'w chael ar y pwnc.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:44	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 14, OAQ(4)0467(EST), is withdrawn.</p>	<p>Mae cwestiwn 14, OAQ (4) 0467 (EST), wedi ei dynnu yn ôl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Economi Cymru		The Welsh Economy	
15:44	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p><i>15. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae polisiâu Llywodraeth y DU wedi'i chael ar economi Cymru? OAQ(4)0469(EST)</i></p>	<p><i>15. What assessment has the Minister made of the impact that UK Government policies have had on the Welsh economy? OAQ(4)0469(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:44	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Various assessments are made of the impact of the UK Government's policies by us as a Government. For example, we undertook an impact assessment of the UK Government's welfare reforms in Wales.</p>	<p>Rydym ni fel Llywodraeth yn cynnal amrywiol asesiadau o effaith polisiâu Llywodraeth y DU. Er enghraifft, cynhaliwyd asesiad o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:44	<p>Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer. I was interested to read the report 'The impact of welfare reform in the Valleys' commissioned by the Industrial Communities Alliance, which estimated a loss of £73 million per year to the Caerphilly area due to the impact of the UK Government's welfare reforms. That means a loss of £640 per working age adult per year. What action is the Welsh Government taking to mitigate the damage done by the UK Government's savage cuts?</p>	<p>Diolch ichi am yr ateb yna. Roedd yn ddiddorol darllen adroddiad 'The impact of welfare reform in the Valleys' a gomisiynwyd gan Gynghair Cymunedau Diwydiannol, a oedd yn amcangyfrif colled o £73 miliwn y flwyddyn i ardal Caerffili oherwydd effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Mae hynny'n golygu colled o £640 y flwyddyn am bob oedolyn o oedran gweithio. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i liniaru'r difrod a wnaed gan doriadau llym Llywodraeth y DU?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:45	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>In terms of what we can do, we have limited mitigation measures because we have a limited budget, but, obviously, the First Minister established a ministerial task and finish group, which continues to operate and look at all these particular issues. As part of that remit, the group commissioned a three-stage programme of research to analyse the impacts, and we continue to use the information that we have, to see what we can do in terms of policy development to mitigate anything.</p>	<p>O ran yr hyn y gallwn ei wneud, rydym wedi cyfyngu ar y mesurau lliniaru gan fod ein cyllideb yn gyfyngedig, ond yn amlwg, sefydlodd y Prif Weinidog grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol, sy'n parhau i weithredu ac sy'n edrych ar yr holl faterion penodol hyn. Yn rhan o'r cylch gwaith, comisiynodd y grŵp raglen tri cham o ymchwil i ddadansoddi'r effeithiau, ac rydym ni'n dal i ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym ni, i weld beth y mae modd inni ei wneud o ran datblygu polisi i liniaru unrhyw beth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:45	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Does the Minister agree that a stable pound is in fact a key factor in growing the economies of the United Kingdom and Wales?</p>	<p>A yw'r Gweinidog yn cytuno bod punt sefydlog mewn gwirionedd yn ffactor allweddol yn nhwff economïau'r Deyrnas Unedig a Chymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 15:45 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that there is an issue about having stability in the pound, and stability in real terms regarding what is going on with economies across the globe currently. It is very interesting to look at the concerns being expressed by economists, particularly about what is happening on the stock markets. We see the German stock market going down, as well as the position, really, with the value of petroleum, as you would expect it to go up in a crisis, and it is not going up. I know that the International Monetary Fund was particularly concerned when it looked at some issues recently. So, it is very important that we have stability on all counts, in terms of where we are, and political instability is the worst.
- Rwy'n credu bod problem ynglŷn â chael sefydlogrwydd i'r bunt, a sefydlogrwydd mewn termau real o ran yr hyn sy'n digwydd gydag economïau ar draws y byd ar hyn o bryd. Mae'n ddiddorol iawn edrych ar y pryderon sy'n cael eu mynegi gan economegwyr, yn enwedig am yr hyn sy'n digwydd yn y marchnadoedd stoc. Rydym ni'n gweld marchnad stoc yr Almaen yn mynd i lawr, yn ogystal â'r sefyllfa, gyda gwerth petrolewm mewn gwirionedd, gan y byddech chi'n disgwyl iddo fynd i fyny mewn argyfwng, ond nid yw'n mynd i fyny. Rwy'n gwybod bod y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn arbennig o bryderus pan edrychodd ar rai materion yn ddiweddar. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod ni'n cael sefydlogrwydd ar bob cyfrif, o ran ein sefyllfa ni, ac ansefydlogrwydd gwleidyddol yw'r ansefydlogrwydd gwaethaf.
- 15:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. Diolch i chi, Weinidog.
- 15:46 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** **Business Statement and Announcement** Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.
- 15:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*
- I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.
- Nid oes gennyf ddim newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
- 15:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Presiding Officer. Leader of the House, is it possible to have a statement from the Deputy Minister for Farming and Food in relation to the dairy industry? Periodically, regrettably, this statement is requested, and sadly the dairy industry is very much taking a kicking at the moment—I think that is a fair analogy—with prices down by some 20% to 25% on last year. The national dairy event is being held in Carmarthenshire today, and it would be highly appropriate, I believe, for the Minister to bring forward a statement as to what her aspirations are for the rural development plan, and, in particular, how the Government is going to take forward ideas to add value to milk here in Wales, considering that we do not have one substantial milk-processing facility in the whole of Wales now, and all Welsh milk for supermarket production is exported to the other side of Offa's Dyke.
- Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Arweinydd y Tŷ, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ynglŷn â'r diwydiant llaeth? O bryd i'w gilydd, yn anffodus, gofynnir am y datganiad hwn, ac yn anffodus mae'r diwydiant llaeth yn cael tipyn o gweir ar hyn o bryd—credaf fod hwnnw'n ymadrodd addas—gyda phrisiau wedi gostwng rhyw 20% i 25% ers y llynedd. Mae'r digwyddiad llaeth cenedlaethol yn cael ei gynnal yn Sir Gaerfyrddin heddiw, a byddai'n briodol iawn, yn fy marn i, i'r Gweinidog gyflwyno datganiad yn nodi ei dyheadau ar gyfer y cynllun datblygu gwledig, ac, yn benodol, sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â syniadau i ychwanegu gwerth i laeth yma yng Nghymru, o ystyried nad oes gennym yr un cyfleuster prosesu llaeth sylweddol yng Nghymru gyfan erbyn hyn, a bod yr holl laeth a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer yr archfarchnadoedd yn cael ei allforio'r tu hwnt i Glawdd Offa.
- 15:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that Andrew R. T. Davies will be very pleased to hear that a statement is going out today on an independent review of the dairy industry in Wales, by the Deputy Minister.
- Credaf y bydd Andrew R. T. Davies yn falch iawn o glywed bod y Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi datganiad heddiw ar adolygiad annibynnol o'r diwydiant llaeth yng Nghymru.

15:47

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On Friday, I was very pleased to visit Cathays High School, to meet young people there who are working on fair trade, and to meet the manager of a manufacturing company who is producing fairly and sustainably produced, fair-trade cotton for the school uniform. They hope soon to be able to have school uniforms that are totally made out of sustainably produced cotton, and the young people are very thrilled about this. Do you think that there is a case for having a statement or a debate about how many other schools and public bodies are using fair-trade products as a means of encouraging public bodies to do this?

Ddydd Gwener, roeddwn yn falch iawn o ymweld ag Ysgol Uwchradd Cathays, i gwrrdd â phobl ifanc yno sy'n gwneud gwaith ar fasnach deg, a hefyd i gwrrdd â rheolwr cwmni gweithgynhyrchu sy'n cynhyrchu cotwm masnach deg wedi'i gynhyrchu'n deg ac yn gynaliadwy, ar gyfer y wisg ysgol. Cyn hir, maent yn gobeithio gallu cael gwisgoedd ysgol sydd wedi eu gwneud yn gyfan gwbl o gotwm a gynhyrchwyd mewn modd cynaliadwy, ac mae'r bobl ifanc wrth eu bodd ynglŷn â hyn. A ydych yn meddwl bod achos dros gael datganiad neu ddatl am faint o ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill sy'n defnyddio cynnyrch masnach deg, fel modd o annog cyrff cyhoeddus i wneud hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:48

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that is a very good bit of news about the progress that has been made by Cathays High School and the fact that they are going to use fair-trade goods, which, of course, we know have been fairly traded, and so there will be a fair price for the growers as well as a fair wage for the workforce. Of course, fair trade also meets environmental standards and safety standards. I think that it is important to put on the record that it has been helped by a £100 grant from the Wales for Africa funding stream, and I would certainly expect this to be an important item for debate in the future.

Mae'n newydd da iawn am y cynnydd a wnaed gan Ysgol Uwchradd Cathays a'r ffaith eu bod yn mynd i ddefnyddio nwyddau masnach deg, y gallwn fod yn sicr, wrth gwrs, eu bod wedi'u masnachu'n deg, ac felly y bydd y tyfwrwr yn cael pris teg a'r gweithlu hefyd yn cael cyflog teg. Wrth gwrs, mae masnach deg hefyd yn bodloni safonau amgylcheddol a safonau diogelwch. Credaf ei bod yn bwysig rhoi ar gofnod fod y fenter wedi cael cymorth grant o £100 oddi wrth ffrwd gyllido Cymru o Blaid Affrica, a byddwn yn sicr yn disgwyl i hyn fod yn eitem bwysig i'w thrafod yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:48

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could I ask for two written statements? Figures released over the weekend show that there has been a significant increase in the number of motor cycle deaths on rural roads as compared with last year, despite action being outlined by the Minister for transport to try to reduce those casualties. Dyfed-Powys saw some of the largest increases, and many of those accidents occurred in my own constituency. This is a long-standing area of concern for local residents, and I would be grateful for a written statement.

Weinidog, a gaf fi ofyn am ddau ddatganiad ysgrifenedig? Mae ffigurau a ryddhawyd dros y penwythnos yn dangos y bu cynnydd sylweddol yn nifer y marwolaethau oherwydd damweiniau beiciau modur ar ffyrdd gwledig o gymharu â'r llynedd, er gwaethaf camau a amlinellwyd gan y Gweinidog dros drafnidiaeth i geisio lleihau nifer y marwolaethau. Mae Dyfed-Powys ymhlith y rhai a welodd y cynnydd mwyaf, ac mae llawer o'r damweiniau hynny wedi digwydd yn fy etholaeth innau. Mae hyn yn achos pryder ers peth amser i drigolion lleol, a byddwn yn ddiolchgar pe cawn ddatganiad ysgrifenedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, could the Deputy Minister for Farming and Food make a written statement on the appeals process for those appealing against land classifications for the purposes of single payment scheme payments? Appeals had to go in by July. Constituents were notified last week whether those appeals were successful. If they wish to move to the second stage of the appeals process, they need to do that by November, but they have to undertake a certain process, which they are concerned they will not be able to do in the timescales outlined by the Government. Is there scope for the Minister to make a written statement with a view to extending the deadlines, so that people can appeal those decisions?

Yn ail, a wnaiff y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ddatganiad ysgrifenedig ar y broses apelio ar gyfer y rhai sy'n apelio yn erbyn dosbarthiad tir at ddibenion taliadau cynllun y taliad sengl? Roedd rhaid cyflwyno pob apêl erbyn mis Gorffennaf. Cafodd etholwyr wybod yr wythnos diwethaf a oedd yr apelïadau hynny'n llwyddiannus. Os ydynt yn dymuno symud ymlaen i ail gam y broses apelio, mae angen iddynt wneud hynny erbyn mis Tachwedd, ond mae'n rhaid iddynt ddilyn proses benodol, ac maent yn poeni na fyddant yn gallu gwneud hynny o fewn yr amserlen a amlinellwyd gan y Llywodraeth. A oes cyfle i'r Gweinidog i wneud datganiad ysgrifenedig o ran estyn yr amserlen, er mwyn i bobl allu apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn?

15:50

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for those questions. I am sure that the Minister for Economy, Science and Transport will want to give an update on actions in terms of safety, and the fatalities, crashes and accidents that occur as a result of motor cycle safety issues. We also know that there are moves to improve safety, so that motor cyclists can safely enjoy the roads. So, I will certainly follow this up with the Minister and look at whether this needs a statement or response from the Minister on the process, in terms of the prospects for appeals in terms of the SPS payments. I will get advice on whether it would be useful to write to Members or have a statement.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiynau hynny. Rwyf yn siŵr y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gweithgarwch o ran diogelwch, a'r marwolaethau, y gwrthdrawiadau a'r damweiniau sy'n digwydd oherwydd materion diogelwch yn ymwneud â beiciau modur. Gwyddom hefyd fod camau'n cael eu cymryd i wella diogelwch, fel y gall beicwyr modur fwynhau'r ffyrdd yn ddiogel. Felly, byddaf yn sicr o fynd ar drywydd hyn gyda'r Gweinidog ac ystyried a oes angen datganiad neu ymateb gan y Gweinidog ar y broses, o ran y rhagolygon ar gyfer apeliadau o ran taliadau Cynllun y Taliad Sengl. Gofynnaf am gyngor ynglŷn â p'un a fyddai'n ddefnyddiol ysgrifennu at yr Aelodau neu gael datganiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:51

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for two statements, the first in response to the document launched in the Assembly last Wednesday by the British Medical Association Cymru Wales, 'GP Practice—A Prescription for a Healthy Future'. As you know, BMA Cymru is the apolitical voice of doctors and medical students from all branches of medicine, and it will praise or criticise all Governments of whatever political favour without fear or favour. The document that it published and launched here included the commitments of successive Welsh Government Ministers who had made to involve GPs in the running of the NHS, to expand primary care, to invest in the development of extended primary care teams and to locate those teams in modern, purpose-built centres. However, despite the good intentions, none of this happened in the way that was intended. It goes on to talk about the need for adequate premises where the gap between current community premises provision and the current requirement is widening, and it also reports that health boards are unwilling to let go and consult with GPs as required under the general medical services contract. These are important matters. I am sure that the Welsh Government and the Minister, who, I know, is sat not very far from where I am speaking, will be aware of this report. The Assembly, given the important matters raised in the Assembly need to be apprised of the Welsh Government's proposals to respond to and address these matters.

Galwaf am ddau ddatganiad, y cyntaf yn sgil y ddogfen a lansiwyd yn y Cynulliad ddydd Mercher diwethaf gan Gymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru, 'GP Practice—A Prescription for a Healthy Future'. Fel y gwyddoch, BMA Cymru yw llais anwleidyddol meddygon a myfyrwyr meddygol ym mhob cangen o feddygaeth, a bydd yn canmol neu'n beirniadu Llywodraethau o ba bynnag blaid wleidyddol heb ofn na ffafiaeth. Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd ganddi a'i lansio yma yn cynnwys ymrwymadau gan un Gweinidog ar ôl y llall o Lywodraeth Cymru i gynnwys ymarferwyr cyffredinol yn y gwaith o redeg y GIG, i ehangu gofal sylfaenol, i fuddsoddi mewn datblygu timau gofal sylfaenol estynedig ac i leoli'r timau hynny mewn canolfannau modern, pwrpasol. Fodd bynnag, er gwaethaf y bwriadau da, ni ddigwyddodd dim o hyn yn y ffordd a fwriadwyd. Mae'n mynd ymlaen i sôn am yr angen am safleoedd digonol lle mae'r bwch rhwng y ddarpariaeth mewn safleoedd cymunedol ar hyn o bryd a'r gofyniad cyfredol yn tyfu, ac mae hefyd yn adrodd bod byrddau iechyd yn amharod i ollwng eu gafael ac i ymgynghori ag ymarferwyr cyffredinol fel sy'n ofynnol o dan y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol. Mae'r rhain yn faterion pwysig. Rwyf yn siŵr y bydd Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog, sydd, fe wn, yn eistedd heb fod ymhell iawn o'r fan lle rwyf yn siarad, yn ymwybodol o'r adroddiad hwn. O ystyried y materion pwysig a godwyd yn y Cynulliad, mae angen i'r Cynulliad gael gwybod sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymateb i'r materion hyn ac ymdrin â hwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly and finally, could I call for a statement following the announcement two weeks ago, by you, that £10 million had been announced for a yet-to-be specified transport rail scheme in north Wales?

Yn ail ac yn olaf, a gaf fi alw am ddatganiad yn dilyn y cyhoeddiad gennyh, bythefnos yn ôl, fod £10 miliwn wedi'i gyhoeddi ar gyfer cynllun trafndiaeth rheilffordd nad yw eto wedi ei amlinellu yma yn y gogledd?

We know that, when the Minister for Economy, Science and Transport announced her taskforce on modernising north Wales transport with representatives from north Wales's local authorities, enterprise zones and the private sector, she said that it would advise her on how the Welsh Government can ensure that north Wales is in a position to benefit from rail modernisation. However, after her announcement, the Cabinet colleague whom she had appointed to chair the ministerial taskforce wrote an article in our local paper—a very good article, I have to say—in which she stated that she was writing to the Minister for transport seeking clarification on funding for a yet-to-be specified transport scheme in north Wales. It seems a little back to front when the adviser who is chairing the advisory body—quite rightly, as a North Wales Member—has to ask the Minister for clarification on how this money will be used.

Gwyddom, pan gyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei thasglu ar gyfer moderneiddio trafndiaeth gogledd Cymru gyda chynrychiolwyr o awdurdodau lleol gogledd Cymru, ardaloedd menter a'r sector preifat, ei bod wedi dweud y byddai'n rhoi cyngor iddi ynglŷn â sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod gogledd Cymru mewn sefyllfa i elwa ar foderneiddio'r rheilffyrdd. Fodd bynnag, ar ôl ei chyhoeddiad, ysgrifennodd y cydweithiwr o'r Cabinet a benodwyd ganddi i fod yn gadeirydd tasglu'r gweinidog erthygl yn ein papur lleol—ac mae'n erthygl dda iawn, mae'n rhaid imi ddweud—yn datgan ei bod yn ysgrifennu at y Gweinidog Trafnidiaeth i ofyn am eglurhad ynglŷn â chyllid ar gyfer cynllun trafndiaeth nad oedd wedi'i amlinellu eto yn y gogledd. Mae'n ymddangos braidd yn chwithig fod y cynghorydd sy'n cadeirio'r corff cynghori—a hynny'n briodol iawn, fel Aelod dros Ogledd Cymru—yn gorfod gofyn am eglurhad gan y Gweinidog ynghylch sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio.

15:53

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

On your first point on the BMA, obviously, there has been extensive discussion about our working relationship with the BMA. It is pleasing, for example, looking at the GP Wales report on primary care, that the BMA does recognise our strong commitment to primary care. I think it is very important that the Minister for health and we are working very closely with the General Practitioners Committee Wales to strengthen primary care services to ensure that they meet the needs of patients. I am sure that you would agree with me, Mark Isherwood, that it is important that we look at the work and the policy documents that are coming from the BMA, where it wishes to engage with us and we wish to engage with it, to ensure the support of the health service, alongside the funding that I announced in the draft budget, the £425 million, which I know the doctors of Wales will have welcomed.

On your second point, of course, I am sure that, as a North Wales Member, you will not decry or undermine the excellent investment that is being made as a result of our budget agreement for the draft budget. That £10 million is going to go into an important transport project, alongside, of course, my investment in the A55, which is ongoing, to improve the safety of that all-important route in north Wales. It is all part of our commitment to transport in north Wales. Indeed, I know that Lesley Griffiths as the Minister will look forward to chairing the ministerial task force in north Wales, to look at all the transport opportunities and projects.

O ran eich pwynt cyntaf ar y BMA, wrth gwrs, cafwyd trafodaeth helaeth ynglŷn â'n perthynas waith â Chymdeithas Feddygol Prydain. Mae'n dda o beth, er enghraifft, o edrych ar adroddiad ymarferwyr cyffredinol Cymru ar ofal sylfaenol, fod y BMA yn cydnabod ein hymrwymiad cadarn i ofal sylfaenol. Credaf ei bod yn bwysig iawn fod y Gweinidog iechyd a ninnau'n gweithio'n agos iawn gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru i gryfhau gwasanaethau gofal sylfaenol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion cleifion. Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno â mi, Mark Isherwood, ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar y gwaith a'r dogfennau polisi sydd yn dod oddi wrth y BMA, lle y mae'n dymuno ymgysylltu â ni a ninnau'n awyddus i ymgysylltu â hithau, er mwyn sicrhau cefnogaeth y gwasanaeth iechyd, ynghyd â'r cyllid o £425 miliwn a gyhoeddais yn y gyllideb ddrafft, cyllid y gwn y bydd meddygon Cymru'n ei groesawu.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, rwyf yn siŵr na fyddech, a chithau'n Aelod dros Ogledd Cymru, yn difrio nac yn tansilio'r buddsoddiad ardderchog sy'n cael ei wneud o ganlyniad i'n cytundeb ar gyfer y gyllideb ddrafft. Bydd y £10 miliwn hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiect trafndiaeth pwysig, ochr yn ochr, wrth gwrs, â'm buddsoddiad yn yr A55, sy'n mynd rhagddo, er mwyn gwella diogelwch y ffordd hollbwysig honno yng ngogledd Cymru. Mae hyn i gyd yn rhan o'n hymrwymiad i drafndiaeth yn y gogledd. Yn wir, gwn y bydd Lesley Griffiths, y Gweinidog, yn edrych ymlaen at gadeirio'r tasglu gweinidogol yng ngogledd Cymru, i edrych ar yr holl gyfleoedd a'r prosiectau trafndiaeth.

15:55

Aled Roberts [Bywgraffiad Biography](#)

Weinidog, dros y penwythnos, cefais gyfarfod hefo aelodau staff Gyrrfa Cymru sy'n pryderu am y gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer 2015-16. Mae gostyngiad wedi bod o ryw 30% yn barod, ond bydd ei gyllideb yn gostwng i £20 miliwn, sy'n ostyngiad pellach ac yn creu sefyllfa lle bydd hanner y gyllideb wedi diflannu dros y tair blynedd olaf. A fyddai'r Llywodraeth yn barod i roi datganiad gerbron y Cynulliad yn sôn am effaith hyn ar bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a phobl felly ac i ddangos ei bod wedi cynllunio ar gyfer y gostyngiad yn y pen draw?

Minister, over the weekend, I had a meeting with Careers Wales staff members who are concerned about the reduction in the budget for 2015-16. There has already been a reduction of about 30%, but its budget is falling to £20 million, which is a further reduction and creates a situation where half the budget will have disappeared over the last three years. Would the Government be willing to give a statement to the Assembly talking about the impact of this on those not in education, employment or training and such people, to show that it has ultimately planned for the reduction?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:56

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, this is an important part of the opportunities that we have for the scrutiny of the draft budget, and there is scrutiny of in-year reductions also through supplementary budgets. Also, you have had the opportunity to question the Minister and his Deputy Minister on these points. However, it is very important that we see this in terms of the very tough decisions that we have had to make, with the £1.5 billion cut in our Welsh block grant by the UK Government. It is about priorities, but it is also about the opportunity to explain how we are going to meet the needs of this very important group of learners.

Wrth gwrs, mae hyn yn rhan bwysig o'r cyfleoedd sydd gennym i graffu ar y gyllideb ddrafft, ac mae craffu hefyd ar ostyngiadau sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn drwy gyllidebau atodol. Hefyd, cawsoch gyfle i holi'r Gweinidog a'i Dirprwy Weinidog am y pwyntiau hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn ein bod yn gweld hyn yng nghydestun y penderfyniadau anodd dros ben y bu'n rhaid inni eu gwneud, gyda'r toriad o £15 biliwn a wnaed gan Lywodraeth y DU i grant bloc Cymru. Mae'n ymwneud â blaenoriaethau, ond mae hefyd yn ymwneud â'r cyfle i egluro sut yr ydym yn mynd i fodloni anghenion y grŵp pwysig iawn hwn o ddysgwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:57

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I met with Leonard Cheshire Disability and the mother of a disabled child from the Vale of Glamorgan yesterday, who is experiencing a very long wait for her family to be moved into an adaptive home. I am told that there are around 20 families in a similar position with gold priority status in the Vale of Glamorgan, but no homes are available at all. However, the local authority will not make improvements to her current home, because she is supposed to be moving. Therefore, even though that possibility looks, frankly, remote, she is stuck in a position where others are having new kitchens and bathrooms fitted as part of the Welsh quality housing standard and yet her home remains unimproved. Could I request a statement from the Minister outlining what duties local authorities have in terms of housing for families with disabled children and, in particular, assessing how long it usually takes for families with gold priority status to be placed in each local authority? What interim measures are supposed to be undertaken when a more suitable home is being waited for?

Weinidog, cyfarfûm ddoe â Leonard Cheshire Disability a mam i blentyn anabl o Fro Morgannwg sy'n gorfod aros yn hir iawn i'w theulu gael symud i gartref sydd wedi ei addasu. Rwyf ar ddeall fod tua 20 o deuluoedd, â statws blaenoriaeth aur mewn sefyllfa debyg ym Mro Morgannwg, ond nid oes cartrefi ar gael o gwbl. Er hynny, ni fydd yr awdurdod lleol yn gwneud gwelliannau i'w chartref presennol, gan ei bod i fod i gael ei symud. Felly, er bod y posibilrwydd hwnnw'n ymddangos yn annhebygol, a dweud y gwir, mae wedi ei gadael mewn sefyllfa lle mae eraill yn cael gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd yn rhan o safon ansawdd tai Cymru ac eto nid yw ei chartref hi'n cael ei wella. A gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog yn amlinellu dyletswyddau awdurdodau lleol o ran tai ar gyfer teuluoedd sydd â phlant anabl ac yn arbennig, o ran asesu pa mor hir y mae'n ei gymryd fel arfer i deuluoedd â statws blaenoriaeth aur gael eu lleoli ym mhob awdurdod lleol? Pa fesurau dros dro a ddylai gael eu gweithredu tra bo teulu'n aros am gartref mwy addas?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:58

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Minister will respond to that in terms of a written statement on the particular point relating to adaptive housing. This is a real challenge for local authorities across the whole of Wales. We know that they are also working with their partners, the registered social landlords, in terms of the needs. However, also, you acknowledge the work that has been undertaken in terms of the Welsh housing quality standard by local authorities, and we are working very closely with local authorities, the Welsh Local Government Association and Community Housing Cymru on this front, and good progress is being made on that. I am sure that this will provide an opportunity for an update from the Minister.

Credaf y bydd y Gweinidog yn ymateb i hynny â datganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r pwynt penodol sy'n ymwneud â thai wedi eu haddasu. Mae hon yn her wirioneddol i awdurdodau lleol ledled Cymru gyfan. Gwyddom eu bod hefyd yn gweithio gyda'u partneriaid, y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ran yr anghenion. Ond hefyd, rydych yn cydnabod y gwaith a wnaed o safbwynt safon ansawdd tai Cymru gan awdurdodau lleol, ac rydym yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru yn y cyswllt hwnnw, ac mae cynnydd da'n cael ei wneud yn hynny o beth. Rwyf yn siŵr y bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:59

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you may know that last week saw the publication of a damning report into the services and domiciliary care provided by the company Reach Support, which is based in Newport, in terms of what had been provided across Montgomeryshire. One particular aspect that is of great concern and has been flagged previously by my colleague, Kirsty Williams, is the absence of sufficient numbers of qualified carers, and this was very much a theme running through this report. Would you please ask your colleague, the Minister for Health and Social Services, to make a statement on this matter and to require Care and Social Services Inspectorate Wales to be more proactive in identifying critical areas where there are not sufficient carers to provide the domiciliary services that are needed by our communities?

Weinidog, efallai y byddwch yn gwybod i adroddiad damniol gael ei gyhoeddi'r wythnos diwethaf ar y gwasanaethau a'r gofal yn y cartref a ddarperir gan gwmni Reach Support, sydd wedi'i leoli yng Nghasnewydd, o ran yr hyn sydd wedi'i ddarparu ledled Sir Drefaldwyn. Un agwedd yn enwedig sy'n peri pryder mawr ac y mae fy nghyd-Aelod, Kirsty Williams wedi tynnu sylw ato yw diffyg niferoedd digonol o ofalwyr cymwysedig, ac roedd hyn yn thema amlwg yn yr adroddiad hwn. A wnewch chi ofyn i'ch cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wneud datganiad ar y mater hwn a'i gwneud yn ofynnol i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran nodi ardaloedd critigol lle nad oes digon o ofalwyr i ddarparu'r gwasanaethau yn y cartref sydd eu hangen ar ein cymunedau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:59

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank William Powell for that question. Of course, the Minister for Health and Social Services is very aware, in terms of his responsibilities in terms of care home standards and, of course, the recognition that this is about staffing, which is a key part of the standards. It is often particularly difficult in rural areas in terms of delivering care services to vulnerable people. It is important that an independent review has been commissioned now, which has been commissioned by Powys in conjunction with the Social Services Improvement Agency. Officials are meeting senior managers from the authority to discuss the review and, of course, that will include issues around the workforce and access to and the availability of a trained workforce.

Diolch i William Powell am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol iawn, o ran ei gyfrifoldebau am safonau cartref gofal ac, wrth gwrs, y gydnabyddiaeth bod hyn yn ymwneud â staffio, sy'n rhan allweddol o'r safonau. Mae'n aml yn arbennig o anodd darparu gwasanaethau gofal i bobl sy'n agored i niwed mewn ardaloedd gwledig. Mae'n bwysig bod adolygiad annibynnol yn awr wedi ei gomisiynu gan Bowys ar y cyd â'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae swyddogion yn cwrdd ag uwch reolwyr o'r awdurdod i drafod yr adolygiad ac, wrth gwrs, bydd hynny'n cynnwys materion yn ymwneud â'r gweithlu ac i ba raddau y mae gweithlu sydd wedi'i hyfforddi ar gael.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:00

Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adfywio Canol Trefi

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, I have 10 members, apart from the Minister, who wish to speak and this item is down for 30 minutes. I will extend the item to 45 minutes as we have just saved 15 minutes on the previous item. However, please be succinct. If you are not, I may not be able to call some of your colleagues. I now call on Lesley Griffiths.

Statement by the Minister for Communities and Tackling Poverty: Town Centre Regeneration

Cyn imi alw ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, mae gennyf 10 aelod, heblaw am y Gweinidog, sy'n dymuno siarad ac mae 30 munud wedi eu clustnodi ar gyfer yr eitem hon. Byddaf yn estyn yr eitem i 45 munud gan ein bod newydd arbed 15 munud ar yr eitem flaenorol. Fodd bynnag, byddwch yn gryno os gwelwch yn dda. Os nad ydych, efallai na fyddaf yn gallu galw rhai o'ch cydweithwyr. Galwaf yn awr ar Lesley Griffiths.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:01

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

The Welsh Government continues to invest in our towns and cities and to support investments in regeneration. Over the past few years our high streets have faced significant challenges and we have had many debates in this Chamber over their future.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi yn ein trefi a'n dinasoedd a chefnogi buddsoddiadau mewn adfywio. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r stryd fawr wedi wynebu heriau sylweddol ac rydym wedi cael llawer o ddadleuon yn y Siambr hon dros ei dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Our towns and cities will need to continue to evolve in order to remain resilient in the face of the challenges posed by the growth of online retail, the convenience of out-of-town destinations, and by the changing shopping habits of the people of Wales. Our strategic approach is embedded within the Vibrant and Viable Places framework and programme, where we are investing over £110 million over three years, covering each local authority area across Wales.

I am also pleased to announce today a further £520,000 to be awarded to Merthyr Tydfil County Borough Council from the Heads of the Valleys legacy budget. This will fund a further five regeneration projects in Merthyr Tydfil town centre that are due to be completed by the end of March 2015 and will enhance the current European funding programme. However, while these schemes may be our lead investment programmes, and are schemes that you will have heard much of, I want to take this opportunity to highlight other programmes that are working to revitalise our town centres and high streets.

First, I refer to our approach to business improvement districts or BIDs. We currently have two BIDs in Wales—in Swansea and in Merthyr Tydfil. However, as a Government, we want more areas to explore how a BID can be used. This is why we have provided initial funding to assist nine areas that feel that they can develop a BID to test the concept locally. Towns such as Abergavenny, Bridgend and Colwyn Bay have grasped this opportunity and can see how a BID can provide a sustainable funding mechanism to support the activities that they themselves see as being local priorities. BIDs are one approach to developing our town and city centres. Town centre partnerships are another.

Our key principle in Vibrant and Viable Places is that every town and city in Wales is unique. Each has its own strengths and weaknesses, opportunities and threats. Local communities know what is needed in their town. We are here to provide the tools to enable change to happen, and this is why I am pleased to say that we will be supporting 20 town centre partnerships over the remainder of this Government's term. These schemes are on-the-ground projects, assisting those at the coalface to assess and address the local issues that they have.

You will all be aware that, at a national level, the Government is leading on reminding everyone of the value of their high streets. We are actively encouraging communities to make full use of them, not just for shopping, but for eating, entertainment, socialising and feeling part of the wider community. At the end of September, I launched our high street campaign in Wales, where all of our partners and stakeholders were involved in delivering a week-long programme of activities, events and media coverage across Wales, highlighting what our high streets have to offer.

Bydd angen i'n trefi a'n dinasoedd barhau i esblygu er mwyn aros yn gydnherth yn wyneb yr heriau a ddaw yn sgil twf manwerthu ar-lein, hwylustod cyrchfannau y tu allan i'r trefi, a'r newid yn arferion siopa pobl Cymru. Mae ein hymagwedd strategol wedi ei hymgorffori yn fframwaith a rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, lle'r ydym yn buddsoddi dros £110 miliwn dros dair blynedd, sy'n cwmpasu ardal pob awdurdod lleol ledled Cymru.

Rwyf hefyd yn falch o gyhoeddi heddiw £520,000 yn rhagor i'w ddyfarnu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful o gyllideb etifeddiaeth Blaenau'r Cymoedd. Bydd hyn yn ariannu pum prosiect adfywio arall yng nghanol tref Merthyr Tudful sydd i fod i gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2015 ac a fydd yn hwb i'r rhaglen ariannu Ewropeaidd bresennol. Fodd bynnag, er mai'r cynlluniau hyn yw ein rhaglenni buddsoddi arweiniol, a'u bod yn gynlluniau y byddwch wedi clywed llawer amdanynt, rwyf am gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at raglenni eraill sy'n gweithio i adfywio canol ein trefi a'r stryd fawr.

Yn gyntaf, cyfeiriaf at ein hymagwedd tuag at ardaloedd gwella busnes neu AGB. Ar hyn o bryd mae gennym ddwy AGB yng Nghymru—yn Abertawe ac ym Merthyr Tudful. Fodd bynnag, fel Llywodraeth, rydym am gael mwy o ardaloedd i archwilio sut y gellir defnyddio AGB. Dyna pam yr ydym wedi darparu cyllid cychwynnol i gynorthwyo naw ardal sy'n teimlo eu bod yn gallu datblygu AGB i brofi'r cysyniad yn lleol. Mae trefi fel y Fenni, Pen-y-bont ar Ogwr a Bae Colwyn wedi bachu ar y cyfle hwn ac yn gallu gweld sut y gall AGB ddarparu mecanwaith ariannu cynaliadwy i gefnogi'r gweithgareddau y maent hwy eu hunain yn eu gweld fel blaenoriaethau lleol. Mae AGB yn un dull o ddatblygu canol ein trefi a'n dinasoedd. Mae partneriaethau canol y dref yn un arall.

Ein hegwyddor allweddol o ran Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yw bod pob tref a dinas yng Nghymru'n unigryw. Mae gan bob un ei chryfderau a'i gwendidau, ei chyfleoedd a'i bygythiadau ei hun. Mae cymunedau lleol yn gwybod beth sydd ei angen yn eu tref. Rydym yma i ddarparu'r offer i alluogi newid i ddigwydd, a dyna pam yr wyf yn falch o ddweud y byddwn yn cefnogi 20 o bartneriaethau canol y dref yn ystod gweddill tymor y Llywodraeth hon. Mae'r cynlluniau hyn yn brosiectau ar lawr gwlad, sy'n cynorthwyo'r rhai hynny ar y rheng flaen i asesu a mynd i'r afael â'u materion lleol.

Byddwch i gyd yn ymwybodol fod y Llywodraeth, ar lefel genedlaethol, yn arwain o ran atgoffa pawb o werth eu stryd fawr. Rydym yn mynd ati i annog cymunedau i wneud defnydd llawn ohonynt, nid yn unig ar gyfer siopa, ond ar gyfer bwyta, adloniant, cymdeithasu a themlo'n rhan o'r gymuned ehangach. Ddiwedd mis Medi, lansiais ein hymgyrch stryd fawr yng Nghymru, lle'r oedd pob un o'n partneriaid a'n rhanddeiliaid yn rhan o gyflwyno wythnos o weithgareddau, digwyddiadau a sylw yn y cyfryngau ledled Cymru, gan dynnu sylw at yr hyn sydd gan ein stryd fawr i'w gynnig.

I visited Blaenavon to witness the transformational work that has revitalised the town. I was extremely impressed with the vibrant high street, and the passion of our partners in Blaenavon was inspirational. I met with local businesses in the town and saw how they were working to develop not only their business, but the town itself, and building on the previous Government investment through the Heads of the Valleys programme. A once empty high street is now full, looking alive and boasting businesses such as Coffi 1860, the Blaenafon Cheddar Company and the Lion Hotel, which have benefited from being so close to a world heritage site and are fortunate to have a strong local community, willing to support such innovation.

My officials are currently reviewing all the indicators and I will be asking the high street campaign task and finish group established for this project to consider options and recommendations for future approaches. I am keen to continue to ensure that we have a whole-Government approach to address the challenges facing our towns and city centres.

A key area of this is within the remit of the Minister for Economy, Science and Transport, who has a number of initiatives to support the high street through business rates support within her portfolio. The Wales retail relief scheme, which offers a discount of up to £1,000 in business rates, will support high streets throughout Wales.

The issue of long-term empty properties has also been examined and the Open for Business scheme offers a one-year 50% discount on business rates for occupiers of properties empty for a year or more. The Welsh Government recently announced the extension of the small business rate relief scheme in Wales. This scheme supports small firms across Wales and ensures many pay no business rates at all. Earlier this year, it was announced that the business rates multiplier would be capped at 2%.

Another area that is key to our high streets is the planning system, which falls under the responsibility of my colleague the Minister for Natural Resources. Planning can give vital support in creating successful town centres. Our existing national retail planning policies promote Wales's established retail centres as the most appropriate locations for new retail development.

Earlier this year, we published research that examined the effects of our current retail planning policies on town centres. One of the key findings was the growth and extent of alternative forms of retailing, including out-of-town and online shopping, and their impact on town centres. Among the recommendations was the need for improved clarity in retail planning guidance. Taking this into account, the Minister for Natural Resources has today announced his intention to commence a refresh of 'Planning Policy Wales' and technical advice note 4 on retailing and town centres.

Bùm yn ymweld â Blaenafon i weld y gwaith trawsnewidiol sydd wedi adfywio'r dref. Roeddwn yn llawn edmygedd o'r stryd fawr fywiog, ac roedd angerdd ein partneriaid ym Mlaenafon yn ysbrydoliaeth. Cyfarfûm â busnesau lleol yn y dref a gweld sut y maent yn gweithio i ddatblygu nid yn unig eu busnes, ond y dref ei hun, ac yn adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol y Llywodraeth trwy raglen Blaenau'r Cymoedd. Mae stryd fawr a oedd unwaith yn wag bellach yn llawn, mae'n edrych yn fyw ac mae yno fusnesau fel Coffi 1860, Cwmni Caws Blaenafon a Gwesty'r Lion, sydd wedi elwa ar fod mor agos at safle treftadaeth y byd ac yn ffodus o gael cymuned leol gref sy'n barod i gefnogi arloesedd o'r fath.

Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn adolygu'r holl ddangosyddion a byddaf yn gofyn i grŵp gorchwyl a gorffen ymgyrch y stryd fawr a sefydlwyd ar gyfer y prosiect hwn ystyried opsiynau ac argymhellion ar gyfer ymagweddau yn y dyfodol. Rwyf yn awyddus i barhau i sicrhau bod gennym ymagwedd Llywodraeth gyfan i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol ein trefi a'n dinasoedd.

Mae un maes allweddol yn hyn o beth yn rhan o gylch gwaith Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, sydd â nifer o fentrau i gefnogi'r stryd fawr drwy gymorth ardrethi busnes yn ei phortffolio. Bydd cynllun rhyddhad manwerthu Cymru, sy'n cynnig gostyngiad o hyd at £1,000 mewn ardrethi busnes, yn cefnogi'r stryd fawr ledled Cymru.

Mae mater eiddo gwag hirdymor hefyd wedi cael ei archwilio ac mae'r cynllun Ar Agor am Fusnes yn cynnig gostyngiad o 50% mewn ardrethi busnes am flwyddyn i ddeiliaid eiddo sy'n wag am flwyddyn neu fwy. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru estyniad i'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi cwmnïau bach ledled Cymru ac yn sicrhau bod llawer yn talu dim ardrethi busnes o gwbl. Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd y byddai'r lluosydd ardrethi busnes yn cael ei gapio ar 2%.

Maes arall sydd yn allweddol i'n stryd fawr yw'r system gynllunio, sy'n rhan o gyfrifoldeb fy nghydwethiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Gall cynllunio roi cymorth hanfodol i greu canol trefi llwyddiannus. Mae ein polisiau cynllunio manwerthu cenedlaethol presennol yn hyrwyddo canolfannau manwerthu sefydledig Cymru fel y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd.

Yn gynharach eleni, cyhoeddassom ymchwil a oedd yn archwilio effeithiau ein polisiau cynllunio manwerthu presennol ar ganol trefi. Un o'r canfyddiadau allweddol oedd twf a maint mathau eraill o fanwerthu, gan gynnwys y tu allan i'r dref a siopa ar-lein, a'u heffaith ar ganol trefi. Ymhlith yr argymhellion roedd yr angen am well eglurder yn y canllawiau cynllunio manwerthu. O ystyried hyn, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol heddiw wedi cyhoeddi ei fwriad i ddechrau adnewyddu 'Polisi Cynllunio Cymru' a nodyn cyngor technegol 4 ar fanwerthu a chanol trefi.

In conclusion, the Welsh Government sees our high streets and town centres as cornerstones of our communities and they are a key priority for regeneration policy. The way we live, work, play and shop has changed and will continue to do so. We do know our involvement, investment and encouragement can lever in additional and complementary funding to create jobs, homes and training opportunities, and improve the quality of life in many of our towns.

I gloi, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai ein stryd fawr a chanol ein trefi yw congffeini ein cymunedau ac maent yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer polisi adfywio. Mae'r ffordd yr ydym yn byw, yn gweithio, yn chwarae ac yn siopa wedi newid a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym yn gwybod y gall ein cyfranogiad, ein buddsoddiad a'n hanogaeth ddenu arian ychwanegol a chyflenwol i greu swyddi, cartrefi a chyfleoedd hyfforddi, a gwella ansawdd bywyd mewn llawer o'n trefi.

16:07

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you very much for your statement today. I am going to be quite blunt about this: you seem to have been able to fill three sheets of A4 with very little, apart from a couple of issues, which I will come to in a moment. I welcome the opportunity to question you, but much of the content of your statement is regurgitated from predecessors, I feel. I note that you mentioned the launch of your high street campaign for Wales at the end of September, which was hugely delayed. We never really got an answer as to why the delay, so I wonder whether you could enlighten us about that today.

You mentioned the further £520,000 awarded to Merthyr Tydfil, which I really welcome, but I wonder how much match funding that has realised, if any, and how much private sector investment that has levered in. Could you provide us, perhaps, with more detail surrounding that investment? You also mentioned the business improvement districts, and I know from dealing with the Swansea BID issues how these can be great assets to cities and towns across Wales and encourage the development of further BIDs. I was delighted that you talked about the Swansea BID and that you said that towns such as Abergavenny, Bridgend and Colwyn Bay have grasped this opportunity, and that really is a positive move indeed. I know from meeting with businesses across Wales that some were unsuccessful in receiving support from the Welsh Government in a start-up grant to explore viability of a BID and, importantly, to support the initial referendum. Could you let the Chamber know how many were unsuccessful in securing the initial funding and how you will support their development?

I wonder what work, if any, you have done with the Small Business Saturday campaign, which highlights what our high streets have to offer and which I know will be calling on the Chamber, yet again this year, in the guise of its bus tour. Will you look at how you could dovetail both campaigns this year to maximise the impact for our small businesses and high streets?

Weinidog, diolch yn fawr iawn am eich datganiad heddiw. Rwyf am fod yn eithaf di-flewyn ar dafod am hyn: ymddengys eich bod wedi llwyddo i lenwi tair dalen o A4 gydag ychydig iawn, ar wahân i un neu ddau o faterion, y byddaf yn dod atynt mewn munud. Croesawaf y cyfle i ofyn cwestiynau ichi, ond mae llawer o gynnwys eich datganiad yn ailbobi'r hyn a ddywedwyd gan eich rhagflaenwyr, yn fy marn i. Sylwaf eich bod wedi cyfeirio at lansio eich ymgyrch stryd fawr i Gymru ar ddiwedd mis Medi, ymgyrch y bu oedi mawr iawn ag ef. Ni chawsom erioed ateb ynghylch pam y bu oedi, felly tybed a allech ein goleuo am hynny heddiw?

Soniasoch am y £520,000 ychwanegol a ddyfarnwyd i Ferthyr Tudful, ac rwyf yn croesawu hynny'n fawr, ond tybed faint o arian cyfatebol y mae hynny wedi'i wireddu, os o gwbl, a faint o fuddsoddiad sector preifat y mae wedi'i ysgogi. A allech roi inni, efallai, fwy o fanylion ynghylch y buddsoddiad? Cyfeiriasoch hefyd at yr ardaloedd gwella busnes, a gwn o ymdrin â materion AGB Abertawe y gall y rhain fod yn gaffaeliad gwych i ddinasoedd a threfi ar draws Cymru ac annog datblygu rhagor o AGB. Roeddwn wrth fy modd eich bod wedi crybwyll AGB Abertawe ac wedi dweud bod trefi fel y Fenni, Pen-y-bont ar Ogwr a Bae Colwyn wedi bachu ar y cyfle hwn, ac mae hynny'n symudiad cadarnhaol yn wir. Gwn o gwrdd â busnesau ledled Cymru fod rhai wedi methu â chael cymorth gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grant cychwyn i archwilio hyfywedd AGB ac, yn bwysig, i gefnogi'r refferendwm cychwynnol. A allech roi gwybod i'r Siambr sawl un a fethodd â sicrhau cyllid cychwynnol a sut y byddwch yn cefnogi eu datblygiad?

Tybed pa waith, os o gwbl, yr ydych wedi'i wneud â'r ymgyrch Dydd Sadwrn Busnesau Bach, sy'n tynnu sylw at yr hyn sydd gan y stryd fawr i'w gynnis ac y gwn y bydd yn galw ar y Siambr, unwaith eto eleni, ar ei daith fws. A wnewch chi edrych ar sut y gallech gydblythu'r ddau ymgyrch eleni i wneud y gorau o'r effaith i'n busnesau bach a'n stryd fawr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, Minister, as you know, given that it has been mentioned many times here, we published our Welsh Conservative plan for the high street close to two years ago now, detailing a real action plan of how to rejuvenate and support our high streets. I would put it to you that the Welsh Government has, in its usual style, dithered around. It is still talking of task and finish groups and relatively small investments, as you have just outlined in the statement. There is no coherent strategy that Wales can hang its hat on. Unlike your document, and I would refer you to our document, ours talks about high street management, business rates, high street accessibility, transport issues and high street planning. I commend it to you and urge you to sit down with your officials and have a good look at it and adopt most of it.

Yn olaf, Weinidog, fel y gwyrddoch, o gofio ei fod wedi ei grybwyll lawer gwaith yma, cyhoeddwyd cynllun Ceidwadwyr Cymru ar gyfer y stryd fawr bron i ddwy flynedd yn ôl bellach, yn rhoi manylion cynllun gweithredu go iawn ar sut i adfywio a chefnogi ein stryd fawr. Dywedaf wrthyf fod Llywodraeth Cymru, yn ei ffordd arferol, wedi bod yn gogor-droi. Mae'n dal i siarad am grwpiau gorchwyl a gorffen a buddsoddiadau cymharol fach, fel yr ydych newydd ei amlinellu yn y datganiad. Nid oes strategaeth gydlynol y gall Cymru ddibynnu arni. Yn wahanol i'ch dogfen chi, a byddwn yn eich cyfeirio at ein dogfen ni, mae ein dogfen ni'n sôn am reolaeth y stryd fawr, ardreith busnes, hygyrchedd y stryd fawr, materion trafnidiaeth a chynllunio'r stryd fawr. Rwyf yn ei chymeradwyo ichi ac yn eich annog i eistedd i lawr gyda'ch swyddogion i gael golwg dda arni a mabwysiadu'r rhan fwyaf ohoni.

16:10

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will pick up on the last of Byron Davies's points to start with. I think that my officials had looked at it when Carl Sargeant was the Minister. You can probably take from my answer that I will not be having a further look at it. But, I do think that we have implemented some of the things you say. I outlined in my oral statement the actions in my colleague the Minister for Economy, Science and Transport's portfolio around the rates issue. We are doing a huge amount to assist businesses in that area.

You say that the Support Your High Street campaign was delayed. I came into post on 11 September and it started on 20 September, nine days later, which is pretty quick. It was really important to get that right. It was a huge success right across Wales. I mentioned in my oral statement that I visited Blaenavon, which is an excellent example. Ten years ago, there were 26 boarded-up shops on that high street; not one shop is boarded up now, due to funding from Welsh Government and a focus from the local authority also.

In relation to BIDs, it is a very successful scheme. I mentioned that we just have Swansea and Merthyr. It was because of that, as a Government, that we wanted to give funding to local authorities to try to encourage them to look at putting in a bid for a BID, if you like. I mentioned that a few areas had been successful; they are Abergavenny, Aberystwyth, Bridgend, Llanelli, Neath, Pant in Merthyr industrial estate, Merthyr Tydfil, Pontypridd, and just this week I have cleared Colwyn Bay to go ahead. We just have Caernarfon and Bangor outstanding.

Rwyf am sôn am yr olaf o bwyntiau Byron Davies i ddechrau. Credaf fod fy swyddogion wedi edrych arni pan oedd Carl Sargeant yn Weinidog. Mae'n debyg y gallwch gymryd o'm hateb na fyddaf yn cael golwg arall arni. Ond credaf ein bod wedi rhoi ar waith rai o'r pethau a ddywedwch. Amlinellais yn fy natganiad llafar y camau ym mhorthffolio fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch ardreithi. Rydym yn gwneud llawer iawn i helpu busnesau yn y maes hwnnw.

Dywedwch y bu oedi o ran yr ymgyrch Cefnogwch Eich Stryd Fawr. Deuthum i'r swydd ar 11 Medi a dechreuodd ar 20 Medi, naw diwrnod yn ddiweddarach, sydd yn eithaf cyflym. Roedd yn bwysig iawn gwneud hynny'n iawn. Roedd yn llwyddiant ysgubol ledled Cymru gyfan. Soniais yn fy natganiad llafar imi ymweld â Blaenafon, sy'n enghraifft wych. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd 26 o siopau â'u ffenestri wedi'u bordio ar y stryd fawr; nid oes yr un siop wedi'i bordio yn awr, o ganlyniad i gyllid gan Lywodraeth Cymru a ffocws gan yr awdurdod lleol hefyd.

O ran AGB, mae'n gynllun llwyddiannus iawn. Soniais mai dim ond Abertawe a Merthyr sydd gennym. Dyna pam yr oeddem, fel Llywodraeth, am roi cyllid i awdurdodau lleol i geisio eu hannog i ystyried gwneud cais am AGB, os mynnwch. Soniais fod rhai ardaloedd wedi bod yn llwyddiannus, sef y Fenni, Aberystwyth, Pen-y-bont ar Ogwr, Llanelli, Castell-nedd, Pant yn ystâd ddiwydiannol Merthyr, Merthyr Tudful, Pontypridd, a dim ond yr wythnos hon rwyf wedi rhoi caniatâd i Fae Colwyn i fwrw ymlaen. Dim ond Caernarfon a Bangor sydd gennym ar ôl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:12

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, would you agree with me that much is happening in Newport in terms of the regeneration of the city centre? There has been a lot of investment from Welsh Government and there is a strong partnership approach. As part of that, Newport City Council is investing some £90 million of its own moneys in taking forward a city centre redevelopment, due to open at the end of next year. So, there is a lot of activity. There is also a BID being taken forward by local traders. The old market at the top of Newport city centre has had substantial investment as well. With quite a lot of activity taking place, Minister, would you commit to continuing Welsh Government support for that vital city centre regeneration, including finding alternative uses for those city centre shops and premises above those city centre shops, and to regularly making sure that you are informed of progress and that you continue to work with the key partners to make sure that all of this work comes to fruition?

Weinidog, a fydddech yn cytuno â mi fod llawer yn digwydd yng Nghasnewydd o ran adfywio canol y ddinas? Bu llawer o fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru ac mae ymagwedd bartneriaeth gref. Fel rhan o hynny, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn buddsoddi tua £90 miliwn o'i arian ei hun i fwrw ymlaen i ailddatblygu canol y ddinas, a bwriedir iddo agor ddiwedd y flwyddyn nesaf. Felly, mae llawer o weithgarwch. Mae AGB hefyd yn cael ei datblygu gan fasnachwyr lleol. Bu buddsoddi sylweddol hefyd yn yr hen farchnad ym mhen uchaf canol dinas Casnewydd. Gyda chrym dipyn o weithgaredd yn digwydd, Weinidog, a wnewch chi ymrwymo y bydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r adfywio hanfodol hwnnw yng nghanol y ddinas yn parhau, gan gynnwys dod o hyd i ddefnydd arall i siopau canol y ddinas ac eiddo uwchben y siopau hynny yng nghanol y ddinas, ac y byddwch yn gwneud yn siŵr yn rheolaidd eich bod yn cael gwybod am gynnydd a'ch bod yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i wneud yn siŵr bod yr holl waith hwn yn dwyn ffrwyth?

16:13

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank John Griffiths for those questions. You are absolutely right that Newport is starting now to transform itself. It was very successful in its bid for the Vibrant and Viable Places project. A fortnight ago, I met with my lead officials for each of the VVP areas and a very good report came in from Newport. It is very important that we find alternatives for empty shops and businesses in our town and city centres. I am a huge fan of people living in town centres and there is a focus within the VVP programme on housing. We know that we constantly need more affordable housing. That is an area that I want to see really progress.

Diolch i John Griffiths am y cwestiynau hynny. Rydych yn llygad eich lle fod Casnewydd yn dechrau ei thrawsnewid ei hun. Roedd yn llwyddiannus iawn yn ei chais ar gyfer y prosiect Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Bythefnos yn ôl, cyfarfûm â'm swyddogion arweiniol ar gyfer pob un o'r ardaloedd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a daeth adroddiad da iawn o Gasnewydd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dod o hyd i ddefnydd arall i siopau a busnesau gwag yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd. Rwyf yn gryf o blaid gweld pobl yn byw yng nghanol trefi ac mae pwyslais yn y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar dai. Rydym yn gwybod bod arnom angen mwy o dai fforddiadwy o hyd. Mae hwnnw'n faes yr wyf am ei weld yn datblygu.

16:14

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch am y datganiad. Rydych yn iawn i nodi bod hwn yn fater rydym wedi'i drafod droeon yn fan hyn. Rydych hefyd yn nodi bod angen i'n canol trefi a'r stryd fawr esblygu. Rwy'n cytuno i raddau helaeth, hynny yw, mae angen newid, ond mae 'esblygu' rywsut yn awgrymu proses araf iawn ac rwy'n meddwl bod angen mwy o 'urgency' na hynny. Bydd croeso i'r arian ychwanegol i Ferthyr Tudful heb amheuaeth.

Thank you for the statement. You are right to note that this is an issue that we have discussed before here. You also note that there is a need for our town centres and the high street to evolve. I agree to a great extent, that is, we need a change, but 'to evolve' suggests a very slow process and I think that we need more urgency than that. There will be a welcome for the additional money for Merthyr Tydfil, without a doubt.

Mae'n dda gweld bod y cynlluniau penodol hynny yn rhai sydd i fod i gael eu cwblhau yn fuan. Rwy'n ddigon hapus i weld y syniad o ardaloedd gwella busnes yn cael ei ymestyn i naw ardal a chefnogaeth i 20 o bartneriaethau canol tref, ond rwy'n meddwl, tra bod y Gweinidog yn hollol iawn i ddweud bod pob tref a phob stryd fawr yn unigryw, ei bod yn bwysig ein bod hefyd yn meddwl yn strategol am atebion Cymru gyfan. Mae mwyafrif y sialensiau yn rai cyffredin, rwy'n meddwl.

It is good to see that those specific plans are ones that are supposed to be finished quickly. I am quite happy to see the extension of the idea of business improvement districts to nine areas and support for 20 town centre partnerships, but I think that, while the Minister is right to say that every town and every high street is unique, it is important that we also think strategically about all-Wales solutions. The majority of challenges are common ones, I think.

Soniodd y Gweinidog am annog stryd fawr aml-ddefnydd; rwy'n meddwl ein bod i gyd yn cefnogi hynny. Sut gall rheolau cynllunio yn benodol gael eu defnyddio i hybu hynny? Clywsom fod adolygiad yn mynd i fod o nodyn cyngor technegol 4 ar fanwerthu a chanol trefi. Rwy'n meddwl mai cynllunio yw'r maes lle gall y paratoi strategol Cymru gyfan ar gyfer stryd fawr gryfach—. Mae'n rhan bwysig o lunio'r strategaeth honno. Tra bod y polisi cynllunio presennol yn annog, rwy'n meddwl, datblygiadau aml-ddefnydd mewn egwyddor, mae awdurdodau lleol yn aml yn teimlo'r angen i amddiffyn y craidd manwerthu hwnnw ar y stryd fawr, ac mae hynny'n gallu bod yn rhwystr i ddatblygiadau aml-ddefnydd. Rwy'n edrych ymlaen at weld y canllawiau cryfach hynny, a tybed a all y Gweinidog roi rhyw fath o amserlen inni ar gyfer paratoi'r nodyn cyngor technegol newydd hwnnw.

Yn ogystal â'r nodyn cyngor technegol ei hun, wrth gwrs, mae'n rhaid inni gofio bod y Bil Cynllunio (Cymru) yn cynnig y potensial i osod llwyfan llawer cryfach i bolisi cynllunio mewn perthynas â'r stryd fawr. Rydym ni, er enghraifft, yn galw am flaenoriaethu datblygiadau yng nghanol trefi, yn hytrach nag ar y cyrion, i sicrhau bod datblygiadau ar gyrion trefi yn cael eu hasesu yn fawel iawn am eu heffaith ar ganol y dref. Yn hynny o beth, mae bwriad y Llywodraeth i wthio am Fil fframwaith yn unig yn gyfle wedi'i golli, rwy'n meddwl.

Hefyd, soniodd y Gweinidog am gefnogaeth efo ardrethi busnes. Rydym ni, yn amlwg, wedi dweud droeon ein bod eisiau ymestyn rhyddhad ardrethi busnes. Byddwn yn falch iawn o glywed gan y Gweinidog lle'r ydym o ran y grŵp sy'n edrych ar ddyfodol ardrethi busnes yng Nghymru, er wrth gwrs, fy mod yn sylweddoli nad y Gweinidog sydd ar ei thraed yma sy'n gyfrifol am hynny ond Gweinidog yr economi.

The Minister mentioned encouraging multi-use high streets; I think that we all support that. How can planning rules specifically be used to encourage that? We heard that there will be a review of technical advice note 4 on retailing and town centres. I think that planning is the field where strategic preparations on an all-Wales basis for a strong high street—. It is an important part of drawing up that strategy. While the current planning policy encourages, I think, multi-use developments in principle, local authorities often feel the need to defend that core retail on the high street, and that can be a barrier to multi-use developments. I look forward to seeing those stronger guidelines, and I wonder whether the Minister could give us some kind of timetable for the preparation of that new technical advice note.

As well as the technical advice note itself, of course, we have to remember that the Planning (Wales) Bill offers the potential to establish a much stronger platform for planning policy in relation to the high street. We, for example, are calling for prioritisation of developments within town centres, rather than out of town, to ensure that out-of-town developments are assessed in detail in terms of their impact on town centres. In that sense, the intention of the Government to push for a framework Bill only is a lost opportunity, I think.

The Minister also mentioned support for business rates. We, clearly, have said many times that we want to extend business rate relief. I would be pleased to hear from the Minister where we are now in terms of the group that is looking at the future of business rates in Wales, although, of course, I realise that the Minister on her feet now is not responsible for that, but the Minister for the economy.

16:17

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are quite right: you focused most of your questions on planning and business rates, both of which fall outside my portfolio, but I will refer to them in a moment. In relation to town centre partnerships, I think that it is really important that we support those partnerships—their action plans and the proposed projects. I know that the Member has two in his constituency, in Holywell—in Llangefni, sorry. You have only one, sorry. I read 'Holywell' as 'Holyhead'; I apologise.

In relation to planning, you raise some very specific questions, which will need to be directed to the Minister for Natural Resources. You will be aware of the Minister's written statement today in relation to technical advice note 4, which, obviously, falls outside the Planning (Wales) Bill. We should remember that it is not the role of the planning system to restrict competition between retailers with incentives, for instance; that is something that has been raised with me. I think that, if we are going to have successful town centres, it is not going to be one single method that brings that about; I think that there has to be a very mixed and flexible approach to improving the viability of our town centres.

Rydych yn llygad eich lle: roedd y rhan fwyaf o'ch cwestiynau'n canolbwyntio ar gynllunio ac ardrethi busnes, ac mae'r ddau y tu allan i'm portffolio i, ond cyfeiriaf at hynny mewn munud. O ran partneriaethau canol y dref, credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cefnogi'r partneriaethau hynny—eu cynlluniau gweithredu a'r prosiectau arfaethedig. Gwn fod gan yr Aelod ddwy yn ei etholaeth, yn Nhreffynnon—yn Llangefni, mae'n ddrwg gennyf. Dim ond un sydd gennyf, mae'n ddrwg gennyf. Darlennis 'Holywell' fel 'Holyhead'; rwyf yn ymddiheuro.

O safbwynt cynllunio, rydych yn codi rhai cwestiynau penodol iawn, y bydd angen eu cyfeirio at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Byddwch yn ymwybodol o ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog heddiw mewn perthynas â nodyn cyngor technegol 4, nad yw, yn amlwg, yn rhan o Fil Cynllunio (Cymru). Dylem gofio nad rôl y system gynllunio yw cyfyngu ar gystadleuaeth rhwng manwerthwyr â chymhellion, er enghraifft; mae hynny'n rhywbeth sydd wedi'i godi gyda mi. Credaf, os ydym yn mynd i gael canol trefi llwyddiannus, nad un dull ar ei ben ei hun fydd yn sicrhau hynny; credaf fod yn rhaid wrth ymagwedd gymysg a hyblyg iawn i wella hyfywedd canol ein trefi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to rate relief, et cetera, I gave a list of all of the schemes that are within the Minister for Economy, Science and Transport's portfolio. I think that businesses, certainly in the short time that I have had this portfolio, have welcomed that. I will be having discussions with the Minister as we go forward.

O ran rhyddhad ardrethi, ac yn y blaen, rhoddais restr o'r holl gynlluniau sydd o fewn portffolio Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Credaf fod busnesau, yn sicr yn y cyfnod byr yr wyf wedi bod yn gyfrifol am y portffolio hwn, wedi croesawu hynny. Byddaf yn cael trafodaethau â'r Gweinidog wrth inni symud ymlaen.

16:19 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As time is short, I will keep my contribution short. First of all, may I welcome the extra money going to Porthcawl as part of the town centre partnership? It is a town that often feels overlooked in terms of these regeneration initiatives, and I am sure that it will be very grateful for that investment.

Gan fod amser yn brin, rwyf am gadw fy nghyfraniad yn fyr. Yn gyntaf oll, a gaf fi groesawu'r arian ychwanegol sy'n mynd i Borthcawl fel rhan o bartneriaeth canol y dref? Mae'n dref sy'n aml yn teimlo ei bod yn cael ei hanwybyddu o ran y mentrau adfywio hyn, ac rwyf yn siŵr y bydd yn ddiolchgar iawn am y buddsoddiad hwnnw.

May I ask the Minister two questions? In terms of the money that you are putting into town centres, are you using any of that money to lever in additional resources and money from the private sector—setting up other partnerships to generate additional investment in the relevant towns? Secondly, what methodology are you using to evaluate the effectiveness of this investment?

A gaf fi ofyn dau gwestiwn i'r Gweinidog? O ran yr arian yr ydych yn ei roi i mewn i ganol trefi, a ydych yn defnyddio rhywfaint o'r arian hwnnw i ysgogi adnoddau ac arian ychwanegol gan y sector preifat—sefydlu partneriaethau eraill i greu rhagor o fuddsoddi yn y trefi perthnasol? Yn ail, pa fethodoleg ydych chi'n ei defnyddio i werthuso effeithiolrwydd y buddsoddiad hwn?

16:49 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Discussions around private sector funding being put into the schemes that we have already have, obviously, been had before. I am certainly going to meet with the private sector as I go around Wales to try to encourage more funding to go in. Evaluation is being undertaken on all of the schemes that I mentioned before, and also monitoring, by officials.

Mae trafodaethau ynghylch rhoi cyllid y sector preifat i mewn i gynlluniau sydd gennym eisoes, yn amlwg, wedi digwydd o'r blaen. Byddaf yn sicr yn cwrrd â'r sector preifat wrth imi fynd o gwmpas Cymru i geisio annog mwy o gyllid. Mae'r holl gynlluniau a grybwyllais o'r blaen yn cael eu gwerthuso, a'u monitro hefyd, gan swyddogion.

16:20 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n croesawu eich datganiad heddiw a'r atebion a gefais wrthoch chi wythnos diwethaf yn y ddadl fer.

I welcome your statement today and the answers that you gave me last week in the short debate.

I mi, ffactorau strategol i wella canol trefi yw bod lleoedd byw yng nghanol trefi, trafndiaeth integredig, lleoedd parcio am ddim, ardrethi busnes, fel sydd wedi cael ei godi yn barod, ac, yn achos Llanelli, dinas-rhanbarthau. A ydych chi'n cytuno â'r rhestr hon, a sut byddech yn cydweithio yn draws-weinidogol i sicrhau bod pecyn cryf a strategol ar gyfer canol trefi yn cael ei wthio i'r blaen ac yn sicrhau bod y cyllid ar gael?

For me, strategic factors to improve town centres are places where people can reside in town centres, integrated transport, free parking, business rates, as has been raised already this afternoon, and, in the case of Llanelli, city regions. Do you agree with this list, and how will you collaborate on a cross-ministerial basis to ensure that there is a strong and strategic package available for town centres that is given prominence and that you ensure that the funding is available?

16:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, this does follow on from your short debate last week. You are quite right; it is a cross-governmental approach that we need. I will be having further discussions, particularly with the two Ministers that I have mentioned this afternoon.

Ydy, mae hyn yn dilyn ymlaen o'ch dadl fer yr wythnos diwethaf. Rydych yn llygad eich lle; dull trawslywodraethol sydd ei angen arnom. Byddaf yn cael trafodaethau pellach, yn enwedig â'r ddau Weinidog yr wyf wedi'u crybwyll y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that we talked last week about parking charges, because that can put people off going into town, and you gave a very good example last week in the short debate about parking being provided and more people coming into town. I know that the Minister for Economy, Science and Transport has some research into the impact of car parking charges on town centre footfall commissioned and under way currently.

Credaf inni siarad yr wythnos diwethaf am daliadau parcio, oherwydd gall hynny atal pobl rhag mynd i mewn i'r dref, a rhesoch enghraifft dda iawn yr wythnos diwethaf yn y ddadl fer am ddarparu cyfleusterau parcio a mwy o bobl yn dod i mewn i'r dref. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi comisiynu rhywfaint o ymchwil i effaith taliadau parcio ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref a bod yr ymchwil yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

16:21

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will perhaps be aware that two banks in my own constituency have closed in recent months: one in Llanidloes and one in Llanfaircaereinion. They were both NatWest RBS banks. Also, NatWest is planning to close the last remaining bank in Montgomery. The presence of a bank on a high street has a long-term effect on the ability of a town to prosper, and this puts that in jeopardy. I know that you will agree with that position. Minister, will you lend your support to a mutual community bank model, which would see banks sharing buildings and services, with the aim of maintaining an over-the-counter bank in rural areas? Also, I would be grateful if you would liaise with the Financial Conduct Authority and the Competition and Markets Authority to explore ways in which regulators can encourage improvements to inter-bank agency agreements to allow for this to happen.

Weinidog, efallai y byddwch yn ymwybodol bod dau fanc yn fy etholaeth wedi cau yn ystod y misoedd diwethaf, un yn Llanidloes ac un yn Llanfaircaereinion. Banciau NatWest RBS oedd y ddau. Hefyd, mae NatWest yn bwriadu cau'r unig fanc sydd ar ôl yn Nhrefaldwyn. Mae presenoldeb banc ar y stryd fawr yn cael effaith hirdymor ar allu tref i ffynnu, ac mae hyn yn rhoi hynny yn y fantol. Gwn y byddwch yn cytuno â'r safbwynt hwnnw. Weinidog, a wnewch chi roi eich cefnogaeth i fodel banc cymunedol cyfuddiannol, a fyddai'n golygu bod banciau'n rhannu adeiladau a gwasanaethau, â'r nod o gynnal banc dros-y-cownter mewn ardaloedd gwledig? Hefyd, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cydgysylltu â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i archwilio ffyrdd y gall rheoleiddwyr annog gwelliannau i gytundebau asiantaeth rhwng banciau er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd.

With regard to the intention to commence a refresh of 'Planning Policy Wales' and TAN 4, on town centres, I think that that is absolutely right, and I support that, but will the Minister perhaps outline a timescale for that refresh?

O ran y bwriad i ddechrau adnewyddu 'Polisi Cynllunio Cymru' a TAN 4, o safbwynt canol trefi, credaf fod hynny'n gwbl gywir, ac rwyf yn cefnogi hynny, ond a wnaiff y Gweinidog efallai amlinellu amserlen ar gyfer yr adnewyddu hwnnw?

16:23

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Natural Resources heard that question, and I think that your question regarding a timescale is better directed to him.

Obviously, if banks withdraw from town centres, that is a commercial decision. To suggest an innovative way of using buildings is very good, but also, if we can make our town centres more alive and more vibrant, that will encourage banks in particular. We have seen that with post offices. Post offices are not a devolved issue, but we have seen post offices, certainly in my constituency, become a part of local village shops, and I think banking needs to look at the same sort of approach.

Clywodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol y cwestiwn hwnnw, a chredaf y byddai'n well cyfeirio eich cwestiwn ynglŷn ag amserlen ato ef.

Wrth gwrs, os bydd banciau'n tynnu'n ôl o ganol trefi, penderfyniad masnachol yw hwnnw. Mae'n dda iawn o beth awgrymu ffordd arloesol o ddefnyddio adeiladau, ond hefyd, os gallwn wneud canol ein trefi'n fwy byw ac yn fwy bywiog, bydd hynny'n annog banciau yn arbennig. Rydym wedi gweld hynny gyda swyddfeydd post. Nid yw swyddfeydd post yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ond rydym wedi gweld swyddfeydd post, yn sicr yn fy etholaeth i, yn dod yn rhan o siopau pentref lleol, a chredaf fod angen i fanciau edrych ar yr un math o ymagwedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:23

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister for her statement. Bargoed in my constituency has benefited greatly from the regeneration of its town centre in recent years. The Welsh Government, working with Caerphilly County Borough Council, has used European regional development funding to build the Angel Way relief road, alleviating traffic problems that were choking the life out of the town as well as redeveloping the town centre itself with a new bus station, a retail park, anchored by a Morrisons supermarket, and a cinema is planned. All of this has brought a good degree of optimism to Bargoed, with the expectation of jobs for local people. Minister, would you agree with me that the Welsh Government needs to continue working with its partners in ways such as this so that town-centre regeneration can deliver the jobs and vibrancy that our communities need, particularly those that are further north in the Valleys, which have, traditionally, struggled for investment?

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Mae Bargoed yn fy etholaeth i wedi elwa'n fawr ar adfywio canol y dref yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wedi defnyddio arian datblygu rhanbarthol Ewrop i adeiladu ffordd liniaru Angel Way, gan leddfu problemau traffig a oedd yn sugno'r bywyd allan o'r dref yn ogystal ag aildatblygu canol y dref ei hun gyda gorsaf fysiau newydd, parc manwerthu, wedi'i angori gan archfarchnad Morrisons, ac mae sinema ar y gweill. Mae hyn i gyd wedi dod â chryn dipyn o optimistiaeth i Fargoed, a'r disgwyl yw y bydd yn dod â swyddi i bobl leol. Weinidog, a fydddech yn cytuno â mi fod angen i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'i phartneriaid fel hyn er mwyn i adfywio canol trefi allu darparu'r swyddi a'r bywiogrwydd sydd eu hangen ar ein cymunedau, yn enwedig y rhai sydd ymhellach i'r gogledd yn y Cymoedd, sydd, yn draddodiadol, wedi ei chael yn anodd denu buddsoddiad?

16:24

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. Absolutely. I agree with Jeff Cuthbert, and you mentioned—for the first time, I think—jobs and that is obviously another important aspect of regenerating our town centres. I mentioned in my opening statement that our high streets are not just for shopping, they are for entertainment, and you mentioned the cinema in Bargoed.

Byddwn. Yn llwyr. Cytunaf â Jeff Cuthbert, a soniasoch—am y tro cyntaf, rwyf yn meddwl—am swyddi, ac mae hynny wrth gwrs yn agwedd bwysig arall ar adfywio canol ein trefi. Soniais yn fy natganiad agoriadol nad siopa yw unig ddiben y stryd fawr; gall gynnig adloniant hefyd, a soniasoch am y sinema ym Margoed.

Traffic issues clearly are a problem. Some people like pedestrianized areas, while some people prefer to have cars being able to go into town centres. So, I think it is about striking that balance. Also, partnership working with local authorities is something that we need to continue, and I will be doing so.

Mae materion traffig yn amlwg yn broblem. Mae rhai pobl yn hoffi ardaloedd i gerddwyr yn unig, tra bo'n well gan rai pobl fod ceir yn gallu mynd i mewn i ganol trefi. Felly, credaf fod yn rhaid wrth gydbwysedd. Hefyd, mae gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn rhywbeth y mae angen inni barhau i'w wneud, a byddaf yn gwneud hynny.

16:25

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

May I say that I do welcome the statement? Anything where we are all working together to regenerate our high streets has to be a good way forward. The Vibrant and Viable Places framework is a lot of money—£110 million, and I would just like to ask the Minister: there are good initiatives coming from here, but, cascading down to local authorities, how are you ensuring that there is an awareness out there in the community? I know that, in my own community, not many know about Vibrant and Viable Places—it does not mean a lot to them—and how it will actually impact on them.

A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu'r datganiad? Mae unrhyw beth lle'r ydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i adfywio'r stryd fawr yn ffordd dda ymlaen. Mae fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn llawer o arian—£110 miliwn, a hoffwn ofyn hyn i'r Gweinidog: mae mentrau da yn deillio o hyn, ond, wrth raeadru i lawr i awdurdodau lleol, sut ydych chi'n sicrhau bod ymwybyddiaeth allan yn y gymuned? Yn fy nghymuned i fy hun, gwn nad oes llawer o bobl yn gwybod am Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid—nid yw'n golygu llawer iddynt hwy—a sut y bydd mewn gwirionedd yn effeithio arnynt.

I also have raised previously the extension of the small business rates scheme. Certainly, the one thing that crops up a lot is business rates. It is the one thing that businesses are really panicking about, I would say. They feel that, at the moment, they are not sure whether they can actually set up a business, because we keep having temporary extensions. We want some commitment from the Welsh Government so that businesses can plan and new businesses can actually start.

Rwyf hefyd wedi sôn o'r blaen am estyn y cynllun ardrethi busnesau bach. Yn sicr, yr un peth sy'n codi'n aml yw ardrethi busnes. Dyma'r un peth y mae busnesau'n mynd i banig gwirioneddol amdano, yn fy marn i. Maent yn teimlo, ar hyn o bryd, nad ydynt yn siŵr a allant ddechrau busnes, gan ein bod yn dal i weld estyniadau dros dro. Rydym am weld rhywfaint o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru fel y gall busnesau gynllunio ac er mwyn i fusnesau newydd allu dechrau go iawn.

Finally, the £1,000 that the Minister has allocated for businesses that they can draw down is an absolutely great initiative, but I have had to make businesses in my constituency aware of this. So, again, I would ask the question: how are you going to build up the awareness of this? It is no good having the funding there if the businesses do not know that they can actually draw it down.

Yn olaf, mae'r £1,000 y mae'r Gweinidog wedi'i ddyrannu i fusnesau i'w dynnu i lawr yn fenter hollol wych, ond rwyf wedi gorfod rhoi gwybod i fusnesau yn fy etholaeth i amdanynt. Felly, unwaith eto, byddwn yn gofyn hyn: sut ydych chi'n mynd i gynyddu ymwybyddiaeth o hyn? Nid oes diben bod y cyllid yno os nad yw'r busnesau'n gwybod eu bod yn gallu ei dynnu ei lawr.

16:27

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions. In relation to Vibrant and Viable Places, obviously Conwy County Borough Council was one of the beneficiaries. It is a three-year programme, which started only in April this year. I mentioned earlier that I have met with lead officials, who are working with each of the VVP areas. I think it is really important that we continuously monitor, and, certainly, there will be monitoring and evaluation done at the end of the first year. Certainly locally, in Wrexham, people know about VVP and they know what we are trying to do for the town centre. The council has consulted widely with its residents. So, perhaps I could suggest that you get your own local authority to do so also.

Diolch am y cwestiynau hynny. O ran Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, wrth gwrs Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oedd un o'r buddiolwyr. Rhaglen dair blynedd yw hon, a ddechreuodd ym mis Ebrill eleni. Soniais yn gynharach fy mod wedi cwrdd â swyddogion arweiniol, sy'n gweithio gyda phob un o'r ardaloedd Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig ein bod yn monitro'n barhaus, ac, yn sicr, bydd monitro a gwerthuso'n digwydd ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Yn sicr, yn lleol, yn Wrecsam, mae pobl yn gwybod am Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ac maent yn gwybod beth yr ydym yn ceisio'i wneud dros ganol y dref. Mae'r cyngor wedi ymgynghori'n eang â'i drigolion. Felly, efallai y caf awgrymu eich bod yn sicrhau bod eich awdurdod lleol chithau'n gwneud hynny hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You raised two points that are under the remit of the Minister for Economy, Science and Transport. I am sure that you will welcome that she recently announced the extension of the small business rate relief scheme. This, as I mentioned, supports many businesses—many will actually pay no business rates at all. On the £1,000 discount for retail and food and drink premises with a rateable value under £50,000, again, the Minister heard you, but I think that the Minister thinks that that information is out there and businesses do know about it.

Codasoch ddau bwynt sy'n rhan o gylch gwaith Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rwyf yn siŵr y byddwch yn croesawu'r ffaith ei bod yn ddiweddar wedi cyhoeddi y bydd y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach yn cael ei estyn. Mae hyn, fel y soniais, yn cefnogi llawer o fusnesau—bydd llawer na fyddant yn talu dim ardrethi busnes o gwbl. O ran y gostyngiad o £1,000 i safleoedd manwerthu a bwyd a diod sydd â gwerth ardrethol o lai na £50,000, unwaith eto, clywodd y Gweinidog chi, ond credaf fod y Gweinidog yn credu bod y wybodaeth ar gael a bod busnesau'n gwybod am hyn.

16:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, and thank you, Members, for co-operating. We actually got through that in the designated time, much against my expectations. Thank you.

Diolch ichi, Weinidog, a diolch i chithau'r Aelodau, am gydweithredu. Rydym wedi mynd drwy'r eitem honno yn yr amser penodedig, yn groes i'm disgwyliadau. Diolch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:28

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant, to move the motion.

Cynnig NDM5598 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Medi 2014.

The Town and Country Planning (Determination of Procedure) (Wales) Order 2014

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant, i gynnig y cynnig.

Motion NDM5598 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Town and Country Planning (Determination of Procedure) (Wales) Order 2014 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 22 September 2014.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 16:28 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources
 I move the motion. Cynigiau y cynnig.
- 16:28 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, I have some concerns regarding the practical effect of this legislation. In streamlining the process, it appears that the process by which appeals are considered is being centralised to Welsh Ministers at the potential expense of democratic participation in the planning system. Can you give me some assurances on this, please?
 Weinidog, mae gennyf rai pryderon ynghylch effaith ymarferol y ddeddfwriaeth hon. Wrth symleiddio'r broses, mae'n ymddangos bod y broses a ddefnyddir i ystyried apeliadau'n cael ei chanoli i Weinidogion Cymru, a hynny o bosibl ar draul cyfranogiad democrataidd yn y system gynllunio. A allwch roi rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â hyn imi, os gwelwch yn dda?
- 16:29 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I thank the Member for his question. The irony is that, when we try to reduce red tape in planning systems, the Conservatives then appear to reject it.
 Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Yr ironi yw bod y Ceidwadwyr, pan fyddwn yn ceisio lleihau biwrocraiaeth mewn systemau cynllunio, fel petaent yn gwrthod hynny.
- 16:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Order. This is a debate, Minister; the Member sat down very quickly. You can wind up at the end, Minister. I call on Llyr Gruffydd.
 Trefn. Dadl yw hon, Weinidog; eisteddodd yr Aelod yn gyflym iawn. Gallwch ddirwyn i ben ar y diwedd, Weinidog. Galwaf ar Llyr Gruffydd.
- 16:29 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Rwyf hefyd yn ategu'r un teimladau, mewn gwirionedd. Rwy'n teimlo—ac rydym wedi gweld hwn yn glir yn y Bil Cynllunio (Cymru)—bod symudiad sylweddol i ganoli grym yn nwylo Gweinidogion Cymru. Rwyf wedi cyfrif bron i ryw 65 enghraifft o ymbwerau Gweinidog i gyflwyno is-ddeddfwriaeth o fewn y Bil hwnnw. Y teimlad rwy'n ei gael yw ein bod yn gweld y symudiad i'r cyfeiriad hwnnw yn parhau heddiw. Felly, byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig. Nid yw hynny i ddweud nad oes gennym feddwl agored ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai hynny'n addas mewn rhai achosion, ond, tan inni gael y drafodaeth honno, rwy'n ofni bod yn rhaid inni anfon neges glir i'r Llywodraeth.
 I also endorse the feelings expressed. I feel—and we have seen it clearly in the Planning (Wales) Bill—that there is a significant move to centralise power in the hands of Welsh Ministers. I have counted around 65 examples of empowering Ministers to bring forward subordinate legislation within that Bill. The feeling that I get is that we are seeing this shift continue today. So, we will be opposing the motion. That is not to say that we are not open-minded about the possibility that that may be appropriate in some cases, but, until we have that debate, I think that we have to send a clear message to the Government.
- 16:30 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Last week, when we discussed the introduction of the Planning (Wales) Bill, it came under cross-party criticism, from many quarters, around this point of over-centralisation. While we applaud anything that is motivated by cost-cutting and by reduction in red tape, I would suggest, Minister, that what you are proposing today will not reduce red tape; the process will be the same—it is just that the Minister will be in a position to exercise that judgment. I would suggest that that again potentially creates more of a democratic deficit and reduces the input that communities can have. For that reason, I am not able to support it and nor will the Welsh Liberal Democrats be today.
 Yr wythnos diwethaf, pan drafodasom cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru), cafwyd beirniadaeth drawsbleidiol, o sawl cyfeiriad, ynghylch y pwynt hwn am or-ganoli. Er ein bod yn cymeradwyo unrhyw beth sy'n cael ei ysgogi gan dorri costau a llai o waith papur, byddwn yn awgrymu, Weinidog, na fydd yr hyn yr ydych yn ei gynnig heddiw'n lleihau biwrocraiaeth; bydd y broses yr un fath—dim ond y bydd y Gweinidog mewn sefyllfa i arfer y farn honno. Byddwn yn awgrymu bod hynny eto o bosibl yn creu mwy o ddiffyg democrataidd ac yn lleihau'r mewnbwn y gall cymunedau ei gael. Am y rheswm hwnnw, ni allaf ei gefnogi ac ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n ei gefnogi heddiw.

16:30

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you for the contributions made by the parties. Starting with Russell George's contribution, and Llyr's, with regard to democratic deficit, the proposals were subject to a 12-week public consultation as part of the 'Positive planning' consultation paper. In general, the consultation responses received from businesses, developers, local planning authorities and members of the public provided overall support for these proposals. The proposals have been informed by the consultation responses received. The summary of the consultation responses is on the Welsh Government website, which I would urge the Member to take a look at.

Diolch ichi am y cyfraniadau a wnaed gan y pleidiau. A dechrau â chyfraniad Russell George, a Llyr, o ran diffyg democrataidd, bu'r cynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos fel rhan o'r papur ymgynghori 'Cynllunio cadarnhaol'. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law gan fusnesau, datblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol ac aelodau o'r cyhoedd yn lleisio cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion hyn. Mae'r ymatebion a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad wedi llywio'r cynigion. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, a byddwn yn annog yr Aelod i edrych yno.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16:31.

The Presiding Officer took the Chair at 16:31.

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With regard to William Powell's contribution in terms of democratic deficit, I do not accept that at all. The proposals enable the Planning Inspectorate to determine the procedures by which an appeal or a call-in is examined, allowing for the most appropriate method to be used. Where a hearing or inquiry is not granted, an appellant may still submit their full statement of case in writing. This will not reduce in any way the ability for communities or individuals to engage in the planning process. In fact, it will speed the process up as they will know exactly who will be making the determination. Therefore, I do not recognise the issue of democratic deficit as the Member presents it today.

O ran cyfraniad William Powell ynghylch diffyg democrataidd, nid wyf yn derbyn hynny o gwbl. Mae'r cynigion yn galluogi'r Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu ar y gweithdrefnau ar gyfer archwilio apêl neu achos o alw i mewn, ac yn golygu y gellir defnyddio'r dull mwyaf priodol. Lle na chaniateir gwrandawriad neu ymchwiliad, caiff yr apelydd gyflwyno datganiad llawn o'r achos yn ysgrifenedig. Ni fydd hyn yn lleihau mewn unrhyw ffordd y gallu i gymunedau neu unigolion gymryd rhan yn y broses gynllunio. Yn wir, bydd yn cyflymu'r broses oherwydd byddant yn gwybod yn union pwy fydd yn gwneud y penderfyniad. Felly, nid wyf yn cydnabod y diffyg democrataidd fel y mae'r Aelod yn ei gyflwyno heddiw.

16:32

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Votes deferred until voting time.

16:32

Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Uwch (Cymru)

Debate on the General Principles of the Higher Education (Wales) Bill

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Education and Skills, Huw Lewis, to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5597 Huw Lewis

Motion NDM5597 Huw Lewis

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Uwch (Cymru).

Agrees to the general principles of the Higher Education (Wales) Bill.

16:32

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Presiding Officer. I move the motion.

Diolch ichi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the general principles of the Higher Education (Wales) Bill. I am grateful to Ann Jones and members of the Children, Young People and Education Committee, and to David Melding and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their thorough scrutiny. I also thank stakeholders who have engaged with the committees' scrutiny of the Bill. I will not attempt to deal with each of the 31 recommendations that the committees have made. Each one will be considered carefully on its merits as we move towards Stage 2.

I would like to start by putting on record that I have carefully considered the Stage 1 reports of both committees, and I will be seeking to respond positively to several of their recommendations. Although it is my view that there are no proposals in the Bill that interfere with the academic and institutional freedoms of institutions, I recognise the concerns expressed in evidence to the Children, Young People and Education Committee about institutional autonomy, academic freedom and the role of charity trustees. Given the strength of feeling by committee members, I am minded to bring forward an amendment to the Bill at Stage 2 to ensure that the Welsh Government's intentions on these matters are put beyond doubt.

Turning now to the arrangements for subordinate legislation, I will be honouring my commitment to bring forward draft regulations during Stage 2 scrutiny, and I will shortly be writing to the Chair of the Children, Young People and Education Committee for its consideration. These regulations will, of course, be subject to public consultation before they are made.

In setting out this Bill, we sought to apply the Counsel General's guidelines on where to require the affirmative or negative procedure. However, in light of the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report and in light of the concerns expressed by stakeholders, I am looking favourably on several of the committee's recommendations concerning the procedures to be applied to regulations.

I have also asked my officials to continue to work with Universities Wales and the Higher Education Funding Council for Wales to seek to resolve concerns raised in the course of Stage 1 scrutiny. I believe that there are some misconceptions about the Welsh Government's policy, but progress can be made to resolve some if not all of the sector's concerns. With this in mind, and the demands placed on HEFCW, I have determined, on reflection, that there would be clear benefits to the sector as a whole if full implementation were to take place in 2017-18, rather than in 2016-17. This will allow my officials and HEFCW to put in place a plan that is deliverable and benefits the students of Wales.

Rwyf yn falch o gael cyfle i agor y ddatl ar egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Uwch (Cymru). Rwyf yn ddiolchgar i Ann Jones ac aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ac i David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu craffu trylwyr. Diolch hefyd i randdeiliaid sydd wedi ymgysylltu â chraffu'r pwyllgorau ar y Bil. Nid wyf am geisio ymdrin â phob un o'r 31 o argymhellion y mae'r pwyllgorau wedi'u gwneud. Bydd pob un yn cael ei ystyried yn ofalus yn ôl ei haeddiant wrth i ni symud tuag at Gyfnod 2.

Hoffwn ddechrau drwy roi ar gofnod fy mod wedi ystyried yn ofalus adroddiadau Cyfnod 1 y ddau bwyllgor, a byddaf yn ceisio ymateb yn gadarnhaol i nifer o'u hargymhellion. Er fy mod o'r farn nad oes dim cynigion yn y Bil sy'n amharu ar ryddid academaidd a sefydliadol sefydliadau, rwyf yn cydnabod y pryderon a fynegwyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am annibyniaeth sefydliadol, rhyddid academaidd a rôl ymddiriedolwyr elusennau. O ystyried cryfder y teimladau gan aelodau'r pwyllgor, rwyf am gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod bwriadau Llywodraeth Cymru o ran y materion hyn y tu hwnt i bob amheuaeth.

A throi yn awr at y trefniadau ar gyfer is-ddeddfwriaeth, byddaf yn anrhydeddu fy ymrwymiad i gyflwyno rheoliadau drafft yn ystod craffu Cyfnod 2, a byddaf yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg cyn hir er mwyn iddo eu hystyried. Bydd y rheoliadau hyn, wrth gwrs, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddynt gael eu gwneud.

Wrth osod y Bil hwn, ceisiasom gymhwyso canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch ble i fynnu'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol. Fodd bynnag, yn sgil adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac yn sgil y pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid, rwyf yn edrych yn ffafriol ar nifer o argymhellion y pwyllgor o ran y gweithdrefnau sydd i'w cymhwyso i reoliadau.

Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion barhau i weithio gyda Phrifysgolion Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i geisio datrys pryderon a godwyd yn ystod craffu Cyfnod 1. Credaf fod rhai camsyniadau am bolisi Llywodraeth Cymru, ond gellir cymryd camau i ddatrys rhai os nad pob un o bryderon y sector. Gyda hyn mewn golwg, a'r gofynion a roddir ar CCAUC, rwyf wedi penderfynu, ar ôl ystyried y mater, y byddai manteision clir i'r sector yn ei gyfanrwydd pe câi hyn ei weithredu'n llawn yn 2017-18, yn hytrach nag yn 2016-17. Bydd hyn yn galluogi fy swyddogion a CCAUC i roi cynllun ar waith y mae modd ei wireddu ac a fydd o fudd i fyfyrwyr Cymru.

Moving on, I should like to clarify some misconceptions about the Bill, its interface with the student support system, and how the outcomes of the current review of higher education funding and student finance arrangements in Wales may be accommodated in future. First, to set this Bill in context, it is helpful to recall events leading up to its introduction. In October 2010, the Welsh Government announced significant changes to tuition fee and student finance arrangements, which resulted in far-reaching changes to the way in which higher education is supported from the public purse. In light of the changes, I am pleased to note that the Children, Young People and Education Committee's report accepts that the most appropriate means to achieve robust and proportionate regulation of higher education in Wales is through primary legislation. The need for this Bill is therefore not in doubt, and I welcome the committee's report. I acknowledge the committee's concern about the interface between this Bill and Sir Ian Diamond's review of higher education funding and student finance arrangements in Wales. That review will not report until 2016, and we cannot pre-empt its recommendations now. The regulatory system to be introduced by the Bill has been designed to accommodate changes to the delivery environment, including the possibility of entry of new types of higher education provider into the regulated HE sector in Wales, and the future regulation of part-time tuition fees. In that respect, the Bill is futureproofed.

Finally, on this matter, it is helpful to recall that the changes necessary to introduce the current student support regime were made using Welsh Ministers' existing powers under the Teaching and Higher Education Act 1998. These powers can also be used to make changes to the student support arrangements in light of recommendations from Sir Ian Diamond's review. However, any changes resulting from the review are unlikely to take effect until 2020. The Children, Young People and Education Committee's report expressed concern about potential gaps in the new regulatory system, and, for the avoidance of doubt, the Bill will not give rise to gaps in the regulation of HE courses that are automatically designated by the Welsh Ministers for statutory student support. The arrangements for case-by-case course designation are not a matter for the Bill. However, Members will wish to be aware that my department will consult on revised arrangements for case-by-case course designation in due course. These arrangements will include proposals to introduce robust requirements for the quality of education and for financial assurance.

A symud ymlaen, hoffwn egluro rhai camsyniadau am y Bil, ei ryngwyneb â'r system cymorth i fyfyrwyr, a sut y gellir cymhwysu canlyniadau'r adolygiad cyfredol o gyllido addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Yn gyntaf, a rhoi'r Bil hwn yn ei gyd-destun, mae'n ddefnyddiol cofio'r digwyddiadau a arweiniodd at ei gyflwyno. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau sylweddol i ffioedd dysgu a threfniadau cyllid myfyrwyr, a arweiniodd at newidiadau pellgyrhaeddol i'r ffordd y mae'r pwrs cyhoeddus yn cefnogi addysg uwch. Yn sgil y newidiadau, rwyf yn falch o nodi bod adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn derbyn mai'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau rheoleiddio cadarn a chymesur ar addysg uwch yng Nghymru yw drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Felly, nid oes amheuaeth am yr angen am y Bil, ac rwyf yn croesawu adroddiad y pwyllgor. Rwyf yn cydnabod pryder y pwyllgor ynghylch y rhyngwyneb rhwng y Bil hwn ac adolygiad Syr Ian Diamond o gyllido addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru. Ni fydd yr adolygiad hwnnw'n adrodd tan 2016, ac ni allwn achub y blaen ar ei argymhellion yn awr. Mae'r system reoleiddio a gyflwynir gan y Bil wedi ei chynllunio i ddarparu ar gyfer newidiadau i'r amgylchedd cyflenwi, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai mathau newydd o ddarparwr addysg uwch ddod i mewn i'r sector addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru, ac y gellid rheoleiddio ffioedd dysgu rhan-amser yn y dyfodol. Yn hynny o beth, mae'r Bil wedi ei ddiogelu at y dyfodol.

Yn olaf, ar y mater hwn, mae'n ddefnyddiol cofio bod y newidiadau angenrheidiol i gyflwyno'r gyfundrefn cymorth i fyfyrwyr bresennol wedi cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Gellir defnyddio'r pwerau hyn hefyd i wneud newidiadau i'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr yng ngoleuni argymhellion adolygiad Syr Ian Diamond. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad yn dod i rym tan 2020. Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn mynegi pryder ynghylch bylchau posibl yn y system reoleiddio newydd, ac er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni fydd y Bil yn arwain at fylchau o ran rheoleiddio cyrsiau addysg uwch sy'n cael eu dynodi'n awtomatig gan Weinidogion Cymru o ran cymorth statudol i fyfyrwyr. Nid yw'r trefniadau ar gyfer dynodi cyrsiau fesul achos yn fater ar gyfer y Bil. Fodd bynnag, bydd yr Aelodau'n dymuno bod yn ymwybodol y bydd fy adran yn ymgynghori ar drefniadau diwygiedig ar gyfer dynodi cyrsiau fesul achos maes o law. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys cynigion i gyflwyno gofynion cadarn o ran ansawdd yr addysg ac o ran sicrwydd ariannol.

Several of the Children, Young People and Education Committee's recommendations concern the arrangements for the quality assurance of education, and I am pleased to see the attention that has been given to this matter, but I need to iron out some of the misunderstandings about the purpose of the Bill's provisions. Section 17 provides a new quality assessment duty for HEFCW; it replaces a similar duty under the Further and Higher Education Act 1992. As under the current legislation, it will remain for HEFCW to determine how best to discharge its quality assessment duty. HEFCW currently makes use of risk assessment in its approach to institutional assurance and I expect it to continue to adopt a risk-based approach to regulated institutions. I note also the committee's concerns about part-time courses. Under the Bill's proposals, any institution which has an approved fee and access plan in force must comply with HEFCW's quality assessment requirements for all of its courses delivered in Wales, irrespective of their mode of delivery. This requirement will help to ensure the reputation of the regulated HE sector in Wales.

Turning next to the financial management code, section 27 of the Bill establishes that it is HEFCW's responsibility to prepare, consult on, and publish the proposed code. To be clear, it is HEFCW's code. It is not a statutory instrument that is made by Welsh Ministers. For the avoidance of doubt, Part 4 of the Bill relating to the financial management code does not contain any regulation-making powers. I am content that the procedure for approval for the code in section 28 strikes the correct balance between the operational freedoms to be afforded to HEFCW and the need for appropriate checks and balances by the Welsh Ministers.

I am pleased that the Children, Young People and Education Committee is in agreement with the Welsh Government's assessment that the risk of reclassification of institutions for the purpose of national accounting is low. I am pleased to note that the Children, Young People and Education Committee's conclusion that the Bill, as drafted, does indeed adequately protect the interests of students. One of our primary aims, as I am sure that all Members would agree, is to protect the interests of students undertaking courses at Welsh institutions.

I move on now to concerns about the balance struck between the detail on the face of the Bill and matters to be dealt with in secondary legislation. Significant detail about all of HEFCW's regulatory functions is clearly set out on the face of the Bill. I am pleased to note that both committees agree that the amount of detail on the face of this Bill is an improvement on other Bills that they have considered. I am firmly of the view that the balance struck in this Bill between primary and secondary legislation is not only proportionate, but necessary.

In conclusion, Presiding Officer, I thank the committee for its constructive engagement and ideas for improving the Bill. I have not been able to respond to every recommendation as there are just too many of them, but I look forward to further debate during Stage 2 scrutiny and I urge Members to support the Bill today.

Mae nifer o argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd addysg, ac rwyf yn falch o weld y sylw sydd wedi ei roi i'r mater hwn, ond mae angen imi egluro rhywfaint ar y camddealltwriaethau ynghylch pwrpas darpariaethau'r Bil. Mae Adran 17 yn rhoi dyletswydd asesu ansawdd newydd i CCAUC; mae'n disodli dyletswydd debyg o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Fel o dan y ddeddfwriaeth bresennol, CCAUC fydd yn penderfynu o hyd sut i gyflawni ei ddyletswydd asesu ansawdd yn y ffordd orau. Ar hyn o bryd mae CCAUC yn defnyddio asesiadau risg yn ei ymagwedd tuag at sicrwydd sefydliadol ac rwyf yn disgwyl iddo barhau i fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar risg tuag at sefydliadau a reoleiddir. Nodaf hefyd bryderon y pwyllgor am gyrsiau rhan-amser. O dan gynigion y Bil, mae'n rhaid i unrhyw sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd ar waith gydymffurfio â gofynion asesu ansawdd CCAUC ar gyfer ei holl gyrsiau a ddarperir yng Nghymru, ym mha fodd bynnag y cânt eu cyflwyno. Bydd y gofyniad hwn yn helpu i sicrhau enw da'r sector addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru.

Trown yn awr at y cod rheolaeth ariannol. Mae adran 27 o'r Bil yn pennu mai cyfrifoldeb CCAUC yw paratoi ac ymgynghori ar y cod arfaethedig a'i gyhoeddi. A bod yn glir, cod CCAUC ydyw. Nid offeryn statudol wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru mohono. Er mwyn bod yn gwbl glir, nid yw Rhan 4 o'r Bil sy'n ymwneud â'r cod rheolaeth ariannol yn cynnwys dim pwerau i wneud rheoliadau. Rwyf yn fodlon bod y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo'r cod yn adran 28 yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y rhyddid gweithredol sydd i'w roi i CCAUC a'r angen i Weinidogion Cymru bwysu a gwrthbwysu'n briodol.

Rwyf yn falch bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod risg isel i ailddosbarthu sefydliadau at ddibenion cyfrifon cenedlaethol. Rwyf yn falch o nodi casgliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn diogelu buddiannau myfyrwyr yn ddigonol. Un o'n prif amcanion, fel yr wyf yn siŵr y byddai pob Aelod yn cytuno, yw diogelu buddiannau fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau mewn sefydliadau yng Nghymru.

Symudaf ymlaen yn awr at bryderon ynghylch y cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a materion yr ymdrinnir â hwy mewn is-ddeddfwriaeth. Mae manylion sylweddol am holl swyddogaethau rheoleiddio CCAUC wedi'u nodi'n glir ar wyneb y Bil. Rwyf yn falch o nodi bod y ddau bwyllgor yn cytuno bod faint o fanylion sydd ar wyneb y Bil hwn yn welliant ar Filiau eraill y maent wedi'u hystyried. Rwyf yn credu'n gryf fod y cydbwysedd yn y Bil hwn rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth nid yn unig yn gymesur, ond yn angenrheidiol.

I gloi, Lywydd, rwyf am ddiolch i'r pwyllgor am ymgysylltu'n adeiladol ac am ei syniadau i wella'r Bil. Nid wyf wedi gallu ymateb i bob argymhellid gan fod gormod ohonynt, ond edrychaf ymlaen at ddadlau pellach yn ystod craffu Cyfnod 2 ac anogaf yr Aelodau i gefnogi'r Bil heddiw.

16:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Children, Young People and Education Committee, Ann Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ann Jones.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:42 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I rise to speak to the committee's report, which, as the Minister has acknowledged, shows that we are in favour of the general principles of the Bill but that we had a number of concerns in a number of areas. That was the problem with having 20 recommendations. Rest assured that we try to keep our recommendations shorter than that, but it is important that we scrutinise legislation. So, you will be pleased to know, Minister, that I do not intend, like you, to go through all of the recommendations, but to just concentrate some comments on what the committee believed to be the key areas that emerged during the scrutiny.

One of the main factors behind your proposals, Minister, is that the levers for ensuring that HE institutions meet specific funding conditions are now far less effective as a result of the large reductions in direct funding. It is clear that the current framework has to evolve to ensure robust and proportionate regulation of HE institutions. We heard a lot of evidence to support this.

However, concerns were expressed by the majority of witnesses about the timing of the Bill, and in particular the impact that the Diamond review might have on any new regulatory system. The committee also received evidence that questioned whether the aims of the Bill could be achieved through non-legislative means and whether there was a need for the Bill at all. On balance, as you have alluded to, the committee accepts that the most appropriate means to achieve the policy objectives is through primary legislation.

There was concern that the Welsh Government had not given sufficient consideration to the potential outcomes of the Diamond review, and hence it was one of the recommendations that you should publish an action plan and timetable setting out how those potential outcomes will be managed. I welcome the fact that you have said that you now think that 2017-18 is the appropriate timescale.

We spent some time on fees and access plans. Evidence provided to the committee, including that from HEFCW itself, raised a number of matters concerning the proposed operation of fee and access plans. Some of the issues raised included that fee plans are constrained in their scope, with a strong focus on widening access and on activities rather than outcomes; that fee plans are less efficient and effective as a policy lever than funding; and that it will take some time for HEFCW to evaluate the effectiveness of the plans. While the committee welcomes the general aims of fee and access plans, we share some of the concerns expressed. We therefore recommend that the Bill should include sufficient detail to provide a robust basis for fee and access plans to ensure that they can operate effectively.

Diolch ichi, Lywydd. Codaf i siarad am adroddiad y pwyllgor, a oedd, fel y mae'r Gweinidog wedi cydnabod, yn dangos ein bod o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil, ond bod gennym nifer o bryderon mewn nifer o feysydd. Dyna oedd y broblem o ran cael 20 o argymhellion. Gallaf eich sicrhau ein bod yn ceisio cadw ein hargymhellion yn fyrrach na hynny, ond mae'n bwysig ein bod yn craffu ar ddeddfwriaeth. Felly, byddwch yn falch o glywed, Weinidog, nad wyf finnu chwaith yn bwriadu mynd drwy bob un o'r argymhellion, dim ond canolbwyntio rhai sylwadau ar yr hyn yr oedd y pwyllgor yn credu oedd y meysydd allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y craffu.

Un o'r prif ffactorau y tu ôl i'ch cynigion, Weinidog, yw bod y dulliau ar gyfer sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn bodloni amodau cyllido penodol bellach yn llai effeithiol o lawer o ganlyniad i'r gostyngiadau mawr mewn cyllid uniongyrchol. Mae'n amlwg bod yn rhaid i'r fframwaith presennol esblygu i sicrhau rheoleiddio cadarn a chymesur ar sefydliadau addysg uwch. Clywsom lawer o dystiolaeth i gefnogi hyn.

Fodd bynnag, mynegodd y rhan fwyaf o'r tystion bryderon ynghylch amseriad y Bil, ac yn enwedig yr effaith y gallai adolygiad Diamond ei chael ar unrhyw system reoleiddio newydd. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth hefyd a oedd yn gofyn a ellid cyflawni amcanion y Bil drwy ddulliau anneddfwriaethol ac a oedd angen y Bil o gwbl. At ei gilydd, fel yr ydych wedi'i ddweud, mae'r pwyllgor yn derbyn mai'r dull mwyaf priodol o gyflawni'r amcanion polisi yw drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Roedd pryder nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o ystyriaeth i ganlyniadau posibl adolygiad Diamond, ac felly un o'r argymhellion oedd y dylech gyhoeddi cynllun gweithredu ac amserlen sy'n nodi sut y bydd y canlyniadau posibl hynny'n cael eu rheoli. Rwyf yn croesawu'r ffaith eich bod wedi dweud eich bod yn awr yn meddwl mai 2017-18 yw'r amserlen briodol.

Treuliasom beth amser ar gynlluniau ffioedd a mynediad. Roedd dystiolaeth a ddarparwyd i'r pwyllgor, gan gynnwys gan CCAUC ei hun, yn codi nifer o faterion ynghylch gweithrediad arfaethedig cynlluniau ffioedd a mynediad. Roedd rhai o'r materion a godwyd yn cynnwys y ffaith bod cwmpas cynlluniau ffioedd wedi ei gyfyngu, gyda phwyslais cryf ar ehangu mynediad ac ar weithgareddau yn hytrach na chanlyniadau; bod cynlluniau ffioedd yn llai effeithlon ac effeithiol fel ysgogiad polisi na chyllid; ac y bydd yn cymryd peth amser i CCAUC i bwysu a mesur effeithiolrwydd y cynlluniau. Er bod y pwyllgor yn croesawu nodau cyffredinol y cynlluniau ffioedd a mynediad, rydym yn rhannu rhai o'r pryderon a fynegwyd. Felly, rydym yn argymhellu y dylai'r Bil gynnwys digon o fanylion i ddarparu sail gadarn ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad i sicrhau y gallant weithredu'n effeithiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You touched on quality assurance, and that was one of the areas on which the committee spent some time. The Bill sets out to establish a revised duty that requires HEFCW to assess the quality of education provided by each regulated institution. The quality assurance of HE provision remains of paramount importance, and we welcome the indication by HEFCW that it will maintain its existing arrangements with the QAA for this purpose. However, again, the committee heard a number of concerns around cross-border issues and arrangements, part-time courses, franchised and validated courses and courses run by private providers. In the committee's view, there was a lack of clarity within the Bill on these issues, so there are a number of recommendations that we hope will assist you to help provide further clarity in relation to the quality assurance elements of the Bill.

On the financial management code, again, the committee heard a significant number of concerns about this proposed code: about the detail left to subordinate legislation and whether there is sufficient time for HEFCW to undertake a thorough consultation on the code. We took those concerns seriously, and believe that it is essential to get the financial code right. Again, therefore, we submitted a recommendation, namely that the Minister should review the timetable for implementation to ensure that HEFCW has enough time to undertake a thorough consultation on the new financial management code.

There was a further concern around the financial code, namely that the Bill does not contain any provision for Assembly scrutiny of it. I heard what you said about it being HEFCW's code, but we believe that there should be scope for the Assembly to scrutinise the draft code before it is approved, and we have made a recommendation on this accordingly.

The committee carefully considered the implications of the Bill for relevant stakeholders. In particular, we considered implications for HEFCW, the providers of higher education, further education colleges and students. It was very clear that there are very different issues facing each of these, from funding and resources in HEFCW to ensuring that the student voice remains heard. Again, there are a number of recommendations throughout the report that call on the Government to work with the relevant bodies and, if necessary, to amend the Bill to ensure that those concerns are addressed.

On the potential gaps in the regulatory framework, in evidence to the committee, Higher Education Wales expressed concern that there are gaps in the activities and, potentially, providers that can be regulated under the new Bill. I know that you disagree with that and have provided assurance to us that there were no gaps, but we remained concerned that there was uncertainty among key stakeholders. Therefore, we recommend that you should undertake a review to establish whether there are any gaps in regulation, and if gaps are identified, the Bill should be amended accordingly.

Soniasoch am sicrhau ansawdd, a dyna oedd un o'r meysydd y treuliodd y pwyllgor beth amser arno. Mae'r Bil yn mynd ati i bennu dyletswydd ddiwygiedig sy'n gofyn i CCAUC asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan bob sefydliad a reoleiddir. Mae sicrhau ansawdd darpariaeth addysg uwch yn parhau i fod o'r pwys mwyaf, ac rydym yn croesawu'r awgrym gan CCAUC y bydd yn cadw ei drefniadau cyfredol gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd at y diben hwn. Fodd bynnag, unwaith eto, clywodd y pwyllgor nifer o bryderon yn ymwneud â materion a threfniadau trawsffiniol, cyrsiau rhan-amser, cyrsiau wedi'u breinio a'u dilysu a chysiau sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr preifat. Ym marn y pwyllgor, roedd diffyg eglurder yn y Bil ar y materion hyn, felly mae nifer o argymhellion yr ydym yn gobeithio y byddant yn eich cynorthwyo i helpu i ddarparu mwy o eglurder mewn perthynas ag elfennau sicrhau ansawdd y Bil.

O ran y cod rheolaeth ariannol, unwaith eto, clywodd y pwyllgor nifer sylweddol o bryderon ynghylch y cod arfaethedig: am y manylion a adwyd i'r is-ddeddfwriaeth ac a oes digon o amser i CCAUC i gynnal ymgynghoriad trwyadl ar y cod. Rydym yn cymryd y pryderon hynny o ddifrif, ac yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau bod y cod ariannol yn iawn. Unwaith eto, felly, cyflwynasom argymhelliad, sef y dylai'r Gweinidog adolygu'r amserlen ar gyfer gweithredu er mwyn sicrhau bod CCAUC yn cael digon o amser i gynnal ymgynghoriad trwyadl ar y cod rheolaeth ariannol newydd.

Roedd pryder pellach ynghylch y cod ariannol, sef nad oedd y Bil yn cynnwys dim darpariaeth ar gyfer craffu arno gan y Cynulliad. Fe'ch clywais yn dweud mai cod CCAUC ydyw, ond credwn y dylai fod cyfle i'r Cynulliad graffu ar y cod drafft cyn iddo gael ei gymeradwyo, ac rydym wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â hyn yn unol â hynny.

Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth ofalus i oblygiadau'r Bil i randdeiliaid perthnasol. Yn benodol, ystyriasom y goblygiadau i CCAUC, darparwyr addysg uwch, colegau addysg bellach a myfyrwyr. Roedd yn amlwg iawn fod materion gwahanol iawn yn wynebu pob un o'r rhain, o gyllid ac adnoddau yn CCAUC i sicrhau bod llais y myfyrwyr yn dal i gael ei glywed. Unwaith eto, mae nifer o argymhellion drwy gydol yr adroddiad sy'n galw ar y Llywodraeth i weithio gyda'r cyrrff perthnasol ac, os bydd angen, i ddiwygio'r Bil er mwyn sicrhau bod y pryderon hynny'n cael sylw.

O ran y bylchau posibl yn y fframwaith rheoleiddio, mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, mynegodd Addysg Uwch Cymru bryder bod bylchau yn y gweithgareddau ac, o bosibl, yn y darparwyr y gellir eu rheoleiddio o dan y Bil newydd. Gwn eich bod yn anghytuno â hynny a'ch bod wedi rhoi sicrwydd inni nad oedd bylchau, ond rydym yn dal i bryderu bod ansicrwydd ymysg rhanddeiliaid allweddol. Felly, rydym yn argymhell y dylech gynnal adolygiad i gael gwybod a oes unrhyw fylchau o ran rheoleiddio, ac os nodir bylchau, dylid diwygio'r Bil yn unol â hynny.

I will briefly touch on subordinate legislation provision, although I know that that will be covered in more detail by the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. As you have acknowledged, Minister, in terms of the detail set out on the face of the Bill, we found that this was an improvement on previous Bills that we have considered, but we still found that there was a lot left to subordinate legislation. While we welcome the fact that you will write to us as a committee and share with us those regulations, we have some concerns that the number of regulation-making powers could be reduced. We also believe that there must be sufficient legislative provision within the Bill to enable HEFCW to undertake all of its functions effectively and deliver all the Welsh Government's policy intentions.

In conclusion, Presiding Officer, I would like to give my thanks and the thanks of the committee to all of the people who gave us evidence, both written and oral, to members of the committee and to the clerk of our committee and their team who, as always, provided us with a world-class support service, so that the committee could go through the scrutiny sessions and the evidence. Hopefully, we have produced a report that makes our legislation process fit for the purpose that we are trying to achieve. I commend the report to the Assembly.

Rwyf am sôn yn fyr am ddarpariaeth is-ddeddfwriaeth, er y gwn y bydd hynny'n cael ei drafod yn fwy manwl gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Fel yr ydych wedi cydnabod, Weinidog, o ran y manylion a nodir ar wyneb y Bil, roeddem o'r farn bod hyn yn welliant ar Filiau blaenorol a ystyriwyd gennym, ond gwelsom serch hynny fod llawer wedi ei adael i is-ddeddfwriaeth. Er ein bod yn croesawu'r ffaith y byddwch yn ysgrifennu atom fel pwyllgor ac yn rhannu'r rheoliadau hynny gyda ni, mae gennym rai pryderon y gellid lleihau nifer y pwerau gwneud rheoliadau. Rydym hefyd o'r farn bod yn rhaid wrth ddarpariaeth ddeddfwriaethol ddigonol yn y Bil er mwyn galluogi CCAUC i ymgymryd â'i holl swyddogaethau'n effeithiol a chyflawni holl fwradau polisi Llywodraeth Cymru.

I gloi, Lywydd, hoffwn ddiolch ar fy rhan i fy hun ac ar ran y pwyllgor i bawb a roddodd dystiolaeth inni, yn ysgrifenedig ac ar lafar, i aelodau'r pwyllgor ac i glerc ein pwyllgor a'r tîm a roddodd, fel arfer, wasanaeth cymorth o'r radd flaenaf, er mwyn i'r pwyllgor fynd drwy'r sesiynau craffu a'r dystiolaeth. Rwyf yn gobeithio ein bod wedi llunio adroddiad sy'n gwneud ein proses ddeddfwriaethol yn addas at y diben yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Cymeradwyaf yr adroddiad i'r Cynulliad.

16:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Galwaf ar gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:49 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The committee reported on this Bill on 3 October, and I will focus on a couple of the main points in the report. First of all, may I say a word about the use of framework powers? We heard the Minister say that he had sensed that there was a definite improvement in terms of what the committee thought. We have been concerned by the framework nature of a number of key Government Bills and we have commented on this. Indeed, it is a matter that we are looking at in our inquiry on law making in the fourth Assembly. I think that it is fair to say that this Bill largely avoids that fault, and we are pleased to note that accordingly. However, there is scope to improve the way that this Bill has been drafted, and its clarity, which is really what I want to talk about now.

I urge all Ministers not to refer to a Bill as 'technical'. I am afraid that the Minister did use this phrase a couple of times in his evidence in saying, in response to questions, 'Well, this Bill is essentially technical in nature'. I do not think that that should ever be used as a phrase. Bills, obviously, sometimes contain very significant policy content, some are more administrative in nature, and others contain predominantly matters of detail, which is perhaps what the Minister meant when he said that it was technical.

Adroddodd y pwyllgor ar y Bil hwn ar 3 Hydref, ac rwyf am ganolbwyntio ar un neu ddau o'r prif bwyntiau yn yr adroddiad. Yn gyntaf oll, a gaf fi ddweud gair am ddefnyddio pwerau fframwaith? Clywsom y Gweinidog yn dweud ei fod wedi synhwyro bod gwelliant pendant o ran yr hyn yr oedd y pwyllgor yn ei feddwl. Rydym wedi bod yn bryderus am natur fframwaith nifer o Filiau allweddol y Llywodraeth ac rydym wedi crybwyll hynny. Yn wir, y mae'n fater yr ydym yn edrych arno yn ein hymchwiliad ar ddeddfu yn y pedwerydd Cynulliad. Credaf ei bod yn deg dweud bod y Bil hwn i raddau helaeth yn osgoi'r bai hwnnw, ac rydym yn falch o nodi hynny. Fodd bynnag, mae lle i wella'r ffordd y mae'r Bil hwn wedi'i ddrafftio, a'i eglurder, a dyna mewn gwirionedd yr wyf am siarad amdano yn awr.

Anogaf bob Gweinidog i beidio â chyfeirio at Fil fel un 'technegol'. Mae arnaf ofn fod y Gweinidog wedi defnyddio'r ymadrodd hwnnw fwy nag unwaith yn ei dystiolaeth wrth ddweud, wrth ymateb i gwestiynau, 'Wel, mae'r Bil hwn yn ei hanfod yn dechnegol ei natur'. Nid wyf yn credu y dylai hynny byth gael ei ddefnyddio fel ymadrodd. Mae biliau, yn amlwg, weithiau'n cynnwys deunydd polisi sylweddol iawn, mae rhai'n fwy gweinyddol eu natur, ac mae eraill yn ymdrin â'r manylion yn bennaf, sef yr hyn oedd y Gweinidog efallai'n ei olygu pan ddywedodd ei fod yn dechnegol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, all law impacts on bodies and, often, individuals, albeit in different ways, and potentially place legal obligations on them. Therefore, we would rather avoid the use of the word 'technical' in future. That is not just a comment on the current Minister; I think that other Ministers have tended to use that word to classify a Bill before. Anyway, it would be up to the Assembly if it wanted to classify Bills to aid its scrutiny; it would not really be a matter for the Executive.

I now move to discretionary versus mandatory powers. The Bill contains 27 powers to make subordinate legislation; however, many of these are discretionary powers to make subordinate legislation rather than duties to do so. We recommended that the Welsh Government should identify which provisions are essential to make the new regulatory system work efficiently and, depending on the circumstances, either include them on the face of the Bill or through regulations that Ministers are under a duty to introduce. I am sure that the Minister is not placing law in the statute book to never use, but it is curious if what seemed to be quite significant policy instruments are left to regulations, but there is only a discretionary power to use them. We also think that such an approach would be much clearer for all those who are going to engage, particularly the stakeholders.

I will just say a few words about the subordinate legislation procedure. The Minister told us in committee—and, indeed, he referred to it again—that when drafting Bills, Welsh Government uses the Counsel General's guidelines on subordinate legislation to choose whether to apply the affirmative or negative procedure to regulation-making powers. I am sure that that guidance is of great use to Ministers; indeed, we have noted it and find it useful. I am happy to acknowledge that, but it is not the tool that we use. We are the legislature; we are here to scrutinise you, and it is not for us, then, to be hauled before you and told, 'Oh well, you have ignored the Counsel General's criteria. We are very happy. Are you happy with it?' That does not satisfy us when it comes to scrutiny.

I will just spell out that, whatever procedure—negative or affirmative—is used, it does not really alter the degree of flexibility that Ministers have in regulations or, indeed, the time that it takes to get those regulations. What it does affect is the intensity of the scrutiny powers that this Assembly has. That is what my committee is there to protect: that we should be able to scrutinise where we need to. Essentially, our main recommendations did relate to the procedures, essentially saying that some of them should be affirmative rather than negative.

I do sense that the Minister is going to respond to some of these at Stage 2. We will keep an eye on that, as will the committee doing the scrutiny; however, I do take more than a little hope from his attitude this afternoon, which did seem to be very responsive. Also, publishing draft regulations is very important, when they are going to convey the guts of some of the policies that you are seeking to implement. I am pleased to note that.

Fodd bynnag, mae pob cyfraith yn effeithio ar gyrff ac, yn aml, ar unigolion, er bod hynny'n digwydd mewn gwahanol ffyrdd, a gallant osod dyletswyddau cyfreithiol arnynt. Felly, byddai'n well gennym osgoi defnyddio'r gair 'technegol' yn y dyfodol. Nid sylw ynghylch y Gweinidog cyfredol yn unig yw hynny; credaf fod Gweinidogion eraill wedi tueddu i ddefnyddio'r gair i ddsbarthu Biliau o'r blaen. Beth bynnag, mater i'r Cynulliad fyddai penderfynu a fyddai am ddsbarthu Biliau i gynorthwyo ei waith craffu; nid mater i'r Weithrediaeth fyddai hynny mewn gwirionedd.

Trof yn awr at bwerau dewisol ynteu bwerau gorfodol. Mae'r Bil yn cynnwys 27 o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth; fodd bynnag, mae llawer o'r rhain yn bwerau dewisol i wneud is-ddeddfwriaeth yn hytrach na dyletswyddau i wneud hynny. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddarpariaethau sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y system reoleiddio newydd yn effeithlon ac, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, naill ai eu cynnwys ar wyneb y Bil, neu drwy reoliadau y mae'n ddyletswydd ar Weinidogion i'w cyflwyno. Rwyf yn siŵr nad yw'r Gweinidog yn rhoi cyfraith yn y llyfr statud er mwyn peidio â'i ddefnyddio byth, ond mae'n rhyfedd os yw'r hyn a oedd yn ymddangos yn offerynnau polisi eithaf sylweddol yn cael eu gadael i reoliadau, ond dim ond pŵer dewisol sydd i'w defnyddio. Rydym hefyd yn credu y byddai ymagwedd o'r fath yn gliriach o lawer i bawb sy'n mynd i ymgysylltu, yn enwedig y rhanddeiliaid.

Rwyf am ddweud ychydig eiriau am y weithdrefn is-ddeddfwriaethol. Dywedodd y Gweinidog wrthym yn y pwyllgor—ac, yn wir, cyfeiriodd at hynny eto—fod Llywodraeth Cymru, wrth ddrafftio Biliau, yn defnyddio canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol ar is-ddeddfwriaeth i ddewis p'un ai i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ynteu'r weithdrefn negyddol i bwerau gwneud rheoliadau. Rwyf yn siŵr bod y canllawiau hyn o ddefnydd mawr i Weinidogion; yn wir, rydym wedi eu nodi ac yn eu cael yn ddefnyddiol. Rwyf yn hapus i gydnabod hynny, ond nid dyna yw'r offeryn a ddefnyddiwn ni. Ni yw'r ddeddfwrfaf; rydym yma i graffu arnoch chi, ac ni ddylem wedyn gael ein llusgo ger eich bron a chlywed, 'O wel, rydych wedi anwybyddu meini prawf y Cwnsler Cyffredinol. Rydym yn hapus iawn. A ydych yn hapus â hyn?' Nid yw hynny'n ein bodloni o safbwynt craffu.

Rwyf am nodi, pa bynnag weithdrefn—negyddol ynteu gadarnhaol—a ddefnyddir, nad yw mewn gwirionedd yn newid graddfa'r hyblygrwydd sydd gan Weinidogion mewn rheoliadau nac, yn wir, yr amser y mae'n ei gymryd i gael y rheoliadau hynny. Yr hyn y mae'n effeithio arno yw dwysder y pwerau craffu sydd gan y Cynulliad hwn. Dyna y mae fy mhwyllgor yma i'w amddiffyn: y dylem fod yn gallu craffu lle y mae angen gwneud hynny. Yn eu hanfod, roedd ein prif argymhellion yn ymwneud â'r gweithdrefnau, ac yn dweud yn y bôn y dylai rhai ohonynt fod yn gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol.

Rwyf yn synhwyro y bydd y Gweinidog yn ymateb i rai o'r rhain yng Nghyfnod 2. Byddwn yn cadw llygad ar hynny, fel y bydd y pwyllgor sy'n gwneud y gwaith craffu; fodd bynnag, rwyf yn teimlo fwy nag ychydig yn obeithiol o weld ei agwedd y prynhawn yma, a oedd yn ymddangos yn ymatebol iawn. Hefyd, mae'n bwysig iawn cyhoeddi rheoliadau, pan fônt yn mynd i gyfleu hanfodion rhai o'r polisiâu yr ydych yn ceisio eu gweithredu. Rwyf yn falch o nodi hynny.

To finish, the timescale is quite tight and we therefore recommend that there is a lot of consultation and regular contact between stakeholders and the Government so that they are aware of the detailed implementation programme for this Bill as soon as possible.

I gloi, mae'r amserlen yn eithaf tyn ac felly rydym yn argymhell y dylai fod llawer o ymgynghori a chyswllt rheolaidd rhwng rhanddeiliaid a'r Llywodraeth er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r rhaglen weithredu fanwl ar gyfer y Bil hwn cyn gynted â phosibl.

16:54

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am pleased to be able to take part in this debate today. I make it clear from the outset that we, on this side of the Chamber, agree with the key objectives in this proposed legislation. However, we are not entirely convinced at this stage that legislation is absolutely necessary at all. My understanding is that, in other parts of the UK, the aims and objectives of this Bill are already being delivered without the need for legislating in this particular area. I am also not convinced that the current regulatory framework is no longer fit for purpose, as suggested by the Minister. The Minister has himself, of course, admitted that a non-legislative approach could have been pursued, so it is still unclear why the Welsh Government has specifically chosen this direction of travel.

Rwyf yn falch o allu cymryd rhan yn y ddaid hon heddiw. Rwyf am ei gwneud yn glir o'r dechrau ein bod ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn cytuno â'r amcanion allweddol yn y ddeddfwriaeth arfaethedig. Fodd bynnag, nid ydym yn gwbl argyhoeddedig ar hyn o bryd fod y ddeddfwriaeth yn hollol angenrheidiol o gwbl. Yn ôl a ddeallaf, mewn rhannau eraill o'r DU, mae nodau ac amcanion y Bil hwn eisoes yn cael eu cyflwyno heb fod angen deddfu yn y maes penodol hwn. Nid wyf wedi fy argyhoeddi chwaith nad yw'r fframwaith rheoleiddio cyfredol yn addas at y diben mwyach, fel yr awgrymodd y Gweinidog. Mae'r Gweinidog ei hun, wrth gwrs, yn cyfaddef y gellid bod wedi dilyn dull anneddfwriaethol, felly nid yw'n glir o hyd pam y mae Llywodraeth Cymru wedi dewis dilyn y trywydd hwn yn benodol.

As mentioned by the Chair of the Children, Young People and Education Committee, there are also concerns over the timing of this proposed Bill, given that the Sir Ian Diamond review was still ongoing. The majority of stakeholders providing evidence agreed that this review is likely to have an impact on the new regulatory framework established by the Bill. Indeed, Dr Blaney, the chief executive of the Higher Education Funding Council for Wales, supported the introduction of the Bill, but also suggested that a situation could arise where the Bill could become redundant. Now, the Children, Young People and Education Committee has made it clear that the Welsh Government has not given sufficient consideration to the potential outcomes of the Diamond review. If this Bill is passed, then the regulatory system established by it could require significant changes within a relatively short period of time. However, I am pleased that the Minister today has announced that he is possibly looking to address this in the very near future.

Fel y nododd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, mae pryderon hefyd ynghylch amseriad y Bil arfaethedig hwn, o ystyried bod adolygiad Syr Ian Diamond yn mynd rhagddo. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth yn cytuno bod yr adolygiad hwn yn debygol o gael effaith ar y fframwaith rheoleiddio newydd a sefydlir gan y Bil. Yn wir, roedd Dr Blaney, prif weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn cefnogi cyflwyno'r Bil, ond awgrymodd hefyd y gallai sefyllfa godi lle y gallai'r Bil fod yn ddiangen. Yn awr, y mae'r Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc wedi ei gwneud yn glir nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o ystyriaeth i ganlyniadau posibl adolygiad Diamond. Os caiff y Bil hwn ei basio, gallai'r system reoleiddio a sefydlir ganddo fynnu newidiadau sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr. Fodd bynnag, rwyf yn falch bod y Gweinidog heddiw wedi cyhoeddi ei fod o bosibl yn ystyried mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol agos iawn.

There are also some genuine concerns over whether the new regulatory framework in this proposed Bill is suitable and whether the framework is clear in its intention. As it is not clear, it is not evident which institutions should become regulated and which types of providers should apply for case-by-case designation. I think that it is essential that, at the start of this legislative process, the Minister fully explains which providers would become regulated under this proposed Bill.

Mae rhai pryderon gwirioneddol hefyd ynghylch a yw'r fframwaith rheoleiddio newydd yn y Bil arfaethedig yn addas ac a yw'r fframwaith yn glir o ran ei fwriad. Gan nad yw'n glir, nid yw'n amlwg pa sefydliadau a ddylai gael eu rheoleiddio a pha fathau o ddarparwyr a ddylai wneud cais am ddynodiad fesul achos. Rwyf yn meddwl ei bod yn hanfodol, ar ddechrau'r broses ddeddfwriaethol hon, fod y Gweinidog yn esbonio'n llawn pa ddarparwyr a fyddai'n cael eu rheoleiddio o dan y Bil arfaethedig.

There is also no detail or clarity regarding the fee and access plans in this proposed Bill; therefore, more clarity must be provided. HEFCW, of course, expressed concerns that there is no provision in the Bill to enable it to control the annual cost of tuition fee grants. Indeed, the Minister has recognised that it will take some time for HEFCW to evaluate the effectiveness of fee and access plans. Therefore, it is essential, as confirmed by the Children, Young People and Education Committee, that a draft of regulations should be brought forward at Stage 2. Again, I am pleased that the Minister has responded positively to that this afternoon.

Nid oes manylion nac eglurder chwaith ynghylch y cynlluniau ffioedd a mynediad yn y Bil arfaethedig; felly, mae'n rhaid darparu mwy o eglurder. Lleisiodd CCAUC, wrth gwrs, bryderon nad oes darpariaeth yn y Bil i'w alluogi i reoli cost flynyddol grantiau ffioedd dysgu. Yn wir, y mae'r Gweinidog wedi cydnabod y bydd yn cymryd peth amser i CCAUC i werthuso effeithiolrwydd y cynlluniau ffioedd a mynediad. Felly, mae'n hanfodol, fel y cadarnhaodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cyflwyno'r rheoliadau drafft yng Nghyfnod 2. Unwaith eto, rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol i hynny y prynhawn yma.

I also believe that there is consensus that there needs to be far more detail on the face of the Bill. I listened very carefully to the Minister's opening remarks. He believes, of course, that the Government has struck the right balance, but he has not today set out why he believes that that balance has been struck. I therefore remain to be convinced on this issue. Clearly, I believe that too much detail is left to subordinate legislation. For example, the detail of the financial management code has been left to subordinate legislation. Perhaps the Minister could specifically explain in response to this debate why the Government has decided on this approach.

The cost of the proposed Bill is also not clear. It is essential that there is clarity on the outcomes expected from new legislation and on whether the costs laid out in the Bill are affordable and actually provide value for money.

Finally, Presiding Officer, there are some very real concerns that the new powers in this proposed Bill for HEFCW are going to be disproportionate. This is something that a number of witnesses, including the chairs of Higher Education Wales and the Learned Society of Wales among others, highlighted to the committee. There is a danger that this legislation could seriously lead to micromanaging universities. It will come as no surprise that we, on this side of the Chamber, are strongly in favour of the preservation and protection of the autonomy and academic freedom of institutions. Therefore, we would not want to see this compromised as a result of this proposed legislation.

In closing, Presiding Officer, while we have a number of concerns regarding this proposed legislation, our key concern is whether legislation is necessary at all. However, given that we agree with the general objectives of the proposed Bill, we will allow its passage to Stage 2 and, therefore, we will support this particular motion this afternoon.

Credaf hefyd fod consensws bod angen mwy o fanylion o lawer ar wyneb y Bil. Gwrandewais yn astud iawn ar sylwadau agoriadol y Gweinidog. Mae ef o'r farn, wrth gwrs, fod y Llywodraeth wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir, ond nid yw heddiw wedi nodi pam ei fod yn credu bod y cydbwysedd hwnnw wedi ei sicrhau. Felly, nid wyf eto wedi fy argyhoeddi ar y mater hwn. Yn amlwg, credaf fod gormod o fanylion yn cael eu gadael i is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae manylion y cod rheolaeth ariannol wedi eu gadael i is-ddeddfwriaeth. Efallai y gallai'r Gweinidog egluro'n benodol wrth ymateb i'r ddatl hon pam y mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ar yr ymagwedd hon.

Hefyd, nid yw cost y Bil arfaethedig yn glir. Mae'n rhaid wrth eglurder ynghylch canlyniadau disgwylidied deddfwriaeth newydd ac a yw'r costau a nodir yn y Bil yn forddiadwy ac mewn gwirionedd yn rhoi gwerth am arian.

Yn olaf, Lywydd, mae rhai pryderon gwirioneddol y bydd y pwerau newydd yn y Bil arfaethedig i CCAUC yn anghymesur. Mae hyn yn rhywbeth y dywedodd nifer o'r tystion, gan gynnwys cadeiryddion Addysg Uwch Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru ymhlith eraill, wrth y pwyllgor. Mae perygl y gallai'r deddfwriaeth hon arwain mewn difrif at ficoreoli prifysgolion. Ni fydd yn syndod ein bod ni, ar yr ochr hon i'r Siambur, yn gryf o blaid cadw a gwarchod annibyniaeth a rhyddid academaidd sefydliadau. Felly, ni fyddem am weld hyn yn cael ei beryglu o ganlyniad i'r deddfwriaeth arfaethedig.

I gloi, Lywydd, er bod gennym nifer o bryderon ynghylch y deddfwriaeth arfaethedig hon, yr hyn sy'n destun pryder allweddol inni yw a oes angen deddfwriaeth o gwbl. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn cytuno ag amcanion cyffredinol y Bil arfaethedig, rydym am ganiatáu iddo symud i Gyfnod 2, ac felly, byddwn yn cefnogi'r cynnig penodol hwn y prynhawn yma.

16:59 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Much of what I wanted to say has been said by Paul. I will just reiterate the last point that he made, which is something on which I have heard some concerns from constituents. I just want the Minister to reassure me that HEFCW's main regulatory role will be on the institution fee and access plans and monitoring the institutions' compliance with the financial management code, and that the Bill will not impair the institutional autonomy and academic freedom of universities—the point made by Paul at the end.

Mae Paul wedi dweud llawer o'r hyn yr oeddwn innau am ei ddweud. Nid wyf ond am ailadrodd y pwynt olaf a wnaeth, sydd yn rhywbeth yr wyf wedi clywed rhai pryderon amdano gan etholwyr. Rwyf am i'r Gweinidog fy sicrhau y bydd prif swyddogaeth reoleiddio CCAUC yn ymwneud â chynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau a monitro cydymffurfiad y sefydliadau â'r cod rheolaeth ariannol, ac na fydd y Bil yn amharu ar annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd prifysgolion—y pwynt a wnaeth Paul ar y diwedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:00 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r rhan hon o'r Bil. O ran ymateb y Gweinidog hyd yma i adroddiadau'r ddaau bwyllgor, os yw'r gwelliannau a'r newidiadau yn dilyn yr hyn mae'r Gweinidog yn dweud, rwy'n rhagweld y byddwn yn cynnal ein cefnogaeth i'r Bil.

Plaid Cymru will be supporting this part of the Bill. Given the Minister's response so far to the reports of the two committees, if the amendments and the changes do result from the Minister's comments, I anticipate that we will maintain our support for the Bill.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Serch hynny, rwy'n cytuno â rhai o'r sylwadau a wnaed nad oes angen y Bil hwn yn llawn ar hyn o bryd, neu o leiaf ei fod yn Fil sy'n pontio. Rydym yn gwybod y bydd set newydd o flaenoriaethau a pholisïau yn dod yn sgîl adroddiad Diamond. Wrth gwrs, nid ydym yn gwybod beth fydd manylion hynny eto, ond gallaf feddwl, yn y cyd-destun ariannol sydd gennym a'r newid polisi sylweddol sy'n digwydd yn y maes hwn, yn Lloegr yn fwy na Chymru, y bydd newidiadau eithaf sylweddol yn dilyn adolygiad Diamond. Felly, y cwestiwn sylfaenol yw a fydd y Bil hwn, gyda'r pwerau eraill roedd y Gweinidog yn sôn amdanynt, yn addas ar gyfer darparu beth fydd yn dilyn yr adroddiad hwnnw?

Mae'r Gweinidog yn teimlo ei fod. Os felly, os dyma'r Bil i wneud hynny, mae hyd yn oed yn fwy pwysig bod rhai o argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cael eu gweithredu, yn enwedig o gwmpas y gweithdrefnau negyddol a chadarnhaol ar gyfer y rheoliadau sy'n dilyn yn sgîl y Bil hwn.

Os bydd y Bil hwn, yn ei dro, yn gweithredu Diamond, bydd tipyn o bolisi yn cael ei newid drwy reoliadau â'r weithdrefn negyddol, oni bai ein bod yn newid hynny ar wyneb y Bil. Rwy'n gobeithio felly y bydd agwedd bositif y Gweinidog i'w gweld wrth inni edrych ar y Bil yn nes ymlaen ac edrych ar y gwelliannau sy'n dod gerbron.

Hoffwn drafod dau neu dri pheth sy'n dal i beri rhywfaint o bryder imi. Yn gyntaf oll, rhaid i'r Bil hwn ddatgan ymreolaeth prifysgolion, fel sydd wedi'i grybwyll eisoes. Rwy'n falch i glywed bod y Gweinidog am wneud hynny neu am ei wneud yn glir. Mae datganid o'r fath yn y ddeddfwriaeth sy'n gorwedd o dan y Bil, sef Deddf 1992. Rwy'n meddwl y byddai'n briodol ailddatgan yr egwyddorion wrth inni lunio cyfraith Gymreig. Nid yw'r ffaith ei fod mewn cyfraith sy'n rhyw 20 mlwydd oed yn ddigon da yn y cyd-destun hwn. Rydym yn llunio cyfraith newydd i Gymru a byddai ailddatgan yr egwyddorion yn help mawr o ran gwneud cyfraith a hefyd i bobl gael deall y gyfraith honno.

Yr ail ran o'r Bil sy'n dal i beri rhywfaint o ddryswch imi yw sut y bydd y Bil yn gwella neu o leiaf yn cynnal a sicrhau ansawdd y tu mewn i'r sector. Mae adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn edrych ar hwn yn benodol o fewn tri maes, sef cyrsiau rhan amser, cyrsiau sydd wedi'u dilysu ond yn cael eu darparu y tu fas i sefydliad, a chyrsiau sy'n cael eu darparu y tu fas i Gymru. Mae'r dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor wedi troi o gwmpas y ffaith y bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn dal i gael perthynas gref gydag Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch. Fel y codais yn gynnu fach gyda'r cwestiynau i'r Gweinidog, ers tua wythnos, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr wedi datgan ei fod yn ymgynghori ar ddyfodol yr asiantaeth sicrhau ansawdd ac yn datgan ei fod yn newid y drefn yn Lloegr. Yn fy marn i, mae hynny'n peryglu'r hyn sydd gennym eisoes yng Nghymru, sef y berthynas rhwng HEFCW a'r asiantaeth a'r ffordd y maent yn sicrhau ansawdd yn y modd hwnnw. Felly, os nad heddiw, byddwn yn leicio gweld llawer mwy gan y Llywodraeth ynglŷn â'r ffordd y bydd yn ymateb i'r her hon, a'r ffordd y mae am newid y Bil hwn i sicrhau bod ansawdd yn fwy clir a chryf yn y Bil.

However, I agree with some of the comments that have been made already, namely that this Bill is not entirely necessary at the moment, or at least that it is a bridging Bill. We do know that a new set of priorities and policies will emerge as a result of the Diamond report. Of course, we do not know the details of that as yet, but I would have thought, given the current financial context and the substantial change in policy that is occurring in this area in England more than Wales, that there will be quite significant changes following the Diamond review. Therefore, the fundamental question is will this Bill, with the additional powers that the Minister mentioned, be appropriate for the provision that will follow that report?

The Minister feels that it is. If so, if this is the Bill to achieve that, it is even more important that some of the recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Committee for Children, Young People and Education are implemented, particularly around the negative and affirmative procedures that will be adopted for the regulations that emerge from this Bill.

If this Bill, in turn, does implement Diamond, a fair bit of policy change will be implemented by regulations under the negative procedure, unless we change that on the face of the Bill. I hope therefore that the Minister's positive stance is maintained as we look at the Bill later on and consider the amendments that are put before us.

I would like to discuss two or three issues that continue to cause me some concern. First of all, the Bill must state the autonomy of universities, as has already been mentioned. I'm pleased to hear that the Minister wants to do that or wants to make it clear. There is such a statement in the legislation underlying this Bill, namely the 1992 Act. I think that it would be appropriate to restate those principles as we draw up Welsh law. The fact that it is contained in a law that is some 20 years old is not good enough in this context. We are making new laws for Wales and reaffirming those principles would be of great assistance in making law but also so that people can understand that law.

The second part of the Bill that still causes me some confusion is how the Bill will improve or at least maintain the quality assurance within the sector. The report of the Committee on Children, Young People and Education looks specifically at this within three areas, namely part-time courses, courses that have been validated but are provided outside institutions, and courses that are delivered outside Wales. The evidence received by the committee revolved around the fact that the Higher Education Funding Council for Wales will continue to have a strong relationship with the Quality Assurance Agency for Higher Education. As I mentioned earlier during questions to the Minister, for about a week now, the Higher Education Funding Council for England has stated that it will consult on the future of the QAA and states that it will change the regime in England. In my opinion, that puts at risk what we already have here in Wales, namely the relationship between HEFCW and the QAA and the way in which they assure quality in that context. Therefore, if not today, I would like to hear much more from the Government as to how it is going to respond to this challenge, and how it may amend the Bill to ensure that quality assurance is more clear and robust in the Bill.

Y peth olaf sydd eisiau ei wneud, fel sydd wedi'i argymhell gan y pwyllgorau, yw ein bod yn gweld y rheoliadau drafft ar gyfer y cynllun ffioedd a mynediad. Yn bersonol, byddwn yn leicio gweld y cod ariannol ar ffurf ddrafft hefyd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cydweithio â'r sector i wneud yn siŵr bod pob dim yn ei le.

Roeddwn i o'r farn nad oedd, o reidrwydd, yr adnoddau yn eu lle, ac, yn sicr, nid oedd yr amserlen yn ei lle i weithredu'r Bil hwn o fewn yr amserlen wreiddiol. Mae'r Gweinidog wedi nodi y bydd blwyddyn o estyniad, bellach, i hynny. Mae hynny'n gwneud y peth yn fwy ymarferol, ond rwy'n dal yn eisiau gwneud yn siŵr bod yr adnoddau yn eu lle, hefyd.

Mae'r sector yn newid, ac mae'r ffordd y mae'r arian yn cael ei ddarparu i brifysgolion yn newid yn sylweddol iawn. Mae preifateiddio, i bob pwrpas, yn digwydd y tu fas i Gymru. Mae'n rhaid inni sicrhau bod gennym y rheoliadau mwyaf cadarn—a statudol, hefyd, o bryd i'w gilydd—i sicrhau ansawdd, ond hefyd i sicrhau dyfodol ein pobl ifanc.

The final thing that is needed, as has already been recommended by the committee, is that we see the draft regulations for the fee and access plans. Personally, I would like to see the financial code also in draft form so that we can work with the sector to make sure that everything is properly in place.

I was of the opinion that the resources were not necessarily in place, and the timetable certainly was not in place to implement this Bill within the original timetable. The Minister has indicated that there will be a one-year extension, now, for that. That makes it more practical, but I still want to make sure that the resources are properly in place, too.

The sector is changing, and the way in which funding is being provided to universities is changing drastically. There is privatisation, to all intents and purposes, happening outside Wales, and we must ensure that we have the most robust regulations in place—and statutory, too, from time to time—to ensure quality, but also to safeguard the future of our young people.

17:05

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf innau, hefyd, yn cadarnhau ein bod ni, fel grŵp, yn barod i gefnogi'r Llywodraeth, er ein bod yn gwneud hynny yn amodol, i ryw raddau, ar weld mwy o dystiolaeth ynglŷn â'r gwelliannau y bydd y Llywodraeth yn eu dwyn ymlaen. Fodd bynnag, rwy'n meddwl, i fod yn deg, y dylem groesawu'r modd y mae'r Gweinidog wedi ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn arbennig. Rwy'n credu bod gwaith craffu da wedi cael ei wneud gan y pwyllgor ac nad ydym wedi defnyddio'r adroddiad ar gyfer unrhyw fath o wrthwynebiad gwleidyddol, ond bod yr adroddiad yn adlewyrchu rhai o'r pryderon sydd gennym, fel pwyllgor, wrth i'r Llywodraeth symud ymlaen. Rwy'n croesawu, felly, y ffaith bod y Gweinidog wedi cydnabod hynny. Rwyf hefyd, fel y dywedodd Simon Thomas, yn meddwl bod gennym amserlen fwy ymarferol nŵan o ran gweld yn union ym mha fodd yr ydym yn mynd i symud ymlaen. Rwy'n croesawu'r ffaith bod gennym estyniad o ryw flwyddyn yn y pen draw.

Roedd nifer o'r pryderon ynglŷn â'r prifysgolion yn deillio o'r ffaith ein bod yn credu bod annibyniaeth y sefydliadau a statws ymddiriedolwyr elusennol yn bethau pwysig. Rwy'n gwybod bod y Llywodraeth yn dweud ei bod wedi cael cyngor cyfreithiol ar sail hynny, a'i bod yn fodlon efo'r ffordd yr oedd yn ymateb i hynny. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod y ffordd y mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn barod i gydweithio â'r sefydliadau, a'u hargyhoeddi o'r ffordd y maent yn symud ymlaen, i'w groesawu.

I, too, confirm that we, as a group, are prepared to support the Government, although we will do so, to some extent, on condition that we see more evidence about the amendments that the Government will bring forward. However, I think that, to be fair, we should welcome the way in which the Minister has responded to the report of the Committee for Children, Young People and Education in particular. I think that good scrutiny work was done by the committee. We did not use the report to make any political points of opposition, but the report reflects some of the concerns that we, as a committee, have as the Government moves forward. I welcome, therefore, the fact that the Minister has recognised that. I also, as Simon Thomas said, believe that we now have a more practical timetable in terms of seeing exactly how we will take this forward. I welcome the fact that we have an extension of about a year at the end of the day.

A number of the concerns about the universities stem from the fact that we believe that the autonomy of the institutions and the status of the charitable trustees are important points. I know that the Government says that it has received legal advice on that basis, and that it is content with the way in which it responded to that. However, I believe that the way in which the Minister has said that he is ready to collaborate with the institutions and convince them of the way in which they move forward is to be welcomed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n meddwl, hefyd, fod rhai o'r pethau a ddywedwyd ynglŷn â'r rheoliadau drafft, a'r ffaith bod y Gweinidog yn barod i rannu'r rheini efo'r pwyllgor, hwyrach yn creu sefyllfa lle bydd aelodau'r pwyllgor yn teimlo bod yna berthynas eithaf cadarnhaol o ran y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynglŷn ag Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch. Fel y dywedodd Simon Thomas, rwy'n meddwl bod rhai o'r pryderon sydd wedi cael eu hamlygu ynglŷn â Phrifysgol Glyndŵr yn adlewyrchu hynny. Hwyrach bod y Llywodraeth yn fodlon gyda'r modd y gwnaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru greu is-gytundeb, fel bod y QAA yn gyfrifol am ansawdd cyrsiau, ond rwy'n meddwl ein bod ni, fel pwyllgor, eisiau mwy o dystiolaeth ynglŷn â'r ffordd y mae'r trefniadau hynny yn gweithio yn drawsffiniol, fel y dywedodd Ann Jones ar ein rhan fel Cadeirydd. Mae mwy o broblem, hwyrach, wedi bod yn ystod yr wythnos olaf hon, fel y mae Simon Thomas wedi'i ddweud, o achos bod Llywodraeth Prydain, i bob pwrpas, wedi dweud ei bod yn cwestiynu ai'r QAA yw'r ffordd ymlaen o hyn allan.

Felly, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi ymateb i'n hadroddiad. Nid wyf yn meddwl bod angen imi fynd drwy unrhyw fath o bryderon pellach. Mae'r ffaith bod gennym 31 o argymhellion yn dangos ein bod wedi gwneud y gwaith. Edrychaf ymlaen at dderbyn mwy o dystiolaeth gan y Gweinidog a'r swyddogion yn ystod Cyfnod 2 y Bil.

17:09

Jenny Rathbone [Bywgraffiad Biography](#)

I wanted briefly to raise a couple of concerns that I still have, having read the committee's report. First of all, I think that there needs to be a really clear balance between ensuring that public money is spent wisely and, for example, ensuring that the fee and access plans of universities are fit for purpose, while not fettering the academic freedom of universities. If, for example, an academic institution had within it prominent academics who spent time attacking the usefulness of the National Assembly for Wales, God forbid, or the competency of the Welsh Government, we need to make sure that HEFCW could not be used as a battering-ram to suppress unpopular views.

Secondly, on quality assurance, it is important that, as these institutions become increasingly international in focus—and many institutions rely on attracting people from abroad to come and study here, and, indeed, have departments abroad or in other parts of the UK—we need to make sure that HEFCW, or if not HEFCW some other body, is quality-assuring those courses that are not taking place in Wales, to prevent those activities from undermining the reputation of our institutions.

I believe, also, that some of the things that were said about the draft regulations, and the fact that the Minister is willing to share those with the committee, might create a situation whereby members of the committee feel that there is quite a positive relationship in terms of the Government. However, we have concerns about the Quality Assurance Agency for Higher Education. As Simon Thomas said, I think that some of the concerns that were highlighted about Glyndŵr University reflect that. Perhaps the Government is satisfied with the way in which the Higher Education Funding Council for Wales created a sub-contract, so that the QAA was responsible for the quality assurance of courses, but I think that we, as a committee, need more evidence on how those arrangements will work on a cross-border basis, as Ann Jones said on our behalf, as Chair. There has been more of a problem, perhaps, during this past week, as Simon Thomas has said, because the UK Government has, to all intents and purposes, said that it questions whether the QAA is the best way forward from now on.

Therefore, I welcome the fact that the Minister has responded to our report. I do not think that I need to go through any further concerns. The fact that we have 31 recommendations shows that we have done that work. I look forward to receiving more evidence from the Minister and officials during Stage 2 of the Bill.

Roeddwn am godi'n gyflym un neu ddau o bryderon sydd gennyf o hyd, ar ôl darllen adroddiad y pwyllgor. Yn gyntaf oll, credaf fod yn rhaid wrth gydbwysedd clir iawn rhwng sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth ac, er enghraifft, sicrhau bod cynlluniau ffioedd a mynediad prifysgolion yn addas at y diben, ac ar yr un pryd nad ydynt yn llesteirio rhyddid academiaidd y prifysgolion. Er enghraifft, pe bai academyddion blaenllaw mewn sefydliad academiaidd yn treulio amser yn ymosod ar ddefnyddioldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Duw a'n gwaredo, neu gymhwysedd Llywodraeth Cymru, mae angen inni wneud yn siŵr na ellid defnyddio CCAUC yn ddyrnhwrdd i lesteirio safbwyntiau amhoblogaidd.

Yn ail, o ran sicrhau ansawdd, mae'n bwysig, fel y daw'r sefydliadau hyn yn fwyfwy rhyngwladol eu pwyslais—ac mae llawer o sefydliadau'n dibynnu ar ddenu pobl o dramor i ddod i astudio yma, ac, yn wir, mae ganddynt adrannau dramor neu mewn rhannau eraill o'r DU—ein bod yn sicrhau bod CCAUC, neu os nad CCAUC rhyw gorff arall, yn sicrhau ansawdd y cyrsiau hynny nad ydynt yn cael eu cynnal yng Nghymru, er mwyn atal y gweithgareddau hynny rhag tansellio enw da ein sefydliadau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thirdly, I have read quite carefully around the issue of the charitable status of universities. It is crucial for universities that they continue to have charitable status; otherwise, it would cause them a huge amount of additional costs and it could block off potential charitable donations for studies that they may wish to carry out. Therefore, while I have noted the quotation from the Charity Commission, the Learned Society of Wales nevertheless expresses concerns about the potential impact of subordinate legislation on the charitable status of higher education institutions, and I am aware that many academic institutions, certainly the ones in my constituency, continue to be concerned about the potential impact of this legislation on that charitable status.

Yn drydydd, rwyf wedi darllen yn eithaf gofalus am statws elusennol prifysgolion. Mae'n hollbwysig bod statws elusennol y prifysgolion yn parhau; fel arall, byddai'n achosi llawer iawn o gostau ychwanegol iddynt a gallai atal rhoddion elusennol posibl ar gyfer astudiaethau y gallent fod am eu cynnal. Felly, er fy mod wedi nodi'r dyfyniad gan y Comisiwn Elusennau, mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru er hynny'n mynegi pryderon am effaith bosibl is-ddeddfwriaeth ar statws elusennol y sefydliadau addysg uwch, ac rwyf yn ymwybodol bod nifer o sefydliadau academaidd, yn sicr y rhai yn fy etholaeth i, yn dal i fod yn bryderus am effaith bosibl y ddeddfwriaeth hon ar y statws elusennol hwnnw.

17:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:12 **Huw Lewis** [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

My thanks go to the committee Chairs and to the Members who have contributed here this afternoon. I suppose that there are some issues that I will continue to agree to disagree with Members about, not least the Welsh Conservatives' continued contention that there is a question mark over the need for legislation here at all, as articulated by Paul Davies. He points to a very different situation pertaining in England, but my very strong feeling is that trouble is being stored up in England, actually. There would be no shortage of academic sources who would back me up in terms of higher education institutions in England that would dearly like to see legislation of this kind pass through the House of Commons so that it might affect them and give them the reassurance that they need. In addition, Paul Davies's comment about micromanagement is not a defensible criticism of the way this Bill is evolving, nor was it ever a part of the intent behind it.

Hoffwn ddiolch i Gadeiryddion y pwyllgorau ac i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu yma y prynhawn yma. Mae'n debyg bod rhai materion y byddaf yn parhau i gytuno ac anghytuno ag Aelodau yn eu cylch, yn enwedig haerriad parhaus y Ceidwadwyr Cymreig fod marc cwestiwn ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth o gwbl yn hyn o beth, fel y dywedodd Paul Davies. Mae'n tynnu sylw at sefyllfa wahanol iawn yn ymwneud â Lloegr, ond rwyf yn gryf iawn o'r farn bod trafferthion yn cronni yn Lloegr, a dweud y gwir. Ni fyddai dim prinder ffynonellau academaidd a fyddai'n fy nghefnogi o ran sefydliadau addysg uwch yn Lloegr a fyddai'n hoffi'n fawr gweld deddfwriaeth o'r fath yn mynd trwy Dŷ'r Cyffredin fel y gallai effeithio arnynt a rhoi'r sicrwydd iddynt sydd ei angen arnynt. Yn ogystal, nid yw sylw Paul Davies am ficoreoli yn feirniadaeth amddiffynadwy o'r ffordd y mae'r Bil hwn yn esblygu, ac nid oedd erioed yn rhan o'r bwriad y tu ôl iddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I extend, again, my reassurance to Keith Davies and Jenny Rathbone, who are both concerned about what has been said about institutional autonomy and what this Bill might mean. My contention would be that there was never anything in this Bill in the first place that undermined institutional autonomy in any way at all, but, to further reassure Members, I have committed at Stage 2 to taking a look at that and to working with Members on explicit amendments that make that positive statement within the legislation. I believe that Simon Thomas has welcomed that as a point of principle.

Rhoddaf, unwaith eto, fy sicrwydd i Keith Davies a Jenny Rathbone, sydd ill dau'n pryderu am yr hyn a ddywedwyd am annibyniaeth sefydliadol a'r hyn y gallai'r Bil hwn ei olygu. Fy nadl i fyddai na fu erioed ddim yn y Bil hwn yn y lle cyntaf a oedd yn tanseilio annibyniaeth sefydliadol mewn unrhyw fodd, ond, er mwyn rhoi sicrwydd pellach i'r Aelodau, rwyf wedi ymrwmo yng Nghyfnod 2 i edrych ar hynny ac i weithio gyda'r Aelodau ar welliannau penodol sy'n gwneud y datganiad cadarnhaol hwnnw o fewn y ddeddfwriaeth. Credaf fod Simon Thomas wedi croesawu hynny fel pwynt o egwyddor.

There will be points of detail that as we progress through these procedures we will debate further. Many of those points raised by Simon Thomas and Aled Roberts come under that heading. However, let me just say one brief thing about the review of quality assurance. I do not believe that the review has any implications for the Bill, since, under our proposals, statutory responsibility for quality assurance arrangements will continue to rest with HEFCW. Under the Bill, as now, it would be for HEFCW to determine how to discharge its statutory role and with whom to contract for that purpose. So, I do not think that we need be unduly concerned about those points. However, I hope that Members are assured that this legislation—

Bydd manylion y byddwn yn eu trafod ymhellach wrth inni symud ymlaen drwy'r gweithdrefnau hyn. Mae llawer o'r pwyntiau hynny a godwyd gan Simon Thomas ac Aled Roberts yn dod o dan y pennawd hwnnw. Fodd bynnag, gadewch imi ddweud un peth yn fyr am yr adolygiad o sicrwydd ansawdd. Nid wyf yn credu bod dim goblygiadau i'r Bil yn sgil yr adolygiad, oherwydd, o dan ein cynigion, bydd CCAUC yn parhau i fod â chyfrifoldeb statudol am drefniadau sicrhau ansawdd. O dan y Bil, fel ar hyn o bryd, mater i CCAUC fyddai penderfynu sut i gyflawni ei rôl statudol ac â phwy i gontractio at y diben hwnnw. Felly, nid wyf yn credu bod angen inni bryderu'n ormodol am y pwyntiau hynny. Fodd bynnag, rwyf yn gobeithio bod yr Aelodau'n dawel eu meddyliau fod y ddeddfwriaeth hon—

17:14 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Minister for giving way. I hear what he says, and it is quite clear, as he says, that HEFCW has that statutory responsibility, but, conversely, you could argue that QAA is the only body that is also put in statute for the delivery of a UK-wide set of quality assurances. Therefore, if there is a change in England that destroys the QAA, in effect, HEFCW will then have to find a new body with which to contract. That is an issue for us, is it not?

Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Clywaf yr hyn y mae'n ei ddweud, ac mae'n eithaf amlwg, fel y dywed, fod y cyfrifoldeb statudol hwnnw gan CCAUC, ond, ar y llaw arall, gallech ddadlau mai'r Asiantaeth Safonau Ansawdd yw'r unig gorff sydd hefyd yn cael ei osod mewn statud o ran cyflwyno cyfres o drefniadau sicrhau ansawdd i'r DU gyfan. Felly, os oes newid yn Lloegr sy'n dinistrio'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, i bob pwrpas, bydd yn rhaid i CCAUC ddod o hyd i gorff newydd i gontractio ag ef. Mae hwnnw'n fater i ni, onid yw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:15 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There are issues to keep an eye on, for sure; of course there are. This is not just a question of us tagging along on the coat-tails of England here. England, Wales and Northern Ireland are to seek views on future approaches to the assessment of quality in higher education. My officials and I will very much be a part of the four funding bodies in England, Wales, Northern Ireland and Scotland, keeping in close touch throughout these processes to ensure that we learn from each other and that we develop the best possible arrangements for each of the four home nations. Therefore, for sure, there are things that we need to be alive to—and I do not deny that for a moment—but I do not believe that there are implications for this Bill that we necessarily need to be overly concerned about here.

Mae materion y mae angen cadw golwg arnynt, yn sicr; wrth gwrs bod. Nid yw hyn yn fater o ddilyn wrth gwt Lloegr. Bydd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn ceisio barn am ymagweddau yn y dyfodol tuag at asesu ansawdd mewn addysg uwch. Bydd fy swyddogion a minnau'n rhan fawr o'r pedwar corff cyllido yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac yn cadw mewn cysylltiad agos drwy gydol y prosesau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth ein gilydd a'n bod yn datblygu'r trefniadau gorau posibl i bob un o'r pedair gwlad gartref. Felly, yn sicr, mae pethau y mae angen inni fod yn effro iddynt—ac nid wyf yn gwadu hynny am eiliad—ond nid wyf yn credu bod goblygiadau i'r Bil hwn y mae angen o reidrydd inni bryderu'n ormodol amdanynt yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I hope that Members are assured that this legislation will provide the basis for a proportionate, robust and fair regulatory system for higher education in Wales, and I look forward to working closely with Members through the next stages of the passage of the legislation.

Rwyf yn gobeithio bod yr Aelodau'n dawel eu meddyliau y bydd y ddeddfwriaeth hon yn darparu sylfaen ar gyfer system reoleiddio gymesur, gadarn a theg ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, ac edrychaf ymlaen at weithio'n agos gydag Aelodau drwy gamau nesaf taith y ddeddfwriaeth.

17:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:16 **Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Addysg Uwch (Cymru)**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Education and Skills to move the motion—Huw Lewis.

Cynnig NDM5596 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg Uwch (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Motion to agree the financial resolution in respect of the Higher Education (Wales) Bill

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynnig—Huw Lewis

Motion NDM5596 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Higher Education (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:16 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills
I move the motion. Cynigiau y cynnig.

17:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I have no speakers, therefore there is no need to reply to the debate. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36. Nid oes gennyf siaradwyr, felly nid oes angen ymateb i'r ddatl. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.
Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Dadl: Adroddiad Blynyddol 2013-14 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies, gwelliant 6 yn enw Elin Jones, a gwelliant 7 yn enw Aled Roberts.

Debate: The Equality and Human Rights Commission Wales Annual Report 2013-14

The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies, amendment 6 in the name of Elin Jones, and amendment 7 in the name of Aled Roberts.

17:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i symud y cynnig—Lesley Griffiths.
Cynnig NDM5595 Jane Hutt Motion NDM5595 Jane Hutt
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: To propose the National Assembly of Wales:
Nodi Adolygiad Blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru: 'Diogelu a Hybu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol'. Notes the Equality and Human Rights Commission Wales Annual Review 'Protecting and Promoting Equality and Human Rights'.

17:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty
I move the motion. Cynigiau y cynnig.
I am very pleased that the National Assembly is holding this debate today, allowing us to recognise the Equality and Human Rights Commission's work in 2013-14. The commission's annual review, 'Protecting and Promoting Equality and Human Rights', highlights what it has achieved in moving Wales forward to become a fair and inclusive place to live and work. Rwy'n falch iawn bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal y ddatl hon heddiw, gan ein galluogi i gydnabod gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2013-14. Mae adolygiad blynyddol y comisiwn, 'Diogelu a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol', yn tynnu sylw at yr hyn y mae wedi'i gyflawni mewn symud Cymru ymlaen i ddod yn lle teg a chynhwysol i fyw a gweithio ynddo.
The commission in Wales has a unique role as a regulator of the public sector equality duty and the Welsh-specific equality duties. They are an enabling tool for organisations to meet and demonstrate their compliance with the general equality duty and, as such, are proving to be a valuable driving force of public service improvement. The Welsh Government is dependent on the commission to monitor the Welsh-specific equality duties. Mae gan y comisiwn yng Nghymru swyddogaeth unigryw fel rheoleiddiwr dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru. Maent yn arf galluogi i sefydliadau i gyfarfod a dangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol ac, fel y cyfryw, maent yn profi i fod yn sbardun gwerthfawr ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar y comisiwn i fonitro'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru.

The commission's approach to regulation through encouraging, guiding and monitoring the public sector has proven to be effective and successful, year on year. The commission has produced updated guidance on domestic abuse workplace policies, which has supported and supplemented the work of the Welsh Government in this area. The EHRC has also launched a call for evidence regarding religion in the workplace and how it can affect individuals in using the services and facilities they need in everyday life.

The commission's equality exchange network is highly regarded by public sector equality and human rights practitioners. The commission's annual conference in June focused on a fresh approach to fairness, focusing on the links between poverty and inequality. We are all aware that particular groups are more likely to be living in poverty. These include lone parents, who are predominantly women, disabled people, families with disabled children, as well as certain ethnic minority groups. We cannot overlook the close interrelationship between poverty and the inequalities faced by people with protected characteristics. In my portfolio, through dovetailing the strategic equality plan and the tackling poverty action plan, we are continuing to strengthen the way in which a close understanding of equality issues is embedded in our thinking about poverty.

I wholly value the work that the commission has already undertaken in 2013-14 in monitoring the impact of the duties across health, local government and education. The assessments focused on a key aspect of the Welsh-specific equality duties for each sector. The outcome of this monitoring work has provided evidence of the progress achieved in tackling inequalities in Wales. The EHRC research and monitoring concluded that the public sector equality duty and the Welsh-specific duties are supporting and helping to progress equality in Wales. They are proving to be a catalyst for change. Furthermore, the duties are increasing the transparency and accountability of public sector decisions through the duty to undertake equality impact assessments.

The commission and its work have significantly supported and contributed to Wales's distinct equality path. Welsh Government, along with the Equality and Human Rights Commission, the Communities, Equality and Local Government Committee and other organisations, has publicly called for greater devolution of equality legislation, particularly the public sector equality duty. Welsh Government and the commission submitted formal responses to the Silk commission, highlighting equality as an area for further devolution.

Mae agwedd y comisiwn at reoleiddio drwy annog, arwain a monitro'r sector cyhoeddus wedi profi i fod yn effeithiol ac yn llwyddiannus, o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r comisiwn wedi cynhyrchu canllawiau wedi'u diweddarau ar bolisiau cam-drin domestig yn y gweithle, sydd wedi cefnogi ac ategu gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd wedi lansio galwad am dystiolaeth ynglŷn â chrefydd yn y gweithle a sut y gall effeithio ar unigolion wrth ddefnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt mewn bywyd bob dydd.

Mae rhwydwaith cyfnewid cydraddoldeb y comisiwn yn uchel ei barch ymhlith ymarferwyr cydraddoldeb a hawliau dynol y sector cyhoeddus. Canolbwyntiodd cynhadledd flynyddol y comisiwn ym mis Mehefin ar agwedd newydd at degwch, gan roi pwyslais ar y cysylltiadau rhwng tlodi ac anghydraddoldeb. Rydym i gyd yn ymwybodol bod grwpiau penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Mae'r rhain yn cynnwys unig rieni, sydd yn fenywod yn bennaf, pobl anabl, teuluoedd â phlant anabl, yn ogystal â rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Ni allwn anwybyddu'r gydberthynas agos rhwng tlodi a'r anghydraddoldebau a wynebir gan bobl â nodweddion gwarchoddedig. Yn fy mhortffolio i, trwy asio cynllun cydraddoldeb strategol a'r cynllun gweithredu trechu tlodi, rydym yn parhau i gryfhau'r ffordd y mae dealltwriaeth agos o faterion cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori yn ein ffordd o feddwl am dlodi.

Rwy'n gwerthfawrogi yn llwyr y gwaith y mae'r comisiwn eisoes wedi ymgymryd ag ef yn 2013-14 wrth fonitro effaith y dyletswyddau ar draws ieuchyd, llywodraeth leol ac addysg. Mae'r asesiadau yn canolbwyntio ar agwedd allweddol ar y dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru ar gyfer pob sector. Mae canlyniad y gwaith monitro hwn wedi darparu tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru. Daeth ymchwil a monitro Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r casgliad bod dyletswydd gydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r dyletswyddau sy'n benodol i Gymru yn cefnogi ac yn helpu i ddatblygu cydraddoldeb yng Nghymru. Maent yn cael eu profi i fod yn gatalydd ar gyfer newid. Ar ben hynny, mae'r dyletswyddau yn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd penderfyniadau yn y sector cyhoeddus trwy'r ddyletswydd i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r comisiwn a'i waith wedi cefnogi ac wedi cyfrannu'n sylweddol at lwybr cydraddoldeb unigryw Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a sefydliadau eraill, wedi galw yn gyhoeddus am fwy o ddatganoli ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb, yn enwedig dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru a'r comisiwn ymatebion ffurfiol i gomisiwn Silk, gan amlygu cydraddoldeb fel maes ar gyfer datganoli pellach.

Our commitment to equality was further illustrated during the Plenary debate on the Silk commission's report. The First Minister signalled that the Welsh Government would be looking to go further on equality powers than Silk recommended. The Welsh Government's own evidence called for a strengthening and clarification of devolved competence in relation to equal opportunities, which the First Minister reiterated during the opening speech of the debate.

The Welsh Government has a very positive and productive relationship with the commission, and I know that this is shared by other parties and many individual Assembly Members. This morning, I met with the director and commissioner for Wales and told them that I am committed to ensuring that the commission retains a strong and distinct presence in Wales, and continues to work closely with the Welsh Government.

To further strengthen and formalise this positive relationship, Welsh Government signed a concordat with EHRC Wales earlier this year. The concordat provides a robust framework for an effective working relationship between us. I am pleased that the commission is continuing to deliver a defined work programme in accordance with Wales's unique political, legal and social landscape.

The commission's priorities for the coming year include working with public services to ensure that the public sector equality duty achieves positive outcomes, sharpening the focus on the links between protected groups and poverty, and developing and promoting the equality evidence base, including an update to 'How fair is Wales?'

As the commission's report highlights, the public sector equality duty is working effectively in Wales, with non-devolved public authorities working in the spirit of the Welsh-specific duties, such as the police. The duty has absolutely proved to be a catalyst for change which is continuing to help embed a culture of fairness across our public services.

Our Welsh Ministers' report on equality, to be published in December, provides an overview of progress across the public sector in meeting the public sector equality duty. It also summarises the challenges experienced by the public sector, and to address these challenges the report puts forward actions that Welsh Ministers will take to co-ordinate and drive improvement across the public sector.

Cafodd ein hymrwymiad i gydraddoldeb ei ddangos ymhellach yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad comisiwn Silk. Rhoddodd y Prif Weinidog arwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych i fynd ymhellach ar bwerau cydraddoldeb na'r hyn a argymhellodd Silk. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru ei hun yn galw am gryfhau ac eglurhad o gymhwysedd datganoledig mewn cysylltiad â chyfle cyfartal, ac ailadroddwyd hyn gan y Prif Weinidog yn ystod araith agoriadol y ddadl.

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas gadarnhaol a chynhyrchiol iawn gyda'r comisiwn, a gwn fod hyn yn cael ei rannu gan bleidiau eraill a nifer o Aelodau Cynulliad unigol. Y bore yma, cyfarfûm â'r cyfarwyddwr a'r comisiynydd ar gyfer Cymru a dywedais wrthyn nhw fy mod wedi ymrwmo i sicrhau bod y comisiwn yn cadw presenoldeb cryf ac unigryw yng Nghymru, a pharhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru.

Er mwyn cryfhau ymhellach a ffurfioli'r berthynas gadarnhaol hon, mae Llywodraeth Cymru wedi llofnodi concordat gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru yn gynharach eleni. Mae'r concordat yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer perthynas waith effeithiol rhyngom ni. Rwy'n falch bod y comisiwn yn parhau i gyflwyno rhaglen waith a ddiffinnir yn unol â thirlun gwleidyddol, cyfreithiol a chymdeithasol unigryw Cymru.

Mae blaenoriaethau'r comisiwn ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan ganolbwyntio'r sylw ar y cysylltiadau rhwng grwpiau a ddiogelir a thlodi, a datblygu a hyrwyddo sylfaen dystiolaeth cydraddoldeb, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am 'Pa mor deg yw Cymru?'

Fel y mae adroddiad y comisiwn yn ei amlygu, mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru, gydag awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli yn gweithio yn ysbryd y dyletswyddau sy'n benodol i Gymru, megis yr heddlu. Mae'r ddyletswydd wedi profi'n llwyr i fod yn gatalydd ar gyfer newid sydd yn parhau i helpu i sefydlu diwylliant o degwch ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae ein hadroddiad Gweinidogion Cymru ar gydraddoldeb, sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr, yn rhoi trosolwg o gynnydd ar draws y sector cyhoeddus wrth fodloni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae hefyd yn crynhoi'r heriau a brofir gan y sector cyhoeddus, ac i fynd i'r afael â'r heriau hyn mae'r adroddiad yn cyflwyno camau gweithredu y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i gydlynu ac ysgogi gwelliant ar draws y sector cyhoeddus.

I am committed to taking action to make Wales a country where there are the same opportunities for all, and where people can live safe from fear and harm. We will achieve this through the concerted actions that we are taking to increase diversity in public life, and by tackling all forms of violence against women. I therefore support all the amendments brought forward by opposition parties today. I would like to place on record my thanks, and the Welsh Government's thanks, to the Wales Equality and Human Rights Commission and to the commissioner for Wales, Ann Beynon, for their determined work to promote, monitor, protect and enforce equality and human rights in Wales. I look forward to Members' contributions.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 17:23.

Rwyf wedi ymrwymo i gymryd camau i wneud Cymru yn wlad lle mae'r un cyfleoedd ar gael i bawb, a lle gall pobl fyw yn ddiogel oddi wrth ofn a niwed. Byddwn yn cyflawni hyn drwy'r camau gweithredu ar y cyd yr ydym yn eu cymryd i gynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus, a thrwy fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod. Felly, rwy'n cefnogi'r holl welliannau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau heddiw. Hoffwn gofnodi fy niolch, a diolch Llywodraeth Cymru, i Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ac i'r comisiynydd ar gyfer Cymru, Ann Beynon, am eu gwaith penderfynol i hyrwyddo, monitro, diogelu a gorfodi cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at gyfraniadau'r Aelodau.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 17:23.

17:23

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the seven amendments to the motion. I call on Mohammad Asghar to move amendments 1, 2, 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r Bil Caethwasiaeth Modern a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2014 sy'n cynnig y dylid cyflwyno cosbau llymach ar gyfer masnachwyr mewn pobl ac sydd â'r nod o wella sut y caiff dioddefwyr eu gwarchod.

Welcomes the Modern Slavery Bill introduced in the House of Commons on 10 June 2014 which proposes bringing in tougher penalties for human traffickers and which aims to enhance protection for victims.

Gwelliant 2—Paul Davies

Amendment 2—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r ffaith bod gorfodi rhywun i briodi yn erbyn ei ewyllys yn awr yn drosedd.

Welcomes the fact that forcing someone to marry against their will is now a criminal offence.

Gwelliant 3—Paul Davies

Amendment 3—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob ysgol aelod hyfforddedig o staff sydd â'r arbenigedd i adnabod plant sy'n dangos arwyddion o fod yn dystion i gam-drin domestig.

Calls on the Welsh Government to ensure each school has a trained member of staff with the expertise to recognise children who show signs of having witnessed domestic abuse.

Gwelliant 4—Paul Davies

Amendment 4—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i atal anffurfio organau cenhedlu benywod.

Requests the Welsh Government to take action to stop the practice of Female Genital Mutilation.

Gwelliant 5—Paul Davies

Amendment 5—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran cael menywod i swyddi o awdurdod a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Regrets that little progress has been made in getting women into positions of power and influence in Wales in the last ten years.

17:23

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendments 1, 2, 3, 4 and 5.

Cynigiad welliannau 1, 2, 3, 4 a 5.

I am grateful for the opportunity to speak today on the Equality and Human Rights Commission's report on protecting and promoting equality and human rights in Wales. I would like to begin my remarks by addressing a subject that is an appalling breach of human rights: modern slavery. It is a crime that damages too many people's lives. It is a global crime covering human trafficking, slavery, forced labour and domestic servitude.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gael siarad heddiw ar adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Hoffwn ddechrau fy sylwadau drwy fynd i'r afael â phwnc sydd yn doriad erchyll ar hawliau dynol: caethwasiaeth modern. Mae'n drosedd sy'n niweidio bywydau gormod o bobl. Mae'n drosedd fyd-eang sy'n cynnwys masnachu pobl, caethwasiaeth, llafur gorfodol a chaethwasanaeth domestig.

The recent news report that many slaves in Wales were working in farmhouses and in other areas gives an appalling picture of our society, and the image that we are giving to the world is not very nice at all. This information is only the tip of the iceberg of the situation around us, so we must do something about it, Minister. I am sure that this Assembly will welcome the measures contained in the Modern Slavery Bill. We in Wales must do all that we can to raise awareness of slavery and human trafficking. We should get rid of this appalling crime from Wales, and I call on the Welsh Government to work with local authorities, the police, charities and other organisations to achieve this aim ASAP.

Mae'r adroddiad newyddion diweddar bod llawer o gaethweision yng Nghymru yn gweithio mewn ffermdai ac mewn meysydd eraill yn rhoi darlun erchyll o'n cymdeithas, ac nid yw'r ddelwedd yr ydym yn ei rhoi i'r byd yn neis iawn o gwbl. Nid yw'r wybodaeth hon ond yn crafu wyneb y sefyllfa o'n cwmpas, felly mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth am y peth, Weinidog. Rwy'n siŵr y bydd y Cynulliad hwn yn croesawu'r mesurau a gynhwysir yn y Bil Caethwasiaeth Modern. Mae'n rhaid i ni yng Nghymru wneud popeth yn ein gallu i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth a masnachu pobl. Dylem gael gwared ar y drosedd ofnadwy hon o Gymru, ac rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu, elusennau a sefydliadau eraill i gyflawni'r nod hwn cyn gynted â phosib.

The rights of women and girls to be protected from exploitation must be a priority of this Government. I urge the Welsh Government to tackle this abhorrent practice by making victims aware of the help available and by training people to spot the signs of forced marriages, also. That is another area, Minister, at which we have to look very seriously. Forced marriages are also undetected and unreported in Wales. We must send a clear message that forced marriage will not be tolerated in Wales and the United Kingdom. Far too many women and girls have to endure domestic violence, sexual violence, intimidation and maltreatment, and that is not acceptable in civilised society.

Mae'n rhaid i hawliau menywod a merched i gael eu hamddiffyn rhag cam-fanteisio, fod yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth hon. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r arfer ffaidd hwn drwy wneud dioddefwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael a thrwy hyfforddi pobl i adnabod arwyddion o briodasau dan orfod, hefyd. Dyna faes arall, Weinidog, y mae'n rhaid inni edrych yn ddifrifol iawn arno. Mae priodasau dan orfod hefyd heb eu canfod a heb eu hadrodd yng Nghymru. Mae'n rhaid inni anfon neges glir na fydd priodasau dan orfod yn cael eu goddef yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae llawer gormod o fenywod a merched yn gorfod dioddef trais domestig, trais rhywiol, bygwth a chamdriniaeth, ac nid yw hynny'n dderbyniol mewn cymdeithas wâr.

Domestic abuse is not just physical; it can also take the form of emotional attacks and controlling behaviour. Again, it is likely that official figures of domestic abuse are underreported. Women make up two thirds of public sector employees. It is clear that effective implementation of workplace policies in the public sector, to identify and support victims of domestic abuse, is essential and very important in this part of the world.

Nid yw cam-drin domestig yn gorfforol yn unig; gall hefyd fod ar ffurf ymosodiadau emosiynol ac ymddygiad rheoli. Unwaith eto, mae'n annhebygol bod ffigurau swyddogol o gam-drin yn y cartref yn cael eu hadrodd yn llawn. Mae menywod yn cyfrif am ddwy ran o dair o weithwyr y sector cyhoeddus. Mae'n amlwg bod gweithredu polisiau effeithiol yn y gweithle yn y sector cyhoeddus, i nodi a chefnogi dioddefwyr cam-drin domestig, yn hanfodol ac yn bwysig iawn yn y rhan hon o'r byd.

The Wales Violence Against Women Action Group has called for compulsory initiatives in schools to prevent violence against women. Schools should have a fully trained member of staff with the expertise to recognise children who exhibit the damaging signs of having witnessed domestic abuse, to provide support to those children. I look forward to the Minister's comment on this issue, also.

Another form of violence against girls and women is female genital mutilation. It is estimated that 65,000 girls aged 13 and under are at risk of female genital mutilation in the United Kingdom. Minister, this is an appalling figure and you must do something, again, as soon as possible, at least within this Assembly tenure, to make sure that this never happens in this country. Greater awareness, information and training are essential. I call on the Minister to consider what positive action can be taken in Wales to stop this barbaric practice.

In March, the Equality and Human Rights Commission reported that almost no progress has been made in getting women into positions of power and influence in Wales over the last 10 years. A survey of the top-100 businesses operating in Wales found that just 2% of heads of departments, or heads of companies, are women. When we include underrepresented groups such as ethnic minorities and disabled people, it is clear that we face a major challenge to ensure that decision making reflects the diversity of Wales. The commission has called for strong measures to be adopted to speed up the pace of change. I would like to ask the Minister, in her reply, to outline her plan to promote more women into positions of power in Wales. In conclusion, I thank the commission for the report, and for its hard work and commitment to increasing equality and human rights in Wales.

Mae Grŵp Gweithredu Trais yn Erbyn Menywod Cymru wedi galw am fentrau gorfodol mewn ysgolion i atal trais yn erbyn menywod. Dylai fod gan ysgolion aelod o staff wedi'i hyfforddi'n llawn sydd â'r arbenigedd i allu sylwi ar blant sy'n arddangos yr arwyddion niweidiol o fod yn cam-drin domestig, i roi cymorth i'r plant hynny. Edrychaf ymlaen at sylw'r Gweinidog ar y mater hwn, hefyd.

Math arall o drais yn erbyn merched a menywod yw anffurfio organau cenhedlu benywod. Amcangyfrifir bod 65,000 o ferched 13 oed ac iau mewn perygl o anffurfio organau cenhedlu benywod yn y Deyrnas Unedig. Weinidog, mae hwn yn ffigwr erchyll ac mae'n rhaid i chi wneud rhywbeth, unwaith eto, cyn gynted ag y bo modd, o leiaf o fewn deiliadaeth y Cynulliad hwn, i wneud yn siŵr nad yw hyn byth yn digwydd yn y wlad hon. Mae mwy o ymwybyddiaeth, gwybodaeth a hyfforddiant yn hanfodol. Galwaf ar y Gweinidog i ystyried pa gamau cadarnhaol y gellir eu cymryd yng Nghymru i atal yr arfer barbaraidd hwn.

Ym mis Mawrth, adroddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol na wnaed bron dim cynnydd o ran cael menywod i swyddi o awdurdod a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Canfu arolwg o'r 100 busnes uchaf sy'n gweithredu yng Nghymru mai dim ond 2% o benaethiaid adrannau, neu benaethiaid cwmnïau, sy'n fenywod. Pan fyddwn ni'n cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol megis lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, mae'n amlwg ein bod yn wynebu her fawr i sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru. Mae'r comisiwn wedi galw am fesurau cryf i gael eu mabwysiadu i gyflymu cyflymder y newid. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog, yn ei hymateb, i amlinellu ei chynllun i hyrwyddo mwy o fenywod i swyddi o awdurdod yng Nghymru. Wrth gloi, hoffwn ddiolch i'r comisiwn am yr adroddiad, ac am ei waith caled a'i ymrwymiad i gynyddu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

17:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Lindsay Whittle to move amendment 6, tabled in the name of Elin Jones.

Gwelliant 6—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod parhau i fod yn llofnodwr i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o fudd i Gymru.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnal gwelliant 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Amendment 6—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Believes that continuing to be a signatory to the European Convention of Human Rights is in the interests of Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:29

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 6.

May I say that my party will be supporting all of the amendments, with the exception of amendment 1? We do support amendment 1, of course, in principle, but we would merely like to see more detail at this stage.

Cynigiaf welliant 6.

A gaf fi ddweud y bydd fy mhlaidd i yn cefnogi'r holl welliannau, ac eithrio gwelliant 1? Rydym yn cefnogi gwelliant 1, wrth gwrs, mewn egwyddor, ond byddem yn hoffi gweld mwy o fanylion ar y cam hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is of course timely to have a debate on equality and human rights; timely, because, once again, those of us who believe in the concept of human rights are finding ourselves in a position of having to constantly defend that very concept. I have to say that it does not reflect well on the political culture of the United Kingdom as a whole that one of the two mainstream parties now threatens the UK with withdrawing from an institution that we entered with the encouragement of Winston Churchill. How times have changed. Far be it for me to suggest that, perhaps, one of the reasons for the hostility towards the convention is the fact that the European courts regularly found against the UK Government in the 1980s and 1990s.

It was a time, of course, when the Conservative party was still very proud of section 28, and a time when the judicial system was discovering just how many miscarriages of justice had occurred in the 1970s and 1980s because of the inability to protect the rights of those accused of serious crimes—serious crimes that, in fact, many people were jailed for who were totally innocent. In Cardiff, we have many examples of that.

Indeed, if you look at many of its rulings now, they are things that we take for granted as essential rights of the citizen: the right to visit children in care, the right to have representation for appeals against criminal convictions, and, perhaps ironically, given the ideological views of the Government at the time, the right to not have to join a trade union. Indeed, with its threats to leave the ECHR, the Conservative party finds itself lining up alongside Belarus and Kazakhstan, and even going further than Vladimir Putin, who has not even threatened to withdraw Russia from the ECHR. It is somewhat ironic that the Conservatives have tabled a series of amendments to this motion calling for better protection for women against female genital mutilation and forced marriage and for more representation of women in top jobs. It is ironic because that party would, with its threats, withdraw Wales via the UK from an institution that has done more to promote human rights throughout Europe than any of their Governments have.

However, let us not forget that the Labour party's record on human rights is not quite the gold standard that it would have us believe. When previously in power in Westminster, its attempts to appease the right-wing press on immigration led to young children, yes, children, being locked up in adult secure units, yes, adult jails, while waiting for their immigration cases to be looked at. It led to the phrase 'no recourse to public funds' becoming the reason why Amnesty International wrote an extremely critical report of the Labour Government in 2008 concerning the UK Government's inability to protect women in abusive relationships, because of those strict rules on no recourse to public funds. For shame.

Wrth gwrs, mae'n amserol i gael dadl ar gydraddoldeb a hawliau dynol; yn amserol, oherwydd, unwaith eto, mae'r rhai ohonom sy'n credu yn y cysyniad o hawliau dynol yn ein canfod ein hunain mewn sefyllfa o orfod amddiffyn yr union gysyniad hwnnw yn gyson. Mae'n rhaid i mi ddweud nad yw'n adlewyrchu'n dda ar ddiwylliant gwleidyddol y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd bod un o'r ddwy blaid brif ffrwd erbyn hyn yn bygwth y DU gyda thynnu'n ôl o sefydliad yr aethom i mewn iddo gydag anogaeth Winston Churchill. Mae'r oes wedi newid yn helaeth. Nid fy lle i yw awgrymu, efallai, mai un o'r rhesymau dros yr elyniaeth tuag at y confensiwn yw'r ffaith bod y llysoedd Ewropeaidd wedi barnu'n rheolaidd yn erbyn Llywodraeth y DU yn y 1980au a'r 1990au.

Roedd yn gyfnod, wrth gwrs, pan oedd y blaid Geidwadol yn dal i fod yn falch iawn o adran 28, ac yn adeg pan oedd y system farnwrol yn darganfod yn union faint o gamweddau cyfiawnder oedd wedi digwydd yn y 1970au a'r 1980au oherwydd yr anallu i ddiogelu hawliau'r rhai a gyhuddwyd o droseddau difrifol—troseddau difrifol, mewn gwirionedd, a olygai fod llawer o bobl wedi eu carcharu amdanynt a hwythau yn gwbl ddiuog. Yng Nghaerdydd, mae gennym lawer o enghreifftiau o hynny.

Yn wir, os edrychwch ar nifer o'i ddyfarniadau yn awr, maent yn bethau yr ydym yn eu cymryd yn ganiataol fel hawliau hanfodol y dinesydd: yr hawl i ymweld â phlant mewn gofal, yr hawl i gael cynrychiolaeth ar gyfer apeliadau yn erbyn colffarnau troseddol, ac, efallai yn eironig, o gofio barn ideolegol y Llywodraeth ar y pryd, yr hawl i beidio â gorfod ymuno ag undeb llafur. Yn wir, gyda'i bygythiadau i adael y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r blaid Geidwadol yn canfod ei hun yn sefyll ochr yn ochr â Belarws a Kazakhstan, a hyd yn oed yn mynd ymhellach na Vladimir Putin, nad yw hyd yn oed wedi bygwth tynnu Rwsia allan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'n eironig braidd fod y Ceidwadwyr wedi cyflwyno cyfres o welliannau i'r cynnig hwn yn galw am well amddiffyniad i fenywod rhag anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodasau dan orfod ac am fwy o gynrychiolaeth menywod yn y swyddi gorau. Mae'n eironig oherwydd byddai'r blaid honno, gyda'i bygythiadau, yn tynnu Cymru trwy'r DU o sefydliad sydd wedi gwneud mwy i hyrwyddo hawliau dynol ledled Ewrop nag y mae unrhyw un o'u Llywodraethau wedi'i wneud.

Fodd bynnag, gadewch inni beidio ag anghofio nad yw hanes y blaid Lafur ar hawliau dynol y safon aur y byddai'n dymuno i ni ei gredu. Pan oedd mewn grym yn flaenorol yn San Steffan, ei hymdrechion i dawelu'r wasg adain dde ar fewnfudo arweiniodd at blant ifanc, ie, plant, i gael eu cloi mewn unedau diogel i oedolion, ie, carchardai i oedolion, tra eu bod yn aros am archwiliad i'w hachosion mewnfudo. Arweiniodd at weld yr ymadrodd 'dim hawl i gael arian cyhoeddus' yn dod yn rheswm pam yr ysgrifennodd Amnest Rhyngwladol adroddiad hynod feirniadol o'r Llywodraeth Lafur yn 2008 ynghylch anallu Llywodraeth y DU i ddiogelu menywod mewn perthnasoedd camdriniol, oherwydd y rheolau llym hynny ar ddim hawl i arian cyhoeddus. Rhag cywilydd.

The value of the ECHR is as clear as ever. It remains there to protect the vulnerable from the abuses of the state; it remains there to remind us of the atrocities of the second world war and, in particular, the commitment made by the countries of Europe, following the second world war, to never ever again allow state power to go unchecked, and to protect Europe's minorities.

Let me reiterate how the European Convention on Human Rights has served the United Kingdom well in protecting the rights of often vulnerable and exploited individuals. I for one am particularly glad—in fact, I am proud—that Wales is focusing on how to tackle inequality and promote human rights rather than merely debating whether Governments should have a role in tackling inequality and human rights. I am very pleased and proud to take part in this debate here today.

Mae gwerth y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mor glir ag erioed. Mae'n parhau i fod yno i amddiffyn pobl agored i niwed rhag camdriniaethau'r wladwriaeth; mae'n parhau i fod yno i'n hatgoffa o erchyllterau'r ail ryfel byd ac, yn enwedig, yr ymrwymiad a wnaed gan wledydd Ewrop, yn dilyn yr ail ryfel byd, i fyth fyth eto ganiatáu i rym gwladwriaeth weithredu'n ddiatal, ac i ddiogelu lleiafrifoedd Ewrop .

Gadewch i mi ailadrodd sut mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi gwasanaethu'r Deyrnas Unedig yn dda wrth amddiffyn hawliau unigolion sy'n aml yn agored i niwed ac y camfanteisir arnynt. Rwyf i'n arbennig o falch—yn wir, rwy'n ymfalchïo—bod Cymru'n canolbwyntio ar sut i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo hawliau dynol yn hytrach na dim ond trafod a ddylai fod gan lywodraethau swyddogaeth wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hawliau dynol. Rwy'n fodlon iawn ac yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon yma heddiw.

17:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Peter Black to move amendment 7 tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnis gwelliant 7 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 7—Aled Roberts

Amendment 7—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnis:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r rôl sylfaenol y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei chwarae wrth ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Welcomes the fundamental role that the Human Rights Act & the European Convention on Human Rights play in protecting and promoting equality and human rights in Wales.

17:33

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 7.

Cynigiaf welliant 7.

I very much welcome the Equality and Human Rights Commission's annual report and support the priorities that are set out in it. I start by noting that it particularly explores inequality and poverty in education and I very much want to reference the link between poverty and educational attainment, which we have already discussed in this Chamber today—at least twice from memory. Certainly, that is a priority of the Welsh Liberal Democrats, as evidenced by the pupil deprivation grant, which has, of course, now been renewed for a further two years. Certainly, that will help to deal with deprivation and the impact of deprivation, because it was quite clear that those pupils eligible for school meals, as the evidence shows, are two and a half times less likely to achieve grades A* to C in their core subjects than their peers. Certainly, the extra investment in that particular cohort will have a huge benefit in terms of helping them to reach their potential. I very much welcome the fact that not only have we extended the pupil deprivation grant for two years, but also, we have, effectively, introduced it for the under-fives as well, meaning that we can make a start very early on in terms of helping pupils to reach their potential.

Rwy'n croesawu adroddiad blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn fawr iawn ac yn cefnogi'r blaenoriaethau a nodir ynddo. Dechreuaf drwy nodi ei fod yn arbennig yn archwilio anghydraddoldeb a thlodi mewn addysg ac rwyf wir yn dymuno cyfeirio at y cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol, yr ydym eisoes wedi ei drafod yn y Siambr hon heddiw—o leiaf ddwywaith i mi gofio. Yn sicr, mae hynny'n flaenoriaeth i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, fel y dangosir gan y grant amddifadedd disgyblion, sydd, wrth gwrs, bellach wedi ei adnewyddu am ddwy flynedd arall. Yn sicr, bydd yn helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd ac effaith amddifadedd, gan ei bod yn dra amlwg bod y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol, fel y mae'r dystiolaeth yn dangos, ddwywaith a hanner yn llai tebygol o gyflawni graddau A* i C yn eu pynciau craidd o'u cymharu â'u cyfoedion. Yn sicr, bydd y buddsoddiad ychwanegol yn y garfan benodol honno o fudd enfawr o ran eu helpu i gyrraedd eu potensial. Rwy'n croesawu'n fawr iawn y ffaith ein bod nid yn unig wedi ymestyn y grant amddifadedd disgyblion am ddwy flynedd, ond hefyd, rydym, mewn gwirionedd, wedi'i gyflwyno ar gyfer plant dan bump yn ogystal, sy'n golygu ein bod yn gallu dechrau'n gynnar iawn o ran helpu disgyblion i gyrraedd eu potensial.

In terms of the amendments that have been tabled here, the Welsh Liberal Democrats will be supporting all of them. I think it is quite evident from the amendments that the Conservatives have tabled that actually, there are two Conservative parties, because the Welsh Conservative party has tabled amendments that we are more than happy to support in terms of human trafficking, in terms of female genital mutilation, and in terms of other matters, such as helping to get women into positions of power, all of which, of course, are priorities of the coalition Government in the United Kingdom. Yet, at the same time, as has just been pointed out, the other Conservative party—presumably, the Conservative party that is not in this Chamber today—wants to abolish the Human Rights Act 1998 and questions our membership of the European Convention on Human Rights.

Our amendment is slightly different from that tabled by Plaid Cymru, because we also refer to the Human Rights Act, which was, of course, introduced so that citizens of the United Kingdom did not have to keep going to the European courts to assert their rights but could do that in the British courts first, and thus make it easier and not as expensive to defend their rights. What sort of rights are we standing up for? We are not standing up for abstract rights; we are actually standing up for people's basic human rights—the basic rights of freedom of speech and freedom of expression, and the right not to have their privacy impinged upon by the state, very much, in fact, like what happened to the journalists of 'The Sun' recently, who suddenly found that the Government was using the Regulation of Investigatory Powers Act 2000 to get hold of private documents. Despite the fact that 'The Sun' is opposed to the Human Rights Act, it went to court and used it to defend its own journalists. I think that that sums up not just the value of the Human Rights Act, but also how the people who are opposed to it do not fully understand, I think, what their opposition means in terms of their own position.

If we look at the Conservatives' position on the Human Rights Act, and look to the comments by Dominic Grieve, a former Attorney-General responsible for this particular issue, he says that the Conservative position on this is dysfunctional and that they have a misunderstanding of what the European Court of Human Rights does. He says of the Conservatives' paper on this:

'One howler is...where it says that the court of Human Rights in Strasbourg has prevented the imposition of whole life tariffs on whole life tariff sentence prisoners in this country.

'It hasn't. Its judgment never said that.'

He carries on to talk about a whole range of factual inaccuracies in the paper that the Conservative party produced in terms of trying to pull this country out of the Human Rights Act.

O ran y gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno yma, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi pob un ohonynt. Rwy'n credu ei fod yn eithaf amlwg o'r gwelliannau y mae'r Ceidwadwyr wedi'u cyflwyno bod mewn gwirionedd, dwy Blaid Geidwadol, gan fod y blaid Geidwadol Gymreig wedi cyflwyno gwelliannau yr ydym yn fwy na pharod i'w cefnogi o ran masnachu pobl, o ran anffurfio organau cenhedlu benywod, ac o ran materion eraill, megis helpu i gael menywod i swyddi o awdurdod, pob un ohonynt, wrth gwrs, yn flaenoriaethau Llywodraeth y glymblaid yn y Deyrnas Unedig. Ond, ar yr un pryd, fel y nodwyd gynnau, mae'r blaid Geidwadol arall—yn ôl pob tebyg, y blaid Geidwadol nad yw yn y Siambr hon heddiw—yn dymuno diddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 ac yn cwestiynu ein haelodaeth o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae ein gwelliant ychydig yn wahanol i'r hyn a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, gan ein bod hefyd yn cyfeirio at y Ddeddf Hawliau Dynol, a gyflwynwyd, wrth gwrs, fel nad oedd yn rhaid i ddinasyddion y Deyrnas Unedig ddal i fynd i'r llysoedd Ewropeaidd i fynnu eu hawliau ond eu bod yn gallu gwneud hynny yn llysoedd Prydain yn gyntaf, ac felly yn ei gwneud yn haws ac nid mor ddud i amddiffyn eu hawliau. Pa fath o hawliau yr ydym ni'n sefyll drostynt? Nid ydym yn sefyll dros hawliau haniaethol; rydym mewn gwirionedd yn sefyll dros hawliau dynol sylfaenol pobl—hawliau sylfaenol rhyddid barn a rhyddid mynegiant, a'r hawl i beidio â chael eu preifatrwydd wedi'i amharu gan y wladwriaeth, yn union, mewn gwirionedd, fel y digwyddodd i'r newyddiadurwyr o 'The Sun' yn ddiweddar, a sylweddolodd yn sydyn fod y Llywodraeth yn defnyddio Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 i gael gafael ar ddogfennau preifat. Er gwaethaf y ffaith bod 'The Sun' yn gwrthwynebu'r Ddeddf Hawliau Dynol, aeth i'r llys a'i defnyddio i amddiffyn ei newyddiadurwyr ei hun. Rwy'n meddwl bod hynny'n crynhoi nid dim ond gwerth y Ddeddf Hawliau Dynol, ond hefyd y ffaith nad yw'r bobl sy'n ei gwrthwynebu yn deall yn llawn, yn fy marn i, beth mae eu gwrthwynebiad yn ei olygu o ran eu sefyllfa hwy eu hunain.

Os ydym yn edrych ar safbwynt y Ceidwadwyr ar y Ddeddf Hawliau Dynol, ac yn edrych ar y sylwadau gan Dominic Grieve, cyn Dwrnai Cyffredinol a oedd yn gyfrifol am y mater penodol hwn, mae'n dweud bod safbwynt y Ceidwadwyr ar hyn yn gamweithredol a bod ganddynt gamddealltwriaeth o'r hyn y mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn ei wneud. Mae'n dweud am bapur y Ceidwadwyr ar hyn:

Un camgymeriad enbyd yw ... lle mae'n dweud bod y Llys Hawliau Dynol yn Strasbourg wedi atal gosod tariffau oes gyfan ar garcharorion tariff dedfryd oes gyfan yn y wlad hon.

Nid yw wedi gwneud hynny. Ni wnaeth ei ddyfarniad erioed ddweud hynny.

Mae'n mynd ymlaen i siarad am amrywiaeth eang o anghywirdebau ffeithiol yn y papur a gynhyrchodd y blaid Geidwadol o ran ceisio tynnu'r wlad hon allan o'r Ddeddf Hawliau Dynol.

I am proud that, as Liberal Democrats, we support this Act, and we are continuing to support this Act; we want to stay in it. We also have to take into account the implications of abolishing the Human Rights Act in terms of devolution, which the Conservative party does not appear to have tackled.

I will conclude, if I may, by referencing the Conservative amendment on female genital mutilation and point out that a lot of the Conservative amendments are, hopefully, going to be picked up in the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill. I think that that Bill is not yet fit for purpose and will need amendment to deal some of those issues, but the potential is there for us as an Assembly to legislate on it. However, certainly, it is a key commitment of the Westminster Government's 'A Call to End Violence against Women and Girls' action plan. There is a new poster campaign that is being launched in Westminster that urges mothers and carers who suspect that a girl in the community is at risk of FGM to call the NSPCC's free dedicated helpline for advice and support.

17:38

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

I very much welcome the report and also the debate, and, in particular, the amendments that make specific reference to the convention on human rights and to Labour's Human Rights Act, which I see very much as one of the jewels in the crown of the last Labour Government. So, it is an opportunity to talk a little bit about that, because it is quite fundamental to the sort of society that we live in and the sort of future that we want for not only Wales but the rest of the United Kingdom, because what it is about is setting the highest standards of civil liberties and human rights, and taking that stand in Europe and in the world. Any suggestion that we could withdraw from the European Convention on Human Rights or abolish the Human Rights Act would be one of the gravest threats to the reputation of the United Kingdom in terms of its international standing.

Part of the problem is, of course, that this is more about internal Conservative party politics and how it positions itself in a Europhobic battle with the UK Independence Party rather than a matter of fundamental principles for the future of this country. There is absolutely no doubt that the European convention and the Human Rights Act have made a major contribution not only to the UK but in terms of standards across Europe. Peter made the very important point that what the Human Rights Act does is, basically, give people access to the human rights entitlements of the European convention in British courts. All it does is enshrine human rights in the convention that we are signed up to in the European court. To abolish it basically means that only those who can afford to do so can actually get those human rights in Europe.

Rwy'n falch, fel Democratiaid Rhyddfrydol, ein bod yn cefnogi'r Ddeddf hon, ac rydym yn parhau i gefnogi'r Ddeddf hon; rydym am aros ynddi. Rhaid i ni hefyd ystyried goblygiadau diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn nhermau datganoli, nad yw'n ymddangos bod y blaid Geidwadol wedi ei ystyried.

Rwyf am gloi, os caf, trwy gyfeirio at welliant y Ceidwadwyr ar anffurfio organau cenedlu benywod a nodi bod llawer o welliannau'r Ceidwadwyr, gobeithio, yn mynd i gael eu codi yn y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Rwyf o'r farn nad yw'r Bil hwnnw eto'n addas i'w ddiben a bydd angen ei ddiwygio i ymdrin â rhai o'r materion hynny, ond mae'r potensial yno i ni fel Cynulliad ddeddfu yn ei gylch. Fodd bynnag, yn sicr, mae'n ymrwymiad allweddol o gynllun gweithredu 'Galwad i Roi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Merched' Llywodraeth San Steffan. Mae ymgyrch poster newydd sy'n cael ei lansio yn San Steffan sy'n annog mamau a gofalywyr sy'n amau bod merch yn y gymuned mewn perygl o anffurfio organau cenedlu i alw llinell gymorth bwrpasol rad ac am ddim yr NSPCC i gael cyngor a chymorth.

Rwy'n croesawu'n fawr yr adroddiad a hefyd y ddatl, ac, yn enwedig, y gwelliannau sy'n cyfeirio'n benodol at y confensiwn ar hawliau dynol ac at Ddeddf Hawliau Dynol y blaid Lafur, yr wyf yn ei hystyried yn un o'r tlysau yng nghoron y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Felly, mae'n gyfle i siarad ychydig am hynny, oherwydd ei fod yn dra sylfaenol i'r math o gymdeithas yr ydym yn byw ynddi a'r math o ddyfodol yr ydym am ei gael nid yn unig i Gymru, ond i weddill y Deyrnas Unedig, oherwydd yr hyn y mae'n ymwneud ag ef yw gosod y safonau uchaf o ryddid sifil a hawliau dynol, a chymryd y safiad hwnnw yn Ewrop ac yn y byd. Byddai unrhyw awgrym y gallem dynnu allan o'r Confensiwn Ewropeidd ar Hawliau Dynol neu ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn un o'r byggythiadau mwyaf difrifol i enw da y Deyrnas Unedig o ran ei statws rhyngwladol.

Rhan o'r broblem, wrth gwrs, yw bod hyn yn ymwneud yn fwy â gwleidyddiaeth fewnol y blaid Geidwadol a sut y mae'n gosod ei hun mewn brwydr Euroffobig gyda Phlaid Annibyniaeth y DU yn hytrach na mater o egwyddorion sylfaenol i ddyfodol y wlad hon. Nid oes amheuaeth bod y confensiwn Ewropeidd a'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi gwneud cyfraniad mawr, nid yn unig i'r DU ond o ran safonau ar draws Ewrop. Gwnaeth Peter bwynt pwysig iawn mai'r hyn y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei wneud, yn y bôn, yw rhoi cyfle i bobl gael mynediad at hawliau dynol y confensiwn Ewropeidd yn llysoedd Prydain. Y cyfan y mae'n ei wneud yw ymgorffori hawliau dynol yn y confensiwn yr ydym wedi ymrwymo iddo yn llys Ewrop. Mae ei dileu yn y bôn yn golygu mai dim ond y rhai sy'n gallu fforddio gwneud hynny fydd yn cael yr hawliau dynol hynny yn Ewrop mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am very impressed by the contribution that has been made by Dominic Grieve QC, the former Attorney-General. He has written quite widely on this, and I think that it is well worth listening to some of the points that he has made. He has written very carefully about European jurisprudence and the impact, legally, to Britain's standing were we to withdraw. I hope that out of today's debate will come complete unity in this Chamber, from all sides. I know that it is perhaps more difficult for those on the Conservative side, but there are many Conservatives who have stood up and said, 'Look, quite frankly, this is just wrong. This is not only bad politics; it is not only flawed, but it is a road that we cannot afford to go down'. What Dominic Grieve said was that the European court, on a daily basis, is producing decisions of great importance in improving human rights in Europe. He said that the Chris Grayling paper contains

'a number of howlers which are simply factually inaccurate.'

He said that the proposals

'are unworkable and will damage the UK's international reputation.'

and that:

'The ECHR was designed to set a standard for the behaviour of states towards their citizens which would prevent the re-emergence of totalitarianism and tyranny'.

Gwnaed argraff fawr arnaf gan y cyfraniad a wnaed gan Dominic Grieve QC, y cyn Dwrnai Cyffredinol. Mae wedi ysgrifennu yn eithaf eang ar hyn, ac rwy'n meddwl ei bod yn werth gwrandao ar rai o'r pwyntiau y mae wedi'u gwneud. Mae wedi ysgrifennu yn ofalus iawn am gyfreitheg Ewropeaidd a'r effaith, yn gyfreithiol, ar sefyllfa Prydain pe byddem yn tynnu'n ôl. Rwy'n gobeithio, allan o ddadl heddiw, y daw undod cyflawn yn y Siambr hon, o bob ochr. Gwn ei bod yn fwy anodd efallai i'r rhai ar yr ochr Geidwadol, ond mae llawer o Geidwadwyr sydd wedi sefyll i fyny a dweud, 'Edrychwch, a dweud y gwir, nid yw hyn yn iawn. Mae hyn nid yn unig yn wleidyddiaeth wael; nid yn unig ei bod yn ddiffygiol, ond mae'n ffordd na allwn fforddio mynd arni'. Yr hyn a ddywedodd Dominic Grieve oedd bod y llys Ewropeaidd, yn ddyddiol, yn cynhyrchu penderfyniadau o bwys mawr wrth wella hawliau dynol yn Ewrop. Dywedodd fod papur Chris Grayling yn cynnwys

nifer o gamgymeriadau enbyd sydd yn syml, yn ffeithiol anghywir.

Dywedodd fod y cynigion

yn anymarferol ac yn niweidio enw da rhyngwladol y DU.

a bod:

Siarter Hawliau Dynol Europe wedi ei gynllunio i osod safon ar gyfer ymddygiad gwladwriaethau tuag at eu dinasyddion a fyddai'n atal ail-ymddangosiad totalitariaeth a gormes.

As part of the considerations by the coalition Government of the issue of a Bill of rights, one of the members of the commission on that, Professor Philippe Sands QC, said that the proposals are, effectively, a recipe for lawlessness, a return to the rights of the free world of the 1930s, and a shameful day for Britain and the rule of law. In many ways, this issue goes well beyond party politics; it goes back to the founding principles and values after the second world war that were to establish that, basically, there had to be a level at which Governments were accountable; there had to be a standard of rights that Governments had to implement. It ill behoves any Government to turn around, when you talk about those rights, and say, 'Ah, yes, but, because we don't like this decision' or, 'Because we don't like that particular decision, but we're okay with this decision', and so on. You cannot cherry-pick with human rights. Sometimes there will be decisions that go against us. Let us look at the decisions, which were criticised—this is before the Human Rights Act—torture with the British Army in Northern Ireland, but a very, very important decision; thalidomide, which may never have got off the ground had it not been for the European Convention on Human Rights; and, more recently, gay rights. There are many others on various issues that arise from time to time. I would hope that, out of this debate today, what we have is a reassertion in an absolutely unanimous way of our fundamental commitment to those principles, and that that message will go out to those debates, when they do take place, of those who seek to undermine all that we have achieved in terms of the status of the UK in Europe and in the world on human rights, because any attempt to move away from the standing that we have, to me, will be something that will be welcomed only by those who want to pick and choose human rights and those who want to operate totalitarian and tyrannical regimes in Europe or in the rest of the world.

Yn rhan o'r ystyriaethau gan y Llywodraeth glymblaid o gyhoeddi Bil hawliau, dywedodd un o aelodau'r comisiwn ar hynny, yr Athro Philippe Sands QC, fod y cynigion, i bob pwrpas, yn rysâit ar gyfer anhrefn, a dychwelyd at hawliau byd rhydd y 1930au, a diwrnod cywilyddus i Brydain a rheolaeth y gyfraith. Mewn sawl ffordd, mae'r mater hwn yn mynd ymhell y tu hwnt i wleidyddiaeth pleidiol; mae'n mynd yn ôl at yr egwyddorion a'r gwerthoedd sylfaenol ar ôl yr ail ryfel byd a oedd i sefydlu, yn y bôn, bod yn rhaid bod lefel lle'r oedd llywodraethau yn atebol; bod yn rhaid cael safon o hawliau yr oedd yn rhaid i Lywodraethau ei gweithredu. Ni ddylai unrhyw Lywodraeth droi, pan fyddwch yn siarad am yr hawliau hynny, a dweud, 'Ah, ie, ond, gan nad ydym yn hoffi'r penderfyniad hwn' neu, 'Gan nad ydym yn hoffi'r penderfyniad penodol hwnnw, ond rydym yn iawn â'r penderfyniad hwn', ac yn y blaen. Ni allwch ddewis o ran hawliau dynol. Weithiau bydd penderfyniadau yn mynd yn ein herbryn. Gadewch inni edrych ar y penderfyniadau, a gafodd eu beirniadu—roedd hyn cyn y Ddeddf Hawliau Dynol—artaith gyda'r Fyddin Brydeinig yng Ngogledd Iwerddon, ond penderfyniad pwysig iawn iawn; thalidomid, na fyddai byth efallai wedi cychwyn oni bai am y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; ac, yn fwy diweddar, hawliau hoyw. Mae llawer o rai eraill ar wahanol faterion sy'n codi o bryd i'w gilydd. Byddwn yn gobeithio, allan o'r ddaid hon heddiw, mai'r hwn sydd gennym yw ailddatganiad mewn ffordd gwbl unfrydol o'n hymrwymiad sylfaenol i'r egwyddorion hynny, ac y bydd y neges yn mynd allan i'r dadleuon hynny, pan fyddant yn digwydd, y rhai sy'n ceisio tansellio popeth yr ydym wedi'i gyflawni o ran statws y DU yn Ewrop ac yn y byd ar hawliau dynol, gan y bydd unrhyw ymgais i symud i ffordd oddi wrth y sefyllfa sydd gennym, i mi, yn rhywbeth a fydd yn cael ei groesawu yn unig gan y rhai sydd am ddeddf a dethol hawliau dynol a'r rhai sydd am weithredu cyfundrefnau totalitaraidd a gormesol yn Ewrop neu yng ngweddill y byd.

17:43

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I echo and support all of the comments made by Mick Antoniw in his speech. I certainly think that it was very good that he drew attention to what Dominic Grieve said, because I think that he has been very measured in what he has said. Obviously, he speaks for part of the Conservative party, and I think that we should remember that.

I wanted to start, really, by paying tribute to the staff at the Equality and Human Rights Commission in Wales, because they have not had an easy time over the past few years. They have had a lot of cuts; they have had some of the things that they were able to do removed from them, but they have such a strong, good relationship with the Welsh Government and with the Assembly. So, I really would like to pay tribute there.

Ategap a chefnogaf yr holl sylwadau a wnaed gan Mick Antoniw yn ei araith. Rwy'n sicr yn meddwl ei fod yn dda iawn ei fod wedi tynnu sylw at yr hyn a ddywedodd Dominic Grieve, oherwydd credaf ei fod wedi body yn ystyriol iawn yn yr hyn y mae wedi'i ddweud. Yn amlwg, mae'n siarad dros ran o'r blaid Geidwadol, ac rwy'n meddwl y dylem gofio hynny.

Roeddwn i eisiau dechrau, mewn gwirionedd, trwy dalu teyrnged i'r staff yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, am nad ydynt wedi cael amser hawdd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Maent wedi cael llawer o doriadau; mae rhai o'r pethau yr oeddent yn gallu eu gwneud wedi cael eu tynnu oddi wrthynt, ond mae ganddynt berthynas mor gryf, mor dda gyda Llywodraeth Cymru a gyda'r Cynulliad. Felly, hoffwn dalu teyrnged iddynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I was thinking about the gender equality issue when I was thinking about what I was going to talk about today, and I thought that it is really a bit like a broken record, because I have spoken on this issue so many times. While bemoaning some of the lack of progress, which I know has to be done, we also we have to see the progress that has been made. Of course, the report itself does bemoan the lack of progress in terms of getting women into positions of power, and the 'Who Runs Wales? 2014' report actually calls this decade the lost decade because of the lack of progress generally. In some areas, we have gone backwards. This report highlights the fact that there are fewer NHS trust chief executives—there were 29% female NHS trust chief executives but today only 10% of our LHBs and trusts have a woman in charge, so that is definitely going backwards. The percentage of women council leaders has dropped from 14% to 9%, and still only 27% of Welsh councillors are women. So, it is repeating the difficulties that we know are there. At our last Welsh Labour conference, we committed ourselves to having an equal gender balance of women and men going into the next council elections. However, we know that that will be difficult to do because we know that women do not expect to be chosen and do not expect to get positions of power once they get there. So, it is getting over that hump that we have to do. Obviously, it can be done, and it was done in terms of getting women here to this Assembly, so I am sure that it is something we can do.

We have made some progress. For example, in this Assembly we have an almost perfectly gender-balanced Cabinet and a gender balance among Deputy Ministers, so I think that that is a big step forward—that the Cabinet now represents more favourably the actual Members of the Chamber—and we are working towards 50% women and 50% men here again, because the figure has obviously dropped to 42% now, but it is a lot higher than the number of women MPs in Westminster. There are other good things that have happened. The number of women headteachers has doubled and I think that that is a huge step forward and it is great progress that that has happened.

However, there is still an awful lot of work to do and a lot of work is already being done. I am working on the charter for women within the Labour Party and I was very pleased to attend the launch of the Women in Public Life development scheme last Thursday—an initiative of the Presiding Officer that is doing an excellent job of inspiring as many women as possible to get involved in public life in Wales.

Roeddwn yn meddwl am y mater cydraddoldeb rhywiol pan oeddwn yn meddwl am yr hyn yr oeddwn yn mynd i siarad amdano heddiw, ac roeddwn yn meddwl ei fod braidd fel record wedi torri, oherwydd rwyf wedi siarad ar y mater hwn cymaint o weithiau. Ond er cwyno am rywffaint o'r diffyg cynnydd, y gwn fod yn rhaid ei wneud, mae'n rhaid inni hefyd weld y cynnydd sydd wedi'i wneud. Wrth gwrs, mae'r adroddiad ei hun yn cwyno am y diffyg cynnydd o ran cael menywod i swyddi o awdurdod, ac mae adroddiad 2014 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru?' mewn gwirionedd yn galw'r degawd hwn y degawd a gollwyd oherwydd y diffyg cynnydd yn gyffredinol. Mewn rhai meysydd, rydym wedi mynd tuag yn ôl. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod llai o brif weithredwyr ymddiriedolaethau'r GIG—roedd 29% o brif weithredwyr ymddiriedolaethau'r GIG yn fenywod ond heddiw dim ond 10% o'n BILLau a'n hymddiriedolaethau sydd â menyw yn gyfrifol, felly mae hynny'n bendant yn mynd tuag yn ôl. Mae canran o arweinwyr cynghorau benywaidd wedi gostwng o 14% i 9%, a dim ond 27% o gynghorwyr yng Nghymru o hyd sy'n fenywod. Felly, mae'n ailadrodd yr anawsterau yr ydym yn gwybod sydd yno. Yn ein cynhadledd Llafur Cymru ddiwethaf, gwnaethom ymrwngwng ein hunain i gael cydbwysedd cyfartal rhwng y rhywiâu o ferched a dynion yn mynd i mewn i'r etholiadau cyngor nesaf. Fodd bynnag, gwyddom y bydd hynny'n anodd ei wneud oherwydd ein bod yn gwybod nad yw merched yn disgwyl cael eu dewis ac nid ydynt yn disgwyl cael sefyllfaoedd o bŵer ar ôl iddynt gyrraedd yno. Felly, mynd dros y twmpath hwnnw y mae'n rhaid inni ei wneud. Yn amlwg, gellir ei wneud, ac fe gafodd ei wneud o ran cael menywod yma i'r Cynulliad hwn, felly rwy'n siŵr ei fod yn rhywbeth y gallwn ei wneud.

Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd. Er enghraifft, yn y Cynulliad hwn mae gennym Gabinet bron yn berffaith gytbwys o ran rhywiâu a chydbwysedd rhwng y rhywiâu ymhlith Dirprwy Weinidogion, felly rwy'n meddwl bod hynny'n gam mawr ymlaen—bod y Cabinet yn awr yn cynrychioli'n fwy ffafriol Aelodau'r Siambwr mewn gwirionedd—ac yr ydym yn gweithio tuag at 50% o ferched a 50% o ddynion yma unwaith eto, gan fod y ffigwr yn amlwg wedi gostwng i 42% erbyn hyn, ond mae'n llawer uwch na nifer yr Aelodau Seneddol benywaidd yn San Steffan. Mae pethau da eraill sydd wedi digwydd. Mae nifer y penaethiaid ysgolion sy'n fenywod wedi dyblu a chredaf fod hynny'n gam mawr ymlaen ac mae'n gynnydd mawr bod hynny wedi digwydd.

Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith i'w wneud ac mae llawer o waith eisoes yn cael ei wneud. Rwy'n gweithio ar y siarter ar gyfer menywod o fewn y Blaid Lafur ac roeddwn yn falch iawn o fod yn lansiad y cynllun datblygu Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ddydd Iau diwethaf—menter gan y Llywydd sydd yn gwneud gwaith ardderchog o ysbrydoli cymaint o fenywod â phosibl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru.

Susan B. Anthony, the great US women's rights campaigner said that there will never be complete equality until women themselves make the laws. I think that that is very true. However, I sometimes wonder whether there is a need for some more fundamental change—not just working to get women into existing institutions, but changing those very institutions themselves or creating new ones or trying to look in an innovative way at how we actually do things. The African-American writer Audre Lorde said:

'For the master's tools will never dismantle the master's house. They may allow us temporarily to beat him at his own game, but they will never enable us to bring about genuine change.'

What can we do to make our existing institutions more attractive and accessible places for women, as well as for other groups that are not fully represented here? I think it would be good if we had a further debate and discussion about what that could be. Do we need to be less hierarchical or do we need to change the way we speak in the Chamber, change the way that we do business? Maybe we should change the location of Plenary—you know, take it out to the community, because I think that that was one of the suggestions that came in in some of the consultation that we did. I think we need to look at things in a very fresh, radical way and I think that that would, maybe, help address some of the issues that we struggle with here today.

17:49 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad Biography](#)

May I say that I welcome the opportunity to contribute to this debate today? I have a particular interest in this year's Equality and Human Rights Commission annual report, and I suppose that I must declare an interest, as much of its work focuses on the period when I was the responsible Welsh Government Minister. I welcome the report, the motion and the amendments that have been tabled. However, there are a few issues that I would like to focus on this afternoon.

First, like others, I would like to address the issue of women in public life. It is crucial that we continue with our efforts to redress the balance of the number of women in senior positions on public bodies by encouraging more women to become involved. The EHRC's 'Who Runs Wales? 2014' report, which has been mentioned, published last year, shed some stark light on the gender imbalance among high-level decision makers in Wales. That is why I welcome amendment 5 to the motion, addressing this issue, and why I also welcome the Welsh Government's commitment to increasing the number of women on the boards of public bodies, including the introduction of a gender quota as is currently in use in Norway. We have made some good initial progress, such as through the Women Making a Difference project, but, as the report makes clear, and as Julie Morgan has just mentioned, there is still a lot more work to do.

Dyweddodd Susan B. Anthony, yr ymgyrchydd hawliau menywod ardderchog o'r Unol Daleithiau na fydd byth gydraddoldeb cyflawn nes y bydd menywod eu hunain yn gwneud y cyfreithiau. Rwy'n meddwl bod hynny'n gwbl wir. Fodd bynnag, rwy'n meddwl weithiau tybed a oes angen rhywfaint o newid mwy sylfaenol—nid dim ond gweithio i gael merched i sefydliadau sy'n bodoli eisoes, ond newid yr union sefydliadau hynny eu hunain neu greu rhai newydd neu geisio edrych mewn ffordd arloesol ar sut yr ydym mewn gwirionedd yn gwneud pethau. Dywedodd yr awdur Affrican-American Audre Lorde:

Oherwydd ni fydd offer y meist'r byth yn datgymalu tŷ'r meist'r. Efallai y byddant yn caniatáu i ni dros dro i'w curo yn eu gêm eu hunain, ond ni fyddant byth yn ein galluogi i sicrhau newid gwirioneddol.

Beth allwn ni ei wneud er mwyn gwneud ein sefydliadau presennol yn lleoedd mwy hygyrch a deniadol i fenywod, yn ogystal ag i grwpiau eraill nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn yma? Rwy'n credu y byddai'n dda o beth pe byddem yn cael dadl a thrafodaeth bellach am yr hyn y gallai hynny fod. A oes angen i ni fod yn llai hierarchaidd neu a oes angen i ni newid y ffordd yr ydym yn siarad yn y Siambr, newid y ffordd yr ydym yn gwneud busnes? Efallai y dylem newid lleoliad y Cyfarfod Llawn—wyddoch chi, mynd ag ef allan i'r gymuned, oherwydd credaf mai dyna oedd un o'r awgrymiadau a ddaeth i mewn yn rhai o'r ymgyngoriadau a wnaethom. Rwy'n credu bod angen inni edrych ar bethau mewn ffordd ffres, radical iawn a chredaf y byddai hynny, efallai, yn helpu i roi sylw i rai o'r materion yr ydym yn cael trafferth â nhw yma heddiw.

A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw? Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn adroddiad blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eleni, ac mae'n debyg bod yn rhaid imi ddatgan buddiant, gan fod llawer o'i waith yn canolbwyntio ar y cyfnod pan mai fi oedd y Gweinidog Llywodraeth Cymru â'r cyfrifoldeb. Rwy'n croesawu'r adroddiad, y cynnig a'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno. Fodd bynnag, mae rhai materion yr hoffwn ganolbwyntio arnynt y prynhawn yma.

Yn gyntaf, fel eraill, hoffwn roi sylw i fater menywod mewn bywyd cyhoeddus. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau â'n hymdrechion i unioni cydbwysedd nifer y menywod mewn swyddi uwch ar gyfrif cyhoeddus drwy annog mwy o fenywod i gymryd rhan. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2014', sydd wedi cael ei grybwyll, a gyhoeddwyd y llynedd, yn taflu rhywfaint o oleuni llwm ar y diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uchel yng Nghymru. Dyna pam rwy'n croesawu gwelliant 5 i'r cynnig, sy'n mynd i'r afael â'r mater hwn, a pham yr wyf hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y menywod ar fyrddau cyrff cyhoeddus, gan gynnwys cyflwyno cwota ar sail rhyw fel sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn Norwy. Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cychwynnol da, megis drwy'r prosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, ond, fel y mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir, ac fel y mae Julie Morgan newydd ei grybwyll, mae llawer mwy o waith i'w wneud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The second issue that I want to look at is hate crime. The EHRC has worked with the Welsh Government on this issue, including during my time as Minister for Communities and Tackling Poverty. An all-Wales hate crime research report found some quite shocking statistics about the levels of hate crime and laid bare the tasks that we have to do in order to tackle this problem, whether it is aimed towards race, religion, disability, sexual orientation, gender identity or age. The hate crime criminal justice board Cymru and 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' are a good start in this regard. Indeed, the latter has resulted in the creation of a hate crime support and reporting centre to help victims. Nonetheless, there is more to do.

The third and final issue that I would like to mention is community cohesion. This has risen up the agenda quite rapidly in recent months, particularly with the atrocities being committed by Islamic State jihadists in Iraq and Syria, together with the revelations that a handful of young men from Cardiff appear to have travelled to the middle east in order to join and fight with the terrorists. Naturally, we want to do all we can to ensure that the actions of extremists abroad do not impact detrimentally on the relationship between different faith communities at home. The faith communities forum, set up by the Welsh Government, is a crucial part of ensuring that this is the case, as is working with other organisations, such as the Wales race forum and, of course, non-devolved UK-wide bodies. I want to pay particular tribute here to Wales's Muslim community, which I have met on a number of times over the last few years, and which does a lot of work to spread a message of peace, tolerance and co-existence, demonstrating that extremists are certainly not representative of the wider Muslim community in Wales.

To conclude, Deputy Llywydd, I thank you for allowing me to contribute to this debate today. The motion and amendments are most welcome. It is important that we continue to scrutinise the EHRC's work but also look at how we can build its recommendations into Welsh Government policy. The three areas that I have addressed today all show a good deal of progress on the Welsh Government's behalf, but I feel that the report argues that we still have more to do. However, it is very important that we continue to engage with the EHRC and discuss its work. As has been mentioned by others, much UK Conservative Party rhetoric recently has focused on criticising the Human Rights Act 1998 and the European Convention on Human Rights, but I for one am proud of both these things and it is good to see that Members here today are too.

Yr ail fater yr wyf am edrych arno yw trosedd casineb. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, gan gynnwys yn ystod fy nghyfnod i fel Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Canfu adroddiad ymchwil trosedd casineb Cymru gyfan rai ystadegau eithaf brawychus am y lefelau o droseddau casineb a dangosodd y tasgau y mae'n rhaid inni eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, boed hynny yn ymwneud â hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd neu oedran. Mae bwrdd cyfiawnder troseddol troseddau casineb Cymru a 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' yn ddechrau da yn hyn o beth. Yn wir, mae'r olaf wedi arwain at greu canolfan cefnogaeth ac adrodd troseddau casineb i helpu dioddefwyr. Serch hynny, mae mwy i'w wneud.

Y trydydd mater a'r olaf yr hoffwn ei grybwyll yw cydlyniant cymunedol. Mae hyn wedi dringo i fyny'r agenda yn eithaf cyflym yn y misoedd diwethaf, yn enwedig gyda'r erchyllterau sy'n cael eu cyflawni gan y Wladwriaeth jihadists Islamaidd yn Irac a Syria, ynghyd â'r datgeliadau ei bod yn ymddangos bod llond llaw o ddynion ifanc o Gaerdydd wedi teithio i'r dwyrain canol er mwyn ymuno ac ymladd gyda'r terfysgwyr. Yn naturiol, rydym eisiau gwneud popeth a allwn i sicrhau nad yw gweithredoedd eithafwyr dramor yn effeithio'n andwyol ar y berthynas rhwng gwahanol gymunedau ffydd gartref. Mae'r fforwm cymunedau ffydd, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn rhan hanfodol o sicrhau bod hyn yn wir, fel ag y mae gweithio gyda sefydliadau eraill, megis fforwm hil Cymru ac, wrth gwrs, cyrff nad ydynt wedi'u datganoli ar draws y DU. Hoffwn dalu teyrnged arbennig yma i gymuned Fwslimaidd Cymru, yr wyf wedi ei chyfarfod nifer o weithiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac sy'n gwneud llawer o waith i ledaenu neges o heddwch, goddefgarwch a chyd-fyw, gan ddangos nad yw eithafwyr yn sicr yn gynrychioliadol o'r gymuned Fwslimaidd ehangach yng Nghymru.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n diolch i chi am ganiatáu imi gyfrannu at y ddaid hon heddiw. Croesewir y cynnig a'r gwelliannau. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i graffu ar waith y Comisiwn, ond hefyd yn edrych ar sut y gallwn adeiladu ei argymhellion i mewn i bolisi Llywodraeth Cymru. Mae'r tri maes yr wyf wedi rhoi sylw iddynt heddiw i gyd yn dangos cryn dipyn o gynnydd ar ran Llywodraeth Cymru, ond rwy'n teimlo bod yr adroddiad yn dadlau bod gennym fwy i'w wneud. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac yn trafod ei waith. Fel y crybwyllwyd gan eraill, mae llawer o rethreg Plaid Geidwadol y DU yn ddiweddar wedi canolbwyntio ar feirniadu Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ond rwyf i, yn un, yn falch o'r ddau beth hyn, ac mae'n dda gweld bod Aelodau yma heddiw yn falch hefyd.

17:53

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer. I have listened with interest to the debate on the commission's annual report. I welcome the cross-party commitment to support the work of the Equality and Human Rights Commission in Wales. The discussion we have all had on the amendments really highlights the progress that we have made. We are serious about tackling all forms of violence against women, and I will say more about that later.

Mohammad Asghar highlighted the UK Government's Modern Slavery Bill. We welcome it and we will be able to use the new measures in the Bill to build on the significant work we have already done in Wales. Believe me, Wales is way ahead of any country in the UK on this issue. The Welsh Government's message to the people who have been trafficked, to the slaves, is that we will find them and support them. To the criminals, the message is: we will find you also and you will feel the full force of the law. The high-profile cases we have had in Wales shows how serious the Welsh Government has been in this area.

Similarly, I very much welcome forced marriage now being a specific criminal offence. Again, this builds on existing offences already on the statute book. However, we need to raise awareness of forced marriage, and the Welsh Government will be working with education, health and social services to target young and vulnerable people at risk of forced marriage, and I think that that will be a key driver in the eradication of the issue.

Furthermore, the Welsh Government remains committed to delivering the White Paper proposals on healthy relationship education and to encouraging schools to have that whole approach to addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. I know that the Minister for Public Services will be having further discussions with the Minister for Education and Skills to identify how they can best work together on the Bill and how supporting policy can be strengthened to deliver the Welsh Government's priorities in the best way. Mohammad Asghar also referred to workplace policies, and I think that it is brilliant that all 41 public sector organisations in Wales now have workplace policies in place.

The Bill will also cover all forms of violence against women, and it specifies female genital mutilation. Again, I think that Wales is well ahead of the other UK countries on this. We are already working collaboratively with partners across Wales to tackle FGM by training key individuals in public services and working with communities to raise awareness. In my previous portfolio, I and the Minister for Education and Skills wrote to every headteacher of every school in Wales to raise this with them.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi gwrandio gyda diddordeb ar y ddadl ar adroddiad blynyddol y comisiwn. Croesawaf yr ymrwymiad trawsbleidiol i gefnogi gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Mae'r drafodaeth yr ydym i gyd wedi'i chael ar y gwelliannau mewn gwirionedd yn tynnu sylw at y cynnydd yr ydym wedi'i wneud. Rydym o ddifrif ynglŷn â mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod, a byddaf yn dweud mwy am hynny yn nes ymlaen.

Amlygodd Mohammad Asghar Fil Caethwasiaeth Modern Llywodraeth y DU. Rydym yn ei groesawu a byddwn yn gallu defnyddio'r mesurau newydd yn y Bil i adeiladu ar y gwaith sylweddol yr ydym eisoes wedi'i wneud yng Nghymru. Credwch fi, mae Cymru ymhell ar y blaen i unrhyw wlad yn y Deyrnas Unedig ar y mater hwn. Neges Llywodraeth Cymru i'r bobl sydd wedi cael eu masnachu, i'r caethweision, yw y byddwn yn dod o hyd iddynt ac yn eu cefnogi. I'r troseddwyd, y neges yw: byddwn yn dod o hyd i chithau hefyd a byddwch yn teimlo grym llawn y gyfraith. Mae achosion proffil uchel a gawsom yng Nghymru yn dangos pa mor o ddifrif y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn y maes hwn.

Yn yr un modd, rwy'n croesawu'n fawr iawn gweld priodas dan orfod yn awr yn drosedd benodol. Unwaith eto, mae hyn yn adeiladu ar droseddau sy'n bodoli eisoes ar y llyfr statud. Fodd bynnag, mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o briodas dan orfod, a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i dargedu pobl ifanc a phobl agored i niwed sydd mewn perygl o briodas dan orfod, a chredaf y bydd hynny yn sbardun allweddol mewn dileu'r mater.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn dal yn ymrwymedig i gyflawni cynigion y Papur Gwyn ar addysg perthynas iach ac i annog ysgolion i gael y dull cyflawn hwnnw o fynd i'r afael â thrais ar sail rhyw, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gwn y bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael trafodaethau pellach gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i nodi'r ffordd orau iddynt weithio gyda'i gilydd ar y Bil a sut y gellir cryfhau polisi ategol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y ffordd orau. Cyfeiriodd Mohammad Asghar hefyd at bolisiau yn y gweithle, ac rwy'n meddwl ei bod yn wych bod gan bob un o'r 41 sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru bolisiau yn y gweithle ar waith erbyn hyn.

Bydd y Bil hefyd yn cwmpasu pob math o drais yn erbyn menywod, ac mae'n nodi'n benodol anffurfio organau cenhedlu benywod. Unwaith eto, rwy'n meddwl bod Cymru ymhell ar y blaen i wledydd eraill y DU ar hyn. Rydym eisoes yn gweithio ar y cyd â phartneriaid ar draws Cymru i fynd i'r afael ag anffurfio organau cenhedlu trwy hyfforddi unigolion allweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus a gweithio gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth. Yn fy mhortffolio blaenorol, ysgrifennais i a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau at bob pennaeth ym mhob ysgol yng Nghymru i godi hyn gyda hwy.

Mohammad Asghar also asked what the Welsh Government was doing to increase the number of women in positions of power in Wales. The Equality and Human Rights Commission's 'Who Runs Wales? 2014' report found that, as Julie Morgan pointed out, the number of women in positions of power is now in decline at all almost every level. It is easy to bemoan this, and I was talking about this this morning with the commissioner and the director of the EHRC. I think that what is really important is that you only have to look at this place to see that it can be done, and we will continue to do it. What is really important is that it is not just about women supporting women—it is about men supporting women as well.

The Welsh Government recently had a conference called 'Girls Make a Difference', where over 100 16 and 17-year-old girls were present. Women in high-profile positions came and spoke to these young girls. What I thought was really interesting was that, in the morning, we heard from the Chief Medical Officer for Wales, the Chief Veterinary Officer for Wales and the Chief Scientific Adviser for Wales. They are all women, and people who are normally in the background, and perhaps those girls would not know that those positions were held by women.

I will continue to take a proactive approach to increasing the number of women, and other under-represented groups, in public appointments. I am holding a seminar for all of the chairs of public bodies next month, and we will discuss the progress made and share good practice. I know that my colleagues in Government are also pursuing this agenda. Carl Sargeant, the Minister for Natural Resources, is ensuring that all of the public bodies in his portfolio address this issue, because we were just looking at some figures, and, in one group in the Minister's portfolio, 7.1% of staff are women. It is outrageous, and the more that we can do to encourage that, the better.

Several Members referred to the Conservatives' announcement about repealing the Human Rights Act 1998 and withdrawing from the European Convention on Human Rights. However, interestingly, no Welsh Conservatives referred to that. We know that it would be a huge step backwards for equality in the United Kingdom. The Human Rights Act 1998 and the European convention are ways for the people of Wales to challenge inequality and injustice. Equality and human rights are enshrined in the Welsh Government's founding legislation and are reflected in our guiding principles, as Mick Antoniw so eloquently said. This has enabled the introduction of measures to build United Nations principles into the Welsh legislative framework; for example, in relation to children's rights in line with the United Nations Convention on the Rights of the Child. So, along with many Members who spoke in the debate, I, as Minister, and the Welsh Government strongly oppose the Conservatives' proposed changes to our Human Rights Act 1998. I say to the Welsh Conservatives that they can take that message to their colleagues in London. We will do everything in our power to challenge this if we are unfortunate enough to have a Tory Government after next year's general election, although I very much doubt that we will.

Gofynnodd Mohammad Asghar hefyd beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y menywod mewn swyddi pŵerus yng Nghymru. Canfu adroddiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2014', fel y nododd Julie Morgan, bod nifer y menywod mewn safleoedd o bŵer yn awr yn dirywio ar bron bob lefel. Mae'n hawdd cwyno am hyn, ac roeddwn yn siarad am hyn y bore yma gyda chomisiynydd a chyfarwyddwr y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig yw nad oes ond rhaid i chi edrych ar y lle yma i weld y gellir ei wneud, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw nad yw'n ymwneud â chefnogi menywod yn unig—mae'n ymwneud â dynion yn cefnogi menywod yn ogystal.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gynhadledd o'r enw 'Mae merched yn Gwneud Gwahaniaeth', lle'r oedd dros 100 o ferched 16 a 17 mlwydd oed yn bresennol. Daeth menywod mewn swyddi proffil uchel a siarad â'r merched ifanc hyn. Yr hyn yr oeddwn i'n feddwl oedd yn ddiddorol iawn oedd ein bod, yn y bore, wedi clywed gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru a Phrif Gynghorydd Gwyddonol Cymru. Maent i gyd yn fenywod, ac yn bobl sydd fel rheol yn y cefndir, ac efallai na fyddai'r merched hynny'n gwybod bod y swyddi hynny'n cael eu dal gan fenywod.

Byddaf yn parhau i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at gynyddu nifer y merched, a grwpiau eraill a dangynrychiolir, mewn penodiadau cyhoeddus. Rwy'n cynnal seminar ar gyfer holl gadeiryddion cyrff cyhoeddus y mis nesaf, a byddwn yn trafod y cynnydd a wnaed ac yn rhannu arfer da. Gwn fod fy nghydweithwyr yn y Llywodraeth hefyd yn mynd ar drywydd yr agenda hon. Mae Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, yn sicrhau bod pob un o'r cyrff cyhoeddus yn ei bortffolio yn rhoi sylw i'r mater hwn, oherwydd roeddem yn edrych ar rai ffigurau, ac, mewn un grŵp ym mhortffolio'r Gweinidog, 7.1% o'r staff sy'n fenywod. Mae'n warthus, a chymaint fyth y gallwn ei wneud i annog hynny, y gorau.

Cyfeiriodd sawl Aelod at gyhoeddiad y Ceidwadwyr ynglŷn â diddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 a thynnu allan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Fodd bynnag, yn ddiddorol, ni chyfeiriodd unrhyw Geidwadwr Cymreig at hynny. Rydym yn gwybod y byddai'n gam mawr yn ôl ar gyfer cydraddoldeb yn y Deyrnas Unedig. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r confensiwn Ewropeaidd yn ffyrdd i bobl Cymru herio anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Mae cydraddoldeb a hawliau dynol wedi cael eu hymgorffori yn neddfwriaeth sefydlol Llywodraeth Cymru ac wedi eu hadlewyrchu yn ein hegwyddorion arweiniol, fel y dywedodd Mick Antoniw yn huawdl. Mae hyn wedi galluogi cyflwyno mesurau i adeiladu egwyddorion y Cenhedloedd Unedig i mewn i fframwaith deddfwriaethol Cymru; er enghraifft, mewn cysylltiad â hawliau plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Felly, ynghyd â llawer o Aelodau a siaradodd yn y ddadl, rwyf i, fel y Gweinidog, a Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'n gryf newidiadau arfaethedig y Ceidwadwyr i'n Deddf Hawliau Dynol 1998. Dywedaf wrth y Ceidwadwyr Cymreig y cânt roi'r neges honno i'w cydweithwyr yn Llundain. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i herio hyn os ydym yn ddigon anffodus i gael Llywodraeth Doriaidd ar ôl etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf, er fy mod yn amau hynny'n fawr.

Peter Black spoke about the link between poverty and educational attainment, and he referred to the pupil deprivation grant being raised as part of next year's budget agreement between the Government and the Welsh Liberal Democrats. I would like to pay tribute to Jeff Cuthbert's work. He spoke about hate crime and his work with the faith communities forum. Yesterday, I met with the faith forum for the first time, and, certainly, it appreciates what you did.

Our focus must be on working together in partnership across the public, private and third sectors, so that we can tackle discrimination and the barriers to equality and human rights. The EHRC, as we all recognise, is a key partner, ensuring that we continue to build on our progress in Wales.

I think that the debate also demonstrated how well respected the Equality and Human Rights Commission is in Wales. I know that the commissioner, the director and several members are sitting up in the public gallery, not just to hear my thanks and the Welsh Government's thanks, but that of Members from all parties. I am pleased to inform the Chamber that the commission is hosting a reception straight after Plenary for Assembly Members to meet commission members, and I encourage everyone to attend.

Siaradodd Peter Black am y cysylltiad rhwng tlodi a chyrrhaeddiad addysgol, a chyfeiriodd at y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei godi fel rhan o gytundeb cyllideb y flwyddyn nesaf rhwng y Llywodraeth a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Hoffwn dalu teyrnged i waith Jeff Cuthbert. Siaradodd am droseddau casineb a'i waith gyda'r fforwm cymunedau ffydd. Ddoe, cyfarfûm â'r fforwm ffydd am y tro cyntaf, ac, yn sicr, mae'n gwerthfawrogi'r hyn a wnaethoch.

Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, fel y gallwn fynd i'r afael â gwahaniaethu a rhwystrau i gydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r EHRC, fel yr ydym i gyd yn cydnabod, yn bartner allweddol, gan sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar ein cynnydd yng Nghymru.

Credaf fod y ddadl hefyd yn dangos pa mor uchel ei barch yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Gwn fod y comisiynydd, y cyfarwyddwr a sawl aelod yn eistedd i fyny yn yr oriel gyhoeddus, nid dim ond i glywed fy nioch i a diolch Llywodraeth Cymru, ond diolch yr Aelodau o bob plaid. Mae'n bleser gennyf roi gwybod i'r Siambr bod y comisiwn yn cynnal derbyniad yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn i Aelodau'r Cynulliad i gwrdd ag aelodau'r comisiwn, ac rwy'n annog pawb i fod yn bresennol.

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? No. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? No. Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Felly caiff gwelliant 2 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? No. Amendment 3 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Felly caiff gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? No. Amendment 4 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Felly caiff Gwelliant 4 felly ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The proposal is to agree amendment 5. Does any Member object? No. Amendment 5 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36. Y cynnig yw derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Na. Felly caiff gwelliant 5 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y gwelliant.

Amendment agreed.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The proposal is to agree amendment 6. Does any Member object? There is objection. I will defer voting on the remaining items under this item until voting time. Voting time now follows. Y cynnig yw derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais ar yr eitemau sy'n weddill o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr.

18:01 **Cyfnod Pleidleisio** **Voting Time** Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5598](#)

[Result of the vote on motion NDM5598](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 27, Yn erbyn 24, Ymatal 01.

Motion agreed: For 27, Against 24, Abstain 01.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5595](#)

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5595](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5595](#)

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5595](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.

Cynnig NDM5595 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM595 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

To propose the National Assembly of Wales:

Nodi Adolygiad Blynnyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru: 'Diogelu a Hybu Cydraddoldeb a Hawliau Dynol'.

Notes the Equality and Human Rights Commission Wales Annual Review 'Protecting and Promoting Equality and Human Rights'.

Yn croesawu'r Bil Caethwasiaeth Modern a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin 2014 sy'n cynnig y dylid cyflwyno cosbau llymach ar gyfer masnachwyr mewn pobl ac sydd â'r nod o wella sut y caiff dioddefwyr eu gwarchod.

Welcomes the Modern Slavery Bill introduced in the House of Commons on 10 June 2014 which proposes bringing in tougher penalties for human traffickers and which aims to enhance protection for victims.

Yn croesawu'r ffaith bod gorfodi rhywun i briodi yn erbyn ei ewyllys yn awr yn drosedd.

Welcomes the fact that forcing someone to marry against their will is now a criminal offence.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan bob ysgol aelod hyfforddedig o staff sydd â'r arbenigedd i adnabod plant sy'n dangos arwyddion o fod yn dystion i gam-drin domestig.

Calls on the Welsh Government to ensure each school has a trained member of staff with the expertise to recognise children who show signs of having witnessed domestic abuse.

Yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i atal anffurfio organau cenedlu benywod.

Requests the Welsh Government to take action to stop the practice of Female Genital Mutilation.

Yn gresynu nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran cael menywod i swyddi o awdurdod a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd ddiwethaf.

Regrets that little progress has been made in getting women into positions of power and influence in Wales in the last ten years.

Yn credu bod parhau i fod yn llofnodwr i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o fudd i Gymru.

Believes that continuing to be a signatory to the European Convention of Human Rights is in the interests of Wales.

Yn croesawu'r rôl sylfaenol y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei chwarae wrth ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Welcomes the fundamental role that the Human Rights Act & the European Convention on Human Rights play in protecting and promoting equality and human rights in Wales.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5595 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5595 as amended](#)

Derbyniwyd cynnig NDM5595 fel y'i diwygiwyd: O blaid 41, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

Motion NDM5595 as amended agreed: For 41, Against 11, Abstain 0.

18:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)